



## Cyfarfod

### **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

## Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 13EG MEHEFIN, 2019**

## Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

## Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

**[BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru](mailto:BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru)**

(Dosbarthwyd 06/06/19)

# **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

## **AELODAETH (19)**

### **Plaid Cymru (10)**

Y Cynghorwyr

Aled Ll. Evans  
Charles Wyn Jones  
Paul John Rowlinson

Peredur Jenkins  
Huw Gruffydd Wyn Jones  
Gethin Glyn Williams

Aled Wyn Jones  
Berwyn Parry Jones  
Sedd Wag x 2

### **Annibynnol (5)**

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes  
Dewi Wyn Roberts  
Angela Russell

Richard Medwyn Hughes  
John Pughe Roberts

### **Llais Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd

### **Annibynnol Unedig Gwynedd (1)**

Sedd Wag

### **Aelod Unigol (1)**

Y Cynghorydd Sion W. Jones

### **Aelod Lleyg (1)**

Mrs Sharon Warnes

### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd am 2019/20.

## 2. IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd am 2019/20.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYD

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw bryd ym marn y Cadeirydd.

## 6. COFNODION

5 - 15

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2019, fel rhai cywir.

## 7. CYNLLUN ARCHWILIO ALLANOL 2019

Cyflwyno adroddiadau yr archwiliwr allanol.

### (A) CYNGOR GWYNEDD

16 - 36

### (B) CRONFA BENSIWN GWYNEDD

37 - 48

## 8. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 2/2/2019 - 31/3/2019

49 - 98

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio.

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2018/19

99 - 117

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio.

## 10. SIARTER ARCHWILIO MEWNOL

118 - 129

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio.

- 11. CYFRIFON TERFYNOL 2018/19 - ALLDRO REFENIW** 130 - 154  
Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Cyllid.
- 12. RHAGLEN GYFALAF 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (31 MAWRTH 2019)** 155 - 164  
Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Cyllid.
- 13. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION** 165 - 174  
Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Cyllid.
- 14. CYFRIFON TERFYNOL HARBYRAU GWYNEDD 2018/19** 175 - 185  
Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Cyllid.
- 15. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2018/19** 186 - 209  
Cyflwyno adroddiad Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg.
- 16. MONITRO PERFFORMIAD**  
I enwebu aelod i fynychu Cyfarfodydd Herio Perfformiad Adran Cefnogaeth Gorfforaethol.
- 17. BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 2019-2020** 210 - 212  
Cyflwyno adroddiad Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg.

---

## PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 14/2/19

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd R. Medwyn Hughes (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd John Brynmor Hughes (Is-Gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Aled Ll. Evans, Alwyn Gruffydd, Aled Wyn Jones, Charles Wyn Jones, Sion W. Jones, Dewi Wyn Roberts, Paul Rowlinson, Angela Russell a Cemlyn Williams.

**Aelod Lleyg:** Sharon Warnes

**Eraill a wahoddyd:** Y Cynghorwyr Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Cyllid - ar gyfer eitemau 5 - 9 ar y rhaglen) a Edgar Owen (Aelod ex-officio).

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid - ar gyfer eitemau 5 - 9 ar y rhaglen), Dilwyn Williams (Prif Weithredwr - ar gyfer eitemau 5 - 9 ar y rhaglen), Caren Rees Jones (Prif Gyfrifydd Cyfalaf a Rheolaeth - ar gyfer eitem 9 ar y rhaglen), Caroline Lesley Roberts (Rheolwr Buddsoddi - ar gyfer eitem 9 ar y rhaglen), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Berwyn Parry Jones, Huw G. Wyn Jones, John Pughe Roberts a Gethin Glyn Williams.

### 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Alwyn Gruffydd fuddiant personol, yn eitem 5 ar y rhaglen 'Cyllideb Refeniw 2018/19 – Adolygiad Diwedd Tachwedd', oherwydd ei fod yn berchennog tŷ gwag.

Nid oedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

### 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2018, fel rhai cywir.

### 3. CYLLIDEB REFENIW 2018/19 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Reolwr Cyllid, gosododd y cyd-destun ac ymhelaethodd ar gynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 22 Ionawr 2019. Amlygodd ers 2015, bod y Cyngor wedi wynebu gwireddu arbedion o oddeutu £27 miliwn, a oedd yn heriol i'w gyflawni. Nododd bod adolygiad ddiwedd Tachwedd o'r cyllidebau yn dangos darlun cymysg gyda rheolaeth ariannol dderbyniol gan nifer o adrannau'r Cyngor. Eglurodd y rhagwelir gorwariant sylweddol gan yr Adran Addysg, Adran Plant a Theuluoedd ynghyd â'r Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol, a bod camau gweithredu pendant i sicrhau rheolaeth o'u cyllidebau erbyn 31 Mawrth 2019.

Tynnodd sylw at benderfyniad y Cabinet:

"Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2018 o'r Gyllideb Refeniw, a nodi y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.

- Gofyn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Oedolion, Iechyd a Llesiant, ynghyd â'r Pennaeth Adran, i fynd at wraidd gorwariant y gwasanaeth Darparu a chymryd camau i leihau'r gorwariant, ac i adrodd i'r Cabinet ar y cynllun ymateb.

- Oherwydd cynnydd yn y gorwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb gan yr Adran Plant a Theuluoedd ers yr adolygiad diwethaf, i ystyried y sefyllfa pan dderbynnir adroddiad perfformiad yr Aelod Cabinet (Cabinet 29/01/19) gyda golwg ar geisio lleihau'r gorwariant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- Oherwydd lefel y gorwariant ar gludiant disgyblion gan yr Adran Addysg, i ystyried y sefyllfa pan dderbynnir adroddiad yr Aelod Cabinet (Cabinet 29/01/19).
- Caniatáu'r Adran Amgylchedd i neilltuo (£60k) o danwariant yr adran ar gyfer cynnal adolygiad gan gomisiynu ymchwil gan y Brifysgol a chyflogi swyddogion ychwanegol i gasglu tystiolaeth yn y maes Cludiant Cyhoeddus yn dilyn nifer o faterion dros y blynyddoedd diwethaf.
- Cynaeafu (£2,984k) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol,
  - gyda (£700k) cysylltiedig â'r premiwm Treth y Cyngor i'w neilltuo i gronfa benodol i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai.
  - (£435k) yn ymwneud â chostau cyfalaf i'w drosglwyddo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.
  - gyda'r gweddill sef (£1,849k) i'w drosglwyddo i Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda phwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor."

Yn ystod y drafodaeth ddilynol ymatebodd y swyddogion a'r Aelod Cabinet Cyllid i sylwadau ac ymholiadau'r aelodau fel a ganlyn:

- Bod y gorwariant ar gludiant disgyblion wedi ei drafod yng nghyfarfod y Cabinet ar 29 Ionawr 2019 yng nghyd-destun adroddiad perfformiad yr Aelod Cabinet Addysg. Byddai datrysiad i leihau'r gorwariant yn cymryd amser. Roedd bwriad i newid y dull darparu cludiant er mwyn cael darpariaeth ratach, oherwydd ei fod yn ddatrysiad tymor hir rhoddwyd ychwaneg o arian yng nghyllideb 2018-19 er mwyn cyfarch y gorwariant. Nid oedd yr arian ychwanegol yn cyfarch yr holl orwariant gan y disgwylwyd datrysiad gan yr Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd.
- O ran incwm parciau a thraethau yn yr Adran Economi a Chymuned, bod yr adroddiad yn adlewyrchu sefyllfa incwm cyffredinol adrannol. Yn gyffredinol defnyddir incwm a gynhyrchwyd yn adrannol ar gyfer gwasanaethau eraill o fewn yr adran benodol.
- Bod tueddiad o orwariant yn y Gwasanaeth Digartrefedd oherwydd bod nifer y digartref yn cynyddu. Nid oedd y sefyllfa yn unigryw i Wynedd gyda chynnydd yn nifer y digartref yn fater cenedlaethol.
- Bod y Cyngor yn cyfathrebu efo Llywodraeth Cymru yng nghyswllt perchnogion tai yn cofrestru eu tai fel busnes er mwyn peidio talu Premiwm Treth y Cyngor. Rhoddir pwysau cynyddol ar y Llywodraeth Cymru i newid y trefniadau ond nid yn or-obeithiol y byddai newid yn y trefniadau. 'Roedd Arweinydd y Cyngor yn rhan o drafodaethau ar y mater.
- Bod pwysau ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau efo llai o arian, cynhelir trafodaethau yng nghyswllt perchnogion tai yn cofrestru eu tai fel busnes a'r effaith ariannol ar gynghorau yng nghyfarfodydd Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. 'Roedd y Pennaeth Cyllid yn casglu gwybodaeth o'r gost ariannol o gofrestru tai fel busnes ar gynghorau yng nghyswllt colled incwm Treth y Cyngor. Gobeithir y byddai'r 8 cyngor arall, a oedd yn aelodau o'r Fforwm, yn cydweld bod angen newid trefniadau.
- O ran effaith ariannol tai yn cael eu cofrestru fel busnes ar y Cyngor, bod aiddosbarthiad yng nghyswllt sylfaen drethiannol yn golygu bod y Cyngor yn ennill yn ariannol o ran grant Llywodraeth Cymru ond yn colli'n ariannol pan fo'r cofrestru tŷ fel busnes yn cael ei ôl-ddyddio. Nid oedd gan Swyddfa'r Prisiwr adnodd digonol i herio'r ceisiadau yn briodol. Ni ellir nodi swm penodol o ran y golled i'r Cyngor o ganlyniad i dai yn cael eu cofrestru fel busnes, ond ei fod yn debygol y byddai oddeutu £2 miliwn o incwm ychwanegol i'r Cyngor fel rhan o Gynllun Premiwm Treth y Cyngor.
- O blaid y bwriad pan sefydlwyd Cynllun Premiwm Treth y Cyngor i godi premiwm treth ar dai haf i gynhyrchu incwm ychwanegol. 'Roedd cyfran o'r incwm a ddeillir o Gynllun Premiwm Treth y Cyngor wedi ei glustnodi ar gyfer y Strategaeth Dai. Bod pwysau gwleidyddol cynyddol o ran diwygio'r drefn cofrestru tai fel busnes, gydag Aelodau

Seneddol a Chynulliad yn rhan o'r ymgyrch. 'Roedd y Cyngor yn lobio Llywodraeth Cymru yng nghyswllt yr angen i newid y drefn gan gyflwyno gofyniad i dderbyn caniatâd trwy'r drefn gynllunio er mwyn newid tŷ i fusnes.

- O ran cyllideb yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant, yng nghyd-destun maint y gyllideb nid oedd yr amrywiaethau o dan y penawdau yn sylweddol. Bod gan Adrannau hawl i symud tanwariant o dan un pennawd i bennawd arall ond roedd tueddiad pan fo gorwariant sylweddol i beidio symud arian oherwydd ei fod yn fesur gwell o ran y gwir sefyllfa. 'Roedd symudiad o ran darparu gwasanaethau, gyda'r tanwariant a gorwariant o dan benawdau yn adlewyrchu'r galw. Bod y gwaith a wnaed fel rhan o Gynllun Alltwn yn cael ei rhaeadru i'r ardaloedd eraill ynghyd ag arian sylweddol (£800k) ar gyfer costau staffio unedau dementia yn fid ariannol fel rhan o'r gyllideb a argymhellir ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 yn ymateb i'r galw cynyddol.
- Yn falch o dderbyn gwybodaeth gan aelod yng nghyswllt trefniadau cyngor yn Lloegr o godi tal am gostau gofal ar y cynghorau lle'r oedd unigolyn wedi symud. Pe byddai cyfle i'r Cyngor fe ymchwilir i'r mater.
- Bod yr ymchwil gan Brifysgol Bangor, a gomisiynwyd gan yr Adran Amgylchedd, yn rhan o adolygiad o'r maes Cludiant Cyhoeddus. Nid oedd yn cynnwys cludiant disgyblion yn yr Adran Addysg, 'roedd gwaith penodol i'w gwblhau yn y maes yma gan yr Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd.
- Bod gorwariant ym mlwyddyn ariannol 2018/19 yn fwy amlwg oherwydd bod mwy o adrannau yn gorwario. Gyda gwariant ar feysydd amddiffyn plant a phobl fregus a gwariant anorfod ar gludiant disgyblion anghenion dysgu ychwanegol yn yr Adran Addysg. Nid oedd gorwariant ar wasanaethau plant yn unigryw i Wynedd gyda gorwariant Prydeinig yn y maes. Darperir gwasanaethau yn unol â Ffordd Gwynedd gan roi pobl Gwynedd yn ganolog.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau.**

#### **4. RHAGLEN GYFALAF 2018/19 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid yn rhoddi manylion am y rhaglen ddiwygiedig a'r ffynonellau ariannu perthnasol.

Gosododd yr Uwch Reolwr Cyllid y cyd-destun ac ymhelaethodd ar gynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 22 Ionawr 2019. Nododd bod cynnydd o £4.249 miliwn yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf ers yr adolygiad diwethaf, gyda £3.4 miliwn ychwanegol wedi llithro i flwyddyn ariannol 2019/20, ond nid oedd unrhyw golled ariannu. Eglurodd bod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi oddeutu £28.5 miliwn yn 2018/19, gyda £9.2miliwn (32%) ohono wedi ei ariannu trwy ddenu grantiau penodol. Tynnwyd sylw at benderfyniad y Cabinet.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor.**

#### **5. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid a oedd yn adrodd ar sefyllfa ddiweddaraf gwireddu cynlluniau arbedion.

Gosododd yr Uwch Reolwr Cyllid y cyd-destun ac ymhelaethodd ar gynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 22 Ionawr 2019. Nododd bod dros 95%, sef £23 miliwn o'r cyfanswm o £24 miliwn o gynlluniau arbedion ar gyfer 2015/16 – 2017/18, wedi eu gwireddu gyda dim ond ychydig o lithriad ar 15 o gynlluniau.

Tynnodd sylw bod dros £2.5 miliwn o arbedion wedi eu cynllunio yn Strategaeth Ariannol 2018/19, gyda 62% o'r 29 o gynlluniau wedi'u gwireddu, 7 ar drac i gyflawni'n amserol a dim

ond llithriad ar 5 cynllun. Ymhelaethodd mai un o'r llithriadau oedd y cynllun "Dechrau i'r Diwedd" yn yr Adran Plant a Theuluoedd, gydag arbedion o £250,280 ar gyfer 2018/19. Eglurodd bod y cynllun wedi bod yn destun adolygiad ar y cyd rhwng yr Adran Plant a Theuluoedd, Cyllid a'r Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth, gan ail ymweld â thybiaethau'r model 'Dechrau i'r Diwedd' gwreiddiol. Nododd bod niferoedd y nosweithiau plant mewn lleoliadau preswyl wedi lleihau ond fod newid yn y proffil a chymhlethdod yr achosion, gan effeithio ar gyfartaledd cost lleoliadau. 'Roedd lleihad yn ogystal yng nghyfraniadau gan y Gwasanaeth Iechyd.

Nododd ei fod yn anorfod bod gwireddu bron i £27 miliwn o arbedion ers Ebrill 2015 wedi bod yn heriol. Cadarnhaodd bod cynnydd wedi ei wneud ar draws y Cyngor i wireddu'r arbedion. Tynnwyd sylw at benderfyniad y Cabinet.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed lleihad yng nghyfraniadau gan y Gwasanaeth Iechyd, eglurodd yr Uwch Reolwr Cyllid bod newidiadau yn y math o achosion yn golygu fod cyfraniadau'r Gwasanaeth Iechyd yn llai.

Mewn ymateb i sylw gan aelod, nododd yr Aelod Cabinet Cyllid bod y Cabinet yn ystyried y sefyllfa o ran gwireddu arbedion yn gyson. Eglurodd bod llithriad yng nghyflawniad cynlluniau arbedion yn gyfrifoldeb ar y Pennaeth a'r Aelod Cabinet perthnasol. Nododd er nad oedd yn hapus bod rhaid darganfod arbedion ei fod yn fodlon o ran yr arbedion a wireddwyd a bod trefniadau cadarn i sicrhau gwireddu arbedion.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y trosolwg arbedion.**

## 6. CYLLIDEB 2019/20

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid ar Gyllideb y Cyngor ar gyfer 2019/20 er mwyn rhoddi cyfle i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu'r wybodaeth o ran ei briodoldeb ariannol a'r risgiau perthnasol, cyn i'r adroddiad fynd gerbron y Cabinet ar 19 Chwefror.

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cyllid. Eglurodd bod yr holl aelodau wedi cael mewnbwn mewn gweithdai a bod ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei gynnal ar Dreth y Cyngor ynghyd â'r cynlluniau arbedion. Nododd bod trafodaethau manwl wedi arwain at y gyllideb a argymhellwyd.

Manylodd y Pennaeth Cyllid ar gynnwys yr adroddiad, gan nodi bod bwlc ariannol o £13 miliwn a oedd yn cynnwys costau chwyddiant o £7.5 miliwn a galw anorfod am wasanaethau o £4 miliwn. Nododd nad oedd y cynnydd grant gan Lywodraeth Cymru i'r awdurdodau lleol yn ddigonol i gwrdd â'r costau hyn. Cyfeiriodd at Atodiad 2 o'r adroddiad a oedd yn cynnwys manylion bidiau ariannol anorfod i ymateb i'r pwysau ar wasanaethau, gwerth cyfanswm o £2.5 miliwn. Ymhelaethodd bod y bidiau ariannol wedi eu trafod mewn gweithdai yn fis Rhagfyr, lle'r oedd yr aelodau'n cydsynio bod y gwariant yn anorfod. Amlygodd bod gofynion gwario 2019/20, cyn arbedion, yn £253.2 miliwn.

Nododd bod £2.48 miliwn o arbedion eisoes wedi'u cymeradwyo, bod £2.45 miliwn o arbedion arfaethedig, £0.5 miliwn o arbedion effeithlonrwydd pellach, a oedd yn dod i gyfanswm o £5.4 miliwn o arbedion i leihau'r bwlc.

Tynnodd sylw at yr hyn a argymhellir i'r Cabinet ei gymeradwyo, sef:

“(a) Argymell i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2019) y dylid:

1. Sefydlu cyllideb o £247,797,900 ar gyfer 2019/20 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £176,551,790 a £71,246,110 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 5.5%.



2. Ychwanegu £18,316,130 at y rhaglen gyfalaf i'w wario yn 2019/20 er mwyn sefydlu rhaglen gyfalaf gwerth £34,991,250 erbyn 2019/20 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.
- (b) Cymeradwyo symud ymlaen i weithredu'r rhestr cynlluniau arbedion sy'n Atodiad 3, er mwyn sefydlu'r gyllideb argymhellir i'r Cyngor llawn.
- (c) Nodi'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol a'r tafluniadau sy'n Atodiad 8, a mabwysiadu'r cynllun sy'n rhan 18-20 ohono."

Nododd bod yr hyn a argymhellir yn amodol ar benderfyniad y Cabinet i gymeradwyo symud ymlaen i weithredu'r cynlluniau arbedion a oedd wedi eu cynnwys yn Atodiad 3, neu i beidio gweithredu ambell gynllun, fel yr awgrymwyd yn Atodiad 12. Eglurodd pe byddai penderfyniad i beidio gweithredu'r 5 cynllun yn Atodiad 12, byddai'r ffigyrau yn newid i:

- sefydlu cyllideb o £247,869,620 ar gyfer 2019/20,
- i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £176,551,790,
- a £71,317,830 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 5.6%.

Cyfeiriodd at yr asesiad effaith o safbwynt cydraddoldeb, asesiad llesiant o ran gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynghyd ag asesiad o gadernid yr amcangyfrifon a oedd yn nodi'r risgiau.

Amlygodd bod Strategaeth Ariannol Tymor Canol wedi ei lunio, er gwaethaf cryn ansicrwydd am y dyfodol, yn bennaf oherwydd Adolygiad Gwariant 2019 Llywodraeth San Steffan. Nododd o ystyried y tafluniadau ei fod yn debygol byddai angen mwy o arbedion i'r dyfodol, felly byddai rhaid pwysu ar Lywodraeth Cymru i ariannu awdurdodau lleol yn briodol.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

- Pryder o ran effaith cynnydd blynyddol yn Nhreth y Cyngor ar drigolion. Fyddai'n bosib codi ymwybyddiaeth o Gynllun Gostyngiadau Treth Cyngor? Oedd cymorth ar gael i drigolion ar gyfer hawlio gostyngiad?
- Beth oedd lefel y risg o ran grantiau penodol?
- Pryder o ran canlyniadau'r cynni ariannol a'r effaith ar drigolion o ystyried bod Gwynedd yn un o'r ardaloedd tlotaf yng ngorllewin Ewrop. Byddai'n anodd cadw'r ddysgl yn wastad os nad oedd y cynni ariannol yn dod i ben.
- Bod cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn gyson uwch yng Ngwynedd dros y 6 mlynedd diwethaf a bod cynghorau Ynys Môn a Conwy yn bwriadu cynyddu eu Treth Cyngor ar gyfer 2019/20 9% i ddal i fyny efo'r cynnydd yng Ngwynedd. Siomedig o'r nifer a oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus. O ystyried y nifer isel o ymatebion sut gellir gwneud penderfyniad?
- Ni ellir parhau i gynyddu Treth y Cyngor gyda thrigolion yn gorfod gwneud dewisiadau anodd o ran gwario eu harian.
- Bod aelodau wedi cael digon o gyfle i gyfrannu at y broses ac yn ddiolchgar o'r trafodaethau agored. Fe fyddai'r sefyllfa ariannol yn llawer gwaeth heb waith yr Adran Gyllid dros y blynyddoedd ac fe ddylai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyfleu neges gryf i Lywodraeth Cymru o ran yr angen i ariannu awdurdodau lleol yn briodol. Er mwyn cael cyllideb hafal roedd rhaid dewis rhwng cynyddu Treth y Cyngor a thorri gwasanaethau.
- Bod yr adroddiad yn cyfeirio at £0.5 miliwn o arbedion effeithlonrwydd pellach, a fyddai'n bosib nodi mwy o fanylion a'r amserlen ar gyfer eu gwredu yn yr adroddiad cyn iddo fynd gerbron y Cyngor Llawn? Annog y Cabinet i wrando ar farn rhai o'r aelodau yn y gweithdy a pheidio gweithredu ar y 5 cynllun a nodir yn Atodiad 12 ac o ganlyniad cynyddu Treth y Cyngor 5.6%.

Ymatebwyd i'r cwestiynau a sylwadau, fel a ganlyn:-

- Bod y Cyngor yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr 2018 wedi mabwysiadu Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor 2019/20. Roedd staff yr Uned Trethi yn unol â Ffordd Gwynedd yn rhoi cymorth i drigolion o ran talu neu glirio eu dyled a'u cynorthwyo i hawlio gostyngiadau pan yn briodol.
- Bod rhan fwyaf o grantiau yn rhai Llywodraeth Cymru, roedd risg o ran lefel uwch o ddarpariaeth yn y gyllideb a'r grant yn dod i ben. Roedd grantiau a dderbynnir gan yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer prosiectau penodol yn hytrach nac i ariannu gwasanaethau. Pe byddai grant yn dod i ben byddai'n rhaid i'r Cyngor atal y ddarpariaeth benodol neu wynebu'r gost. Roedd rhaid i'r Cyngor fyw gyda'r risg.
- Cydweld o ran y cynni ariannol, un o brif ystyriaethau'r Cabinet wrth asesu'r cynlluniau arbedion oedd eu heffaith ar bobl Gwynedd. Yr unig ddewis i'r Cyngor oedd gweithredu cynlluniau arbedion a chynnydd yn Nhref y Cyngor er mwyn cyfarch y bwlc ariannol.
- Ei fod yn ddigon teg nodi'r sylw o ran nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus. Bu cyfle i bobl Gwynedd leisio'u barn ar ddau achlysur, gydag ymgynghoriad ar beth oedd yn bwysig i bobl Gwynedd ynghyd ag ymgynghoriad ar y cynlluniau arbedion. Mewn cyfundrefn democratiaeth gynrychiadol roedd aelodau'r Cyngor yn cynrychioli eu hetholwyr. Nodwyd gan fwyafriif o aelodau mewn gweithdy y dylid ail-edrych ar rhai cynlluniau arbedion ac roedd y cynlluniau penodol yma i'w hystyried gan y Cabinet cyn penderfynu ar argymhelliad i'r Cyngor Llawn.
- Tra mai Treth Gyngor Cyngor Gwynedd oedd y chweched uchaf yng Nghymru, roedd hyn yn deillio'n bennaf o'r rhaniad grant a welwyd ar ad-drefnu yn 1996 wrth i'r dyraniad grant beidio adlewyrchu'r rhaniad gwariant bryd hynny. Dengys y dystiolaeth fod cynnydd Treth Gyngor Cyngor Gwynedd wedi bod yn llai nag 14 Cyngor arall yng Nghymru dros y cyfnod ers hynny gan ddangos nad penderfyniadau Cyngor Gwynedd oedd wedi golygu ei fod y 6ed uchaf ond megis yr hyn a ddigwyddodd ar ad-drefnu yn 1996.
- Ei fod yn ddeddfwriaethol angenrheidiol bod gan y Cyngor gyllideb hafal, yr unig opsiynau ar gael i'r Cyngor i ariannu'r bwlc oedd gweithredu cynlluniau arbedion a chynyddu Treth y Cyngor. Roedd angen i Lywodraeth Cymru roi sylw i'r ffordd yr ariennir llywodraeth leol gyda sefyllfa ariannu cynghorau yn dod yn ddyrys. Bod yr hyn a argymhellir o ran y gyllideb yn ateb lled-dderbyniol ar gyfer y flwyddyn 2019/20 ond roedd sefyllfa ariannol 2021/22 yn ddibynnol ar Lywodraeth Cymru.
- O ran yr arbedion effeithlonrwydd pellach, bod syniadau ar sut i wireddu'r arbedion effeithlonrwydd pellach ac yn ffyddiog ei fod yn bosib i'w gael ond ni ellir manylu gan ei fod yn sefyllfa sensitif o ran swyddi.
- Cadarnhau y byddai'r 5 cynllun i arbed a nodir yn Atodiad 12 yn derbyn ystyriaeth yn nhrafodaethau'r Cabinet ar 19 Chwefror.

Nodwyd gwerthfawrogiad o waith swyddogion yr Adran Cyllid, yr Aelod Cabinet Cyllid a'r Prif Weithredwr.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad a'r risgiau perthnasol.**

## **7. ADRODDIAD STRATEGAETH CYFALAF 2019/20**

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Cyllid yr adroddiad, gan nodi bod yr adroddiad yn ofyniad newydd gan CIPFA (Chartered Institute of Public Finance) ar Gynghorau, a ddaethpwyd i rym ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 ymlaen. Eglurodd mai bwriad yr adroddiad oedd rhoi cyd-destun hir dymor i benderfyniadau gwariant cyfalaf a buddsoddiadau gan Gynghorau gan ystyried y risgiau. Roedd yr adroddiad yn dod a'r rhaglen gyfalaf ac adroddiad arferol Rheolaeth Trysorlys o fewn yr un adroddiad.

Manylodd ar gynnwys yr adroddiad gan dynnu sylw bod bwriad i wario £35 miliwn ar wariant cyfalaf yn 2019/20, a bron i £18.8 miliwn ar gyfer 2020/21 a £9.3 miliwn 2021/22. Nododd bod prif brosiectau cyfalaf 2019/20 yn cynnwys gwariant o £8.7 miliwn ar Ysgolion Unfed

Ganrif ar Hugain, £2.7 miliwn ar atgyweirio priffyrdd a £2.7 miliwn ar y Strategaeth Dai, gyda £11.7 miliwn ar gyfer y Cynllun Rheoli Asedau i'w ddyrannu. Amlygodd bod y rhan Rheolaeth Trysorlys o'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y strategaeth fenthyca, buddsoddi, ymrwymadau, rheoli hylifedd, rhagolygon economaidd a rhagolygon credyd, gyda'r wybodaeth gefnogol a'r manylder wedi ei gynnwys yn Atodiad C.

Eglurodd bod gofyn i'r Pwyllgor fabwysiadu'r wybodaeth yn yr adroddiad gan ystyried unrhyw risgiau a oedd yn codi o'r strategaeth cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 7 Mawrth 2019.

Nododd aelod ei gwerthfawrogiad o'r hyfforddiant a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2019 i aelodau'r Pwyllgor yn y maes rheolaeth trysorlys gydag ymgynghorwyr o gwmni Arlingclose, sef ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor, gan ofyn i'w diolchiadau gael ei drosglwyddo i'r ymgynghorwyr.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod parthed cyllid ar gyfer y Strategaeth Dai, nododd y Prif Weithredwr bod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn trafod cynlluniau penodol gyda'r Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant ac mi fyddai'r Strategaeth Dai gerbron y Cabinet yn fuan.

Mewn ymateb i ymholiad pellach, eglurodd y Prif Weithredwr bod y £2.7 miliwn ar gyfer atgyweirio priffyrdd yn dderbyniad grant gan Lywodraeth Cymru ac mai arian incwm Premiwm Treth y Cyngor oedd y £2.7 miliwn ar gyfer y Strategaeth Dai. Ymhelaethodd y Pennaeth Cyllid bod y Strategaeth Dai yn uchelgeisiol ac yn edrych ar gyfnod estynedig o 5 i 10 mlynedd ac ar hyn o bryd yn cael ei fireinio. Nododd yr aelod ei fod yn edrych ymlaen at glywed y cynlluniau ynghlwm â'r Strategaeth Dai.

Holodd aelod yng nghyswllt penderfyniadau a wnaethpwyd yn y gorffennol o ran benthyciadau'r Cyngor ac a rhagwelwyd newid yng nghyfraddau llog. Mewn ymateb, eglurodd y Pennaeth Cyllid bod cyfraddau llog uwch ar fenthyciadau yn dyddio nôl i'r wythdegau a bod rhan fwyaf ohonynt yn dod i ben. Ychwanegodd y byddai hyn yn addasiad positif i'r gyllideb gan ni fyddai'r Cyngor yn talu cyfraddau llog uwch ac ni ragwelwyd y byddai llogau'n codi'n uchel. Eglurodd bod y Cyngor yn hunan fenthyca gan gadw benthyciadau allanol i leiafswm.

### **PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad a'r risgiau perthnasol.**

#### **8. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 19/11/18 – 1/2/19**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod. Nodwyd bod 12 adroddiad am archwiliadau o'r cynllun gweithredol ac un archwiliad grant wedi eu cwblhau. Tynnwyd sylw o ran archwiliadau dilyniant, bod gweithrediad derbyniol ar 71.17% o'r camau cytunedig, sef 116 allan o 163.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y prif faterion canlynol –

#### **Trefniadau Diogelu - Sefydliadau**

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod, eglurodd y Rheolwr Archwilio bod system yn amlygu pan fo angen adnewyddu dadleniad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Ymhelaethodd ei fod yn broses hir a bod cyfrifoldeb ar yr unigolyn i gyflwyno cais. Ychwanegodd bod gwendidau wedi eu hadnabod o ran cyflwyno modiwlau hyfforddiant diogelu i staff ac o'r herwydd bod archwiliad yng nghyswllt adolygiad o drefniadau hyfforddiant ar yr ystod o fodiwlau diogelu wedi ei gynnwys yng Nghynllun Archwilio Mewnol 2019/20.

Nododd aelod ei phryder o ran yr amrywiaeth yn y nifer o staff a oedd wedi cwblhau'r modiwlau diogelu yn y canolfannau hamdden. Holodd beth fyddai'r trefniadau yn dilyn

trosglwyddo'r canolfannau hamdden i gwmni Byw'n Iach Cyf. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Archwilio y byddai gwaith dilyniant ar archwiliadau canolfannau hamdden yn cael eu cwblhau cyn trosglwyddo i'r cwmni ar 1 Ebrill 2019 a byddai hyn a ddarganfuwyd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor. Ymhelaethodd y byddai adroddiadau archwilio yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Byw'n Iach Cyf yn dilyn y trosglwyddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach, nododd y Rheolwr Archwilio ei fod yn debygol y byddai'r cwmni yn gweithredu yn unol â chfundrefnau'r Cyngor yng nghyswllt dadleniadau.

Nododd aelod y dylai'r archwiliad dderbyn ystyriaeth gan y Gweithgor Gwella Rheolaethau oherwydd bod diffygion wedi eu hamlygu.

Mewn ymateb i sylw, nododd y Rheolwr Archwilio oherwydd ei fod yn fater corfforaethol roedd trefniadau hyfforddiant yn amrywio ac yn sefyllfa gweithwyr tymhorol ei fod yn fwy problemus, ond yn bwysig eu bod hwythau yn derbyn yr hyfforddiant. Eglurodd pe byddai'r archwiliad yn derbyn ystyriaeth yn y gweithgor, mai Cadeirydd y Panel Gweithredol Diogelu fyddai'n bresennol ac mi fyddai'n anodd iddo egluro'r sefyllfa o ran staff traethau ac harbyrau. Nododd bod y Panel Gweithredol yn anfon neges i'r timau rheoli adrannol ac fe ddylai gael ei raeadru i reolwyr i sicrhau gweithrediad.

Tynnodd aelod sylw bod y cam gweithredu i barhau i godi ymwybyddiaeth gweithwyr y Cyngor o drefniadau diogelu corfforaethol a'r angen i gwblhau hyfforddiant, ond bod angen ychwaneg o waith i wella'r lefel sicrwydd a oedd yn bresennol yn gyfyngedig.

### **Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol**

Nododd aelod y dylai'r archwiliad dderbyn ystyriaeth gan y Gweithgor Gwella Rheolaethau oherwydd bod yr archwiliad wedi derbyn lefel sicrwydd cyfyngedig.

### **Cronfa'r Degwm**

Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod y Gronfa yn cwmpasu Gwynedd, Conwy ac Ynys Môn gydag anghydfod trawsffiniol hirdymor yng nghyswllt darn o dir wedi ei ddatrys bellach a symudiad i ddatgymalu'r gronfa.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nododd y Rheolwr Archwilio y byddai gwaith dilyniant yn cael ei gwblhau a bod archwiliad wedi ei gynnwys yng Nghynllun Archwilio Mewnol 2019/20.

### **Biliau Cylchol**

Nododd y Rheolwr Archwilio bod yr archwiliad ar filiau cylchol yr Adran Amgylchedd yn deillio o ddarganfod achosion, fel rhan o archwiliad, ble na anfonebwyd rhai tenantiaid manddaliadau'r Cyngor. Ymhelaethodd bod sawl ymdrech i dderbyn diweddariad gan y Gwasanaeth Eiddo o ran os oedd cwsmeriaid yn parhau mewn eiddo ac os oedd ôl-rhent yn ddyledus i'r Cyngor ai peidio mewn perthynas â 2 gwsmer, ond yn anffodus ni dderbyniwyd cadarnhad. Eglurodd bod y system bilio cylchol bellach yn cynhyrchu anfonebau tan fod y trefniant yn cael ei ganslo.

Nododd aelod bod y sefyllfa yn annerbyniol a bod angen sicrhau y derbynnir y wybodaeth. Ychwanegodd aelod y dylid cyfleu pryder y Pwyllgor i'r Adran gan ofyn am ymateb.

### **Tanciau Diesel a Rheoli Diesel**

Nododd y Rheolwr Archwilio bod gwendidau wedi eu hamlygu peth amser yn ôl a'u bod dal i fodoli ar adeg yr archwiliad. Mewn ymateb i sylw gan aelod o ran y sefyllfa ar un safle, nododd y Rheolwr Archwilio bod y rheolwr safle wedi datgan ei bryder am gyflwr tanc diesel

a'r systemau draeniau ar sawl achlysur. Pwysleisiodd bod y rheolwr safle wedi gweithredu yn briodol ac yn unol â Ffordd Gwynedd gan gymryd cyfrifoldeb drwy adrodd ar y diffyg.

Nododd aelod y dylai'r archwiliad dderbyn ystyriaeth gan y Gweithgor Gwella Rheolaethau.

**PENDERFYNWYD:**

- (i) derbyn yr adroddiad ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 19 Tachwedd 2018 hyd at 1 Chwefror 2019 a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol;
- (ii) bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor, y Cynghorwyr Dewi Wyn Roberts, Angela Russell a Cemlyn Williams i wasanaethu ar y Gweithgor Gwella Rheolaethau gyda'r Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn eilydd i ystyried yr archwiliadau canlynol:
  - Trefniadau Diogelu – Sefydliadau
  - Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol
  - Tanciau Diesel a Rheoli Diesel
- (iii) anfon neges at yr Adran Amgylchedd yn nodi pryder y Pwyllgor o ran diffyg ymateb i ymholiadau ynghlwm â'r archwiliad Biliau Cylchol gan ofyn am ymateb.

**9. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2018/19**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2018/19.

Adroddwyd bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol hyd at 1 Chwefror 2019 wedi cwblhau 58.33% o'r cynllun, gyda 35 o'r 60 archwiliad yng nghynllun 2018/19 wedi eu rhyddhau yn derfynol. Tynnwyd sylw at yr addasiadau i'r Cynllun.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio mewnol 2018/19.**

**10. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2019/20**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn rhoi manylion am gynllun drafft o waith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2019/20 er sylwadaeth a chymeradwyaeth y Pwyllgor. Nodwyd er mwyn sicrhau bod y materion cywir yn cael eu hadolygu, yn gyntaf rhoddwyd ystyriaeth i'r Gofrestr Risg Corfforaethol yn ogystal â chofrestrau risg pob adran.

Tynnwyd sylw y rhagwelwyd y byddai oddeutu 766 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau cynllun archwilio 2019/20.

Mewn ymateb i sylw gan aelod yng nghyswllt gweld tueddiadau ar draws adrannau'r Cyngor, nododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg bod cofnodi risgiau yn adnabod tueddiadau gyda chofrestrau risg adrannol yn gallu bwydo i mewn i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Ychwanegodd bod amlygu tueddiadau yn ddibynnol ar ansawdd y wybodaeth ac y byddai'r Gwasanaeth Yswiriant a Risg yn cysylltu gyda phob adran er mwyn eu cefnogi i sicrhau bod risgiau wedi eu cofnodi'n briodol.

Holodd aelod a fyddai'n bosib edrych ar gynlluniau corfforaethol a sut y gellir eu pecynnu i ymateb i agweddau trawsadrannol. Holodd ymhellach o ran y nifer o ddyddiau a ddynodwyd ar gyfer yr archwiliad 'Diwylliant a Moeseg' gan nodi ei fod yn fater cymhleth a dylid ail-ystyried y nifer o ddyddiau a ddynodwyd ar gyfer yr archwiliad er mwyn cael darlun mwy cynhwysfawr.

Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Archwilio ei bod yn cyfeirio at Gynllun y Cyngor wrth lunio'r cynllun archwilio. Tynnodd sylw bod rheolwyr prosiect yn gyfrifol am gynlluniau corfforaethol a gyda phrinder adnoddau archwilio ei fod yn anodd clustnodi llawer o

ddyddiau i gynnal archwiliad mewn maes penodol ond fe edrychir ar reolaeth o'r prosiect o ran amserlen, ei fod wedi ei gynllunio'n iawn ac os cedwir cofnod o'r elfennau ariannol.

Nododd aelod byddai mesur 'Diwylliant a Moeseg' yn anodd ei gyflawni gan ofyn sut y bwriedir ei fesur. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Archwilio y bwriedir llunio holiadur syml gan ofyn cwestiynau am faterion megis cofnodi oriau yn gywir a gweithrediad o Bolisi Canu'r Gloch.

Mewn ymateb i sylwadau pellach gan aelodau parthed yr archwiliad 'Diwylliant a Moeseg', nododd y Rheolwr Archwilio y byddai'n gwneud gwaith ymchwil i'r maes.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Archwilio drafft ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020.**

**11. STRATEGAETH GWRTH-DWYLL, GWRTHLYGREDD A GWRTH-GWGRWOBRWYO CYNGOR GWYNEDD A CHYNLLUN YMATEB**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg a oedd yn rhoi diweddariad ar drefniadau atal twyll ac atal llygredd y Cyngor ynghyd â chyflwyno rhaglen waith ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Nodwyd er bod 'Risg o Dwyll, Llwgrwobrwyo a/neu Lygredd' yn cael ei ystyried yn risg isel roedd y Cyngor yn parhau i fod yn ymwybodol o'r risg gyda'r Cyngor wedi dioddef o ganlyniad i dwyll mawr yn y gorffennol. Manylwyd ar gynnwys yr adroddiad.

Eglurwyd y byddai'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau rheolaidd (oddeutu bob 6 mis) ar ymdrechion gwrth-dwyll, gwrthlygredd a gwrth-gwgrwobrwyo y Cyngor.

Nododd aelod bod y twyll ynghlwm â Express Motors wedi bod yn arswydus ac a fyddai budd o gael is-grŵp o'r Pwyllgor i edrych yn fanwl a dysgu gwersi ohono. Cyfeiriodd at y Strategaeth gan ofyn pa mor rheolaidd y byddai gweithdai efo swyddogion perthnasol i drafod materion yn codi, risgiau ymddangosol a rhannu arferion da yn cael eu cynnal. Holodd pa asiantaethau oedd y Cyngor yn cydweithio â hwy a pa mor rheolaidd yr adolygir y Strategaeth.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg:

- Bod y Pwyllgor eisoes wedi derbyn adroddiad ar Dwyll Express yn ei gyfarfod ar 29 Tachwedd 2018 ac wedi trafod y mater mewn manylder. Bryd hynny, gofynnwyd i'r Adran Amgylchedd am adroddiad ynglŷn â lliniaru risg i'r Cyngor o ymrwymo i gytundeb newydd Cynllun Tocynnau Teithio Rhatach Llywodraeth Cymru. Ei fod yn benderfyniad yr aelodau os am drafod y ddwy achos o dwyll yn y maes cludiant cyhoeddus yn y Gweithgor Gwella Rheolaethau, ond roedd peryg drwy ganolbwyntio ar y twyll yma y collir golwg ar risgiau eraill o ystyried bod gan y Cyngor ystod eang o wasanaethau.
- Nid oedd gan y Cyngor adnodd penodol gwrth-dwyll, fe gwblheir y gwaith o fewn adnoddau gydag archwilio mewnol yn gwneud y gwaith ymchwil. Bwriedir cynnal gweithdai rheolaidd efo swyddogion o wasanaethau gwahanol megis archwilio, budd-dal, trethi ac eraill, gan edrych ar risgiau a oedd yn ymddangos o brofiadau awdurdodau eraill.
- Er nad oedd y Cynllun Ymateb wedi ei ddiwygio ers 2013, mi oedd dal yn addas i bwrpas gyda newidiadau o ran teitlau swyddi yn unig.
- Roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn arwain ar y Fenter Twyll Genedlaethol a gynhelir bob 2 flynedd i gymharu data asiantaethau a pe byddai rhywbeth yn cael ei amlygu fe gysylltir â'r asiantaeth berthnasol. Nododd unwaith bod digon o dystiolaeth i'w gyflwyno i'r heddlu yn dilyn ymchwiliad gan archwilio mewnol fe gyfeirir y wybodaeth i'r Swyddog Monitro.

Nododd aelod ei fod o'r farn bod angen rhoi ystyriaeth i'r ddwy achos o dwyll yn y maes cludiant cyhoeddus yn y Gweithgor Gwella Rheolaethau.

Holodd aelod os oedd system mewn lle i ymateb pan fo digwyddiadau o dwyll yn digwydd. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg mai dyna oedd pwrpas y Cynllun Ymateb. Nododd mai rheolwyr a swyddogion oedd yn y lle gorau i ddarganfod twyll a bod angen codi ymwybyddiaeth er mwyn iddynt fod yn fyw i'r risg o dwyll ac i fod yn barod i adrodd ar dwyll posib. Roedd risg allanol yn ogystal o gwmnïau yn anfon anfonebau ffug.

Mewn ymateb i sylw pellach yng nghyswllt cydweithio efo asiantaethau eraill, nododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol bod pwynt cyswllt ym mhob asiantaeth ac fe ellir defnyddio'r pwyntiau cyswllt o ran twyll tu allan i'r fenter yn ogystal fel man cychwyn.

Nododd aelod ei diolch am yr adroddiad. Cyfeiriodd at y ffaith nad oedd twyll Treth Cyngor yn cael ei amlygu yn y ddogfen. Holodd os nad oedd twyll budd-dal tai yn berthnasol o ran y cynllun ymateb oherwydd bod y Llywodraeth efo cyfrifoldeb. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg nid oedd cyfeiriad at dwyll Treth Cyngor yn y ddogfen ond fe ystyrir ei ychwanegu. Ychwanegodd y bwriedir rhoi mwy o ffocws ar Gynllun Gostyngiadau Treth Cyngor dros y blynyddoedd nesaf. Eglurodd mai Adran Pensiynau a Gwaith, Llywodraeth Prydain a oedd yn gyfrifol am ymchwilio i dwyll budd-dal tai ers oddeutu 4 mlynedd. Ymhelaethodd bod gan y Cyngor bwynt cyswllt yn yr Adran Pensiynau a Gwaith ac fe gyfeirir achosion i'w sylw ond nid oedd mor effeithlon â phan oedd y gwaith yn cael ei gwblhau yn fewnol, gyda'r gofyn i lenwi nifer o ffurflenni.

Nododd aelod ei fod yn amhosib cael gwared o dwyll yn gyfan gwbl ond bod y Strategaeth a'r cynllun ymateb yn cadarnhau bod prosesau mewn lle i atal twyll ac fe ddylid eu cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad fel eglurhad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer ymchwilio ac atal twyll a llygredd o fewn y gyfundrefn a chymeradwyo'r Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-lwgrwobrwyo a Gwrthlygredd a'r Cynllun Ymateb i Dwyll a Llygredd.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.05am a daeth i ben am 1.15pm

---

CADEIRYDD



## Cynllun Archwilio 2019 – Cyngor Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1176A2019-20

**Mae'r ddogfen hon yn fersiwn ddrafft yn amodol ar drafodaethau ychwanegol â'r corff a archwilir ac a arolygir. Mae'n bosibl nad yw'r wybodaeth wedi'i dilysu'n llawn hyd yn hyn ac ni ddylid ei lledaenu'n eang.**



Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn **Atodiad 1**.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, pan fo hynny'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, pan fo hynny'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [info.officer@audit.wales](mailto:info.officer@audit.wales).

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Lluniwyd y ddogfen hon gan Deloitte LLP a Swyddfa Archwilio Cymru.

# Cynnwys

## Cynllun Archwilio 2019

Crynodeb	4
Archwiliad o Gyfrifon	4
Archwiliad perfformiad	8
Ardystio hawliadau a ffurflenni grant	10
Ffi, tîm archwilio ac amserlen	11
Datblygiadau yn y dyfodol ar fy ngwaith archwilio	14
<b>Atodiadau</b>	
Atodiad 1 – cyfrifoldebau perthnasol	15
Atodiad 2 – gwaith perfformiad yn amlinellid archwilio y llynedd sy'n parhau o hyd	18
Atodiad 3 – datblygiadau eraill yn y dyfodol	19

# Cynllun Archwilio 2019

## Crynodeb


- 1 Fel eich archwilydd allanol, fy amcan i yw cynnal archwiliad sy'n cyflawni fy nyletswyddau statudol fel Archwilydd Cyffredinol ac sy'n cyflawni fy rhwymedigaethau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Llywodraeth Leol 1999, a'r Cod Ymarfer Archwilio, sef:
  - archwilio ac ardystio a yw eich datganiadau ariannol yn 'wir ac yn deg';
  - asesu a oes gennych drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y defnydd o adnoddau;
  - archwilio ac asesu a ydych wedi cyflawni'r dyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur; a
  - chynnal astudiaethau i fy ngalluogi i wneud argymhellion i wella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd neu i wella trefniadau rheoli ariannol neu drefniadau rheoli eraill.
- 2 Diben y cynllun hwn yw nodi fy ngwaith arfaethedig, pryd y caiff ei wneud, cost y gwaith hwn a phwy fydd yn ei wneud.
- 3 Ni orfodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.
- 4 Nodir fy nghyfrifoldebau i, ynghyd â rhai'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn [Atodiad 1](#).

## Archwiliad o gyfrifon

- 5 Fy nghyfrifoldeb i yw cyflwyno tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'gwirionedd a'u tegwch'. Mae hyn yn darparu sicrwydd bod y cyfrifon yn:
  - rhydd rhag camdatgan, boed trwy wall neu dwyll;
  - cydymffurfio â gofynion statudol a gofynion perthnasol eraill; ac yn
  - cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifyddol.
- 6 Rwyf i hefyd yn ystyried a oes gan Gyngor Gwynedd (y Cyngor) drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau ac adrodd drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â gofynion.
- 7 Mae [Atodiad 1](#) yn nodi fy nghyfrifoldebau yn llawn.
- 8 Mae'r gwaith archwilio yr wyf yn ei wneud i gyflawni fy nghyfrifoldebau yn ymateb i fy asesiad o risgiau. Mae'r ddealltwriaeth hon yn caniatáu i mi ddatblygu dull archwilio sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â risgiau penodol wrth ddarparu sicrwydd ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Mae fy null archwilio yn cynnwys tri cham a nodir yn [Arddangosyn 1](#).

### Arddangosyn 1: fy null archwilio

Mae'r tabl hwn yn crynhoi tri cham fy null archwilio ariannol, sef cynllunio, profi ac adrodd.



- 9 Nodir y risgiau camdatgan sylweddol sy'n arwyddocaol yn fy marn i ac felly y mae angen ystyriaeth archwilio arbennig arnynt yn **Arddangosyn 2** ynghyd â'r gwaith rwy'n bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â nhw. Mae meysydd archwilio allweddol eraill y bydd fy nhîm yn canolbwyntio arnynt wedi'u cynnwys hefyd.

### Arddangosyn 2: risgiau archwilio ariannol

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r prif risgiau archwilio ariannol a nodwyd yng ngham cynllunio'r archwiliad

Risg archwiliad ariannol	Ymateb arfaethedig yr archwiliad
<b>Risgiau arwyddocaol</b>	
Mae'r risg y bydd rheolwyr yn gwrth-wneud rheolaethau i'w gweld ym mhob endid. O ganlyniad i natur anrhagweladwy y gallai'r gwrth-wneud hyn ddigwydd, ystyrir ei bod yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33].	Bydd fy nhîm archwilio yn: <ul style="list-style-type: none"><li>• profi priodoldeb yr wybodaeth yn y cyfnodolion a newidiadau eraill a wneir wrth baratoi'r datganiadau ariannol;</li><li>• archwilio amcangyfrifon cyfrifyddu am duedd;</li><li>• gwerthuso'r sail resymegol i unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol;</li></ul>

Risg archwiliad ariannol	Ymateb arfaethedig yr archwiliad
<b>Meysydd eraill y bydd yr archwiliad yn rhoi sylw iddynt</b>	
<p>Mae offerynnau ariannol IFRS 9 yn berthnasol o 1 Ebrill 2018 ymlaen, ac mae'n cyflwyno dull newydd wedi'i seilio ar egwyddorion ar gyfer dosbarthu a mesur asedau ariannol. Mae hefyd yn cyflwyno dull amhariad newydd ar gyfer asedau ariannol wedi'i seilio ar golledion disgwyliedig yn hytrach na cholledion gwirioneddol. Bydd hyn yn arwain at nodi colledion credyd disgwyliedig yn gynharach ac yn effeithio ar sut y cyfrifir y ddarpariaeth ddyled wael.</p> <p>Mae refeniw IFRS 15 o gontractau â chwsmeriaid yn cyflwyno model pum cam wedi'i seilio ar egwyddorion ar gyfer cydnabod refeniw sy'n codi o gontractau â chwsmeriaid. Y mae wedi'i seilio ar egwyddor graidd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r refeniw a gaiff ei nodi ddangos y nwyddau neu'r gwasanaethau arfaethedig a gaiff eu trosglwyddo i'r cwsmer mewn swm sy'n adlewyrchu'r ystyriaeth y mae corff yn disgwyl bod hawl ganddo iddo, yn gyfnewid am y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny. Bydd hefyd yn gofyn am ddatgeliadau mwy helaeth nag sy'n ofynnol ar hyn o bryd.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn asesu effeithiau tebygol y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol newydd ac yn gwneud gwaith mewn ymateb i unrhyw risgiau camddatgan sylweddol a nodir.</p>

- 10 Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig, yn hytrach rwy'n mabwysiadu cysyniad o berthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau sylweddol, hynny yw, y rhai hynny a all arwain at gamarwain darlennydd y cyfrifon. Bydd y lefelau yr wyf i'n barnu bod y camddatganiadau yn sylweddol yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu cyn cwblhau'r archwiliad.
- 11 At ddibenion adrodd, byddaf yn trin unrhyw gamddatganiad sydd islaw lefel 'ddibwys' (perthnasedd o 5% neu £100,000 pa un bynnag yw'r lleiaf) yn un nad oes angen i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ei ystyried ac felly ni fyddaf yn adrodd arnynt.
- 12 Mae fy ffioedd a'r amserlen arfaethedig ar gyfer cwblhau'r archwiliad wedi'i seilio ar y tybiaethau canlynol:
  - mae'r datganiadau ariannol wedi'u darparu'n unol â'r amserlen y cytunwyd arni, o'r ansawdd disgwyliedig ac maent wedi bod yn destun adolygiad sicrwydd ansawdd trylwyr;

- mae'r wybodaeth a ddarparwyd i gefnogi'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r ddogfen canlyniadau archwilio y cytunwyd arnynt<sup>1</sup>;
  - darperir lleoliad a chyfleusterau priodol i alluogi fy nhîm archwilio i gyflawni'r archwiliad mewn modd effeithlon;
  - bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
  - mae gennych yr holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith i alluogi'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i ddarparu'r holl sicrwydd sydd ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau wedi'i gyfeirio ataf i;
  - mae rhaglen waith yr Archwiliad Mewnol yn gyflawn ac mae'r rheolwyr wedi ymateb i'r materion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol; a
  - nodi i ba raddau yr ydych yn bwriadu dibynnu ar waith Archwilwyr Mewnol ac a fydd unrhyw ddbyniaeth ar waith archwilwyr eraill, arbenigwyr, ac ati].
- 13 Yn ogystal â fy nghyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r archwiliad o ddatganiadau ariannol statudol y Cyngor a nodir uchod, mae hefyd yn ofynnol i mi ardystio dogfen i Lywodraeth Cymru sy'n rhoi gwybodaeth am y Cyngor i gefnogi'r gwaith o baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan.
- 14 Rwyf i hefyd yn gyfrifol am archwilio cyfrifon cronfa bensiwn Cyngor Gwynedd. Paratowyd cynllun archwilio ar wahân ar gyfer archwilio'r gronfa bensiwn.
- 15 Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gen i gyfrifoldebau statudol hefyd i dderbyn cwestiynau a gwrthwynebiadau i'r cyfrifon gan etholwyr lleol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:
- Adran 30 Archwilio dogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad; ac
  - Adran 31 Yr hawl i wrthwynebu yn ystod archwiliad.
- 16 Caiff ffioedd archwilio eu codi am waith a wneir i ymdrin â chwestiynau a gwrthwynebiadau etholwyr. Gan y bydd gwaith archwilio yn dibynnu ar nifer a natur unrhyw gwestiynau a gwrthwynebiadau, nid yw'n bosibl amcangyfrif ffi archwilio ar gyfer y gwaith hwn.
- 17 Os wyf i'n derbyn cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl bryd hynny.

## Gwaith archwilio ariannol arall

- 18 Rwyf hefyd yn gyfrifol am archwilio cyfrifon dau gydbwyllgor y mae'r Cyngor yn eu gweinyddu; sef y Cydbwyllgor GwE a'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Hefyd, rwy'n gyfrifol am y pedwar harbwr sydd â'r Cyngor yn awdurdod harbwr ar eu cyfer, sef Pwllheli, Abermaw, Porthmadog ac Aberdyfi. Dymunaf dynnu'ch sylw at y maes risg a nodir yn **Arddangosyn 3** yr wyf wedi'i nodi o ran Cydbwyllgor GwE, sydd y tu hwnt i'r rhai sy'n orfodol gan Safonau Archwilio Rhyngwladol 240.

<sup>1</sup> Mae'r ddogfen canlyniadau archwilio y cytunwyd arnynt yn nodi'r gofynion disgwylidig o ran dogfennau gweithio i gefnogi'r datganiadau ariannol ac mae'n cynnwys amserlen a chyfrifoldebau.

### Arddangosyn 3: risg archwilio ariannol – Cydbwyllgor GwE

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r prif risgiau archwilio ariannol a nodwyd yng nghanam cynllunio'r archwiliad o ran y Cydbwyllgor GwE.

Risg archwiliad ariannol	Ymateb arfaethedig yr archwiliad
<b>Risgiau arwyddocaol</b>	
<b>Incwm a Gwariant Grant GwE</b> Mae'r pwyllgor yn cael swm sylweddol o gyllid grant, a dyrennir y rhan fwyaf ohono i awdurdodau lleol ac ysgolion. Ceir risg y bydd y datganiadau ariannol yn cynnwys neu'n hepgor y cyllid grant hwn yn amhriodol, oherwydd bydd angen i'r pwyllgor asesu a yw'n gweithredu fel asiant neu fel prif gorff.	Bydd fy nhîm archwilio yn: <ul style="list-style-type: none"><li>• Ceisio deall polisi cydnabod y pwyllgor ar gyfer incwm a gwariant grant, a fydd yn cynnwys adolygu a yw'r pwyllgor yn gweithredu fel asiant neu fel prif gorff;</li><li>• cynnal profion cynllunio a gweithredu ar reolaethau'r asesiad o ba un a yw'r pwyllgor yn gweithredu fel asiant neu fel prif gorff;</li><li>• Cynnal profion ar fanylder i gadarnhau a fodlonwyd y meini prawf cydnabod.</li></ul>

19 Mae fy ffi archwilio ar gyfer y gwaith hwn wedi'i nodi yn [Arddangosyn 5](#).

## Archwiliad perfformiad

20 Mae angen i mi gydbwyso fy nyletswyddau statudol presennol, newydd ac arfaethedig â'r angen i barhau i gynnal archwiliadau ac asesiadau ystyrion, cymesur wedi'u seilio ar risg. Wrth gyflawni fy nyletswyddau, byddaf yn parhau i gyflawni'r cydbwysedd mwyaf priodol ac ychwanegu gwerth trwy:

- ddarparu sicrwydd ynghylch trefn lywodraethu a stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus;
- cynnig cipolwg ar i ba raddau y defnyddir adnoddau yn ddoeth wrth ddiwallu anghenion pobl; a
- nodi a hyrwyddo ffyrdd y gellir gwella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

21 Gan ei bod yn debygol y bydd Bil Llywodraeth Leol Cymru disgwylidig yn cynnig nad yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn berthnasol i gynghorau mwyach, byddaf yn parhau i leihau gymaint â phosibl y gwaith sy'n canolbwyntio ar y broses o wella cynllunio.

22 Yn fy nghynllun archwilio ar gyfer 2018 esboniais fy mod i, mewn blynyddoedd blaenorol, wedi rhoi dibyniaeth ar fy ngwaith o dan y Mesur i fy helpu i gyflawni fy nyletswydd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fodloni fy hun bod gan gynghorau drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (gwerth am arian) wrth ddefnyddio adnoddau. O ystyried ei bod yn

debygol na fyddaf yn gallu dibynnu ar fy ngwaith o dan y Mesur yn y dyfodol, yn 2019-20 ac mewn blynyddoedd dilynol, bydd pwyslais fy rhaglenni archwilio perfformiad lleol yn parhau i gyfochri'n fwy eglur â chyflawni fy nyletswydd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

- 23 Yn 2018-19 archwiliais i ba raddau yr ydych yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni eich amcanion llesiant. Yn ystod 2019-20 byddaf yn cynnal archwiliad arall i asesu i ba raddau yr ydych yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni eich amcanion llesiant. Hwn fydd y darn olaf o waith y byddaf yn ei wneud i gyflawni fy nyletswyddau o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y Cyngor cyn cyflwyno fy adroddiad cylchol cyntaf i'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2020. Yn ystod 2019-20, byddaf i hefyd yn ystyried sut i gyflawni fy nyletswyddau o dan y Ddeddf yn ystod y cyfnod 2020 hyd 2024 a byddaf yn ceisio ymgysylltu ag awdurdodau lleol yn ogystal â rhanddeiliaid eraill wrth ddatblygu fy null.
- 24 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal rhaglen o astudiaethau llywodraeth leol hefyd. Mae'r gwaith hwn wedi'i gynnwys yn amcangyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru ac nid ffioedd lleol. Mae'r astudiaethau hyn yn arwain ar y cyfan at adroddiad cenedlaethol wedi'i atgyfnerthu gan arferion da a chanlyniadau dysgu ar y cyd yn hytrach na gan adroddiadau lleol. Caiff canfyddiadau lleol, pan fyddant yn briodol, eu cofnodi mewn gwaith asesu gwelliant a'u hadrodd mewn adroddiadau gwella blynyddol yn dibynnu ar amseriad a phwyslais y casgliadau.
- 25 Wrth ystyried yr holl gasgliadau hyn, bydd fy rhaglen waith ar gyfer 2019-20 yn cynnwys:

#### Arddangosyn 4: rhaglen archwilio perfformiad

Rhaglen archwilio perfformiad	Disgrifiad byr
Gwaith archwilio ac asesu gwelliant, gan gynnwys archwiliad o drefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant	Archwilio cyflawniad y ddyletswydd i gyhoeddi cynllun gwella, a chyhoeddi asesiad o berfformiad.
Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Archwiliad i ba raddau mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau tuag at gyflawni ei amcanion llesiant.
Asesiad Risg a Sicrwydd	Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu pan fydd angen rhagor o waith archwilio yn y dyfodol o ran y risgiau i'r Cyngor yn rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.



Rhaglen archwilio perfformiad	Disgrifiad byr
Cynaliadwyedd Ariannol	Prosiect sy'n gyffredin i'r holl gynghorau lleol a fydd yn asesu cynaliadwyedd ariannol yn sgil heriau presennol a'r rhai y disgwylir yn y dyfodol
Adolygu trefniadau gweithio gydag eraill	Mae'r Cyngor yn rhan o sawl partneriaeth, trefniadau gweithio ar y cyd, cydwasanaethau a modelau cyflawni eraill.  Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried y gwerth am arian/adenillion y mae'r Cyngor a'i ddinasyddion yn eu cael trwy weithio gydag eraill.
Adolygu Ffordd Gwynedd	Gwaith oedi a myfyrio ar sut y mae Ffordd Gwynedd wedi'i ymgorffori, cyflawniadau hyd yn hyn a sut y mae'r Cyngor yn dysgu o'r rhaglen i'w helpu i gyflawni ei nodau.
2019-20 astudiaethau llywodraeth leol	(Ariannwyd gan Gronfa Gyfunol Cymru) Caiff yr astudiaethau canlynol eu cynnal: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygiad o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ac effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth;</li> <li>• Effaith cynnu ar wasanaethau dewisol mewn Llywodraeth Leol; A</li> <li>• Masnacheiddio mewn Llywodraeth Leol.</li> </ul>

26 Mae'r prosiectau archwilio perfformiad a oedd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Archwilio y llynedd, sy'n parhau neu sydd wedi'u disodli gan brosiectau eraill drwy gytundeb â chi, wedi'u nodi yn [Atodiad 2](#).

## Ardystio hawliadau a ffurflenni grant

- 27 Gofynnwyd i mi wneud gwaith ardystio ar hawliadau a ffurflenni grant Cyngor Gwynedd.
- 28 Fel oedd yn wir y llynedd, ni fydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i mi ddarparu unrhyw adroddiad am ganfyddiadau ffeithiol o ran unrhyw lefelau gweithgarwch na chanlyniadau.
- 29 Mae fy ffi archwilio ar gyfer y gwaith hwn wedi'i nodi yn [Arddangosyn 5](#).

## Ffi, tîm archwilio ac amserlen

### Ffi

- 30 Mae eich amcangyfrif o ffi ar gyfer 2019 wedi'i nodi yn **Arddangosyn 5**. Bu rhai newidiadau bach i fy nghyfraddau ffioedd ar gyfer 2019, fodd bynnag bydd fy nhimau archwilio yn parhau i ysgogi effeithlonrwydd yn eu harchwiliadau er mwyn sicrhau na fyddwch chi'n ysgwyddo unrhyw gynnydd yn y ffioedd.

#### Arddangosyn 5: ffi archwilio

Mae'r tabl hwn yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2019, yn ôl maes y gwaith archwilio, ynghyd â'r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer y llynedd.

Maes archwilio	Ffi arfaethedig (£) <sup>2</sup>	Ffi wirioneddol y llynedd (£)
Archwiliad o gyfrifon <sup>3</sup>	180,450	180,450
Archwiliad o gyfrifon GwE	11,000	11,000
Archwiliad o Gydbwllgorau	1,700	1,700
Gwaith archwilio perfformiad <sup>4</sup>	99,449	99,537
Gwaith ardystio grantiau <sup>5</sup>	100,000	100,000
Cyfanswm y ffi	329,599	329,687

- 31 Bydd cynllunio yn barhaus, ac efallai bydd angen newid fy rhaglen waith archwilio ac felly fy ffi, os bydd risgiau allweddol newydd yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod â'r Cyngor yn gyntaf.
- 32 Mae rhagor o wybodaeth am [fy ngraddfeydd ffioedd a gosod ffioedd](#) ar gael ar ein gwefan.

<sup>2</sup> Nodiadau: Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, ni chodir hyn arnoch chi

<sup>3</sup> Yn daladwy o fis Tachwedd 2018 hyd fis Hydref 2019.

<sup>4</sup> Yn daladwy o fis Ebrill 2019 hyd fis Mawrth 2020.

<sup>5</sup> Yn daladwy fel gwaith a wnaed

## Y tîm archwilio

33 Crynhoir prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn Arddangosyn 6.

### Arddangosyn 6: fy nhîm archwilio

Enw	Swyddogaeth	Rhif cyswllt	Cyfeiriad e-bost
Derwyn Owen	Cyfarwyddwr Ymgysylltu	02920 320651	<a href="mailto:derwyn.owen@audit.wales">derwyn.owen@audit.wales</a>
Ian Howse	Arweinydd Ymgysylltiad – Archwiliad Ariannol	02920 264319	<a href="mailto:ihowse@deloitte.co.uk">ihowse@deloitte.co.uk</a>
Huw Rees	Arweinydd Ymgysylltiad – Archwiliad Perfformiad	02920 320599	<a href="mailto:huw.rees@audit.wales">huw.rees@audit.wales</a>
Clare Skivens	Rheolwr Archwilio Ariannol	02920 264341	<a href="mailto:cskivens@deloitte.co.uk">cskivens@deloitte.co.uk</a>
Jeremy Evans	Rheolwr Archwilio Perfformiad	07825 052861	<a href="mailto:jeremy.evans@audit.wales">jeremy.evans@audit.wales</a>
Alan Hughes	Arweinydd Archwilio Perfformiad	02920 829349	<a href="mailto:alan.hughes@audit.wales">alan.hughes@audit.wales</a>

34 Gallaf gadarnhau bod pob aelod o fy nhîm yn annibynnol ar Gyngor Gwynedd a'ch swyddogion. Hefyd, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi ddwyn i'ch sylw.

## Secondiad staff

35 Bydd cyfrifydd dan hyfforddiant a gyflogir gan Swyddfa Archwilio Cymru yn mynd ar secondiad i Gyngor Gwynedd ar gyfer y cyfnod o fis Ionawr 2020 hyd fis Mai 2020. Mae'r secondiad hwn yn rhan o fenter a ariennir gan Gronfa Gyfunol Cymru sydd â'r nod o ganiatáu i gyfrifyddion dan hyfforddiant ehangu eu sgiliau a chael profiad o weithio mewn gwahanol rannau o sector cyhoeddus Cymru.

36 Er mwyn diogelu rhag unrhyw fgythiadau posibl i annibyniaeth a gwrthrychedd yr archwilyr, mae Swyddfa Archwilio Cymru a Chyngor Gwynedd wedi cytuno ar y rhagofalon canlynol:

- ni fydd y rhai ar secondiad yn cyflawni unrhyw ddyletswyddau a waherddir gan Safon Foesebol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2016 ac ni fydd yn cael arfer awdurdod yn ôl disgrisiwn i ymrwymo Cyngor Gwynedd i sefyllfa neu driniaeth gyfrifyddu benodol;

- bydd y sawl ar secondiad yn cyflawni tasgau ar lefel gymharol is, caiff ei oruchwylio'n briodol ac ni fydd yn cyflawni swyddogaeth reoli nac yn rhan o unrhyw drefniadau gwneud penderfyniadau Cyngor Gwynedd; a
- bydd y secondiad am gyfnod byw o fewn ystyr Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2016.

## Amserlen

37 Byddaf yn darparu adroddiadau, neu allbynnau eraill y cytunir arnynt i Gyngor Gwynedd yn ymdrin â'r meysydd gwaith a nodir yn y ddogfen hon. Nodir fy mhrif bwyntiau yn y broses yn [Arddangosyn 7](#).

**Arddangosyn 7:** mae'r tabl hwn yn nodi'r amserlen arfaethedig ar gyfer cwblhau ac adrodd ar fy ngwaith archwilio ar yr awdurdod

Allbwn arfaethedig	Gwaith a wnaed	Adroddiad wedi'i gwblhau
<b>Cynllun Archwilio 2019</b>	Chwefror 2019	Mawrth 2019
<b>Gwaith cyfrifon ariannol:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol</li> <li>• Barn ar y Datganiadau Ariannol</li> <li>• Memorandwm Cyfrifon Ariannol</li> </ul>	Chwefror hyd Gorffennaf 2019	Gorffennaf 2019 Gorffennaf 2019 Gorffennaf 2019
<b>Gwaith perfformiad:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Archwiliad o'r Cynllun Gwella</li> <li>• Archwiliad o'r Asesiad o Berfformiad</li> <li>• Asesiad Risg a Sicrwydd</li> <li>• Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol</li> <li>• Adolygu trefniadau gweithio gydag eraill</li> <li>• Adolygu Ffordd Gwynedd</li> </ul>	Ebrill 2019  Tachwedd 2019  Hydref – Tachwedd 2019  Mai – Gorffennaf 2019  I'w gadarnhau  I'w gadarnhau	Mai 2019*  Rhagfyr 2019*  Dim adroddiad: bydd yn rhan o waith archwilio 2019/20 ac archwiliad 2020.  Medi 2019*  I'w gadarnhau  I'w gadarnhau

Allbwn arfaethedig	Gwaith a wnaed	Adroddiad wedi'i gwblhau
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynaliadwyedd ariannol</li> </ul>	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau
Adroddiad Gwella Blynyddol	Ebrill 2019 – Mai 2020	Mehefin 2020*
Cynllun Archwilio 2020	Hydref hyd - Rhagfyr 2019	Ionawr 2020*

\* Amcangyfrif

## Datblygiadau yn y dyfodol ar fy ngwaith archwilio

- 38 Nodir manylion datblygiadau eraill yn y dyfodol, gan gynnwys newidiadau sydd ar ddod, i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol allweddol, seminarau Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru a'r gwaith yr wyf wedi'i gynllunio ar barodrwydd y sector cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer Brexit yn **Atodiad 3**.

# Atodiad 1

## Cyfrifoldebau perthnasol

### Archwiliad o gyfrifon

Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi fy mhwerau a fy nyletswyddau i gyflawni eich archwiliad ariannol. Fy nghyfrifoldeb i yw cyflwyno tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar:

- eu 'gwirionedd a'u tegwch', gan ddarparu sicrwydd eu bod yn:
  - rhydd rhag camddatgan, boed trwy wall neu dwyll;
  - cydymffurfio â gofynion statudol a gofynion perthnasol eraill; ac yn
  - cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifyddol.
- cysondeb yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol â'r datganiadau ariannol.

Mae'n rhaid imi nodi hefyd drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â gofynion, os nad yw cofnodion cyfrifyddu priodol wedi'u cadw, os nad yw'r datgeliadau angenrheidiol ynghylch cydnabyddiaeth a thrafodiadau eraill wedi'u gwneud neu os nad wyf i wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol imi asesu a oes gan Gyngor Gwynedd drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y defnydd o adnoddau. I gyflawni hyn, rwy'n ystyried:

- canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;
- system rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd, fel yr adroddwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a fy adroddiad arni;
- canlyniadau gwaith arall a wnaed, gan gynnwys gwaith a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), ardystiad hawliadau a ffurflenni, ac ymarferion paru data;
- canlyniadau gwaith cyrff arolygu allanol eraill pan fo hynny'n berthnasol i fy nghyfrifoldebau; ac
- unrhyw waith arall sy'n ymdrin â materion na thrafodir uchod, ac sy'n angenrheidiol yn fy marn i er mwyn cyflawni fy nyletswyddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi hawliau'r cyhoedd ac etholwyr i archwilio datganiadau ariannol Cyngor Gwynedd, i ofyn i mi yr Archwilydd Penodedig, gwestiynau ynghylch y cyfrifon, a phan fo hynny'n briodol, i herio eitemau yn y cyfrifon. Mae'n rhaid i mi ystyried hefyd a ddylwn i lunio adroddiad, er budd y cyhoedd, ar unrhyw fater a ddaw i'm sylw yn ystod yr archwiliad.

Nid yw fy ngwaith archwilio yn rhyddhau'r rheolwyr neu'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu o'u cyfrifoldebau, sy'n cynnwys:

- paratoi'r datganiadau ariannol ac Adroddiad Blynyddol yn unol â safonau a chanllawiau cyfrifyddu perthnasol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- sicrhau rheoleidd-dra y trafodiadau ariannol; a
- sicrhau gwerth am arian yn y defnydd o adnoddau.

Mae rheolwyr yn cytuno i:

- ganiatáu i mi weld yr holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol, fel cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- darparu gwybodaeth ychwanegol y mae'n bosibl y byddaf yn gofyn i'r rheolwyr amdani at ddiben yr archwiliad; a
- chaniatáu i mi siarad ag unrhyw bersonau yng Nghyngor Gwynedd sy'n angenrheidiol yn y fy marn i er mwyn cael tystiolaeth ar gyfer yr archwiliad.

Bydd angen i'r rheolwyr ddarparu sylwadau ysgrifenedig i mi yn cadarnhau:

- eu bod wedi cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol;
- bod yr holl drafodiadau wedi'u cofnodi a'u cynnwys yn y datganiadau ariannol;
- y darparwyd gwybodaeth gyflawn i mi at ddibenion yr archwiliad; ac
- yn cefnogi tystiolaeth archwilio arall sy'n berthnasol i'r datganiadau ariannol neu'r honiadau penodol yn y datganiadau ariannol os wyf i o'r farn bod hynny'n angenrheidiol neu'n ofynnol yn ôl y Safonau Archwilio Rhyngwladol.

## Archwiliad perfformiad

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi, trwy archwilio'r cyfrifon neu fel arall, fodloni fy hun bod y gan y corff drefniadau priodol ar waith i:

- sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- bod y corff, os yw'n ofynnol iddo gyhoeddi gwybodaeth yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 47 (gwybodaeth am berfformiad), wedi gwneud trefniadau priodol i gasglu a chofnodi'r wybodaeth a'i chyhoeddi fel sy'n ofynnol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan yr adran honno.

Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau gwella i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hefyd yn pennu gofynion penodol i awdurdodau nodi amcanion gwella a chyhoeddi cynlluniau gwella blynyddol ac asesiadau perfformiad. Diffiniad awdurdodau gwella yw cynghorau sir a bwrdeistref sirol, awdurdodau parc cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Mae'r Mesur hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal asesiad gwella ar gyfer pob awdurdod gwella bob blwyddyn, i bennu a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'i ddyletswydd gyffredinol a gofynion y Mesur. Mae'n rhaid i mi archwilio hefyd a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ac adrodd ar welliant.

Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd, dan rai amgylchiadau, gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), a bydd yn darparu adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn cysylltiad â hyn, a gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi adroddiadau archwiliadau ac asesiadau yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol (o dan adran 24). Bydd hyn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau o arolygiadau arbennig.

Mae Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal archwiliadau o gyrrff cyhoeddus at ddibenion asesu i ba raddau y mae wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

- (a) bennu amcanion llesiant; a
- (b) chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae'n rhaid i mi gynnal archwiliad o'r fath ar bob corff cyhoeddus o leiaf unwaith mewn cyfnod o bum mlynedd. Cyn diwedd y cyfnod, mae'n rhaid i mi adrodd ar ganlyniadau'r archwiliadau hynny i'r Cynulliad Cenedlaethol.



## Atodiad 2

### Gwaith perfformiad yn amlinellid archwilio y llynedd sy'n parhau o hyd

Arddangosyn 8: gwaith perfformiad yn amlinellid archwilio y llynedd sy'n parhau o hyd

Prosiect archwilio perfformiad	Statws	Sylwadau
<b>Gwasanaethau hamdden</b> Bydd yr adolygiad hwn yn darparu dirnadaeth o farn defnyddwyr gwasanaethau ar y canolfannau hamdden ac archwilio i ba raddau y mae'r gwasanaeth presennol yn diwallu eu hanghenion. Bydd hefyd yn ceisio pennu pa mor effeithiol yw'r ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaethau.	Gwaith maes	Rydym yn bwriadu cwblhau'r gwaith hwn ym Mehefin 2019.
<b>Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol</b> Bydd yr archwiliad hwn yn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i asesu i ba raddau mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau tuag at gyflawni ei Amcanion Llesiant.	Adroddiad drafft	Disgwyl adroddiad drafft fis Mehefin 2019.

# Atodiad 3

## Datblygiadau eraill yn y dyfodol

### A. Newidiadau allweddol sydd ar y gweill i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol

#### Arddangosyn 9: newidiadau i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol

Mae'r tabl hwn yn rhoi manylion y prif newidiadau yn y dyfodol i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol

Safon	Dyddiad dod i rym	Rhagor o fanylion
Lesoedd IFRS16	Disgwyllir yn 2020-21	Bydd IFRS 16 yn disodli'r safon lesoedd presennol yn IAS 17. Y newid allweddol yw ei bod y dileu i raddau helaeth y gwahaniaeth rhwng lesoedd gweithredu ac ariannol ar gyfer lesddeiliaid, trwy gyflwyno un model cyfrifyddu i lesddeiliaid sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo nodi asedau a rhwymedigaethau ar gyfer yr holl lesoedd â chyfnod o fwy na 12 mis, oni bai bod gwerth isel i'r ased sylfaenol. Bydd yn arwain at nodi'r holl lesoedd ar y fantolen yn ased wedi'i seilio ar egwyddor hawl defnyddio â'r rhwymedigaeth gyfatebol ar gyfer ei logi yn y dyfodol. Mae hyn yn newid sylweddol i drefn gyfrifyddu lesddeiliaid.

### B. Cyfnewidfa Arfer Da

Mae Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu gwasanaethau cyhoeddus i wella trwy rannu gwybodaeth ac arferion sy'n gweithio. Cynhelir digwyddiadau lle gellir cyfnewid gwybodaeth â phobl a rhannu adnoddau ar-lein. Y prif feysydd gwaith yw rheoli ariannol, staff a llywodraethu'r sector cyhoeddus.

[Rhagor o wybodaeth, gan gynnwys manylion am ddigwyddiadau'r Gyfnewidfa Arfer Da sydd wedi'u trefnu ac allbynnau o seminarau blaenorol.](#)

### C. Brexit: paratoi ar gyfer ymadawiad y Deyrnas Unedig ag aelodaeth yr Undeb Ewropeaidd

Yn unol ag Erthygl 50 o Gytuniad Rhufain, bydd y Deyrnas Unedig yn peidio â bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd ar 29 Mawrth 2019. Mae trafodaethau yn parhau, ac mae'n parhau i fod yn aneglur a gyrhaeddir cytundeb ar gyfnod pontio hyd at 31 Rhagfyr 2020, neu a fydd ymadawiad 'dim cytundeb' ar unwaith yn digwydd fis Mawrth nesaf.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dechrau rhaglen waith sy'n edrych ar y trefniadau y mae'r sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, gan gynnwys holl gyrff y GIG, yn eu rhoi ar waith er mwyn paratoi ar gyfer ac ymateb i ymadawiad Prydain â'r Undeb Ewropeaidd. Bydd hyn ar ffurf trosolwg lefel uchel i weld beth sy'n cael ei roi ar waith ym mhob rhan o sector cyhoeddus Cymru, a beth yw'r materion allweddol o safbwynt gwahanol rannau gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu gwneud y gwaith hwn ar ddau gam. Yn nhymor yr hydref 2018, cyhoeddodd alwad am dystiolaeth i lunio crynodeb sylfaenol o'r trefniadau sy'n cael eu rhoi ar waith. Ar 19 Chwefror 2019, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad ar baratodau Cymru ar gyfer Brexit heb gytundeb. Caiff hyn ei ddilyn gan ragor o waith maes archwilio yn ystod gweddill 2019.<sup>6</sup>

<sup>6</sup> <http://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/paratodau-yng-nghymru-ar-gyfer-brex-it-heb-gytundeb>

Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales

## Cynllun Archwilio 2019 – Cronfa Bensiwn Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: 15 Ebrill 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1206A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd/i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn Atodiad 1.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwyllir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti'n berthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn drydydd parti'n berthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [infoofficer@audit.wales](mailto:infoofficer@audit.wales).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys

## Cynllun Archwilio 2019

Crynodeb	4
Archwiliad o gyfrifon y Gronfa Bensiwn	4
Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen	7
Datblygiadau yn y dyfodol i'm gwaith archwilio	9
<b>Atodiadau</b>	
Atodiad 1 – priod gyfrifoldebau	10
Atodiad 2 – datblygiadau eraill yn y dyfodol	11

# Cynllun Archwilio 2019

## Crynodeb

- 1 Fel eich archwilydd allanol, fy nod yw cynnal archwiliad sy'n cyflawni fy nyletswyddau statudol fel yr Archwilydd Cyffredinol a'm rhwymedigaethau o dan y Cod Ymarfer Archwilio i archwilio ac ardystio pa un a yw datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd (y Gronfa Bensiwn) yn 'wir a theg'.
- 2 Diben y cynllun hwn yw nodi'r gwaith y bwriadaf ymgymryd ag ef, pryd yr ymgwymer ag ef, faint y bydd yn ei gostio a phwy fydd yn ymgymryd ag ef.
- 3 Ni chyfyngwyd arnaf wrth gynllunio cwrpas yr archwiliad hwn.
- 4 Nodir fy nghyfrifoldebau, ynghyd â chyfrifoldebau'r rheolwyr a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn [Atodiad 1](#).

## Archwiliad o gyfrifon y gronfa bensiwn

- 5 Mae'r gwaith archwilio a wneir gennyf er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau yn ymateb i'm hasesiad o risgiau. Mae'r ddealltwriaeth hon yn ein galluogi i ddatblygu dull archwilio sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â risgiau penodol gan roi sicrwydd ar yr un pryd ynglŷn â chyfrifon y Gronfa Bensiwn yn eu cyfanrwydd. Mae tri cham i'm dull archwilio fel y nodir yn [Arddangosyn 1](#).

### Arddangosyn 1: fy null archwilio

Testun amgen: Mae'r tabl hwn yn crynhoi tri cham fy null archwilio ariannol, sef cynllunio, profi ac adrodd.



- 6 Nodir y risgiau o gamdatganiadau perthnasol yr ystyriaeth eu bod yn sylweddol ac y mae angen rhoi ystyriaeth archwilio arbennig iddynt o ganlyniad i hynny yn [Arddangosyn 2](#), ynghyd â'r gwaith y bwriadaf ymgymryd ag ef i ymdrin â nhw. Nodir hefyd y meysydd archwilio allweddol eraill y bydd fy nhîm yn canolbwyntio arnynt.



## Arddangosyn 2: Risgiau archwilio ariannol

Testun amgen: Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r risgiau archwilio ariannol a'r gwaith archwilio cyfatebol a gynlluniwyd mewn ymateb iddynt.

Risgiau archwilio ariannol	Ymateb archwilio arfaethedig
<b>Risgiau sylweddol</b>	
<p>Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33].</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;</li> <li>• adolygu'r broses o ddylunio a gweithredu'r rheolaethau sydd ar waith gan y rheolwyr mewn perthynas â phrosesu cofnodion mewn dyddlyfrau;</li> <li>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a</li> <li>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol.</li> </ul>
<b>Meysydd archwilio eraill i ganolbwyntio arnynt</b>	
<p><b>Cyflawnrwydd a chywirdeb trosglwyddo asedau i Gronfa Cymru</b></p> <p>Yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth fod yn rhaid i Gynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol gyfuno eu hasedau er mwyn lleihau cost buddsoddi yn nhermau arian cyhoeddus, mae'r Gronfa wedi cytuno i ddod yn rhan o Gronfa Cymru.</p> <p>Byddai trosglwyddo'r asedau hyn yn faes i ganolbwyntio arno o ystyried yr angen i bennu cyflawnrwydd a chywirdeb trosglwyddo'r asedau hyn.</p>	<p>Byddwn yn rhoi'r gweithdrefnau archwilio canlynol ar waith:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• adolygu'r broses o ddylunio a gweithredu'r rheolaethau sydd ar waith gan y rheolwyr er mwyn cadarnhau cywirdeb y broses o gysoni asedau a drosglwyddwyd i'r gronfa newydd a'r broses o ddyrannu buddsoddiadau;</li> <li>• adolygu'r broses o ddylunio a gweithredu'r rheolaethau sydd ar waith yng Nghronfa Cymru er mwyn rheoli buddsoddiadau a gweithredu trefniadau prisio a pherfformiad y gronfa gyfun a chyflwyno adroddiadau arnynt;</li> <li>• cadarnhau cyflawnrwydd a chywirdeb gwerthoedd yr asedau a drosglwyddwyd drwy gymharu balansau cau'r asedau ecwiti a nodir ar ddadansoddiad rheoli'r cleient</li> </ul>

	<p>a'r adroddiad pontio â'r balansau agoriadol yng Nghronfa Cymru;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cynnal adolygiad o'r adroddiad pontio sy'n darparu trosolwg o'r asedau a drosglwyddwyd i Gronfa Cymru, er mwyn nodi p'un a oes unrhyw faterion arwyddocaol i'w nodi; a</li> <li>• byddwn yn adolygu adroddiad rheolaethau mewnol Cronfa Cymru yn ogystal ag adroddiad rheolaethau mewnol Custodian er mwyn cadarnhau p'un a oes rheolaethau priodol ar waith ynghylch trosglwyddo asedau.</li> </ul>
--	--

- 7 Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod datganiadau cyfrifyddu'r Gronfa Bensiwn yn gywir a theg, ond mabwysiadaf gysyniad o berthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rheini a allai gamarwain y sawl sy'n darllen y cyfrifon. Caiff y lefelau a ddefnyddiaf i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol eu cyflwyno i'r Pwyllgor Pensiynau, y Bwrdd Pensiynau ac i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu Cyngor Gwynedd (y Cyngor), fel awdurdod gweinyddu'r Gronfa Bensiwn yn ei chyfanrwydd, cyn cwblhau'r archwiliad.
- 8 At ddibenion adrodd, byddaf yn ymdrin ag unrhyw gamddatganiadau sydd islaw lefel ddibwys (a bennir ar 5% o berthnasedd) fel materion nad oes angen i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu eu hystyried ac felly ni fyddaf yn cyflwyno adroddiad arnynt.

- 9 Mae fy ffioedd a'r amserlenni arfaethedig ar gyfer cwblhau'r archwiliad yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:
- y caiff y datganiadau ariannol eu darparu'n unol â'r terfynau amser y cytunwyd arnynt, yn unol â'r ansawdd a ddisgwylir ac y byddant wedi bod yn destun adolygiad sicrwydd ansawdd cadarn;
  - bod safleoedd a chyfleusterau priodol yn cael eu darparu i alluogi fy nhîm archwilio i gyflawni fy archwiliad yn effeithlon;
  - y bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad; a
  - bod yr holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith gennych i alluogi'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i roi'r holl sicrwydd sydd ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a anfonir ataf.

## Swyddogaethau archwilio statudol

- 10 Yn ychwanegol at archwilio'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol i gael cwestiynau a gwrthwynebiadau i'r cyfrifon gan etholwyr lleol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:
- Adran 30 Arolygu dogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad; ac
  - Adran 31 Hawl i wneud gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad.
- 11 Codir ffioedd archwilio am waith a wneir wrth ymdrin â chwestiynau a gwrthwynebiadau gan etholwyr. Oherwydd y bydd gwaith archwilio yn dibynnu ar nifer a natur unrhyw gwestiynau a gwrthwynebiadau, nid oes modd amcangyfrif ffi archwilio ar gyfer y gwaith hwn.
- 12 Os byddaf yn derbyn cwestiynau a gwrthwynebiadau, trafodaf ffioedd archwilio posibl bryd hynny.

## Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen

### Y ffi

- 13 Nodir eich ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2019 yn Arddangosyn 3. Mae'r ffigur hwn yn gyson â'r ffi a nodwyd yng nghynllun archwilio 2018.

#### Arddangosyn 3: ffi archwilio

Mae'r tabl hwn yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2019, ynghyd â'r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer 2018.

	Ffi arfaethedig ar gyfer 2019 (£)	Ffi wirioneddol ar gyfer 2018 (£)
Archwiliad o gyfrifon y gronfa bensiw	34,200	34,200

- 14 Bydd y broses gynllunio yn un barhaus, ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen o waith archwilio ac felly fy ffi, os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn codi. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod yn gyntaf â'r Cyfarwyddwr Cyllid.
- 15 Ceir rhagor o wybodaeth am fy [ngraddfeydd ffioedd a'r broses o bennu ffioedd](#) ar ein gwefan.

## Tîm archwilio

- 16 Ceir crynodeb o brif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn [Arddangosyn 4](#).

### Arddangosyn 4: fy nhîm archwilio

Enw	Rôl	Rhif cyswllt	Cyfeiriad e-bost
Andy Fern	Arweinydd Ymgysylltu – Archwilio Ariannol	01216968981	<a href="mailto:Anfern@deloitte.co.uk">Anfern@deloitte.co.uk</a>
Sam Roden	Rheolwr Archwilio Ariannol	01216955148	<a href="mailto:sroden@deloitte.co.uk">sroden@deloitte.co.uk</a>
Laura Allaway	Arweinydd Tîm yr Archwiliad Ariannol	01216955536	<a href="mailto:lallaway@deloitte.co.uk">lallaway@deloitte.co.uk</a>

- 17 Gallaf gadarnhau bod aelodau fy nhîm oll yn annibynnol ar y Gronfa Bensiwn a'i swyddogion. At hynny, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi dynnu eich sylw ato.

## Amserlen

- 18 Byddaf yn cyflwyno adroddiadau, neu allbynnau eraill y cytunwyd arnynt, i'r Pwyllgor Pensiynau, y Bwrdd Pensiynau a Phwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd, yn ymdrin â'r meysydd gwaith a nodir yn y ddogfen hon. Nodir fy ngherrig milltir allweddol yn [Arddangosyn 5](#).

### Arddangosyn 5: amserlen

Allbwn arfaethedig	Gwaith a wnaed	Llunio'r adroddiad terfynol
<b>Cynllun Archwilio 2019</b>	Ionawr – Mawrth 2019	Ebrill 2019

<b>Gwaith cyfrifon ariannol:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol</li> <li>• Barn ar y Datganiadau Ariannol</li> </ul>	Mai – Mehefin 2019	Gorffennaf 2019
<b>Cynllun Archwilio 2020</b>	Ionawr – Mawrth 2020	Mawrth 2020

## Datblygiadau yn y dyfodol i'm gwaith archwilio

- 19 Nodir manylion datblygiadau eraill yn y dyfodol, gan gynnwys seminarau Cyfnewidfa Arfer Da (GPX) Swyddfa Archwilio Cymru a'r gwaith y bwriadaf ei gynnal ar barodwydd y sector cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer Brexit yn **Atodiad 2**.

# Atodiad 1

## Priod gyfrifoldebau

Y Cyngor yw awdurdod gweinyddu'r Gronfa Bensiwn. Paratowyd y Cynllun Archwilio hwn i fodloni gofynion y safonau archwilio ac arferion archwilio priodol. Mae'n rhoi amlinelliad i'r Cyngor o'r gwaith archwilio ariannol sydd ei angen ar gyfer cyfrifon y Gronfa Bensiwn.

Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi fy mhwerau a'm dyletswyddau i gynnal eich archwiliad ariannol. Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Gronfa Bensiwn sy'n cynnwys barn ar eu 'gwirionedd a'u tegwch', gan roi sicrwydd eu bod:

- yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol pa un a gawsant eu hachosi drwy dwyll neu wall;
- yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a gofynion cymwys eraill; ac
- yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu o ran cyfrifyddu.

Nid yw fy ngwaith archwilio yn rhyddhau rheolwyr, na'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, o'u cyfrifoldebau sy'n cynnwys:

- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â safonau a chanllawiau cyfrifyddu cymwys;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol; a
- sicrhau gwerth am arian o ran y defnydd o adnoddau.

Mae'r rheolwyr yn cytuno i roi'r canlynol i mi:

- mynediad i'r holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- gwybodaeth ychwanegol y gallaf ofyn amdani gan y rheolwyr er mwyn cynnal yr archwiliad; a
- mynediad anghyfyngedig i unigolion o fewn yr Awdurdod y byddaf yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt.

Bydd angen i'r rheolwyr roi sylwadau ysgrifenedig i mi er mwyn cadarnhau'r canlynol:

- eu bod wedi cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol;
- bod pob trafodyn wedi'i gofnodi ac wedi'i adlewyrchu yn y datganiadau ariannol;
- bod y wybodaeth a roddwyd i mi er mwyn cynnal yr archwiliad yn gyflawn; ac
- ategu tystiolaeth archwilio arall sy'n berthnasol i'r datganiadau ariannol neu honiadau penodol yn y datganiadau ariannol os ystyriaf fod hynny'n angenrheidiol neu os yw'n ofynnol o dan y Safonau Archwilio Rhyngwladol.

# Atodiad 2

## Datblygiadau eraill yn y dyfodol

### A. Cyfnewidfa Arfer Da

Mae Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu gwasanaethau cyhoeddus i wella drwy rannu gwybodaeth ac arferion sy'n gweithio. Cynhelir digwyddiadau lle gellir cyfnewid gwybodaeth wyneb yn wyneb a rhannu adnoddau ar-lein. Mae'r prif feysydd gwaith yn ymwneud â rheolaeth ariannol, staff y sector cyhoeddus a llywodraethu. Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys manylion am ddigwyddiadau'r Gyfnewidfa yn y dyfodol ac allbynnau seminarau blaenorol, ar gael yn [adran y Gyfnewidfa Arfer Da ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru](#).

### B. Brexit: paratoi i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd

Yn unol ag Erthygl 50 o Gytuniad Rhufain, ar 29 Mawrth 2019, ni fydd y Deyrnas Unedig bellach yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r negodiadau yn mynd rhagddynt o hyd, ac ar hyn o bryd, nid yw'n glir p'un a lwyddir i ddod i gytundeb ar gyfnod trosglwyddo hyd at 31 Rhagfyr 2020, neu p'un a fydd y Deyrnas Unedig yn gadael ar unwaith 'heb ddêl' ym mis Mawrth.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dechrau ar raglen waith sy'n ystyried y trefniadau y mae'r sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, gan gynnwys holl gyrff y GIG, yn eu rhoi ar waith er mwyn paratoi i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd, ac ymateb i'r sefyllfa honno. Bydd hyn ar ffurf trosolwg lefel uchel er mwyn cadarnhau pa drefniadau sy'n cael eu rhoi ar waith ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, ac i nodi'r materion allweddol o safbwynt gwahanol rannau o'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cynnal y gwaith cychwynnol hwn mewn dwy ran. Yn ystod hydref 2018, bydd yn llunio crynodeb sylfaenol o'r trefniadau sy'n cael eu rhoi ar waith. Caiff hyn ei ddilyn gan waith maes archwilio pellach yn ystod gwanwyn 2019.

Y nod yw llunio adroddiad yn ystod haf 2019. Caiff negeseuon allweddol ac argymhellion yr adroddiad eu gosod yng nghyd-destun y DU yn symud i gydberthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd erbyn diwedd y cyfnod pontio arfaethedig.

Fodd bynnag, os daw'n amlwg bod y DU yn debygol o adael yr Undeb Ewropeaidd heb Gytundeb Gadael (y senario 'dim dêl'), byddwn yn cyhoeddi adroddiad cyn gynted â phosibl yn ystod 2019, cyn i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd ar 29 Mawrth.

Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone : 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)



# Eitem 8

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	13 MEHEFIN 2019
TEITL	CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL
PWRPAS YR ADRODDIAD	AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 MAWRTH 2019
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 4 Chwefror 2019 hyd 31 Mawrth 2019.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2019:

Disgrifiad	Nifer
Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol	19

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 1 Chwefror 2019, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	LEFEL SICRWYDD	ATODIAD
Trefniadau Rheoli Risg o Dwyll a Llygredigaeth	Corfforaethol	-	Digonol	Atodiad 1
Polisi Chwythu'r Chwiban – Ysgolion Gwynedd	Addysg	Adnoddau	Digonol	Atodiad 2
Statws Cyflogaeth IR35	Addysg	Adnoddau	Digonol	Atodiad 3
GwE – Statws Cyflogaeth IR35	GwE	-	Cyfyngedig	Atodiad 4
Prynu Cyfarpar drwy'r Ysgol	Addysg	Ysgolion	Digonol	Atodiad 5
Difa Pla	Amgylchedd	Gwarchod y Cyhoedd	Digonol	Atodiad 6
Trefniadau Trwyddedu	Amgylchedd	Gwarchod y Cyhoedd	Digonol	Atodiad 7
Cynnal a Chadw Eiddo	Amgylchedd	Tir ac Eiddo'r Cyngor	Digonol	Atodiad 8
Cyfraniadau gan Gyflogwyr	Cyllid	Pensiynau a Chyflogau	Digonol	Atodiad 9
Budd-daliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol	Cyllid	Refeniw	Uchel	Atodiad 10
Gwaredu Cyfarpar TG	Cyllid	Technoleg Gwybodaeth	Digonol	Atodiad 11
Diogelwch Seiber	Cyllid	Technoleg Gwybodaeth	Digonol	Atodiad 12
Trefniadau Adfer Trychineb TG	Cyllid	Technoleg Gwybodaeth	Digonol	Atodiad 13

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	LEFEL SICRWYDD	ATODIAD
Statws Cyflogaeth IR35	Economi a Chymuned	Ar draws yr Adran	Uchel	Atodiad 14
Menter Adfywio Glannau a Chanol Tref Caernarfon – Trefniadau Llywodraethu	Economi a Chymuned	Strategaeth a Datblygu	Uchel	Atodiad 15
Trefniadau ar Alwad a Brys	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Ar draws yr Adran	Digonol	Atodiad 16
Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Ar draws yr Adran	Uchel	Atodiad 17
Plant – lleoliadau All-Sirol	Plant a Chefnogi Teuluoedd	Plant a Theuluoedd	Digonol	Atodiad 18
Gorfodaeth Stryd	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	Rheoli Gwastraff a Strydoedd	Digonol	Atodiad 19

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

<b>LEFEL SICRWYDD</b>	<b>UCHEL</b>	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
	<b>DIGONOL</b>	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
	<b>CYFYNGEDIG</b>	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.
	<b>DIM SICRWYDD</b>	Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

### **3. GWAITH DILYNIANT**

3.1 Mae trefniadau newydd wedi eu sefydlu ar gyfer archwiliadau dilyniant. Yn 2017/18, daethpwyd i gytundeb ar 163 o gamau gweithredu i'w cyflawni erbyn 31 Mawrth 2019. Yn dilyn cais am wybodaeth a thystiolaeth gan yr Unedau/Gwasanaethau perthnasol ar gynnydd gweithrediadau, dengys ar 31 Mawrth 2019 bod gweithrediad derbynol ar **94.48%** o'r camau cytunedig, h.y. 154 allan o 163. Ni dderbyniwyd ymateb ar gyfer yr archwiliadau canlynol:

- Manddaliadau (3 gweithrediad)
- Trefniadau ar gyfer Plant yn Gadael Gofal (1 gweithrediad)
- Targedau Ailgylchu (5 gweithrediad)

### **4. GWAITH AR Y GWEILL**

4.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Ebrill 2019:

- Cynlluniau Gofal a Chymorth (Plant) o dan Rhan 4 DGC (Cymru) 2014 (*Plant a Theuluoedd*)
- Rheoli Llifogydd (*Ymgynghoriaeth Gwynedd*)

### **5. ARGYMHELLIAD**

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 4 Chwefror 2019 hyd at 31 Mawrth 2019, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

## TREFNIADAU RHEOLI RISG O DWYLL A LLYGREDIGAETH CORFFORAETHOL

### 1. Cefndir

1.1 Mae awdurdod lleol yn hunanreoleiddio o ran ei drefniadau gwrth-dwyll. Dylai awdurdod lleol anelu i arddangos ei fod yn cynnal hunanasesiad realistig a'i fod wedi adnabod a deall y prif risgiau. Dylai gydnabod problemau a sefydlu cynlluniau gwaith i gwrdd ag unrhyw wendidau a'u bod yn cael eu gweithredu gyda chanlyniadau gweladwy. Mae "Risg o Dwyll, Llwgrobwro a/neu Lygredd" wedi cael ei adnabod fel un o risgiau corfforaethol y Cyngor. Adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2019, mewn adroddiad gan yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg, "ar hyn o bryd, ystyrir fod hwn yn risg isel yng nghyd-destun fframwaith llywodraethu'r Cyngor".

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Datblygwyd rhestr wirio 2016-19 "Taclo Twyll a Llygredd yn Lleol" (*Fighting Fraud and Corruption Locally*) a gefnogir gan Ganolfan Gwrth-Dwyll CIPFA<sup>1</sup> sydd yn manylu ar 34 o safonau disgwylidig. Adolygwyd cydymffurfiad yr Awdurdod gyda phob un o'r safonau hyn. 'Roedd gweithgaredd mewn perthynas â phob safon wedi'i fesur gan ddefnyddio'r graddfeydd canlynol:

Gradd	Diffiniad
	Cydymffurfio â'r rhestr wirio
	Cydymffurfio i raddau ond angen gwaith pellach i arddangos cydymffurfiad llawn
	Methiant i gydymffurfio
	Dim yn berthnasol

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>DIGONOL</b>	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Risg	Nifer
<b>UCHEL IAWN</b>	0
<b>UCHEL</b>	0
<b>CANOLIG</b>	1
<b>ISEL</b>	0

<sup>1</sup> Chartered Institute of Public Finance and Accountancy

## **5. Prif Ddarganfyddiadau**

- 5.1 Dengys yr hunan-asesiad yn erbyn y rhestr wirio bod y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â 22 allan o 34 o'r safonau, gyda 12 yn cydymffurfio'n rhannol.
- 5.2 Mae sawl un o'r safonau yn cyfeirio at Dîm Gwrth-Dwyll. Nid oes gan Gyngor Gwynedd Dîm penodol Gwrth-Dwyll, ond bydd ymchwiliadau i dwyll ac afreoleidd-dra yn cael eu cynnal gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Ar gyfer awdurdodau lleol sydd gyda thimau gwrth-dwyll pwrpasol, mae ganddynt gynlluniau gwaith penodol ar gyfer cynnal ymchwiliadau i dwyll yn ogystal â gwaith rhagweithiol gwrth-dwyll ac atal llygreddigaeth.
- 5.3 Mae'r gwaith o gynnal ymchwiliadau i dwyll yng Ngwynedd yn syrthio ar ysgwyddau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Yn y cynllun archwilio blynyddol mae darpariaeth yn cael ei wneud ar gyfer gwaith atal twyll a llygredd ynghyd ag ymarferiad Menter Twyll Cenedlaethol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer 2019-20 yn 40 diwrnod ac mae darpariaeth o 40 diwrnod wedi ei glustnodi ar gyfer cynnal gwaith ymatebol.
- 5.4 Yn sgil y ffaith nad oes gan Gyngor Gwynedd Dîm Gwrth-Dwyll pwrpasol, golyga hyn nad oes modd cydymffurfio yn gyflawn gyda'r 34 safon.
- 5.5 Mae gweithrediadau eisoes wedi eu hadnabod ar gyfer:
  - Cynnal gweithdai a rhannu ymarfer da
  - Cydweithio i ddatblygu ymchwiliadau i dwyll
  - Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar waith atal twyll dwywaith y flwyddyn
  - Codi ymwybyddiaeth am dwyll ar draws y Cyngor
  - Darparu hyfforddiant.
- 5.6 Gwelwyd nad oedd Strategaeth Gwrth-Dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrthlygredd 2019-22 ar gael i staff ar hyn o bryd yn y Ganolfan Bolisi.

## **6. Camau Gweithredu**

**Mae'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Sefydlu Strategaeth Gwrth-Dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-Lygredd 2019-22 ar y Ganolfan Bolisi**

**POLISI CHWYTHU'R CHWIBAN – YSGOLION GWYNEDD  
ADDYSG**

### 1. Cefndir

1.1 Yn Adroddiad Archwiliad Comisiynydd Plant Cymru am honiadau o gam-drin plant yn rhywiol mewn ysgol (Ymchwiliad Clywch, Mehefin 2004), argymhellodd y canlynol:

*“Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn er mwyn ei gwneud yn ofynnol bod gan lywodraethwyr pob ysgol, boed yn ysgol gymuned, yn cael ei rhedeg â chymorth gwirfoddol, wedi'i rheoli'n wirfoddol, yn ysgol sylfaen neu'n ysgol annibynnol a cholegau addysg bellach, bolisi datgelu cyfrinachau ar waith ac y rhoddir gwybod i'r holl athrawon a staff nad ydynt yn addysgu ynglŷn â'r modd y'i gweithredir.”*

1.2 Mewn ymateb i'r argymhelliad, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar, a chyhoeddi, canllawiau 'arferion gorau' i gynorthwyo cyrff llywodraethu i sefydlu gweithdrefnau chwythu'r chwiban (neu canu'r gloch) ar gyfer holl staff yr ysgol.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i unigolion sôn am bryderon, heb ofni y bydd rhywun yn dial arnynt, yn gwahaniaethu yn eu herbyn neu yn creu anfantais iddynt yn sgil hynny, trwy wirio bod polisi chwythu'r chwiban wedi ei fabwysiadu gan ysgolion y sir. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio fod polisi cyfredol mewn lle, ei fod ar gael yn rhwydd, e.e. ar wefan yr ysgol, a'i fod wedi ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y corff llywodraethu perthnasol. Ni wiriwyd ymwybyddiaeth gweithwyr yr ysgolion o'r polisi yn ystod archwiliad yma.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>DIGONOL</b>	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
<b>UCHEL IAWN</b>	0
<b>UCHEL</b>	0
<b>CANOLIG</b>	2
<b>ISEL</b>	0

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Lluniwyd Polisi Chwythu'r Chwiban gyda'r bwriad o annog gweithwyr i ddod ymlaen a sôn am bryderon difrifol sydd ganddynt ynghylch camymarfer, er mwyn cynnal hyder y cyhoedd a gwarchod enw da'r Cyngor. Bwriad y polisi yw annog a galluogi gweithwyr i rannu pryderon difrifol yn fewnol yn hytrach na dewis ceisio datrys pethau yn allanol.
- 5.2 Mae 'Polisi Chwythu'r Chwiban i Staff Ysgol' Cyngor Gwynedd yn seiliedig ar bolisi enghreifftiol Llywodraeth Cymru, 'Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban mewn Ysgolion a Pholisi Enghreifftiol' Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhagfyr 2007. Polisi Anstatudol i Lywodraethwyr ysgolion ydi'r Polisi Chwythu'r Chwiban yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Nid yw'n fandadol fod gan yr ysgolion bolisi mewn lle ond ystyrir yn ymarfer da. Atgyfnerthwyd pwysigrwydd o gael trefniant cadarn yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar y 7 Mawrth 2018, ble trafodwyd Polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor a'r pryder ynglŷn â gwarchod gweithwyr sydd yn 'chwythu'r chwiban'.
- 5.3 Ni ddylai sefydlu Polisi Chwythu'r Chwiban leihau ymrwymiad y corff llywodraethu. Nodir gweithdrefnau'r Llywodraeth:
- "Ni ddylai sefydlu polisi chwythu'r chwiban ychwaith leihau mewn unrhyw ffordd ymrwymiad y corff llywodraethu i ddelio â phryderon a fynegir gan unigolion heblaw staff yr ysgol, h.y. rhieni, disgyblion, llywodraethwyr ac ati, o dan ei weithdrefn gwyno neu unrhyw weithdrefnau perthnasol eraill."*
- 5.4 Yn Ionawr 2019, bu i'r Adran Addysg anfon pecyn o bolisiau i holl ysgolion Gwynedd oedd yn cynnwys templed 'Polisi Chwythu'r Chwiban i Staff Ysgol' Cyngor Gwynedd. Mae'r polisi hefyd yn cael ei gynnwys o fewn Pecyn Diogelu'r Adran Addysg. Yn dilyn hyn, cysylltwyd gyda phob Pennaeth Ysgol drwy e-bost er mwyn darganfod os oedd gan yr Ysgolion bolisi cyfredol mewn lle a'i fod wedi ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Corff Llywodraethu, a bod gan bob aelod o staff fynediad rhwydd at y polisi. Mae'r canlyniadau fel y ganlyn:
- 5.4.1 E-bostiwyd 101 o ysgolion ddwywaith a chafwyd ymateb gan 77 ohonynt, sef 76%.

	<b>Nifer Ysgolion</b>	<b>Nifer Ymatebion</b>	<b>Heb ymateb</b>
<b>Cynradd</b>	86	63	23
<b>Uwchradd</b>	13	12	1
<b>Arbennig</b>	2	2	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>101</b>	<b>77</b>	<b>24</b>
		<b>76%</b>	<b>24%</b>

- 5.4.2 O'r ymatebion a dderbyniwyd, cafwyd fersiwn o bolisi chwythu'r chwiban gan 71 Ysgol. Roedd y fersiynau a dderbyniwyd yn amrywio o ran cynnwys. Nid oedd copi wedi ei dderbyn gan 6 ysgol.
- 5.4.3 Derbyniwyd polisiau gwahanol i bolisi diweddaraf yr Adran Addysg gan 15 ysgol, roedd y rhain yn cynnwys polisiau blaenorol yr Adran Addysg megis 'Polisi Datgelu / 'Canu'r Gloch' Gwasanaeth Ysgolion fersiwn 2010 ac 2015. Gwelwyd bod y polisiau yn cyfeirio at y Cyngor yn hytrach na'r Corff Llywodraethu, yn cyfeirio at y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifol a chyfeirir at swyddi sydd bellach ddim yn bodoli. Nid yw'r polisi yn cyfeirio at ysgolion na staff ysgol, nodir: *"Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl staff y cyngor a chontractwyr sy'n gwneud gwaith i'r Cyngor ar eiddo'r Cyngor, megis gweithwyr asiantaeth neu adeiladwyr; cyflenwyr a'r rheini sy'n darparu gwasanaethau dan gontract gyda'r Cyngor ar eu heiddo eu hunain, megis cartrefi gofal."*



- 5.4.4 Roedd rhai elfennau tebyg wrth gymharu'r polisiau yma gyda'r polisi cyfredol, er enghraifft, mae'r ddau yn cyfeirio at y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 ac yn cyfeirio at 'Public Concern at Work' (PCAW). Mae'r Ddeddf yn diogelu cyflogeion rhag erledigaeth os ydynt yn gwneud datgeliad. Elusen annibynnol yw PCAW sydd bellach yn cael ei adnabod fel 'Protect'. Maent yn darparu cyngor cyfrinachol i unigolion sy'n dymuno mynegi pryder am dwyll a chamymddygiad difrifol arall.
- 5.4.5 Nid oedd pob ysgol wedi mabwysiadu'r polisi chwythu'r chwiban diweddaraf, nododd sawl ysgol bod mabwysiadu'r polisi wedi ei roi ar agenda cyfarfod nesaf y Llywodraethwyr. Ar gyfer yr ysgolion oedd eisoes wedi mabwysiadu'r polisi gwelwyd bod y cofnodion yn cadarnhau hyn. Serch hyn, roedd nifer fechan o ysgolion wedi mabwysiadu'r polisi dros dair blynedd yn ôl gydag un wedi ei fabwysiadu yn 2013.
- 5.4.6 Er bod y polisi wedi ei rannu gyda'r ysgolion yn Ionawr 2019, nododd un Pennaeth Ysgol Uwchradd nad oedd wedi derbyn unrhyw bolisi gan yr Awdurdod. Dylai'r ysgolion fod wedi derbyn y polisi fel rhan o'r Pecyn Diogelu blynyddol cyn i'r fersiwn diweddaraf yma gael ei anfon, fodd bynnag mae modd cael mynediad at bolisiau'r Adran Addysg drwy HWB sef safle iGwynedd yr Adran Addysg, mae gan bob Pennaeth fynediad ato.

## **6. Camau Gweithredu**

**Mae'r Adran Addysg wedi ymrwmo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Ail anfon templed Polisi Chwythu'r Chwiban i'r Ysgolion sydd ddim yn defnyddio'r fersiwn cyfredol ac i'r Ysgolion wnaeth ddim ymateb.**
- **Pob Pennaeth Ysgol yng Ngwynedd i dderbyn copi o adroddiad archwiliad 'Polisi Chwythu'r Chwiban – Ysgolion Gwynedd' fel bod modd iddynt weithredu fel sy'n briodol i'r Ysgol.**

**STATWS CYFLOGAETH  
ADDYSG**

**1. Cefndir**

1.1 Mae 'statws cyflogaeth' yn dynodi os yw unigolyn yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig yn ôl diffiniadau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn neddfwriaeth 'IR35: *Countering Avoidance in the Provision of Personal Services*'. Caiff statws cyflogaeth unigolyn effaith ar daliadau treth a chyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwr, a gall statws cyflogaeth anghywir arwain at gam-drafod ariannol yn ogystal â chosbau gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Caiff statws cyflogaeth unigolyn ei ddynodi drwy ystyried sawl ffactor a gall cyflogwyr ddefnyddio gwiriad '*Check employment status for tax*' ar wefan Llywodraeth y DU er mwyn gwirio statws. Wrth gynnal arolygiad, mae CThEM yn edrych ar natur perthynas rhwng gweithwyr a'r cyflogwr yn hytrach na chytundeb er mwyn dod i'r farn os ddylai'r trefniant fod yn rhan o IR35.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod y Cyngor yn talu unigolion yn gywir, yn seiliedig ar eu statws cyflogaeth, gan ymchwilio i ddarganfod os oes unrhyw unigolion sy'n cael eu talu drwy anfoneb ond a ddylent fod ar gyflogres y Cyngor. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r cyfrifyfr a dethol sampl o daliadau a wneir i weithwyr asiantaeth neu ymgynghorol ac ystyried amgylchiadau'r unigolion mewn perthynas â'u statws cyflogaeth.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>DIGONOL</b>	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
<b>UCHEL IAWN</b>	0
<b>UCHEL</b>	0
<b>CANOLIG</b>	2
<b>ISEL</b>	0

## **5. Prif Ddarganfyddiadau**

- 5.1 Gwiriwyd y cyfrifylfr ariannol am enghreifftiau o daliadau cyson a wneir i gyflenwyr gan ddefnyddio'r codau gwariant ar gyfer 'Gwasanaethau Cleient'. Roedd taliadau i un cyflenwr yn denu sylw ond ymddengys fod y drefn wedi dod i ben bellach felly ni ymchwiliwyd ymhellach. Fodd bynnag, manylir isod am achosion penodol.
  - 5.1.1 Gwelwyd bod taliadau cyson yn cael eu gwneud i un cyflenwr am gyfnod. Gwelwyd fod taliad drwy anfoneb wedi ei dalu ym mis Hydref 2017 a bod taliadau misol cyson wedi parhau tan Ebrill 2018. Gwelwyd fod unigolyn arall wedi cychwyn fel swyddog cyfatebol yn yr adran Addysg ar y gyflogres ym mis Ebrill 2018 sydd yn awgrymu mai swydd y dylai fod ar y gyflogres oedd yr unigolyn/cyflenwr yn ei gyflawni wrth ddarparu ei wasanaeth.
  - 5.1.2 Roedd yr unigolyn yma yn derbyn taliadau am fynychu cynadleddau ac yn defnyddio adnoddau a deunyddiau technoleg gwybodaeth y cyflogwr. Mae rheolau IR35 yn nodi y dylai unigolion hunan gyflogedig fod yn gyfrifol am eu hyfforddiant a'u deunyddiau eu hunain.
  - 5.1.3 Gwelwyd fod y cyflenwr yn atodi copi o ganlyniad y gwiriad statws cyflogaeth oddi ar wefan Llywodraeth y DU. Roedd yn nodi ei fod yn hunan gyflogedig gan ei fod gyda'r hawl i anfon eilydd i gyflawni gwaith ar ei ran. Mae'r hawl yma i fod yn amlygu mai'r cwmni sy'n darparu'r gwasanaeth yn hytrach na'r unigolyn yn unig. Mewn gwirionedd, ystyried y berthynas rhwng y gweithiwr a'r cleient buasai CThEM mewn archwiliad, buasai angen i'r Adran brofi nad arbenigedd a phrofiad yr unigolyn yw'r sail dros drefniant y gwasanaeth. Mae'n annhebygol y buasai'n bosib anfon eilydd ar fyr rybudd oherwydd yr angen am hawliau arbennig ar gyfer derbyn mynediad i swyddfeydd a systemau'r Cyngor.
  - 5.1.4 Gwelwyd taliadau cyson i gyflenwr arall hefyd. Fodd bynnag, mae'r nifer o daliadau a wneir yn flynyddol wedi gostwng ers 2017 ac nid oes taliad wedi ei brosesu ers Medi 2018.
  - 5.1.5 Mae posibilrwydd o oblygiadau ariannol ynghlwm â'r penderfyniadau yma, felly mae angen i holl Adrannau'r Cyngor fod yn ofalus ac ystyried rheolau Statws Cyflogaeth pan mae staff yn ymddeol neu ddyletswyddau/prosiectau angen eu cyflawni. Swyddogion Addysg sy'n gyfrifol am adolygu'r modd maent yn 'cyflogi' neu gomisiynu gwaith, a'u cyfrifoldeb hwy yw sicrhau fod statws cyflogaeth y gweithwyr yn gywir ac o fewn y canllawiau statudol.

## **6. Camau Gweithredu**

**Mae'r Pennaeth Addysg wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Cynnal dadansoddiad o'r staff i adnabod risgiau yn ymwneud â gweithlu sy'n agosáu at ymddeol i sicrhau bod gwybodaeth hanfodol yn cael ei gadw o fewn yr Adran Addysg.**
- **Sicrhau fod gweithwyr yn rhan o'r staff/gyflogres lle mae'r angen, drwy weithredu rheolau IR35 wrth ystyried talu am wasanaeth yn y dyfodol.**

## STATWS CYFLOGAETH GwE

### 1. Cefndir

1.1 Mae 'statws cyflogaeth' yn dynodi os yw unigolyn yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig yn ôl diffiniadau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn neddfwriaeth 'IR35: *Countering Avoidance in the Provision of Personal Services*'. Caiff statws cyflogaeth unigolyn effaith ar daliadau treth a chyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwr, a gall statws cyflogaeth anghywir arwain at gam-drafod ariannol yn ogystal â chosbau gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Caiff statws cyflogaeth unigolyn ei ddynodi drwy ystyried sawl ffactor a gall cyflogwyr ddefnyddio gwiriad 'Check employment status for tax' ar wefan Llywodraeth y DU er mwyn gwirio statws. Wrth gynnal arolygiad mae CThEM yn edrych ar natur perthynas rhwng gweithwyr a'r cyflogwr yn hytrach na chytundeb er mwyn dod i'r farn os ddylai'r trefniant fod yn rhan o IR35.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod y Cyngor yn talu unigolion yn gywir, yn seiliedig ar eu statws cyflogaeth, gan ymchwilio i ddarganfod os oes unrhyw unigolion sy'n cael eu talu drwy anfoneb ond dylai fod ar gyflogres y Cyngor. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r cyfriflyfr a dethol sampl o daliadau a wneir i weithwyr asiantaeth neu ymgynghorol ac ystyried amgylchiadau'r unigolion mewn perthynas â'u statws cyflogaeth.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>CYFYNGEDIG</b>	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
<b>UCHEL IAWN</b>	0
<b>UCHEL</b>	4
<b>CANOLIG</b>	0
<b>ISEL</b>	0

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Gwiriwyd y cyfrifylfr ariannol am enghreifftiau o daliadau cyson a wneir i gyflenwyr gan ddefnyddio'r codau gwariant ar gyfer 'Gwasanaethau Cleient'. Gwelwyd fod nifer o enghreifftiau o weithwyr yn derbyn tâl drwy ddarparu anfonebau eu hunain neu eu cwmnïau. Ymddengys fod nifer o'r gweithwyr yma yn cyflawni'r un rôl â nifer o aelodau staff GwE a delir drwy'r gyflogres.
- 5.1.1 Gwelwyd fod gwariant sylweddol ar 'Staff Asiantaeth' yn GwE yn ystod 2018/19. Fodd bynnag, ymddengys fod y cod yma yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amrywiaeth o wahanol daliadau (sy'n awgrymu cam-godio), ond amlygwyd nifer o daliadau cyson i sawl unigolyn a chwmni. Gwelwyd sawl enghraifft lle'r oedd gweithwyr yn bodoli ar y system swyddi fel 'Ymgynghorydd Her', ond yn cael eu talu drwy ddarparu anfonebau i GwE.
- 5.1.2 Yn ôl rheolau IR35, dylai staff hunan gyflogedig fod yn gyfrifol am baratoi a darparu deunyddiau gwaith eu hunain. Gan fod GwE, fel y cleient, yn darparu'r holl ddeunyddiau megis caledwedd a meddalwedd cyfrifiadurol mae hyn yn awgrymu fod yr unigolyn mewn gwirionedd yn gweithredu fel aelod o staff a ddylai fod ar y gyflogres. Gwelwyd enghraifft o ymholiad i'r Gwasanaethau Cefnogol ar gyfer darparu mynediad at systemau cyfrifiadurol y Cyngor lle mae angen rhif cyflog er mwyn cael hawl mynediad. Gwelwyd enghreifftiau eraill ble archebwyd caledwedd cyfrifiadurol ar gyfer gweithwyr sydd ddim ar y gyflogres. Oherwydd pryderon diogelu data, maent wedi dewis i ariannu caledwedd a meddalwedd cyfrifiadurol ar gyfer pob unigolyn sy'n cyflawni gwaith iddynt.
- 5.1.3 Yn ychwanegol gwelwyd sawl enghraifft o weithwyr sy'n anfonebu GwE yn gwneud hawliadau am ad-daliad am fynychu hyfforddiant a chynadleddau. Mae IR35 yn awgrymu y dylai gweithwyr hunan gyflogedig fod yn gyfrifol am eu hyfforddiant eu hunain. Nid oes disgwyl i'r cleient ariannu hyfforddiant unigolion sydd ddim yn gyflogedig gyda hwy, gan fod disgwyliad eu bod eisoes yn gymwys i wneud y gwaith. Oni bai bod yr unigolyn yn gweithio i'r cleient yma yn unig, sydd ei hun yn arwydd y dylai fod ar y gyflogres, yna bydd y buddion sy'n deillio o'r hyfforddiant yn aros gyda'r unigolyn a dim y cleient.
- 5.1.4 Gwelwyd fod rhai o'r gweithwyr a delir drwy anfonebau yn gyfrifol am gyllidebau o fewn GwE ac yn ardstio nifer o daliadau. Nid yw rhoi rheolaeth o gyllideb GwE i unigolyn sydd ddim yn aelod o staff yn ymarfer da. Gwelwyd hefyd fod swydd wedi ei hysbysebu gyda gweithiwr sydd ddim ar y gyflogres fel prif bwynt cyswllt a Rheolwr Llinell ar gyfer y swydd. Mae GwE yn cydnabod nad yw hyn yn ymarfer da ac mae'r drefn yma wedi dod i ben.
- 5.1.5 Y Cyflogwr sy'n gyfrifol am adolygu'r modd maent yn 'cyflogi' neu gomisiynu gwaith, a'u cyfrifoldeb hwy yw sicrhau fod statws cyflogaeth y gweithwyr yn gywir ac o fewn y canllawiau statudol. Rhannwyd y darganfyddiadau gyda GwE a chytunwyd i gynnal adolygiad o statws cyflogaeth ar gyfer sampl o 12 staff hunan gyflogedig, ac awgrymodd GwE y byddent hefyd yn ymestyn yr ymarferiad i gynnwys yr holl staff hunan gyflogedig. Mae GwE wedi gweithredu ar y sampl yma ac wedi adnabod 8 unigolyn hyd yn hyn lle mae'r statws cyflogaeth angen newid.

## **6. Camau Gweithredu**

**Mae GwE wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Cynnal dadansoddiad o'r staff i adnabod risgiau yn ymwneud â gweithlu sy'n agosáu at ymddeol i sicrhau bod gwybodaeth hanfodol yn cael ei gadw o fewn GwE.**
- **Cynnal asesiad statws cyflogaeth cyn ystyried talu am wasanaeth gan gwmnïau allanol.**
- **Asesu statws perthynas GwE gyda phob gweithiwr hunan gyflogedig cyfredol o ran IR35.**
- **Sicrhau fod gweithwyr yn rhan o'r staff/gyflogres lle mae'r angen.**

**PRYNU CYFARPAR DRWY'R YSGOL  
ADDYSG**

**1. Cefndir**

- 1.1 Yn unol â'r drefn arferol, mae'r Cyngor yn hawlio'r elfen TAW ar wariant ysgolion ar nwyddau neu wasanaethau yn ôl gan Gyllid a Thollau EM. Yn ogystal â chyllideb yr ysgol sy'n rhan o gyfrifon y Cyngor, mae gan ysgolion gronfeydd answyddogol, sydd heb gofrestru ar gyfer TAW nac yn rhan o gyfrifon yr Awdurdod. Yn arferol, nid yw cronfeydd o'r fath yn gallu adennill TAW ar bryniadau a wneir yn ei henw ei hun. Fodd bynnag, mae rheolau TAW yn caniatáu i'r ysgolion osgoi TAW ar nwyddau sy'n perthyn yn agos i gyflenwad addysg.
- 1.2 Petai'r Pennaeth yn gallu cyfiawnhau bod y nwyddau at bwrpas addysgol disgyblion, yna gall y Cyngor brynu nwyddau a gwasanaethau ar ran yr ysgol a hawlio'r TAW yn ôl, a bydd cronfa answyddogol yr ysgol yn ad-dalu gwerth y gwariant (heb y TAW) i gyllideb yr ysgol. Gan mai'r Cyngor sy'n prynu'r nwyddau, y Cyngor fydd hefyd berchen y nwyddau, ac nid Cronfa'r Ysgol. Mewn rhai amgylchiadau, mae rheolau TAW yn caniatáu gwerthu'r nwyddau ymlaen i ddisgyblion er mwyn iddynt arbed yr elfen TAW, ar yr amod bod y nwyddau i'w defnyddio yn y dosbarth yn rheolaidd. Mae rhain yn cynnwys offerynnau cerdd cludadwy, a dyfeisiadau megis iPads. Nid yw gwerthiannau i athrawon a staff eraill yn cael eu cynnwys yn y cynllun arbed TAW.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer prynu cyfarpar i ddisgyblion drwy'r ysgol, heb yr elfen TAW. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o anfonebau sydd wedi eu talu gan y Cyngor ar ran cronfeydd yr ysgolion, gan sicrhau bod yr ysgolion wedi prynu nwyddau cymwys. Roedd yr archwiliad hefyd yn gwirio bod yr ysgolion yn ymwybodol o'r cynllun ac yn cymryd mantais ohono.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>DIGONOL</b>	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
<b>UCHEL IAWN</b>	0
<b>UCHEL</b>	0
<b>CANOLIG</b>	1
<b>ISEL</b>	0

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Gwiriwyd sampl o anfonebau diweddar ar god gwariant 'dros dro' A999 SA98, sef y cod a ddefnyddir i dalu anfonebau ar ran ysgolion gyda'r bwriad i arbed TAW. Defnyddir yr un cod i dderbyn yr ad-daliad o gronfa'r ysgol. Gwelwyd amrywiaeth o wariant, gan gynnwys offerynnau cerdd a gweithgareddau awyr agored, ond cadarnhaodd y Swyddog Treth ar Werth bod y gwariant i gyd yn ymddangos yn briodol, gan fod modd ei gyfiawnhau fel gwariant tuag at addysg a bod yr ysgolion wedi arbed TAW yn briodol ac yn unol â'r rheolau.
- 5.2 Dengys adroddiad o'r cyfrifylfr mai dim ond oddeutu hanner yr ysgolion oedd yn defnyddio y cod A999 SA98. Er bod hyn yn awgrymu bod hanner yr ysgolion efallai yn colli allan ar ddull o arbed arian drwy dalu TAW ar wariant o'r gronfa answyddogol yn ddiangen, mae ysgolion wedi cael eu hannog gan Uned Gyllid yr Adran Addysg i dalu anfonebau yn syth o gyllideb yr ysgol trwy'r Uned Taliadau, a talu yr elfen net yn ôl i'r gyllideb o'r gronfa answyddogol. Mae hyn er mwyn atgoffa Penaethiaid o'r gallu i osgoi talu TAW a hefyd i osgoi y gwaith gweinyddol sydd ynghlwm â defnyddio cod A999 SA98.
- 5.3 Yn dilyn cyfeiriad gan Uned Gyllid yr Adran Addysg, gwelwyd anfoneb i ysgol gan gwmni Investec ble roedd 3 iPhone a 2 iPad wedi'i brynu drwy drefniant les. Cadarnhaodd Pennaeth yr ysgol bod y ffonau wedi eu prynu ar ran aelodau staff, a bod yr iPads ar gyfer dau ddisgybl. Gan gymryd bod yr iPads yn cael eu defnyddio gan y disgyblion yn y dosbarth yn rheolaidd, yna mae'r rhain yn cyd-fynd â rheolau TAW. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Swyddog TAW nad yw staff yn gallu manteisio ar y cynllun arbed TAW drwy brynu nwyddau at ddefnydd personol. Wrth i'r Cyngor dalu anfoneb am gyflenwad addysgol ar ran ysgol gyda'r bwriad o arbed TAW, mae'r eiddo yn berchen i'r Awdurdod ac er bod modd gwerthu'r nwyddau ymlaen i'r disgyblion, nid yw gwerthu'r nwyddau ymlaen i staff yn cyd-fynd â rheolau Cyllid a Thollau EM. Mae'r defnydd personol a wneir o'r ffonau yn destun TAW, felly mae angen cyfrifo am hyn gyda'r gost yn disgyn ar y cwsmeriaid, sef y staff.
- 5.4 Er mwyn lliniaru'r risg o ysgolion eraill yn ymrwymo i gytundebau o'r fath sydd yn groes i reolau Cyllid a Thollau EM, ystyrir ei fod yn ymarfer da i gylchredeg rheolau TAW perthnasol i holl ysgolion Gwynedd.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Uned Gyllid wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Cylchredeg trefniadau TAW gyda'r Ysgolion, gan gynnwys cynlluniau osgoi TAW
- Dod i gytundeb gyda staff yr ysgol mewn perthynas â ad-dalu costau TAW



## DIFA PLA AMGYLCHEDD

### 1. Cefndir

1.1 Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth difa pla ymatebol i gartrefi a busnesau yng Ngwynedd yn ogystal â gwasanaeth ar gytundeb i gleientiaid mewnol ag allanol. Cyflogir 4 Swyddog Difa Pla/Warden Anifeiliaid, ble mae tua 20% o'u hamser yn cael eu treulio ar y gwasanaeth statudol rheoli cŵn. Fel rhan o gynllun arbedion y Cyngor, penderfynwyd y byddai'n rhaid i'r gwasanaeth fod yn hunangynhaliol os yw'r Cyngor am barhau i'w ddarparu.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i sicrhau fod y gwasanaeth Difa Pla yn darparu gwasanaeth effeithiol. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o geisiadau am wasanaeth, gan sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd ag anghenion trigolion, a bod rheolaethau priodol yn y trefniadau ariannol i sicrhau fod y gwasanaeth yn hunangynhaliol.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>DIGONOL</b>	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
<b>UCHEL IAWN</b>	0
<b>UCHEL</b>	0
<b>CANOLIG</b>	1
<b>ISEL</b>	1

### 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Roedd dyfodol y gwasanaeth Difa Pla yn destun trafodaeth yn 2015/16 yn sgil yr angen i'r Cyngor wireddu arbedion ariannol, a bu ystyriaeth i ddiddymu'r gwasanaeth. Gan fod y gwasanaeth yn gwasanaethu adrannau'r Cyngor yn ogystal â'r cyhoedd, credir y buasai'n annhebygol bydd arbedion wedi ei gwireddu mewn gwirionedd. O ganlyniad, penderfynwyd parhau i ddarparu'r gwasanaeth gyda'r bwriad o gynhyrchu incwm digonol er mwyn bod yn hunangynhaliol. Hyd yn hyn, ymddengys bod y Gwasanaeth wedi llwyddo i wireddu hyn.

- 5.1.1 Mae cynnydd o tua 30% wedi bod yn y nifer o gytundebau Difa Pla gyda busnesau ers 2015. Cyflawnwyd hyn yn dilyn symud y Gwasanaeth i'r Adran Eiddo/Amgylchedd ac ymgyrch answyddogol i dargedu ffermydd yn dilyn newidiadau o ran y ddeddf, sydd wedi cael effaith ar hawliau i archebu gwenwynau. Mae'r Gwasanaeth wedi ceisio torri ffiniau hanesyddol yr oedd y swyddogion yn gweithredu ynddynt er mwyn gwneud y gwasanaeth yn fwy hyblyg a rhannu'r llwyth gwaith yn fwy effeithiol. Mae'r swyddogion hefyd â'r gallu i deilwra eu rhaglenni gwaith a'r gwaith ymatebol i flaenoriaethu galwadau ac osgoi teithio diangen.
- 5.1.2 Derbynnir ymholiadau a cheisiadau drwy Galw Gwynedd neu gais hunanwasanaeth ar y wefan. Caiff manylion yr alwad gan gynnwys y math o bla eu cofnodi ar system Siebel, sydd yna'n anfon e-bost awtomatig i weinyddwyr system Amgylchedd/Gwarchod y Cyhoedd. Caiff y manylion yma eu hintegreiddio â'r system, sef 'Flare', cyn eu dyrannu i'r Swyddog Difa Pla/Ardal. Detholwyd sampl o alwadau a amlygwyd y recordiau bod staff Galw Gwynedd yn darparu gwasanaeth gofal cwsmer da drwy gynnig yr opsiwn o dderbyn cyngor dros y ffôn yn ddi-dâl fel cam cyntaf yn hytrach na thalu am driniaeth. Drwy'r system Hunanwasanaeth, mae cwsmeriaid yn talu am driniaeth o flaen llaw. Yn achlysurol, mae'r Swyddog Difa Pla yn dod i'r casgliad nad yw triniaeth yn addas neu fod y cwsmer wedi adnabod y pla anghywir e.e. gwenyn meirch yn hytrach na gwenyn mêl sydd ond yn cael eu trin mewn argyfwng. Gall hyn olygu'r angen i addasu anfonebau neu orfod trefnu ad-daliad i'r cwsmer.
- 5.1.3 Mae'r cyfrifoldeb ar y cyhoedd yn bennaf i adrodd am achosion o bla. Gall hyn fod yn rhwystr yn enwedig pan mae'r cyhoedd yn adrodd am achosion yn eiddo rhywun arall ble nad oes bwriad gweithredu gan y perchnogion. Mae hyn yn gwneud y sefyllfa yn anodd i ddatrys hyd nes i'r broblem fod yn fater o lechyd y Cyhoedd neu lechyd Amgylcheddol sy'n ychwanegu hawliau o orfodaeth a dirwyo i wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd. Mewn achlysuron o'r fath mae anawsterau wedi codi o ran pwy sy'n derbyn yr anfoneb am unrhyw driniaeth. Mae rheolau diogelu gwybodaeth a'r camau sy'n rhan o'r system Galw Gwynedd a'r wefan yn golygu nad yw'n bosib anfonebu person os nad mai hwy sydd wedi gwneud y cais. O ganlyniad gall yr unigolion sy'n gwneud yr alwad dderbyn anfoneb gan y Cyngor.
- 5.1.4 Ymddengys fod gwendid yn y cyfathrebu rhwng adrannau/gwasanaethau oherwydd y nifer o systemau a phrosesau sydd yn bodoli ar gyfer talu ac anfonebu. Nid oes ffordd hawdd i'r Gwasanaeth Difa Pla wirio os yw anfonebau wedi eu talu ai peidio oni bai drwy gysylltu â'r Uned Incwm. Gall hyn fod yn broblemus yn enwedig os yw unigolion yn ymgeisio am wasanaeth ond nad ydynt wedi talu am y gwasanaeth blaenorol. Mae'r Gwasanaeth Difa Pla wedi ymrwymo i gryfhau'r agwedd yma drwy fabwysiadu trefn newydd o ddod a'r gwaith i swyddfa gefn y gwasanaeth er mwyn monitro drwg dalwyr. Gwelwyd fod gwendidau yn y drefn lle anfonebir cwsmeriaid er eu bod eisoes wedi talu drwy hunanwasanaeth ar y wefan.

Nid yw'r wybodaeth angenrheidiol yn cael ei rannu yn effeithiol ac yn achlysurol mae'r Uned Incwm yn derbyn arweiniad i anfonebu cwsmeriaid sydd eisoes wedi talu. Mae hyn yn brofiad cwsmer gwael ac yn golygu fod angen i'r Uned Incwm ddileu nifer o anfonebau gan gyflwyno nodiadau credyd. Mae'r Gwasanaeth yn ymwybodol fod lle i wella o ran y trefniadau presennol ac eisoes wedi trafod gyda Rheolwr Galw Gwynedd ynglŷn â threfniadau amgen ar gyfer rhai o'r agweddau. Eglurodd Rheolwr Galw Gwynedd bod system newydd ar y gweill ganddynt a'r gobaith yw y bydd hwn yn cyfrannu at wella'r sefyllfa bresennol.

- 5.1.5 Mae'r trafodion ariannol hyd at ganol mis 12 o'r flwyddyn ariannol yn awgrymu fod y gwasanaeth yn mynd i wneud elw am y flwyddyn gan wireddu'r amcan o fod yn hunangynhaliol yn ariannol. Er bod hyn yn cynnwys ad-daliadau mewnol o £41,409, mae'n debyg byddai'r gwariant yma wedi bod yn uwch petai Adrannau'r Cyngor wedi gorfod talu am wasanaeth i gwmnïau allanol annibynnol.

## **6. Camau Gweithredu**

**Mae'r Gwasanaeth Difa Pla wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Darganfod datrysiad i'r broblem ble anfonebir cwsmeriaid sydd eisoes wedi talu drwy hunanwasanaeth ar y wefan.**
- **Diweddarau rhestr ffioedd contractau difa pla ar wefan y Cyngor.**

## TREFNIADAU TRWYDDEDU AMGYLCHEDD

### 1. Cefndir

1.1 Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod trwyddedu dan Ddeddf Trwyddedu 2003, Deddf Hapchwarae 2005, Trwyddedau Cerbydau, Gyrwyr a Gweithredwyr Cerbydau Hacni a Hurio Preifat a.y.b. Mae Swyddogion Trwyddedu wedi eu lleoli yng Nghaernarfon a Dolgellau a chynhelir clinigau trwyddedu sawl gwaith yr wythnos yn Siopau Gwynedd yn y 3 ardal.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau sydd mewn lle yn ddigonol ac yn ddibynadwy er mwyn prosesu ceisiadau a bod ffioedd trwyddedau yn unol â rheolau a safonau'r diwydiant. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu archwilio trefniadau ar gyfer paratoi, prosesu, gweithredu a chofnodi'r trwyddedau.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>DIGONOL</b>	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
<b>UCHEL IAWN</b>	0
<b>UCHEL</b>	0
<b>CANOLIG</b>	2
<b>ISEL</b>	0

### 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gwelwyd bod rheolaethau mewnol digonol yn bodoli ond bod lle i dynhau ymhellach ar y meysydd ymhelaethir arnynt isod:

5.1.1 Dylai Datganiad Polisi Hapchwarae gael ei adolygu/diweddaru pob 5 mlynedd yn unol â'r Ddeddf Hapchwarae 2005, ond nid oes Datganiad mewn lle. Cafodd Datganiad Polisi Hapchwarae drafft ynghyd â'r asesiad cydraddoldeb ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Trwyddedu Canolog ar 10fed o Fedi 2018, ar gyfer ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn. Mae cais wedi ei wneud i gael penderfyniad i gymeradwyo'r datganiad yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Llawn sef 7fed o Fawrth 2019.

- 5.1.2 Detholwyd sampl o 10 anfoneb ar gyfer ffioedd blynyddol eiddo trwyddedig i'w harchwilio. Gwiriwyd y System Trethi Annomestig er mwyn cadarnhau band yr eiddo ac yna gwiriwyd y rhestr ffioedd er mwyn sicrhau bod y symiau cywir wedi eu codi. Gwelwyd un anghysondeb yn y sampl cyntaf felly detholwyd sampl o 10 arall, darganfuwyd anghysondeb arall rhwng band yr eiddo â'r hyn oedd yn cael ei godi a arweiniodd at golled incwm i'r Uned.
- 5.1.3 Mae'n bosib i fanylion yr eiddo newid, megis ei werth trethiannol (rateable value), gall olygu bod y ffi anghywir ar gyfer y band yn cael ei godi. Eglurwyd bod yr Uned wedi cynnal adolygiad o fandiau treth eiddo trwyddedig yn ddiweddar er mwyn sicrhau bod y ffioedd blynyddol ar drwyddedau yn gywir. Serch hyn darganfuwyd dwy enghraifft lle'r oedd ffioedd anghywir wedi eu codi.
- 5.1.4 Mae'r Uned yn awyddus i ddefnyddio'r ffurf bilio cylchol (recurring billing) ar gyfer anfonebau trwyddedau eiddo blynyddol. Nid yw'r trefniant yma wedi ei sefydlu hyd yma oherwydd amgylchiadau o fewn yr Uned ond mae'r Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Amgylchedd) yn awyddus bod hyn yn cael ei osod i fyny yn y dyfodol agos.
- 5.1.5 Daeth y tendro am system newydd i ben dechrau mis Ionawr 2019, gyda'r trafodaethau ynglŷn â pha system i fabwysiadu wedi cychwyn. Ar hyn o bryd defnyddir y system 'Civica App' ar gyfer Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd gan gynnwys yr Uned Trwyddedu ond gobeithir y bydd system newydd yn gallu cael ei defnyddio ar draws yr Adran Amgylchedd ac efallai gan yr Adran Ymgynghoriaeth hefyd.

## **6. Camau Gweithredu**

**Mae'r Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Amgylchedd) wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Cofnodi cyfeirnodau pob eiddo oddi ar y System Trethi Annomestig a'u rhoi yn erbyn yr eiddo perthnasol ar fasdata yr Uned Drwyddedu.**
- **Cynnal ymarferiad er mwyn sicrhau bod pob eiddo ar y band gwerth trethiannol cywir o'r cychwyn.**
- **Derbyn adroddiadau ar sail i'w cytuno gyda'r Gwasanaeth Trethi Annomestig fel bod modd gwirio os oes unrhyw newidiadau yng ngwerth trethiannol yr eiddo, ac os oes, addasu'r band fel bod y ffi cywir yn cael ei godi.**
- **Cynnal trafodaethau gyda'r Uned Incwm er mwyn sicrhau bod anfonebau trwyddedau eiddo blynyddol yn cael eu gosod ar ffurf bilio cylchol (recurring billing) ar y System Dyledwyr.**

## CYNNAL A CHADW EIDDO AMGYLCHEDD

### 1. Cefndir

1.1 Mae'r Uned Cynnal a Chadw Eiddo yn gyfrifol am weithredu ar waith cynnal a chadw eiddo'r Cyngor. Mae oddeutu 500 o adeiladau neu 1000 o safleoedd yng nghyfrifoldeb y Cyngor yn cynnwys canolfannau, ysgolion a swyddfeydd. Yn 2017/18, gwelwyd bod dros £2.6 miliwn o wariant ar gyfer cynnal a chadw eiddo yn erbyn cyllideb o £1.6 miliwn. Mae tua 60 o alwadau am waith cynnal a chadw yn cael eu cofnodi yn ddyddiol a defnyddir system Techforge i'w tracio ers 2018.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer trefnu gweithrediadau cynnal a chadw eiddo Cyngor Gwynedd. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau derbyn, cofnodi, diweddarau a dynodi gwaith cynnal a chadw, ynghyd â threfniadau talu anfonebau a monitro perfformiad, yn cynnwys y gyllideb i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n effeithiol, effeithlon ac mewn modd priodol. At ddibenion yr archwiliad, eithriwyd trefniadau cynnal a chadw gwaith Teleofal 17/18.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>DIGONOL</b>	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
<b>UCHEL IAWN</b>	0
<b>UCHEL</b>	0
<b>CANOLIG</b>	3
<b>ISEL</b>	2

### 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Adolygwyd trefniadau'r Uned Cynnal a Chadw Eiddo ar gyfer cofnodi, dyrannu, monitro a thalu anfonebau gwaith ceisiadau dyddiol am waith cynnal a chadw eiddo. Mae darganfyddiadau'r archwiliad fel a ganlyn:

- 5.1.1 Mabwysiadodd y Gwasanaeth system TechForge (TF) yn 2018 ar gyfer cofnodi a monitro galwadau am waith cynnal a chadw dyddiol. Fodd bynnag, gweler bod y trosglwyddiad o'r hen system K2 i'r system newydd (TF) wedi achosi ychydig o broblemau. Adroddwyd bod dros 2,600 o alwadau ar y system yn parhau i ymddangos fel 'ar agor', ond eglurodd Rheolwr Cynnal a Chadw a Chadwraeth Ynni bod 1,500 o'r rhain wedi cael eu trosglwyddo drosodd o K2 a bod nifer helaeth o'r rhain ddim yn wirioneddol 'ar agor' neu dros yr amser, a'u bod wedi'u cwblhau. Cytunwyd bod hyn yn rhwystr ar gyfer adnabod y gwir ystadegau ar gyfer monitro galwadau sydd wirioneddol 'ar agor' ar hyn o bryd ond bod trefniadau ar y gweill i ddatrys y broblem.
- 5.1.2 Derbyniwyd adroddiad o'r galwadau sydd wedi eu cwblhau ers 2017 hyd at ail chwarter 2018 a gwelwyd bod ceisiadau yn cael eu gweithredu ar y modd 'cyn gynted â phosib'. Gwelwyd bod y gwaith yn cael ei gwblhau'n brydlon, gyda'r data mesur perfformiad ar yr amser (mewn dyddiau) a gymer i ymateb i gais am waith cynnal a chadw yn 8/9 diwrnod.
- 5.1.3 Detholwyd sampl o anfonebau a chytunwyd y rhain yn ôl i'r system TF. O'r sampl a wiriwyd, gwelwyd bod anfonebau yn cael eu talu'n brydlon, cymerwyd 21 o ddyddiau ar gyfartaledd i dalu anfonebau ers Gorffennaf 2018 ymlaen. Cytunwyd 4/10 o'r anfonebau oedd â dyddiad cwblhau yn ôl i'r dyddiad a nodwyd ar y system TF. Roedd 7/10 o'r anfonebau heb ddyddiad cwblhau arnynt ond ymddengys bod y gwaith wedi cael ei gwblhau cyn dyddiad yr anfoneb. Eglurwyd bod y galwadau yn cael eu cau unwaith caiff cyfarwyddiadau am waith eu rhyddhau ar gyfer sefydliadau allanol, sef y gwaith 'arranged on behalf'. Ar gyfer gweddill o'r gwaith a godwyd ar y system, mae ymddiriedolaeth lwyr yn cael ei roi ar y contractwyr i hysbysu'r Uned o'r amser cwblhau gwaith ar yr anfonebau heb unrhyw waith monitro pellach.
- 5.1.4 Gwelwyd bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer dyrannu gwaith i gontractwyr. Detholwyd sampl o gontractwyr a dderbyniwyd symiau uchel o waith i wirio a chadarnhawyd bod y contractwyr unai wedi cael eu caffael drwy fframwaith neu yn gystadleuol o ran dewis/ darparu gwaith gwerth am arian fel sydd yn briodol.
- 5.1.5 Gwelwyd bod trywydd archwilio yn bodoli ar y system TF a bod modd archwilio unrhyw newidiadau/addasiadau ar gyfer pob un o'r galwadau/cofnodion. Fodd bynnag, adroddwyd bod yr Uned wedi penderfynu, yn sgil Ffodd Gwynedd, nad oeddynt am weithredu ar wahaniaethau mewn dyletswyddau o fewn eu prosesau – h.y. ar gyfer creu galwad, dyrannu gwaith, monitro ac addasu gwaith ar TF. Yn ogystal, gwelwyd bod gan yr un swyddog hawliau a chyfrifoldebau i brosesu a thalu'r anfonebau. Eglurodd y Rheolwr Cynnal a Chadw a Chadwraeth Ynni ei fod yn ymwybodol bod risgiau cysylltiedig, ond derbynnir y risgiau yma o weithredu ar sail egwyddorion Ffordd Gwynedd. Cadarnhawyd, fodd bynnag, bod y drefn bellach wedi cael ei hadolygu wrth ychwanegu un gwahaniaeth sef sicrhau mai ond swyddogion sydd â hawliau 'admin' ar TF sydd yn gallu sefydlu contractwyr newydd ar y system i'w dalu.'
- 5.1.6 Gwiriwyd sampl o anfonebau dyblyg a broseswyd yn 2017/18. Adnabuwyd bod risg o wneud taliadau dyblyg ble mae'r anfoneb yn cael ei phrosesu â llaw ac nid yw'r anfonebau yn cael eu cyfeirio'n ôl i'r cyfarwyddiadau a'u cofnodi ar TF. Eglurodd y Rheolwr Cynnal a Chadw a Chadwraeth Ynni bod yr Uned yn ymdrechu i gyfyngu'r drefn talu anfonebau fel eu bod yn cael eu prosesu a thalu drwy ryngwyneb TF yn unig yn y dyfodol i osgoi'r risg o daliadau dyblyg.

5.1.7 Gwelwyd bod y prif ddangosyddion perfformiad yn atodlen 4 o'r cytundeb fframwaith contractwyr. Fodd bynnag, adroddwyd nad oedd yr Uned yn monitro perfformiad contractwyr. Dibynna'r Gwasanaeth ar adborth gan gwsmeriaid i gadarnhau cyflwr a chwblhad unrhyw waith, gyda'r Rheolwr Cynnal a Chadw a Chadwraeth Ynni yn dweud ei fod yn hyderus gyda'r ffaith y buasai cwsmeriaid yn siŵr o adael i'r Uned wybod os nad yw'r gwaith o safon da.

## **6. Camau Gweithredu**

**Mae'r Uned Eiddo wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Trefnu bod statws y galwadau a drosglwyddwyd o'r hen system yn gywir ar y system newydd i sicrhau bod y rheolwr yn medru defnyddio'r system TF i fonitro statws galwadau a chynnal adolygiadau rheolaidd ar berfformiad gwaith yr adran a chontractwyr fel sydd angen.**
- **Sicrhau bod pob anfoneb yn cael ei phrosesu drwy ryngwyneb TF yn unig yn y dyfodol yn hytrach na phrosesu anfonebau drwy law.**
- **Adolygu'r trefniadau monitro prif ddangosyddion perfformiad contractwyr a sicrhau bod mesuriadau perfformiad ac unrhyw gosbau cysylltiedig wedi'u hamlygu ar y cytundeb fframwaith ac yn cael eu gweithredu fel sydd angen.**



## CYFRANIADAU GAN GYFLOGWYR CYLLID

### 1. Cefndir

1.1 Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Gweinyddir y Gronfa, sydd â 48 o sefydliadau fel aelodau, gan Wasanaeth Pensiynau Cyngor Gwynedd. Caiff y sefydliadau eu rhannu i 3 categori sef:

- **Cyrff ar yr atodlen:** Sefydliadau megis Awdurdodau Lleol ble mae gan staff yr hawl i fod yn aelodau o'r Gronfa.
- **Cyrff a ddynodir:** Cynghorau Dinas/Tref/Cymuned lle mae ganddynt yr hawl i benderfynu os caiff eu gweithwyr ymuno â'r Gronfa.
- **Cyrff a ganiateir:** Sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan yn y gronfa dan gytundeb mynediad rhwng y gronfa a'r sefydliad. Maent yn cynnwys cyrff gwirfoddol, elusennol a thebyg neu gontractwyr preifat sy'n ymgymryd â swyddogaeth awdurdod lleol wedi i'r swyddogaeth gael ei allanoli i'r sector breifat.

Mae staff y sefydliadau yn talu canran penodol o'u cyflog misol ac unrhyw ychwanegiadau perthnasol i'r Gronfa drwy eu cyflogwyr, ac mae'r cyflogwyr yn gwneud cyfraniad yn ogystal.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod y cyfraniadau a wneir i'r Gronfa Bensiwn gan y sefydliadau yn gywir ac yn cael eu derbyn o fewn yr amserlen gytunedig. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol sampl o sefydliadau, gan ymweld â hwy a gwirio eu trefniadau, cyfraniadau sampl o'u gweithwyr a chyfraniad y cyflogwr.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>DIGONOL</b>	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
<b>UCHEL IAWN</b>	0
<b>UCHEL</b>	0
<b>CANOLIG</b>	2
<b>ISEL</b>	1

## **5. Prif Ddarganfyddiadau**

- 5.1 Detholwyd sampl o 15 sefydliad er mwyn gwirio eu trefniadau a'u cyfraniadau i'r Gronfa Bensiwn. Ymddengys fod y cyfraniadau'n cael eu cyfrifo'n gywir ar y cyfan a bod cyfathrebu effeithiol rhwng y sefydliadau a'r Gwasanaeth Pensiynau.
- 5.2 Gwelwyd amrywiaeth yn sut yr oedd cyfraniadau gweithwyr yn cael eu cyfrifo gan y sefydliadau. Roedd rhai yn seilio'r cyfraniad ar gyfanswm cyflog y gweithwyr am y flwyddyn flaenorol tra bod eraill yn eu gosod yn seiliedig ar gyfanswm disgwylledig y flwyddyn gyfredol neu ar y cyfanswm am y mis perthnasol. Mae'r hyblygrwydd yma yn cynorthwyo'r cyflogwyr i osod eu gweithwyr ar y bandiau cyfradd cywir. Mae nifer o weithwyr o fewn swyddi yn y sefydliadau mwyaf yn derbyn taliadau pensiynadwy ychwanegol megis goramser a thâl ar alwad sy'n amrywio o fis i fis ac o flwyddyn i flwyddyn. O ganlyniad mae'r dull blwyddyn flaenorol yn effeithiol i osgoi gwaith ychwanegol a sicrhau cyfraniadau digonol.
- 5.3 Mae cynlluniau aberthu cyflog, megis cynlluniau gofal plant, yn cael eu cynnig gan amryw o'r sefydliadau ac mae angen sicrhau fod y cyfraniadau yn cael eu cyfrifo'n gywir gan fod rhai elfennau angen eu cynnwys yn y cyfanswm pensiynadwy ar gyfer cyfrifo'r cyfraniad tra bod elfennau eraill ddim. Gwelwyd enghraifft ym Menter Môn lle'r oedd cyfraniad y gweithiwr wedi ei seilio ar y cyfanswm cyflog ar ôl didynnu'r swm ar dalebau gofal plant yn hytrach na'i seilio ar y cyfanswm gros.
- 5.4 Gwelwyd fod taliadau ychwanegol ar gyfer Cymorth Cyntaf heb eu cynnwys wrth gyfrifo'r cyfraniad pensiwn mewn rhai o'r sefydliadau
- 5.5 Mae Gwasanaeth Pensiynau Gwynedd yn awyddus i'r holl sefydliadau ymrwymo i fabwysiadu system i-Connect er mwyn cyflwyno gwybodaeth yn electronig yn fisol yn hytrach na'r drefn hanesyddol o gyflwyno adroddiad blynyddol er mwyn nodi unrhyw newidiadau o fewn y sefydliad ym mherthynas â gweithwyr a chyfraniadau tuag at y Gronfa Bensiwn. Holwyd y sefydliadau ynglŷn â'r system newydd ac roedd yr ymateb yn gadarnhaol a phositif ar y cyfan, er bod ambell sefydliad wedi nodi ei fod yn eithaf cymhleth ac anhyblyg wrth geisio trosglwyddo manylion a chyflwyno gwybodaeth o fewn terfynau amser penodol. Yn amlwg mae'r broses o drosglwyddo manylion yn fwy llafurus ac arafach i sefydliadau sy'n cyflogi mwy o weithwyr ond y gobaith yw y bydd rhan helaeth o'r gwaith trosglwyddo yn cael ei gwblhau o fewn y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn flaenoriaeth gan y Gwasanaeth Pensiynau a'r gobaith yw y bydd ail strwythuro staff sydd ar y gweill yn eu cynorthwyo i gyflawni'r gwaith yma.
- 5.6 Mae hyfforddiant cyson yn cael ei ddarparu gan y Gronfa Bensiwn ond ymddengys nad y person sy'n gyfrifol am weithredu'r cyflogau a phensiynau yn y sefydliadau sy'n mynychu ar bob achlysur. Gall hyn olygu fod rheolau newydd ddim yn cael eu gweithredu'n gywir a bod cyfraniadau yn cael eu cyfrifo'n anghywir gan rai o'r sefydliadau.

## **6. Camau Gweithredu**

**Mae'r Gwasanaeth Pensiynau wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Cysylltu â'r sefydliadau er mwyn sicrhau fod unrhyw gamgymeriadau o ran cyfrifo'r cyfraniadau a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr Archwiliad yn cael eu cywiro.
- Darparu taflen i'r cyflogwyr yn eu hysbysu a'u hatgoffa o'r canllawiau cywir wrth gyfrifo cyfraniadau pensiwn ar gyfer eu gweithwyr.
- Sefydlu trefn reolaidd er mwyn ymweld â'r sefydliadau mwyaf o fewn y Gronfa bob 3/6 mis.

## BUDD-DALIADAU – ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL CYLLID

### 1. Cefndir

- 1.1 Mae Cod Ymarfer Archwilydd Cyffredinol Cymru Mai 2018 yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor yn dibynnu, lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). Caiff y System Fudd-dal ei hystyried yn "system ariannol bwysig" ac felly cynhelir adolygiad ar y reolaethau allweddol y system yma yn flynyddol.
- 1.2 Bydd y Gwasanaeth Budd-dal yn prosesu ceisiadau am fudd-dal tai a gostyngiad treth cyngor pan fydd ymgeisydd yn cyflwyno cais i hawlio budd-dal tai a/neu ostyngiad treth cyngor ynghyd â thystiolaeth briodol, gan gynnwys cadarnhad ei bod yn fyr o incwm a methu fforddio rhent a/neu gost y dreth cyngor.
- 1.3 Mae Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno yng Ngwynedd yn 2018/19 ar gyfer ceisiadau newydd a newid mewn amgylchiadau ar gyfer pobl sydd mewn oedran gwaith, a bydd y trefniadau budd-daliadau yn newid. Bydd Credyd Cynhwysol yn cymryd lle chwech o budd-daliadau sef Budd-dal Tai, Credyd Treth Plant, Credyd Treth Gwaith, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Lwfans Ceisio Gwaith. Gellir cyflwyno cais am Credyd Cynhwysol ar y wê yn unig a chaiff y taliadau eu gwneud yn fisol. Bydd yr holl geisiadau o dan y Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor yn parhau i gael eu gweinyddu gan y Gwasanaeth Budd-dal.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer asesu a phrosesu ceisiadau budd-dal, bod y system budd-dal yn cyfrifo symiau budd-daliadau'n gywir ac fe'u telir yn amserol. Cadarnhau bod cysoniadau priodol yn cael eu cynnal, adolygu trefniadau rheoli perfformiad yr uned a gwirio bod trefniadau diogelu data digonol mewn lle.
- 2.2 Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19, archwilio sampl o geisiadau budd-dal i sicrhau bod asesiadau priodol yn cael eu cynnal. Gwirio bod cysoniadau yn cael eu cynnal a bod y taliadau budd-dal yn cael eu cyfrifo a'u talu mewn modd cywir ac yn amserol. Asesu statws perfformiad y gwasanaeth ynglŷn â gweithredu ar geisiadau a hysbysiadau budd-dal a gwirio bod y system budd-dal yn cael ei rheoli'n effeithiol a bod yr holl ddata yn cael ei ddiogelu'n briodol.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>UCHEL</b>	<b>Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.</b>

#### 4. Prif Ddarganfyddiadau

- 4.1 Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli o fewn trefniadau gweinyddu'r System Budd-daliadau.
- 4.2 Detholwyd ar hap sampl o 30 o geisiadau newydd o'r adroddiad 'hb7243a' gan wirio bod sgôr risg wedi ei gofnodi a'u bod wedi eu cyfrifo'n gywir a'u talu'n amserol. Yn ogystal, gwiriwyd sampl o 15 o daliadau estynedig a cheisiadau ôl-ddyddio a gwelwyd eu bod yn gywir ac yn unol â'r rheoliadau cyfredol.
- 4.3 Gwelwyd bod cysoniadau o'r budd-daliadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd a phrofwyd bod y system yn cyd-fynd a'r hyn a dalwyd allan.
- 4.4 Gwiriwyd paramedrau'r system budd-daliadau er mwyn sicrhau bod y cyfraddau wedi cael eu gosod yn gywir yn unol â'r cyhoeddiadau diweddaraf o'r cyfraddau budd-dal gan yr Adran Waith a Phensiynau a'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Cyngor ar gyfer cyfrifo gostyngiadau treth cyngor. Ymddengys bod y manylion wedi eu mewnbynnu yn gywir.
- 4.5 Gwiriwyd ystadegau perfformiad yr Uned, sef y nifer o ddyddiau ar gyfartaledd a gymerwyd i brosesu cais budd-dal newydd a phrosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau. Mae perfformiad Gwynedd wedi disgyn ers y llynedd fodd bynnag, wrth ei gymharu gyda pherfformiad Cymru gyfan a Prydain mae i'w weld yn gymharol dda (gweler y tabl isod).

<u>Gwynedd</u>	Ffigyrau Blynyddol 2017/18	Ffigyrau Chwarter 1 2018/19	Ffigyrau Chwarter 2 2018/19
Prosesu cais newydd (dyddiau)	18	18	21
Prosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau (dyddiau)	7	5	7

	Ffigyrau Chwarter 2 2018/19		
	Gwynedd	Cymru	Prydain
Prosesu cais newydd (dyddiau)	21	21	22
Prosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau (dyddiau)	7	7	8

## GWAREDU CYFARPAR TG CYLLID

### 1. Cefndir

- 1.1 Mae'r Cyngor yn berchen ar dros 4,000 o gyfarpar TG gan gynnwys gliniaduron, cyfrifiaduron, tabledi a 'thin clients'. Amcangyfrifir bod oddeutu 1,200 o'r rhain yn cael eu gwaredu yn flynyddol oherwydd eu bod yn hen a/neu ddim mewn defnydd. Mae gan y Cyngor ddyletswydd fel sefydliad sydd yn defnyddio cyfarpar trydanol neu electronig i ofalu ei fod yn cydymffurfio gyda rheoliadau WEEE (Waste Electrical and Electronic Equipment) a ddaeth i rym yn Ionawr 2013. Bwriad y rheoliadau yw annog ailgylchu a sicrhau gwaredu mewn dull diogel i'r amgylchedd. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gadw prawf bod eu cyfarpar wedi ei waredu trwy gwmni rheoli gwastraff a'i fod wedi ei drin a'i waredu mewn ffordd sydd yn ddiogel i'r amgylchedd.
- 1.2 Yn ogystal, mae cyfrifoldeb ar y Cyngor i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data ac yn gwarchod unrhyw ddata sydd yn eu meddiant all fod o natur personol/sensitif. Rhaid felly sicrhau bod data yn cael ei ddileu oddi ar gyfarpar cyn ei waredu.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gwaredu cyfarpar cyfrifiadurol y Cyngor a'u bod yn cael eu gwaredu mewn modd diogel a chyfreithlon. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod canllawiau perthnasol mewn lle, bod cofrestr asedau yn bodoli a'i fod yn cael ei ddiweddar, archwilio'r drefn a derbyn sicrwydd bod y Cyngor yn gweithredu ar drefniadau priodol i waredu cyfarpar TG.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>DIGONOL</b>	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
<b>UCHEL IAWN</b>	0
<b>UCHEL</b>	0
<b>CANOLIG</b>	2
<b>ISEL</b>	1

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Adolygwyd trefniadau gwaredu cyfarpar y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth trwy ddilyn ac arsylwi'r prosesau a derbyn tystiolaeth o'r drefn cofnodi, casglu/cadw a gwaredu cyfarpar yn ogystal â gwirio bod trefniadau priodol ar gyfer dinistrio data oddi ar y cyfarpar mewn lle, a daethpwyd o hyd i'r darganfyddiadau canlynol:
  - 5.1.1 Bod canllawiau ffurfiol mewn lle gyda gwybodaeth am sut i waredu gwahanol fathau o gyfarpar TG mewn cydymffurfiaeth â rheoliadau WEEE, a gwelwyd bod trefniadau wedi'u sefydlu ar gyfer gwaredu amryw o gyfarpar trydanol yn dibynnu os ydynt yn gymwys â rheoliadau WEEE. Gwelwyd bod ar gyfer bob trefn, caiff yr offer ei ailgylchu yn y broses neu eu dinistrio mewn modd priodol.
  - 5.1.2 Arsylwyd y broses o gasglu hen gyfarpar TG a gwelwyd bod yna drefniadau effeithiol a phriodol mewn lle. Caiff popeth ei fonitro a'i ddiweddarau ar system 'TopDesk' y Gwasanaeth unai â llaw neu yn awtomatig pan mae eu hamser gweithredol yn dod i ben. Unwaith mae dyfais wedi'i ailgylchu neu ei ddinistrio, mae ei fanylion yn cael ei archifo ar y system 'TopDesk' lle y gellir ei dracio drwy fewnbynnu ei rhif cyfres.
  - 5.1.3 Darganfuwyd nad oes unrhyw gost i'r Cyngor am ddefnyddio'r cwmni allanol i waredu cyfarpar TG. Defnyddia'r Gwasanaeth dulliau cystadleuol er mwyn chwilio am gwmni allanol i waredu eu cyfarpar.
  - 5.1.4 Caiff unrhyw wybodaeth neu ddata sydd dal yn bodoli ar unrhyw ddyfais ei lanhau gan y cwmni proffesiynol allanol. Gwelwyd bod tystysgrif ISO priodol ar gael ar gyfer y cwmni, a'u bod yn darparu adroddiadau unigol ar gyfer pob dyfais a chrynodebau misol i'r gwasanaeth yn nodi statws a llwyddiant eu gwaith. Yn dilyn adolygiad o'r adroddiad glanhad, ymddengys bod un o'r cyfarpar heb ei lanhau'n llwyddiannus ond nid oeddynt yn medru derbyn sicrwydd cadarn gan y cwmni gwaredu bod y ddyfais benodol wedi cael ei waredu'n briodol.
  - 5.1.5 Gwiriwyd sampl o 13 cyfarpar a gafodd eu gwaredu yn ystod 2018/19: 9 oddi ar y gofrestr asedau a 4 oddi ar dystysgrifau gwaredu'r cwmni allanol. Ar gyfer y sampl a wiriwyd, cysonwyd y tystysgrifau yn ôl i'r gofrestr asedau a 4 allan o 9 o'r gofrestr asedau i'r tystysgrifau. Gwelwyd bod y gweddill o'r 5 yn y sampl yn ymddangos bod eu statws ar 'TopDesk' wedi cael ei ddiweddarau ond nid oedd tystysgrifau ar eu cyfer oherwydd bod y sampl yn rai sydd wedi cael eu gwaredu yn ddiweddar a disgwylir hyd at fis cyn bod y Cyngor yn derbyn y tystysgrifau gwaredu ar eu cyfer. Cadarnhawyd felly bod y Cyngor wedi derbyn cadarnhad gan y cwmni bod 8 allan o 13 o'r cyfarpar wedi'u gwaredu'n briodol.

5.1.6 Caiff y gofrestr asedau ei diweddarau'n fisol er mwyn sicrhau bod y gofrestr yn cael ei gadw'n gyfredol. Crëwyd y gofrestr ar ffurf taenlen Excel sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio i fonitro a chysoni'r cyfarpar o fewn y storfa, ac i wneud yn sicr bod popeth yn cyd-fynd gydag adroddiad crynodeb y cwmni allanol. Dewiswyd 10 sampl ar hap i'w gwirio er mwyn sicrhau bod y gofrestr yn cael ei diweddarau yn gyflawn a chywir, a bod modd cysoni'r stoc yn ôl i'r storfa. Detholwyd 5 oddi ar y gofrestr asedau cyfredol (Ionawr 2019) a 5 o'r storfa. Darganfuwyd bod 4 allan o 5 yn y sampl yn bresennol yn y storfa yn cyd-fynd gyda'r gofrestr. Fodd bynnag, roedd yna fethiant i leoli 1 o'r sampl a wiriwyd ac ymddengys ei fod ar goll. Yn yr un modd, cysonwyd 5 sampl ar hap o'r storfa yn ôl i'r gofrestr asedau a gwelwyd bod 4 o'r rhain yn cyd-fynd â'r gofrestr asedau, gydag 1 o'r blychau ar y gofrestr yn wag lle dylai bod rhif cyfres y ddyfais wedi'i gofnodi.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Peiriannydd Desgfwrdd wedi ymrwmo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Derbyn sicrwydd gan y cwmni allanol bod pob dyfais sydd yn ymddangos fel 'failed' ar yr 'erasure summary report' yn cael eu harchwilio fel bod y Cyngor yn derbyn sicrwydd cadarn bod y dyfeisiadau wedi cael eu gwaredu'n briodol.**
- **Sicrhau bod pob dyfais sy'n cael ei ail-leoli/symud o'r storfa yn cael ei gofnodi/diweddarau ar y gofrestr asedau fel bod modd lleoli'r dyfeisiadau a sicrhau nad dynt ar goll.**

## DIOGELWCH SEIBER CYLLID

### 1. Cefndir

1.1 Diogelwch Seiber yw'r ymarferiad o amddiffyn a diogelu rhwydweithiau, cyfrifiaduron, rhaglenni a data rhag ymosodiadau, difrod neu fynediad heb awdurdod o ymosodiadau seiber a/neu faleisus drwy ddefnyddio technolegau, prosesau ac arferion a gynlluniwyd i leihau risg seiber ac i ddiogelu asedau gwybodaeth. Gall ymosodiadau seiber ddod o ddiethriaid maleisus, colled ddamweiniol neu hacwyr.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli, atal, canfod ac ymateb i risg seiber. Er mwyn cyflawni hyn, 'roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu gweithdrefnau ar gyfer diogelu rhwydwaith y Cyngor yn erbyn torri rheolau diogelwch seiber, gan gynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth staff, cyflunio diogel, diogelwch rhwydwaith, polisiau a gweithdrefnau diogelwch TG sy'n rheoli mynediad defnyddwyr.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>DIGONOL</b>	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
<b>UCHEL IAWN</b>	0
<b>UCHEL</b>	0
<b>CANOLIG</b>	2
<b>ISEL</b>	1

### 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gwelwyd bod tystysgrif 'PSN connection compliance' Cyngor Gwynedd yn ddilys o 6 Mawrth 2019 hyd at 6 Mawrth 2020. Mae'r dystysgrif yma'n caniatáu'r Cyngor i gael mynediad i'r PSN (*Public Services Network*). Mae sawl corff cyhoeddus yn y DU sydd wedi derbyn achrediad gan y Llywodraeth wedi cysylltu i'r PSN. Mae'n blatfform gaiff ei ddiogelu a'i reoli gan y Llywodraeth a'i bwrpas yw galluogi'r cyrff cyhoeddus i rannu data yn ddiogel. Er bod cyrraedd y safon yma yn bwysig, manylir ar wefan PSN: '*PSN compliance is not a way to deliver security across your business. Directing your resources towards simply meeting our requirements is no substitute for engaging in ongoing risk assessment, management and mitigation across your business.*'



Mae'r Cyngor hefyd yn y broses o geisio am 'Cyber Essentials Plus'. Mae'r holiadur hunanasesu perthnasol yn cael ei gwblhau gan wahanol adrannau o'r Cyngor a phan fydd wedi ei anfon yn ôl, bydd cmwni corff achredu allanol yn ymweld i sicrhau bod y safonau yn ddigonol.

- 5.2 Cafodd sawl risg eu hamlygu yn ystod archwiliad Sec-1, sef y cwmni diogelwch rhwydweithiau sy'n cynnig gwasanaethau archwilio a phrofi diogelwch TG i'r Cyngor. Derbyniwyd 'Remediation Plan' a gyflwynwyd i PSN fel rhan o'r cais am dystysgrif 'PSN connection compliance' ar gyfer 2019/20. O fewn y ddogfen hon, amlygir y camau bydd y Cyngor yn eu cymryd i liniaru'r risgiau o wendidau gydag effaith uchel a amlygwyd yn yr 'IT Health Check' a gynhaliwyd yn Rhagfyr 2018. Gwelwyd bod camau priodol wedi eu cymryd neu mewn lle ar gyfer 14 allan o 14 o'r risgiau sylweddol.
- 5.3 Mae llinell sylfaen wedi ei gosod o ran systemau gweithredu (OS) peiriannau'r Cyngor. Fersiwn o Windows 7 sydd yn cael ei gefnogi gan Microsoft yw'r system weithredu hynaf ddefnyddir ar gyfrifiaduron gyda chynlluniau i bob cyfrifiadur gael ei uwchraddio i Windows 10 erbyn Ionawr 2020. Mae sefyllfa gweinyddwyr y Cyngor yn gyffelyb, gyda'r holl systemau Windows a Linux yn cael eu cefnogi. Bydd cefnogaeth Windows Server 2008 (sydd yn cael ei ddefnyddio ar rhai o weinyddwyr y Cyngor) yn dod i ben ar y 14 Ionawr 2020. Mae cynlluniau i uwchraddio'r rhan fwyaf o systemau gweithredu perthnasol erbyn Ionawr 2020. Mae arian wedi'i neilltuo i sicrhau cefnogaeth estynedig gan Microsoft ar gyfer rhai gweinyddwyr a fydd yn aros ar Windows Server 2008 wedi Ionawr 2020 os bydd rhaid. Mae codau mynediad i liniaduron a thabledi yn cael eu cynhyrchu gan TG yn seiliedig ar baramedrau penodol unigryw. Mae hawl gan y defnyddiwr i newid y codau hyn unwaith maent yn derbyn y ddyfais.
- 5.4 Gwelwyd bod rheolaethau cyfrifon yn rheoli mynediad staff i'r we. Defnyddir system 'Smoothwall' ar gyfer cyflawni hyn. Mae pob gwefan yn cael ei rhoi mewn categori megis 'newyddion', 'gamblo', 'chwaraeon' a chaiff rhai categorïau eu rhoi ar 'blacklist'. Mae'n bosib i staff gael mynediad at rhai o'r gwefannau trwy gael eu derbyn gan y Peiriannydd Diogelwch i un o'r rhestrau o staff eithriadol i rai categorïau. Mae rheolaethau cryfion hefyd ynglŷn â hawliau staff i lawr lwytho a gosod meddalwedd. Mae'n bosib i staff lawrlwytho dogfennau PDF a.y.b. ond nid oes hawl ganddynt i lawrlwytho a gosod meddalwedd ar wahân i apiau sydd wedi'u cymeradwyo gan TG o'r 'Microsoft Store'.
- 5.5 Caiff cyfrifon rhwydwaith staff eu dileu hanner nos y diwrnod mae eu cyflog yn terfynu, yn seiliedig ar system cyflogres. Golyga na fydd gan staff craidd fynediad i rwydwaith y Cyngor ar ôl i'w cyflogaeth ddod i ben. Mae cyfrifon ar gyfer unigolion sy'n defnyddio systemau'r Cyngor ond sydd ddim yn cael eu cyflogi gan y Cyngor yn cael eu cau pob 3 mis, ac os oes angen eu hail-agor caiff cais ei wneud i TG. Mae hyn yn sicrhau nad oes cyfrifon yn parhau'n agored am gyfnod hir ar ôl i'r angen am y cyfrif derfynu. Gwiriwyd sampl o staff oedd wedi terfynu eu cyflogaeth â'r Cyngor yn Chwefror 2019 a gwelwyd bod cyfrifon y defnyddwyr wedi'u cau yn briodol. Gwelwyd bod gosodiadau gofynion cyfrineiriau i ddefnyddwyr yn briodol. Gofynnir i gyfrineiriau fod yn 12 llythyren/rhif/symbol o hyd, nid oes cyfyngiadau am oed cyfrinair ac mae'r opsiwn 'Store passwords using reversible encryption' wedi ei anablu.
- 5.6 Gwiriwyd polisiau perthnasol i ddiogelwch seiber y Cyngor (Polisi Defnydd E-bost a'r Rhynggrwyd, Polisi Diogelwch Gwybodaeth, Polisi Gwaredu Gwastraff Cyfrinachol, Polisi Amgryptio, Polisi Adrodd Digwyddiadau Diogelwch a Pholisi Diogelu Data). Gwelwyd bod yr holl bolisiau yn cynnwys gwybodaeth briodol ac yn gyfredol.

- 5.7 Mae'r polisïau sydd mewn lle gan y Cyngor (nodir ym mharagraff 5.6) ar gael i Staff y Cyngor yn 'Y Ganolfan Bolisi' sydd ar fewnwyd y Cyngor. Fodd bynnag, nid oes unrhyw reolaeth i gyfyngu mynediad ar rwydwaith y Cyngor ar gyfer staff sydd heb ddarllen a derbyn y polisïau perthnasol. Mae'r risg bod staff ddim yn darllen a derbyn polisïau statudol y Cyngor eisoes wedi ei amlygu yn adroddiad archwiliad Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018/19. Derbyniwyd cyfrifoldeb am weithrediad gan Cefnogaeth Gorfforaethol i *'ystyried opsiynau ar gyfer sut i sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau hyfforddiant statudol ynghyd â pholisïau'r Cyngor'*.
- 5.8 Yn ogystal, cynhaliwyd ymarferiad *'phishing'* gan y gwasanaeth TG ym Mai 2017 drwy anfon e-bost hyrwyddol ffug i dros 200 o staff y Cyngor yn gofyn am fanylion mewngofnodi i'w cyfrifon *Amazon*. Meddiannwyd cyfeiriadau e-bost ond dim cyfrineiriau *Amazon* yr unigolion oedd wedi ymateb i'r e-bost ffug ar wefan oedd yn cael ei "hostio" ar serfer sefydlwyd yn fewnol. Mynegodd yr Arweinydd Tîm Rhwydwaith, Gweinyddwyr, Cymwysiadau a Diogelwch ni dderbyniwyd llawer o ymatebion gan yr unigolion i'r e-bost adborth a anfonwyd yn dilyn yr ymarferiad. Serch y canlyniadau pryderus, nid oes ymarferiad ychwanegol tebyg wedi ei gynnal i fonitro'r sefyllfa a hyfforddi /codi ymwybyddiaeth staff ar faterion diogelwch seiber ar wahân i gyhoeddiad bwletin TG i staff ar yr 18 Hydref 2018 yn eu hatgoffa o'r safonau disgwylidig ar gyfer cyfrineiriau a materion diogelwch seiber eraill.
- 5.9 Mynegodd yr Arweinydd Tîm Rhwydwaith, Gweinyddwyr, Cymwysiadau a Diogelwch bod 12 fideo yn amlygu risgiau seiber i staff wedi'u comisiynu a'u paratoi. Bydd y rhain ar gael i staff pan fydd gwefan mewnrwyd bwrpasol TG wedi'i chwblhau.
- 5.10 Gwiriwyd y gofrestr risg gorfforaethol gyfredol a ni welwyd unrhyw fater diogelwch seiber wedi ei amlygu yn y ddogfen. Oni bai bod risgiau diogelwch seiber yn cael eu hamlygu yn y gofrestr risg gorfforaethol, ni fydd pwyslais ar gael rheolaethau mewn lle i sicrhau bod agweddau seiber y Cyngor yn cael eu diogelu'n briodol.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Gwasanaeth TG a'r adran Cefnogaeth Gorfforaethol wedi ymrwmo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Cynnal hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth staff o risgiau diogelwch seiber.
- Sicrhau bod risgiau seiber sy'n berthnasol i'r Cyngor yn gorfforaethol yn cael eu nodi yn y gofrestr risg corfforaethol.

## TREFNIADAU ADFER TRYCHINEB TG CYLLID

### 1. Cefndir

1.1 Mae adfer trychineb TG wedi cael ei ddatblygu wrth i reolwyr cyfrifiaduron ddechrau cydnabod dibyniaeth eu sefydliadau ar eu systemau cyfrifiadurol. Mae Cynllun Adfer Trychineb yn broses neu'n gyfres o weithdrefnau a ddogfennir i adfer ac amddiffyn seilwaith TG busnes pe bai trychineb yn digwydd. Mae cynllun o'r fath fel arfer wedi'i ddogfennu ar ffurf ysgrifenedig, yn pennu'r gweithdrefnau y bydd sefydliad yn eu dilyn os bydd trychineb.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau priodol adfer trychineb TG mewn lle a gwerthuso effeithiolrwydd y prosesau a'r rheolaethau sy'n gysylltiedig â rheoli adfer trychineb TG. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod cynllun cyflawn a pherthnasol mewn lle, yn nodi'r wybodaeth a'r cyfrifoldebau cywir, gwirio trefniadau wrth gefn a sicrhau bod trefniadau yswiriant digonol mewn lle.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn -

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>DIGONOL</b>	<b>Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i lliniaru'r risgiau ymhellach.</b>

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
<b>UCHEL IAWN</b>	0
<b>UCHEL</b>	0
<b>CANOLIG</b>	1
<b>ISEL</b>	1

### 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1. Yn sgil colled systemau TG ar 21 Gorffennaf 2018, mae'r gwasanaeth TG yn parhau i weithio i wella gwydnwch y systemau i'r dyfodol ac yn hyderus os byddai trychineb tebyg yn y dyfodol ni fuasai yn amharu ar ddefnyddwyr yn yr un modd. Cafodd gwaith ei gynnal ar y systemau aerdymheru yn y ganolfan ddata ym mis Tachwedd 2018 gydag unedau newydd wedi eu gosod. Yn ogystal, mae cynllun mewn lle i newid strwythur systemau'r Cyngor i fynd o 'active-passive' i 'active-active' erbyn 2020, fel bod prosesu proffil diogelwch yn cael ei ddsbarthu ymhlith pob uned glwstwr yn hytrach nag un prif uned sy'n prosesu sesiynau cyfathrebu gydag un neu ragor o is-unedau wrthgefn.

- 5.2 Fe wiriwyd y trefniadau wrthgefn a gwelwyd bod trefniadau priodol mewn lle. Darganfuwyd bod trefniadau wrthgefn yn cael eu gweithredu ar bob system yn rheolaidd. Mae copi wrthgefn yn cael ei gymryd o bob system i ddisg ym Mhencadlys a chopi i ddisg ar wahân mewn lleoliad arall. Mae'r tîm cwmwl yn monitro'r copïau wrthgefn am unrhyw fethiannau ac yn derbyn e-bost gan 'Commvault' ar statws wrthgefn pob system. Mae'n bosib hefyd i'r gwasanaeth TG edrych ar sgrin oddi mewn y system 'Commvault' neu 'VMware' sy'n rhoi trosolwg sydyn o bryd cafwyd copïau wrthgefn eu gwneud y tro olaf. Yn ogystal, gwelwyd bod monitro priodol rhag diffygion yn ystafell y serfwyr ym Mhencadlys a'r serfwyr wrthgefn. Gwelwyd bod y systemau rheolaethau amgylcheddol yn cael eu cynnal a'u cadw yn rheolaidd a bod yr ystafelloedd yn cael eu profi ar sawl lefel i brofi bod y rheolaethau yn weithredol gywir a chyflawn e.e. ymateb i fwg, profi'r larwm a'r synhwyrdd a gweithrediad y nwy Argon a Nitrogen (IGSS).
- 5.3 Er y gwelwyd bod rhai rheolaethau mewnol da yn bodoli ar drefniadau wrthgefn, darganfuwyd oherwydd problemau a thrafferthion caledwedd dros y ddwy flynedd ddiwethaf, bu'r ymarferion profi adfer systemau wrthgefn ar gyfer systemau RAISE a Chyflogau gael eu cynnal diwethaf yn 2016. Er bod y systemau TG wedi eu cau lawr a'i hail-gychwyn yn llwyddiannus wrth osod systemau aerdymheru newydd ym mis Gorffennaf 2018, mae perygl na fydd trefniadau adfer trychineb yn addas os na chant eu profi'n realistig yn rheolaidd.
- 5.4 Fe wiriwyd os oedd cynllun adfer trychineb mewn lle gan y gwasanaeth TG a gwelwyd nad oes strwythur a chanllawiau corfforaethol wedi'i ddogfennu a'i gofnodi yn ffurfiol ar gyfer rheoli adfer trychineb a pharhad busnes y Cyngor. Heb gynllun wedi'i ddiffinio'n glir ar gyfer y senarios gwaethaf posibl nac unrhyw ddogfen yn cynnwys gwybodaeth/arweiniad corfforaethol o systemau critigol a'u blaenoriaeth adferiad, mae'n debygol bydd oedi yn y drefn o adfer trychineb ac yna methiant i ddarparu gwasanaeth effeithiol.
- 5.5 Darganfuwyd bod dogfen 'Adfer Canolfan Ddata Caernarfon DC1' wedi'i ddogfennu, sydd yn cynnwys canllawiau er mwyn galluogi eu dilyn i ail-gychwyn neu gau'r brif ganolfan ddata yng Nghaernarfon. Fodd bynnag, ni welwyd canllawiau adfer wedi eu dogfennu yn ffurfiol ar gyfer y canolfan ddata wrth-gefn.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Gwasanaeth TG wedi ymrwmo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Blaenoriaethu systemau TG adrannol/corfforaethol i'w cynnwys yn nhrefniadau adfer trychineb sy'n cael eu gweithredu gan y Gwasanaeth TG.**
- **Ymgorffori'r drefn flaenoriaethu sydd wedi ei wneud gan y Panel i greu cynllun adfer trychineb TG corfforaethol a chynllun parhad busnes y Cyngor.**
- **Cynnal ymarferiadau profi'r systemau yn rheolaidd o'r cynllun adfer trychineb corfforaethol a pharhad busnes a'r data wrthgefn a chofnodi'r hyn a ddysgwyd.**
- **Sicrhau bod canllawiau adfer wedi'u dogfennu ar gyfer y ganolfan ddata ym Mhenrhyndeudraeth.**

**STATWS CYFLOGAETH IR35  
ECONOMI A CHYMUNED**

**1. Cefndir**

1.1 Mae 'statws cyflogaeth' yn dynodi os yw unigolyn yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig yn ôl diffiniadau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn neddfwriaeth 'IR35: *Countering Avoidance in the Provision of Personal Services*'. Caiff statws cyflogaeth unigolyn effaith ar daliadau treth a chyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwr, a gall statws cyflogaeth anghywir arwain at gam-drafod ariannol yn ogystal â chosbau gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Caiff statws cyflogaeth unigolyn ei ddynodi drwy ystyried sawl ffactor, a gall cyflogwyr ddefnyddio gwiriad '*check employment status for tax*' ar wefan Llywodraeth y DU er mwyn gwirio statws. Wrth gynnal arolygiad mae CThEM yn edrych ar natur perthynas rhwng gweithwyr a'r cyflogwr yn hytrach na chytundeb er mwyn dod i'r farn os ddylai'r trefniant fod yn rhan o IR35.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod y Cyngor yn talu unigolion yn gywir, yn seiliedig ar eu 'statws cyflogaeth', gan ymchwilio i ddarganfod os oes unrhyw unigolion sy'n cael eu talu drwy asiantaeth a ddylai fod yn gyflogedig gan y Cyngor. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r cyfriflyfr a dethol sampl o daliadau a wneir gan yr Adran Economi a Chymuned i weithwyr ac ystyried amgylchiadau'r unigolion.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>UCHEL</b>	<b>Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.</b>

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Gwiriwyd y cyfriflyfr ariannol am enghreifftiau o daliadau cyson a wneir i gyflenwyr trwy wirio gwariant yr adran ar draws holl godau Cyflenwadau a Gwasanaethau, a detholwyd nifer o gyflenwyr oedd, ar yr olwg gyntaf, yn awgrymu y gall statws cyflogaeth fod yn anghywir.

4.1.1 Ymchwiliwyd chwe gwahanol unigolyn lle gwneir taliadau cyson iddynt dros gyfnod o amser drwy ddefnydd o anfonebau, ac felly ddim yn rhan o gyflogres Cyngor Gwynedd. Gwnaethpwyd hyn drwy archwilio'r anfonebau er mwyn gweld beth oedd yn cael ei hawlio, a cynhaliwyd trafodaethau gyda'r Rheolwyr perthnasol er mwyn darganfod cefndir, cyfrifoldebau, disgwyliadau a thelerau'r gwaith, gan ddehongli natur y berthynas rhwng y cyflenwr a'r Cyngor.

4.1.2 Wrth wirio'r berthynas yma, daethpwyd i'r casgliad bod y trefniant cyfredol yn briodol ac nad oes digon o gyfiawnhad i drosglwyddo'r unigolion i'r gyflogres. Mae rhesymau dilys dros eu talu drwy anfonebau felly. Gwelwyd esiampyl o reolwr yn cynnal gwiriad statws cyflogaeth cyn penodi, a bod ymwybyddiaeth ynglŷn â statws cyflogaeth yn briodol yn gyffredinol.

## MENTER ADFYWIO GLANNAU A CHANOL TREF CAERNARFON ECONOMI A CHYMUNED

### 1. Cefndir

1.1 Bu cais am gyllid grantiau ERDF (*European Regional Development Fund*) i Lywodraeth Cymru ar gyfer cynnal prosiect rhwng Mawrth 2016 a Rhagfyr 2020 yng Nghaernarfon yn llwyddiannus. Mae'n rhan o gynllun '*Tourist Attractor Destinations*' (TAD) Croeso Cymru. Mae'r prosiect yn cynnwys gorsaf trenau, Galeri 2, amgylchedd y glannau: mynediadau a chysylltiadau, a rheolaeth prosiect. Nodir yng nghytundebau'r Cyngor â phartneriaid y prosiect y 'Bydd [Cyngor Gwynedd] yn derbyn yr amodau grant ar ran y partïon. Bydd [Cyngor Gwynedd] yn atebol i lywodraeth Cymru os na chydymffurfir ag unrhyw un o'r partïon ag amodau'r grant'.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i lywodraethu'r Fenter Adfywio Glannau a Chanol Tref Caernarfon.

Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r rheolaethau sydd mewn lle i liniaru'r risgiau sy'n ymwneud a rheoli a llywodraethu'r prosiect yn ogystal â'r ddogfennaeth a gynhyrchir i gefnogi/dogfennu rhesymau'r Fenter.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>UCHEL</b>	<b>Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.</b>

### 4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gwelwyd bod strwythur amlwg wedi ei sefydlu ar gyfer y prosiect gyda sawl ffrwd wybodaeth o'r partneriaid yn bwydo i'r Bwrdd Prosiect sy'n cynnwys cynrychiolwyr o pob un o'r rhan-ddeiliaid. Gwiriwyd sampl o gofnodion ac agendau cyfarfodydd Bwrdd Prosiect a gynhaliwyd yn ogystal â chofnodion cyfarfodydd cynnydd prosiectau unigol y partneriaid. Gwelwyd bod cyfathrebu rheolaidd a bod y llwybrau gwybodaeth yn gweithredu'n briodol. Y Rheolwr Prosiect Menter Glannau Caernarfon (Rheolwr Prosiect) oedd yn gyfrifol am gynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfodydd y partneriaid ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd Prosiect.

4.2 Gwiriwyd cytundebau rhwng y Cyngor a'r partneriaid unigol. Gwelwyd bod cynnwys y cytundebau rhwng Cyngor Gwynedd a'r 3 endid yn cynnwys yr un wybodaeth. Cynhwysai'r cytundebau'r amodau sy'n rhaid i Gyngor Gwynedd (Prif Noddwr) a'r endidau eraill (Partïon) eu cyfarfod er mwyn sicrhau bod y prosiect yn derbyn cyllid gan Ewrop/Lywodraeth Cymru trwy WEFO. Llofnodwyd a seliwyd pob cytundeb ar ran y Cyngor gan Uwch Gyfreithiwr sydd â'r hawl i wneud hynny. Gwelwyd hefyd, lofnodion gan swyddogion priodol o'r partneriaid ar gyfer y 3 cytundeb.

- 4.3 Cyflwynwyd cynllun busnes i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r cais am y prosiect. O'r Daflen Benderfyniad, gwelwyd bod y cynllun wedi ei gymeradwyo gan Arweinydd y Cyngor, bod ymgynghoriad wedi ei gynnal â'r Pennaeth Cyllid a bod datganiad wedi ei ddatgan.
- 4.4 Gan nad yw'r rhan helaeth o agweddau'r gwahanol brosiectau yn dibynnu ar ei gilydd, nid oedd un amserlen ar gyfer y prosiect . Gan fod yr amserlenni a grëwyd ar gyfer y prosiectau unigol mor fanwl, buasai'n anodd cynnwys yr holl wybodaeth mewn dogfen hylaw.
- 4.5 Gwelwyd bod cyllidebau wedi'u gosod ar gyfer y prosiect. Roedd taenlenni byw o'r rhain a caiff eu llenwi'n fisol a'u monitro. Trwy fonitro a chynllunio, darganfuwyd bod tanwariant yn debygol ar un o'r prosiectau a phenderfynwyd gwneud cais i addasu cyllideb. Gwiriwyd y trafodaethau a dilynwyd a gwelwyd bod llwybrau cyfathrebu addas ar gyfer y cais hwn a derbyniwyd cadarnhad gan WEFO ar 06/03/2018 yn nodi '*So in relation to the Gwynedd project we are content for the changes proposed by the joint Beneficiary in the email dated 7th February 2018...*'.
- 4.6 Gwiriwyd hawliad 9, Mehefin 2018 fel sampl. Gwelwyd bod hawliadau priodol wedi eu hanfon gan y partneriaid gan gynnwys anfonebau, tystiolaeth banc a ffurflenni TR27b wedi eu hardystio. Gwelwyd bod rhestrau o archebion wedi eu cynnwys gan y partneriaid. Cyfunwyd yr holl wybodaeth ar gyfer y cais anfonwyd at Lywodraeth Cymru. Gwelwyd bod y ffurflen wedi ei llenwi'n gywir a bod swyddog priodol wedi ei harwyddo fel swyddog penodedig ar ran y Pennaeth Cyllid.
- 4.7 Gwelwyd bod cofrestr risg effeithiol yn cael ei chadw ar gyfer y prosiect. Cedwir cofnod o statws risg ('cau' neu 'agor'), dyddiadau cofnodi ac adolygu, camau i liniaru a sgôr risg. Roedd y gofrestr risg yn fanwl ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Serch hyn, nododd y Rheolwr Prosiect nad oes cofrestr gwersi a ddysgwyd yn cael ei chadw ar gyfer y prosiect. Nid oes cofnod pwrpasol o beth yw'r gwersi sydd yn cael eu dysgu o wynebu risg a'i liniaru. Cytunodd y Rheolwr Prosiect dylai bod cofrestr o'r fath yn cael ei chadw a mynegodd y buasai'n hapus i lunio un ar gyfer y prosiect a'i chadw'n gyfredol.



**TREFNIADAU AR ALWAD A BRYD  
PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

**1. Cefndir**

1.1 Mae gweithwyr y gwasanaeth wedi eu lleoli yn Uned Hergest, Ysbyty Gwynedd ac maent yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth i drigolion Gwynedd a Môn mewn argyfyngau. Mae'r gwasanaeth ar gael i'r cyhoedd tu allan i oriau swyddfa arferol - gan gynnwys gyda'r nos, ar benwythnosau a gwyliau cyhoeddus. Mae 6 aelod llawn amser yn y Tîm Nos, sef, y Rheolwr a pum Gweithiwr Cymdeithasol, ar ben hyn mae dwy locwm o Fôn a thair locwm sydd eisoes yn gweithio i Gyngor Gwynedd yn gweithio oriau achlysurol i'r gwasanaeth.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau gweinyddiaeth a staffio'r Gwasanaeth yn ddigonol. Yn ogystal, bwriedir sicrhau bod y drefn o hawlio oriau goramser yn gywir a theg a bod yr oriau a weithir yn cydymffurfio â gofynion statudol/deddfwriaeth, a bod trefniadau wedi eu sefydlu er mwyn diogelu'r cyhoedd a'r gweithwyr. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cytundebau cyflogaeth, cyflogau a thafleuni amser y gweithwyr, eu cymwysterau / hyfforddiant ac unrhyw asesiadau risg perthnasol.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>DIGONOL</b>	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
<b>UCHEL IAWN</b>	0
<b>UCHEL</b>	0
<b>CANOLIG</b>	1
<b>ISEL</b>	1

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Gwelwyd bod rheolaethau mewnol digonol yn bodoli ond bod lle i dynhau ymhellach ar y meysydd ymhelaethir arnynt isod:

- 5.1.1 Gwiriwyd taflenni amser y swyddogion yn erbyn y rota. Mae sifft yn cychwyn am 4:30y.p. ond gwelwyd bod un swyddog yn cofnodi ei bod yn cychwyn ei sifftiau am 4:00y.p. Gwelwyd o'r taflenni amser a ddedholwyd bod y swyddog yma wedi derbyn cyflog am yr hanner awr ychwanegol yma ar bob achlysur a welwyd, er nad yw'n swm sylweddol nid yw ei sifft yn cychwyn tan 4:30y.p. ac mae angen sicrhau cysondeb ar draws y gweithwyr. Hysbyswyd y Rheolwr o hyn ac eglurodd bod rhai gweithwyr yn cychwyn gweithio yn gynt er mwyn cynllunio, darllen y log, adroddiadau a.y.b., nid yw pob gweithiwr locwm yn gallu gwneud hyn, mae'r Rheolwr yn ceisio bod yn hyblyg gyda hwy.
- 5.1.2 Yn unol â'r 'working time directive', ni cheir gweithio mwy nag 48 awr yr wythnos ar gyfartaledd, fel arfer wedi ei gyfrifo dros gyfnod o 17 wythnos. Mae modd eithrio allan yn ysgrifenedig os am weithio mwy nag 48 awr yr wythnos, ond ymddengys nad oedd unrhyw un o'r gweithwyr wedi eithrio allan. Gwiriwyd 5 cyfnod gwahanol o 17 wythnos rhwng Ebrill 2018 ac Ionawr 2019 a gwelwyd un achos lle'r oedd swyddog llawn amser wedi gweithio 48.54 awr ar gyfartaledd dros 17 wythnos. Dylid nodi mai amcangyfrif yw'r cyfrifiad gan fod angen rhoi ystyriaeth i absenoldebau megis salwch, gwyliau blynyddol, mamolaeth, tadolaeth a.y.b. Mae angen ychwanegu amser mae unigolyn wedi bod i ffwrdd o'r gwaith yn ystod yr 17 wythnos ar ddiwedd y cyfnod er mwyn darganfod y ffigyrau cywir.
- 5.1.3 Gwelwyd bod gorwariant sylweddol ym mhennawd cyflogau gweithwyr y gwasanaeth, eglurwyd bod hyn wedi bod allan o ddwylo'r gwasanaeth gan fod aelod o'r tîm wedi bod i ffwrdd gyda salwch tymor hir. Yn ei absenoldeb cyflogwyd swyddog arall i'r tîm, roedd hyn yn golygu costau ychwanegol ar ben y costau oedd ynghlwm â'r swyddog oedd yn absennol hir dymor.
- 5.1.4 Roedd dadleniad 'Gweithlu Oedolion (Uwch)' un aelod o staff achlysurol (locwm) wedi dod i ben yn Rhagfyr 2018 ac roedd ar Gam 1 o'r broses o gael dadleniad 'Gweithlu Plant ac Oedolion (Uwch)', golyga hyn nad oes ganddi ddadleniad cyfredol. Roedd y Rheolwr yn ymwybodol o hyn, ac wedi ei hysbysu na chaiff weithio nes bod ganddi ddadleniad cyfredol. Gwiriwyd y System Gyflogau a gwelwyd nad yw'r unigolyn wedi derbyn cyflog ers Rhagfyr 2018.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Rheolwr Tîm Nos wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Atgoffa staff o'r angen i gwblhau a chyflwyno'r dogfennau sy'n berthnasol a'u dadleniadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG/DBS) a monitro eu statws.**
- **Cynnal adolygiadau'n gyfnodol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw aelod o'r tîm yn gweithio dros 48 awr yr wythnos (ar gyfartaledd).**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL  
CORFFORAETHOL**

**1. Cefndir**

1.1 Pwrpas Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yw rhannu gwybodaeth am berfformiad ac effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'n drosolwg sy'n crynhoi'r prif bwyntiau a gweithgarwch, ynghyd ag amlinellid o welliannau a blaenoriaethau fydd yn mynnu sylw dros y flwyddyn 2018/19. Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i bob Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol baratoi a chyhoeddi adroddiad ynglŷn â dyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol o fewn yr Awdurdod dros y flwyddyn flaenorol. Mae'r adroddiad yn cael ei osod mewn perthynas â sut mae Cyngor Gwynedd wedi cyflawni yn erbyn chwe safon ansawdd llesiant fel sydd wedi'u nodi o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod y drefn a ddilynwyd wrth baratoi Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydymffurfio â deddfwriaethau, yn seiliedig ar ymarfer da ac yn cynnig proses glir ar gyfer casglu tystiolaeth. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau bod yr adroddiad ar y ffurf a ragnodir yn Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodai Lleol (Ffurff Ragnodedig) (Cymru) 2017 a bod tystiolaeth gefnogol ar gael i gefnogi mesurau perfformiad.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>UCHEL</b>	<b>Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.</b>

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Cynhaliwyd profion archwilio ar Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli wrth baratoi'r adroddiad a bod trefn a ddilynwyd wrth ei baratoi yn cydymffurfio â'r ddeddf.

4.2 Cyhoeddwyd 'Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol (Cymru) 2017' yn sgil Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n rhoi arweiniad ar hyn a ddisgwylir yn yr adroddiad blynyddol. Mae'r rheoliadau wedi'i seilio ar y syniad o baratoi adroddiad blynyddol o fewn penawdau gyda'r rhan fwyaf arwyddocaol yn gyson â'r safonau ansawdd cenedlaethol ar gyfer llesiant. Gwelwyd bod y penawdau a'r rhannau cywir wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ac felly yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

- 4.3 Mae pwynt 88 (tudalen 18) o'r Cod Ymarfer Rhan 8 (gweithgareddau Gwasanaethau Cymdeithasol) sydd yn rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) yn mynegi "The Director of social Services should ensure that an annual report is not too long and is written in a clear and concise manner". Gwelwyd bod fformat yr adroddiad yn dderbyniol gan ei fod yn cyd-fynd â'r ddelwedd gorfforaethol, yn cynnwys amryw o luniau, lliwiau a graffiau i ddenu sylw'r darllenwr. Yn ogystal, gwelwyd bod y sillafu drwy gydol yr adroddiad yn gywir ac yn unol â'r deddf gan ei fod wedi ei ysgrifennu mewn modd clir a chryno.
- 4.4 Yn ogystal, gwelwyd bod yr adroddiad wedi ei chyhoeddi'n amserol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol ac ar gael ar wefan yr awdurdod lleol sy'n hawdd i'r cyhoedd ddod o hyd iddo.
- 4.5 Gwelwyd bod tystiolaeth gefnogol ar gael i gefnogi cynnwys yr adroddiad a mesurau perfformiad.

**PLANT - LLEOLIADAU ALL-SIROL  
PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

**1. Cefndir**

1.1 Mae'r penderfyniad i leoli plentyn mewn gofal preswyl tu allan i'r Sir yn un sydd yn cael ei wneud yn seiliedig ar asesiad o anghenion dwys a chymhleth y plentyn neu'r person ifanc, ble na ellid darparu ar eu cyfer yn lleol mewn gofal maeth nac mewn uned breswyl arferol. Gwneir y penderfyniadau ynglŷn â'r lleoliad mwyaf addas mewn Panel statudol amlasiantaethol. Arolygwyd gwasanaethau ar gyfer plant yng Nghyngor Gwynedd gan yr Arolygaeth Gofal Cymru yn ystod mis Mai 2018, oedd yn cynnwys gofal preswyl a lleoliadau y tu allan i'r ardal, a daethpwyd i'r farn bod y trefniadau yn gadarnhaol.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau llywodraethu a gweinyddu lleoliadau preswyl all-sirol yn briodol. Gwnaethpwyd hyn drwy wirio trefniadau'r Cyngor o sut maent yn cwrdd ag anghenion pawb sy'n gysylltiedig â'r achosion yn ogystal â threfniadau gosod a monitro cytundebau.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>DIGONOL</b>	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Risg	Nifer
<b>UCHEL IAWN</b>	0
<b>UCHEL</b>	0
<b>CANOLIG</b>	1
<b>ISEL</b>	1

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Arolygwyd gwasanaethau ar gyfer plant yng Nghyngor Gwynedd gan yr Arolygaeth Gofal Cymru yn ystod mis Mai 2018, oedd yn cynnwys gofal preswyl a lleoliadau y tu allan i'r ardal. Mynegir rhan 3.12 o'u hadroddiad (dyddiedig Awst 2018):

*"Roedd y penderfyniad i leoli plentyn i ffwrdd o'i awdurdod cartref yn seiliedig ar asesiad trylwyr a dadansoddiad o anghenion y plentyn. Gwelsom fod ystyriaethau a chamau gweithredu Cyngor Gwynedd wrth wneud lleoliad y tu allan i ardal/y tu allan i Gymru yn bodloni gofynion rheoleiddiol. Roedd paneli'n cael eu penodi'n briodol, ac roedd swyddog wedi'i enwebu yn gwneud penderfyniadau gwybodus mewn da bryd, yn eu cofnodi a'u cadarnhau.*

*Roedd yr awdurdod lleol yn cydymffurfio â'r gofynion i hysbysu'r awdurdod sy'n derbyn bod plentyn yn symud i'w ardal ac i asesu digonolrwydd yr adnoddau i ddiwallu anghenion y plentyn cyn i'r lleoliad gael ei wneud, er mwyn sicrhau y bydd anghenion gofal, iechyd ac addysgol y plentyn yn dal i gael eu diwallu cyn gynted ag y bydd yn dechrau byw y tu allan i ardal ei gartref, heb amharu arno ryw lawer."*

- 5.2 Yn seiliedig ar ddarganfyddiadau'r arolwg yma gan Arolygaeth Gofal Cymru mewn perthynas â threfniadau asesu anghenion y plant, cyfyngwyd ychydig ar ddyfnder yr archwiliad. Fodd bynnag, gwiriwyd trefniadau'r Panel Comisiynu Lleoliadau statudol, sef panel sy'n trafod a chytuno ar drefniadau diwallu anghenion iechyd ac addysg y plant, boed yn yr ardal neu yn all-sirol. Ers cyhoeddi adroddiad AGC, gwelwyd nad oedd y Panel yn cwrdd yn fisol ar bob achlysur, neu heb gworwm i wneud rhai penderfyniadau, yn groes i ganllawiau Llywodraeth Cymru 'Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell' sy'n nodi *"Dylai'r panel gyfarfod yn rheolaidd, o leiaf bob mis, oni bai nad oes achosion i'w hystyried."* Gwelwyd bod cyfarfod o'r Panel bellach wedi ei raglennu ar gyfer y trydydd dydd Llun o bob mis.
- 5.3 Mynegodd yr adran er bod cynlluniau gofal mewn lle sy'n nodi ymysg eraill y gofal sydd i'w ddarparu, nid oes cytundebau rhwng y Cyngor a'r darparwr mewn lle ym mhob achos. Mae hyn yn wendid gan fod cytundeb yn nodi cyfrifoldebau'r darparwr a disgwiliadau'r Cyngor, gan gynnwys nodi beth sy'n gynnwysedig yn y ffioedd, a beth sy'n ychwanegol. Mae trefniant bellach mewn lle ble mae cytundebau yn cael eu gosod mewn achosion newydd.
- 5.4 Mae prinder darpariaeth leol, yn enwedig darpariaeth arbenigol, yn golygu ei fod yn anochel bod y Cyngor yn gorfod comisiynu lleoliadau all-sirol os ydynt am gwrdd ag anghenion y plentyn. Mae natur y gofal yn golygu bod y ddarpariaeth yn gostus iawn a bod y prinder darpariaeth yn lleihau'r gallu i leihau costau. Mae Adroddiad Perfformiad Plant a Chefnogi Teuluoedd aeth i'r Cabinet ar y 09/01/18 yn mynegi:  
*"Mae pwysau cynyddol ar yr adran i leoli plant mewn lleoliadau drudfawr ac erbyn hyn, mae'r adran yn bryderus y gallasai'r nod ariannol fod wedi bod yn rhy uchel... mae'n debyg y bydd gorwariant yn cynyddu"*. Mae grant o £552k wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru eleni, ac mae bid am gyfraniad wedi bod yn llwyddiannus ar gyfer 2019/20 sy'n cynorthwyo i leddfau rhan o'r gorwariant. Yn sgil y sefyllfa ariannol bryderus yma, gellir dadlau fod y maes yn gymwys i fod ar gofrestr risg yr adran, a'r gofrestr risg corfforaethol y Cyngor, ond gwelwyd nad yw wedi ei gynnwys.
- 5.5 Mae'r Cyngor eisoes wedi adnabod y sefyllfa ac yn ystyried trefniadau amgen, gan gynnwys gweithio rhanbarthol. Mae adroddiad Perfformiad Plant a Chefnogi Teuluoedd i'r Cabinet ar y 29/01/19 yn datgan *"Mae'r diffyg argaeledd o leoliadau preswyl a'r cost cynyddol sydd ynghlwm iddynt yn fater sydd yn derbyn sylw ar lefel Cenedlaethol a Rhanbarthol. Bu i'r mater yn ddiweddar fod yn destun trafodaeth y 'Parliamentary Accounts Committee Llywodraeth Cymru'. Ar lefel Rhanbarthol, o dan arweiniad Penaethiaid Plant y Gogledd mae gwaith yn digwydd ar asesiad dichonolrwydd rhanbarthol i redeg lleoliad preswyl ar y cyd, neu i edrych ar opsiynau gyda darparwyr presennol ar gyfer plant a phobl ifanc Gogledd Cymru. Mae disgwyl i'r grŵp tasg adrodd yn ôl dechrau Mawrth ar opsiynau. Serch hyn ni fydd hyn yn ateb tymor byr i'r broblem lleoliadau preswyl nag yn dileu'r angen am leoliadau preswyl arbenigol i'r dyfodol."*

**6. Camau Gweithredu**

**Mae'r Adran wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Gosod cytundebau rhwng y Cyngor a'r darparwyr.**
- **Ystyried cynnwys materion ariannol gofal preswyl all-sirol ar gofrestr risg yr adran.**

**GORFODAETH STRYD  
PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

**1. Cefndir**

- 1.1 Yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19, cyfeiriodd Galw Gwynedd 1,428 o alwadau i'r Tîm Gorfodaeth Stryd ar faterion amrywiol a oedd yn cynnwys troseddau gwastraff, camddefnydd o finiau, tipio slei bach, rheoli cŵn, ceisiadau am fagiau baw cŵn, graffiti a phosteri anghyfreithlon. Mae gan y Gwasanaeth y gallu i gosbi trwy roddi dirwyon parod am droseddau amgylcheddol o dan amryw o ddarpariaethau statudol gwahanol.
- 1.2 Cafodd yr arolwg 'System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol' (LEAMS) ei gynnal yng Ngwynedd ym mis Mehefin a Gorffennaf 2018 ac fe gafodd 98.6% o strydoedd Gwynedd eu graddio fel gradd B neu uwch. Mae hyn yn uwch na'r ffigwr o 95.8% ar gyfer Cymru gyfan ar hyn o bryd. Cafodd dangosydd glendid ei gofnodi eleni fel 73.6, sef yr ail ddangosydd glendid uchaf ar gyfer Gwynedd ers cychwyn yr arolwg.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau mewnol priodol yn bodoli ar gyfer monitro strydoedd Gwynedd er mwyn sicrhau eu bod mor lan, gwyrd a diogel a phosibl. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu edrych ar unrhyw drefniadau monitro lleoliadau neu ardaloedd ble derbynnir ymholiadau yn aml, gwirio'r trefniadau ar gyfer dosbarthu dirwyon, sicrhau bod y ffioedd cywir wedi cael eu gorfodi, bod arwyddion gorfodaeth o amgylch ardaloedd a bod trefn benodol ar gyfer ymateb a gweithredu ar gwynion/ymholiadau.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>DIGONOL</b>	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
<b>UCHEL IAWN</b>	0
<b>UCHEL</b>	0
<b>CANOLIG</b>	2
<b>ISEL</b>	1

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

- 5.1 Gwelwyd bod rheolaethau digonol yn bodoli ar gyfer y gwasanaeth Gorfodaeth Stryd a bod tîm mewnol Gorfodaeth Stryd y Cyngor yn parhau i fonitro strydoedd Gwynedd yn fanwl.



- 5.2 Gwelwyd bod y gwasanaeth yn gwneud defnydd o gyfryngau cymdeithasol i geisio codi ymwybyddiaeth trigolion o bwysigrwydd cadw strydoedd yn lân, a bod gwybodaeth wedi ei gynnwys ar y wefan gorfforaethol, ble gellir adrodd am unrhyw drosedd amgylcheddol, gwneud ceisiadau a chael fwy o wybodaeth am y gwahanol orchmynion mewn lle.
- 5.3 Darganfuwyd bod gan y tîm raglenni patrôl i'w dilyn, ond oherwydd nad oes gan y gwasanaeth yr adnoddau i gynnal patrolau ar hyd y sir, mae gwaith y tîm yn ymatebol iawn ac yn ceisio targedu llefydd sydd wir angen efo cyn lleied o staff, felly nid yw'n bosib dilyn y rhaglenni yn union. Mae'r tîm yn defnyddio'r 'ap' 'FlyMapper' ar y cyfrifiadur/ffonau symudol, ble ddangosir dwysedd digwyddiadau tipio anghyfreithlon yng Ngwynedd, ac felly yn rhoi blaenoriaeth i ardaloedd problemus.
- 5.4 Mae swyddogion atebol sydd wedi derbyn hyfforddiant priodol yn gweithredu ar ddirwyon ac mae'n hanfodol i unrhyw swyddog newydd fynychu a chwblhau cwrs 'Fixed Penalty Enforcement' cyn cael awdurdod i roi dirwyon. Darganfuwyd bod gan staff o adrannau eraill megis staff morwrol, bwerau i roi dirwyon am daflu sbwriel a rheoli baw cŵn a derbyniwyd tystiolaeth eu bod wedi derbyn yr hyfforddiant priodol.
- 5.5 Fe wiriwyd sampl o 42 o ddirwyon o'r flwyddyn ariannol 2018/19 a or sampl a wiriwyd, ymddengys bod 39 wedi derbyn y ffioedd cywir, ond bod 3 o'r ffioedd yn anghywir, gan eu bod wedi derbyn swm o £60.00 am reoli/baw cŵn, sef dirwy 2016/17. Darganfuwyd mai staff morwrol a roddodd y dirwyon hyn allan, a'u bod wedi defnyddio hen lyfr 'Final Penalty Notices' (FPN) sy'n egluro'r swm anghywir. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Stryd ers i'r FPN yma eu cyrraedd, mae'r tîm wedi sicrhau bod gan bob swyddog morwrol y llyfr diweddaraf.
- 5.6 Dengys cyfrifon y gwasanaeth bod yr incwm a dderbyniwyd o ddirwyon dros y pedair blynedd diwethaf wedi bod oddeutu £5,000 y flwyddyn, yn erbyn targed incwm o oddeutu £20,000 ar gyfer y tîm. Nododd y Rheolwr Gwasanaethau Stryd bod targed incwm y tîm wedi cael eu gosod yn 2008 ac yn seiliedig ar ddisgwyliad buasai dros 30 o Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) yn cyfrannu'n sylweddol at gyhoeddi nifer o ddirwyon/ hysbysiadau cosb derfynol. Erbyn heddiw, mae'r trefniadau wedi newid ac nid oes gan SCCH yr amser i ystyried troseddau o'r fath, a gwelwyd nad oedd y SCCH wedi dyroddi unrhyw hysbysiadau cosb derfynol ers 2012. Erbyn hynny, mae'r targed incwm gwreiddiol yn parhau ac mae cynlluniau i gynyddu'r targed yma i £30,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20 ac i £40,000 erbyn 2020/21 heb gynllun i'w gyflawni. Ymddengys bod gorwariant o £20,744 yn erbyn y gyllideb 2018/19, gyda mwyafrif o'r costau yn cael eu hamsugno gan ostyngiadau mewn costau eraill megis staff a phensiynau. Pryderodd y Rheolwr Gwasanaethau Stryd bydd y gwasanaeth yn parhau i fethu cwrdd â'r targed incwm gyda'r capasiti presennol yn arwain at gynnydd mewn gorwariant yn y gyllideb.
- 5.7 Gwiriwyd y trefniadau i sicrhau bod dirwyon yn cael eu talu'n amserol. Yn ôl canllawiau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, mae yna gyfnod safonol ar gyfer talu cosbau penodedig, a bennir gan ddeddfwriaeth, sef 14 diwrnod. Os nad yw'r gwasanaeth wedi derbyn taliad o fewn 14 diwrnod, mae'r swyddog priodol yn anfon llythyr allan er mwyn eu hatgoffa ac yna caiff y derbynwyr 14 diwrnod ychwanegol. Detholwyd sampl o 10 o ddirwyon a gyhoeddwyd yn 2018/19 a heb eu talu. O'r sampl a wiriwyd, ymddengys nad oedd unrhyw gofnod bod llythyrau wedi eu hanfon allan ar gyfer 5 o'r sampl, bod llythyrau wedi eu hanfon allan fisoedd ar ôl y drosedd ar gyfer 4 o'r sampl a dim ond un llythyr wedi ei anfon allan ar amser.

O'r data a wiriwyd, ymddengys bod 24 heb gael eu llythyru yn brydlon ers Ebrill 2017, golyga felly mai tebygolrwydd isel sydd i'r Cyngor allu hawlio cyfanswm y ddyled gronedig o oddeutu £3,100. Er bod y system '*MCS Enforcer*', sef system gweinyddu gorfodaethau yn helpu i reoli'r amserlen lythyru, esboniodd y Rheolwr Gwasanaethau Stryd bod hyn yn ddibynnol ar swyddog gweinyddol i weithredu arnynt.

- 5.8 Bu i'r Tîm golli swydd Cymhorthydd Gweinyddol yn 2018 a oedd yn gyfrifol am ymdrin ag ymholiadau, cofnodi, prosesu a chysoni dirwyon, taliadau, llythyru dyledwyr a gweinyddu'r systemau megis '*MCS Enforcer*' a *Siebel*. Mae *Siebel* yn system ar gyfer derbyn ac ymateb i ymholiadau'r cyhoedd. Darganfuwyd bod gan y gwasanaeth drefn dros dro, ble mae swyddog gweinyddol o'r gwasanaeth Priffyrdd yn helpu gyda thasgau gweinyddol y Tîm yn ychwanegol i ddyletswyddau Priffyrdd. Fodd bynnag, nododd y Rheolwr Gwasanaeth gall hyn fod yn broblem i'r gwasanaeth pan fydd adegau prysur i Priffyrdd neu gyfnodau salwch ble mae'n cael effaith ar y gefnogaeth sydd ar gael i'r tîm, a gall y gwasanaeth wynebu rhai cyfnodau heb wasanaeth gweinyddol o gwbl.
- 5.9 Yn ogystal, gwiriwyd ymholiadau a derbyniwyd gan y cyhoedd. Adroddwyd o'r system *Siebel*, bod 649 o ymholiadau wedi cael eu derbyn gan y gwasanaeth ers Ebrill 2018 hyd yn hyn. Gwelwyd bod 423 o'r rhain wedi cael eu cau, gyda 226 o alwadau ar agor. O'r 226 o alwadau ar agor, gwelwyd bod y rhain yn dyddio yn ôl i Ebrill 2018. Gwelwyd ar gyfartaledd bod y gwasanaeth yn cymryd 9 diwrnod i gau ceisiadau Bin Stryd a Gwagio, gyda eithriad o ddau o'r ceisiadau wedi cymryd dros 117 o ddiwrnodau. Gwelwyd ar gyfartaledd bod y gwasanaeth yn cymryd 142 o ddiwrnodau i gau cais am Tipio anghyfreithlon a 17 diwrnod i gau ceisiadau am faw/rheoli cŵn. Ymddengys bod y diffyg adnodd yn enwedig colli swydd Cymhorthydd Gweinyddol wedi cael effaith ar y gwasanaeth i allu gweithredu ar ymholiadau'r cyhoedd, hysbysiadau dyledion a gweinyddu'r systemau yn brydlon yn cynnwys cysoni taliadau yn ôl i'r system/cofnodion y gwasanaeth.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Gwasanaeth Gorfodaeth Stryd wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Y gwasanaeth i ystyried moderneiddio y system '*MCS Enforcer*' er mwyn lleihau dibyniaeth ar fewnbwn gweinyddol.
- Datblygu system fewnol yn seiliedig ar FFOS i sicrhau bod ymholiadau yn cael eu hateb yn brydlon.
- Parhau i fonitro cyllideb y gwasanaeth Gorfodaeth Stryd neu newid pwyslais y tîm ac ystyried gosod targedau perfformiad cytundebol yn seiliedig ar y nifer o ddirwyon.

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	13 MEHEFIN 2019
TEITL	ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2018/19
PWRPAS YR ADRODDIAD	MYNEGI BARN ARCHWILIO MEWNOL AR YR AMGYLCHEDD REOLAETHOL GYFFREDINOL O FEWN YR AWDURDOD
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	DERBYN YR ADRODDIAD

---

## 1. BWRIAD ARCHWILIO MEWNOL

1.1 Pwrpas y gwasanaeth Archwilio Mewnol yw:

*Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu*

## 2. SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR GYHOEDDUS

2.1 Mae Nodyn CIPFA sy'n cymhwyso Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus i Lywodraeth Leol (2019) yn datgan:

*"Mae pob sefydliad llywodraeth leol yn gyfrifol am sefydlu a chynnal prosesau rheoli risg priodol, systemau rheoli, cofnodion cyfrifo a threfniadau llywodraethu. Mae Archwiliad Mewnol yn chwarae rhan hanfodol drwy roi sicrwydd bod y trefniadau hyn yn eu lle ac yn gweithredu'n briodol. Mae'r farn archwilio mewnol blynyddol sydd yn ofynnol yn y Safonau yn gwybyddu'r datganiad llywodraethu, ac yn pwysleisio ac yn adlewyrchu pwysigrwydd yr agwedd hon ar waith archwilio mewnol."*

2.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw darparu cyfryw farn archwilio mewnol blynyddol i'r Awdurdod. Wrth roi fy marn, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i'r Cyngor ydi cyngor rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

2.3 Wrth asesu'r lefel cyngor i'w roi, rwyf wedi ystyried pob archwiliad sy'n berthnasol i 2018/19 ac unrhyw weithrediad dilynol parthed archwiliadau o'r cyfnod yma a chyfnodau blaenorol.

### 3. SICRWYDD CYFFREDINOL

3.1 Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2018/19, yn fy marn i, mae gan Gyngor Gwynedd fframwaith gadarn o reolaeth fewnol. Mae hyn yn cynorthwyo i roi hyder yn y trefniadau i sicrhau cyfiawnhad effeithiol ac effeithlon o amcanion y Cyngor, gan fod y camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol i gynnal a chryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod y camau gweithredu cytunedig i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol.

#### 3.2 Ystyriaethau

Er mwyn rhoi fy marn ar ddigonolrwydd y systemau rheolaeth fewnol, rwyf wedi ystyried y canlynol:

- Yn gyffredinol, canfuwyd rheolaeth fewnol dda o fewn pob un o wasanaethau'r Cyngor yn unigol.
- Mae holl adrannau'r Cyngor wedi adeiladu ar waith blaenorol, gan barhau i ddatblygu eu cyfundrefnau rheoli risg.
- Ble darganfuwyd gwendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol, cafodd y materion hyn eu cywiro gan swyddogion y Cyngor, ac wedi derbyn sylw y Gweithgor Gwella Rheolaethau neu fe dderbyniasant sylw gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- Nid yw Archwilio Mewnol wedi dibynnu ar unrhyw waith gan gyrff archwilio allanol er mwyn dod i'r farn yn yr adroddiad yma.

### 4. GWAITH ARCHWILIO

#### Cynllun Archwilio

4.1 Roedd 60 darn o waith wedi eu cynnwys yng nghynllun archwilio addasedig terfynol 2018/19. Cafodd 58 o'r aseiniadau hyn eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2019, sy'n cynrychioli **96.67%** o'r cynllun. At bwrpasau'r mesur yma caiff aseiniad ei gyfrif wedi ei gwblhau os oes adroddiad/memorandwm terfynol wedi ei ryddhau neu os yw'r aseiniad wedi ei gau a ni ddisgwylir treulio mwy o amser arno. Yr uchelgais perfformiad oedd 95%.

4.2 Mae rhestr o'r archwiliadau o gynllun 2018/19 sydd wedi cyfrannu at y farn a fynegir yn yr adroddiad blynyddol wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

4.3 Ble'n berthnasol, caiff lefel sicrwydd ei ddarparu ar gyfer yr adroddiadau archwiliad mewnol sydd yn seiliedig ar werthusiad o'r amgylchedd reolaeth fewnol ac ar y nifer o risgiau a adnabuwyd ynghyd â'u sgôr risg cyfatebol. Mae'r sgôr risgiau cyfredol yn syrthio i un o bedwar categori risg sef:

LEFEL RISG	SGÔR
UCHEL IAWN	20 - 25
UCHEL	12 - 16
CANOLIG	6 - 10
ISEL	1 - 5

- 4.4 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod:

<b>LEFEL SICRWYDD</b>	<b>DIFFINIAD</b>
<b>UCHEL</b>	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
<b>DIGONOL</b>	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
<b>CYFYNGEDIG</b>	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.
<b>DIM SICRWYDD</b>	Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

- 4.5 Cafodd pob gweithrediad cytunedig a gyflwynwyd o fewn yr adroddiadau eu gwneud er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol sydd yn lliniaru risgiau gweithredol ac i sefydlu ymarfer da.
- 4.6 O'r 58 aseiniad yng nghynllun archwilio 2018/19 a gafodd eu cwblhau, dyfarnwyd y lefelau sicrwydd canlynol:

<b>Lefel Sicrwydd</b>	<b>Nifer Archwiliadau</b>
Uchel	18
Digonol	28
Cyfyngedig	6
Dim Sicrwydd	0
Dim Categori	6
<b>Cyfanswm</b>	<b>58</b>

- 4.7 O'r adroddiadau perthnasol o gynllun archwilio 2018/19 a dderbyniodd lefel sicrwydd, derbyniodd 88.46% ohonynt lefel sicrwydd "Digonol" neu "Uchel". Mae hwn yn fesur newydd a gyflwynwyd ar gyfer 2018/19.
- 4.8 Ni dderbyniodd unrhyw archwiliad lefel "Dim Sicrwydd".
- 4.9 Caiff yr adroddiadau llawn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar ôl i'r adroddiad terfynol gael ei gytuno gyda'r cleiant a'i ryddhau. Lle caiff memorandwm ei anfon yn hytrach nag adroddiad llawn, a lle nad oes categori sicrwydd, mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn crynodeb byr o ddarganfyddiadau'r archwiliadau perthnasol ble'n briodol.
- 4.10 Dengys y tabl isod pa gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a dderbyniodd fanylion yr archwiliadau o gynllun 2018/19. Mae dyddiadau cyfarfodydd perthnasol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

<b>Dyddiad Rhyddhau'r Adroddiad/ Memorandwm Terfynol</b>	<b>Dyddiad Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu</b>
1 Ebrill 2018 – 14 Medi 2018	27 Medi 2018
17 Medi 2018 – 16 Tachwedd 2018	29 Tachwedd 2018
19 Tachwedd 2018 – 1 Chwefror 2019	14 Chwefror 2019
4 Chwefror 2019 – 31 Mawrth 2019	13 Mehefin 2019

### **Addasiadau i'r Cynllun**

- 4.11 Adroddwyd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod y flwyddyn ar addasiadau i'r cynllun archwilio.

### **Gwaith Dilyniant**

- 4.12 Allan o'r 163 gweithrediad cytunedig a wnaethpwyd yn 2017/18, roedd gweithrediad derbyniol ar **94.48%** ohonynt erbyn 31 Mawrth 2018.

### **Gweithgor Gwella Rheolaethau**

- 4.13 Parhaodd y Gweithgor Gwella Rheolaethau gyda'i waith o gryfhau trefniadau'r Cyngor i ymateb i adroddiadau Archwilio Mewnol. Mae'r Gweithgor, sef Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a tri aelod arall (sydd wedi eu cylchdroi) yn cwrdd rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac yn trafod materion o wendidau rheolaeth sydd wedi codi yng nghyfarfod y Pwyllgor, er mwyn rhoi sylw i'r rhain mewn mwy o ddyfnder. Caiff swyddogion eu gwahodd i'r Gweithgor i egluro'r gwendid rheolaeth, ac yn anad dim y camau sydd yn cael eu dilyn i wella'r sefyllfa.

## **5. ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL**

### **Staffio a Chymwysterau**

- 5.1 Y Rheolwr Archwilio sydd yn ymgymryd â swyddogaeth "Pennaeth Archwilio Mewnol". Mae'r Rheolwr Archwilio yn atebol i'r Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg, sydd yn atebol i'r Pennaeth Cyllid. Mae gan y Rheolwr Archwilio ac un Arweinydd Archwilio cymhwyster CIPFA llawn ac mae gan yr Arweinydd arall gymhwyster llawn ACCA. Mae tri Uwch Archwiliwr yn astudio am gymhwyster AAT.
- 5.2 Ers Ebrill 2019, 7 aelod llawn amser sydd i'r Tîm Archwilio Mewnol ac un Archwiliwr Dros Dro i gyfro mamolaeth ac absenoldeb tri Uwch Archwiliwr i fynychu Coleg ar gyfer ennill eu cymhwyster AAT.

### **Y defnydd a wneir o adnoddau staff**

- 5.3 Mae Atodiad 2 yn cynnwys dadansoddiad o ddefnydd amser swyddogion Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019. Tynnir sylw'r Pwyllgor i'r canlynol:

- Mae'r tabl yn arddangos cynnydd yn nifer y dyddiau cynhyrchiol oedd ar gael i'w darparu ar gyfer archwiliadau Cyngor Gwynedd o **707** diwrnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018 i **913** diwrnod am yr un cyfnod yn 2018/19, cynnydd o **206**. Roedd hyn o ganlyniad i benodi Arweinydd Archwilio a phenodiad Archwilwyr dros dro.
- Roedd y nifer o ddyddiau a ddefnyddiwyd ar gyfer cyflawni archwiliadau arbennig neu ymatebol yn 34 diwrnod o gymharu â 31 o ddiwrnodau yn 2017/18.
- Roedd y dyddiau a ddefnyddiwyd i gyflawni archwiliadau dilyniant yn 50 diwrnod yn 2018/19 o gymharu â 39 diwrnod yn 2017/18.

## 6. PERFFORMIAD ARCHWILIO

6.1 Roedd canlyniadau mesurau cyflawni'r gwasanaeth archwilio mewnol yn ystod 2018/19 fel a ganlyn:

Disgrifiad Mesurydd	Perfformiad 2017/18	Uchelgais 2018/19	Canlyniadau 2018/19
Canran archwiliadau'r cynllun archwilio sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio am eu bod un ai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu gau.	100%	95%	<b>96.67%</b>
Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn cyrraedd barn 'B' neu well (mesur corfforaethol).	82.69%	-	-
Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn derbyn lefel sicrwydd "Digonol" neu well (mesur corfforaethol).	Mesur Newydd	65%	<b>88.46%</b>
Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen (mesur corfforaethol).	90.09%	85%	<b>94.48%</b>

## 7. CYNLLUNIAU GWAITH A THARGEDAU 2019/20

7.1 Cyflwynwyd cynllun archwilio mewnol drafft ar gyfer 2019/20 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2019. Mae'r cynllun diweddaraf, yn cynnwys addasiadau ers cyfarfod y Pwyllgor, wedi ei gynnwys yn Atodiad 3.

7.2 Mae mesurau cyflawni Archwilio Mewnol yn dangos pa mor dda yr ydym yn cyflawni ein pwrpas. Mesurau cyflawni Archwilio Mewnol ar gyfer 2019/20 yw:

Mesur	Uchelgais 2018/19	Cyfeiriad Uchelgais
Canran archwiliadau'r cynllun archwilio sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am eu bod un ai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu gau.	95%	Cynnal
Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn derbyn lefel sicrwydd "Digonol" neu well (mesur corfforaethol).	65%	Cynnal
Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg uchel neu uchel iawn sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol). Cytunwyd ar 11 o weithrediadau i liniaru risgiau uchel/uchel iawn a amlygwyd yn ystod 2018/19.	100%	Mesur Newydd
Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg isel neu canolig sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol). Cytunwyd ar 77 o weithrediadau i liniaru risgiau canoli/isel a amlygwyd yn ystod 2018/19.	85%	Mesur Newydd

## 8. RHAGLEN SICRWYDD ANSAWDD A GWELLIANT ARCHWILIO MEWNOL

8.1 Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2017 ganlyniad yr hunanasesiad o gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) ynghyd â'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant. Mae cynnydd yn erbyn y Rhaglen wedi ei gynnwys yn Atodiad 4.



**9. ARGYMHELLIAD**

- 9.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad yma fel adroddiad blynyddol ffurfiol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus am y flwyddyn ariannol 2018/19.

**Cynllun Archwilio Mewnol 2018/19**

<b>Enw'r Archwiliad</b>	<b>Lefel Sicrwydd</b>	<b>Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu</b>
<b>CORFFORAETHOL</b>		
Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd	Dim Categori	
Trefniadau Diogelu – Trais yn y Cartref	Cyfyngedig	27 Medi 2018
Trefniadau Diogelu – Sefydliadau	Cyfyngedig	14 Chwefror 2019
Gwalth Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol	Dim Categori	
Trefniadau Rheoli Risg o Dwyll a Llygredigaeth	Digonol	13 Mehefin 2019
Rheoli Gwybodaeth – Sefydliadau	Digonol	14 Chwefror 2019
Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol	Cyfyngedig	14 Chwefror 2019
Y Fenter Twyll Cenedlaethol	Dim Categori	
Cronfa'r Degwm	Cyfyngedig	14 Chwefror 2019
<b>ADDYSG</b>		
<b>Adnoddau</b>		
Grant Gwisg Ysgol	Uchel	27 Medi 2018
Grant Datblygu Disgyblion	Digonol	27 Medi 2018
Grant Gwella Addysg ar gyfer Disgyblion	Uchel	27 Medi 2018
Grant Addysg Ôl-16	Dim Categori	14 Chwefror 2019
Polisi Chwythu'r Chwiban – Ysgolion Gwynedd	Digonol	13 Mehefin 2019
Mynediad i Ysgolion	Uchel	27 Medi 2018
Statws Cyflogaeth IR35	Digonol	13 Mehefin 2019
<b>Ar draws yr Adran</b>		
Prosiect TRAC	Uchel	14 Chwefror 2019
<b>GwE</b>		
Statws Cyflogaeth IR35	Cyfyngedig	13 Mehefin 2019
<b>Ysgolion</b>		
Prynu Cyfarpar drwy'r Ysgol	Digonol	13 Mehefin 2019
Ysgolion Cyffredinol	Dim Categori	
<b>AMGYLCHEDD</b>		
<b>Gwarchod y Cyhoedd</b>		
Difa Pla	Digonol	13 Mehefin 2019
Trefniadau Trwyddedu	Digonol	13 Mehefin 2019
<b>Tir ac Eiddo'r Cyngor</b>		
Cynnal a Chadw Eiddo	Digonol	13 Mehefin 2019
Biliau Cylchol	Dim Categori	14 Chwefror 2019

<b>Enw'r Archwiliad</b>	<b>Lefel Sicrwydd</b>	<b>Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu</b>
<b>Trafnidiaeth a Gofal Stryd</b> Trafnidiaeth Gyhoeddus	Digonol	14 Chwefror 2019
<b>CYLLID</b>		
<b>Ar draws yr Adran</b> Systemau – Rheolaeth “Patch”	Uchel	14 Chwefror 2019
<b>Cyfrifeg</b> Rhyngwynebau gyda'r Cyfriflyfr Ariannol	Uchel	29 Tachwedd 2018
<b>Pensiynau a Chyflogau</b> Cyfraniadau gan Gyflogwyr	Digonol	13 Mehefin 2019
<b>Refeniw</b> Budd-daliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol	Uchel	13 Mehefin 2019
Treth Cyngor – Ad-daliadau	Uchel	29 Tachwedd 2018
Atal a Dileu Dyledion Treth Cyngor	Uchel	27 Medi 2018
Trethi Busnes – Rhestr Brisio	Uchel	27 Medi 2018
<b>Technoleg Gwybodaeth</b> Gwaredu Cyfarpar TG	Digonol	13 Mehefin 2019
Diogelwch Seiber	Digonol	13 Mehefin 2019
Trefniadau Adfer Trychineb TG	Digonol	13 Mehefin 2019
<b>ECONOMI A CHYMUNED</b>		
<b>Ar draws yr Adran</b> Statws Cyflogaeth IR35	Uchel	13 Mehefin 2019
<b>Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau</b> Cyfrifon Amgueddfa Lloyd George	Uchel	14 Chwefror 2019
<b>Hamdden</b> Canolfan Hamdden Arfon	Digonol	27 Medi 2018
Canolfan Hamdden Plas Ffrancon	Digonol	29 Tachwedd 2018
Canolfan Hamdden Glaslyn	Digonol	29 Tachwedd 2018
Canolfan Hamdden Penllyn	Digonol	29 Tachwedd 2018
<b>Morwrol a Pharciau Gwledig</b> Casglu Incwm – Traethau a Pharciau Gwledig	Digonol	27 Medi 2018
Glynllifon – Incwm	Digonol	29 Tachwedd 2018

<b>Enw'r Archwiliad</b>	<b>Lefel Sicrwydd</b>	<b>Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu</b>
<b>Strategaeth a Datblygu</b> Menter Adfywio Glannau a Chanol Tref Caernarfon – Trefniadau Llywodraethu	Uchel	13 Mehefin 2019
<b>OEDOLION, IECHYD A LLESIANT</b>		
<b>Ar draws yr Adran</b> Trefniadau ar Alwad a Brys Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol	Digonol Uchel	13 Mehefin 2019 13 Mehefin 2019
<b>Cefnogi Pobl</b> Grant Cefnogi Pobl	Uchel	29 Tachwedd 2018
<b>Gofal Cymunedol</b> Gofal Cartref – Costau Teithio	Digonol	27 Medi 2018
<b>Preswyl a Dydd</b> Plas y Don Plas Hedd Hafod Mawddach Cefn Rodyn	Digonol Digonol Digonol Digonol	27 Medi 2018 27 Medi 2018 27 Medi 2018 27 Medi 2018
<b>Tai Sector Breifat</b> Grant Cyfleusterau i'r Anabl Cynllun Troi Tai'n Gartrefi	Uchel Uchel	29 Tachwedd 2018 14 Chwefror 2019
<b>PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD</b>		
<b>Plant a Theuluoedd</b> Grant Dechrau'n Deg – Gofal Plant Plant – Ieoliadau All-Sirol	Uchel Digonol	14 Chwefror 2019 13 Mehefin 2019
<b>PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL</b>		
<b>Fflyd</b> Tanciau Disel a Rheoli Disel	Cyfyngedig	14 Chwefror 2019
<b>Rheoli Gwastraff a Strydoedd</b> Gorfodaeth Stryd	Digonol	13 Mehefin 2019

**Crynodeb o nifer yr adroddiadau ym mhob lefel sicrwydd, Cynllun 2018/19:**

<b>Lefel Sicrwydd</b>	<b>Nifer Archwiliadau</b>
Uchel	18
Digonol	28
Cyfyngedig	6
Dim Sicrwydd	0
Dim Categori	6
<b>Cyfanswm</b>	<b><u>58</u></b>

**Dadansoddiad Amser Archwilio Mewnol 1 Ebrill - 31 Mawrth:**

<b>2017/18</b>		<b>2018/19</b>
<b>1,504</b>	<b>Cyfanswm Dyddiau</b>	<b>2,118</b>
207	Amser Di-gynnyrch: Gwyliau Blynnyddol	240
50	Amser Di-gynnyrch: Gwyliau Statudol	53
257	<i>Llai Gwyliau (Statudol ac Anstatudol)</i>	293
<b>1,247</b>	<b>Cyfanswm y Dyddiau Ar Gael</b>	<b>1,825</b>
	<i>Llai:</i>	
10	Gwyliau Arbennig	15
47	Salwch	109
0	Cyfnod Mamolaeth	90
82	Hyfforddiant Proffesiynol	81
88	Hyfforddiant Swydd	80
<b>1,020</b>	<b>Dyddiau ar gael</b>	<b>1,451</b>
	<i>Llai Amser Di-gynnyrch:</i>	
5	Apwyntiadau Meddygol	13
20	Cofnodi a Rheoli Amser	31
69	Cyfarfodydd a Phwyllgorau	98
7	Cyflwyno Hyfforddiant	8
5	Cynnal Cyfweiliadau	2
26	Gwaith Cefndirol	46
14	Gweinyddiaeth ayb.	24
4	Prosiect iGwynedd	3
4	Pwyllgor Archwilio	4
107	Rheolaeth Archwilio Mewnol	114
2	Rheoli Absenoldebau	2
11	Trafferthion TG	43
5	Ymarferiad Rheoli Gwybodaeth Archwilio Mewnol	4
4	Tasgau Cyd-weithio Gogledd Cymru	10
1	Cyfarfodydd/Gwaith ar y cyd ag Archwilwyr Allanol	3
0	Amser Teithio	7
<b>736</b>	<b>Cyfanswm Dyddiau Cynhyrchiol</b>	<b>1,038</b>
29	Gwaith APCE	37
0	Cynghorau Tref a Chymuned	89
<b>707</b>	<b>Cyfanswm dyddiau cynhyrchiol, Cyngor Gwynedd</b>	<b>913</b>

**Dadansoddiad o ddefnydd dyddiau cynhyrchiol Cyngor Gwynedd:**

<b>2017/18</b>		<b>2018/19</b>
616	Gwaith Cynllun blwyddyn gyfredol	776
8	Cwblhau gwaith blwyddyn flaenorol	0
0	Cychwyn gwaith blwyddyn ddilynol	16
12	Cynghori	37
39	Gwaith dilyniant	50
31	Gwaith Ymatebol/Archwiliadau Arbennig	34
<b>707</b>		<b>913</b>

**Cynllun Archwilio Mewnol 2019/20**

<b>Enw'r Archwiliad</b>	<b>Dyddiau</b>
<b>CORFFORAETHOL</b>	
Gwerth am Arian	20.00
Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd	20.00
Merched mewn Arweinyddiaeth	5.00
Modiwl Datblygu Staff	8.00
Goramser	25.00
Costau Teithio Hunanwasanaeth	5.00
Trefniadau Diogelu	15.00
Trefniadau Diogelu - Sefydliadau	4.00
Diwylliant a Moeseg	15.00
Monitro Perthynas â Chwsmeriaid	10.00
Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Cenedlaethol	40.00
Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau	6.00
<b>Cyfathrebu</b>	
Defnydd a Rheolaeth o Gyfryngau Cymdeithasol	8.00
<b>ADDYSG</b>	
<b>Adnoddau</b>	
Grant Datblygu Disgyblion	10.00
Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion	15.00
Grant Addysg Ôl -16	3.00
Trefniadau Cyllidebu Ôl -16	10.00
<b>GwE</b>	
GwE - Gwerth am Arian	20.00
<b>Ysgolion</b>	
Penodi a Chostau Athrawon Llanw - Uwchradd	25.00
Cyfrifon Ymddiriedolaeth	5.00
Cronfeydd Ysgol	20.00
Ysgolion Cyffredinol	5.00
Ysgol Pendalar	12.00
Ysgol Hafod Lon	12.00
<b>AMGYLCHEDD</b>	
<b>Cynllunio</b>	
Cytundebau Adran 106	15.00



<b>Tir ac Eiddo'r Cyngor</b>	
Maddaliadau	15.00
Rheolaeth Categori	15.00
<b>Trafnidiaeth a Gofal Stryd</b>	
Trafnidiaeth Gyhoeddus	12.00
Uned Diogelwch y Ffyrdd	8.00
<b>Uned Cefn Gwlad a Mynediad</b>	
Grant AHNE	10.00
<b>ASiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru</b>	
Achrediadau	15.00
<b>CYLLID</b>	
<b>Ar draws yr adran</b>	
Systemau TG	30.00
<b>Ariannol</b>	
System Taliadau - Newid Data Sefydlog	10.00
<b>Cyfrifeg</b>	
Cysoni Banc	20.00
<b>Refeniw</b>	
Credyd Cynhwysol	15.00
Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol	12.00
Hunanwasanaeth Treth Cyngor	10.00
<b>ECONOMI A CHYMUNED</b>	
<b>Adfywio Cymunedol</b>	
Cronfa Degwm	3.00
<b>Ar draws yr adran</b>	
Cynllun Llanbedr	15.00
<b>Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau</b>	
Cyfrifon Amgueddfa Lloyd George	5.00
<b>Cefnogi Busnes</b>	
ARFOR	8.00
Cynllun STEM Gogledd	8.00
<b>Morwrol a Pharciau Gwledig</b>	
Iechyd a Diogelwch Harbyrau	5.00
Mesurau Diogelwch Parc Padarn	3.00
<b>Strategaeth a Datblygu</b>	
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	15.00

## **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

### **Cefnogi Pobl**

Grant Cefnogi Pobl **15.00**

### **Digartrefedd a Thai Cefnogol**

Cynllun Ail-leoli Ffoaduriaid Syria **8.00**

Costau Gwely a Brecwast **10.00**

### **Preswyl a Dydd**

Plas Pengwaith **12.00**

Plas Gwilym **12.00**

Bryn Blodau **12.00**

Llys Cadfan **12.00**

Anabledd Dysgu Canolfannau Dydd **25.00**

## **PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

### **Plant a Theuluoedd**

Cyfrifon Clybiau Ieuentid **8.00**

Taliadau i Ofalwyr Maeth **12.00**

Hafan y Sêr **12.00**

## **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

### **Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

Cynllun Parhad Gwasanaeth **12.00**

### **Gwaith Bwrdeistrefol**

Cynnal a Chadw Meysydd Chwarae **12.00**

### **Gwaith Priffyrdd**

Rhaglen Waith - Pontydd **10.00**

### **Rheoli Gwastraff a Strydoedd**

Toiledau Cyhoeddus **12.00**

## **YMGYNGHORIAETH**

### **Ar draws yr adran**

Achrediadau **15.00**

**766.00**

**Atodiad 4**

<b>RHIF GWEITHRED</b>	<b>SAFON PSIAS</b>	<b>CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFON</b>	<b>GWEITHREDIAD ARFAETHEDIG</b>	<b>CYFRIFOLDEB</b>	<b>AMSERLEN WREIDDIOL</b>	<b>CYNNYDD</b>
01	<b>1110 - Annibyniaeth Cyfundrefnol</b>	A chwilir am adborth gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer gwerthuso perfformiad y prif weithredwr archwilio?	Mae Cyngor Gwynedd yn y broses o ddatblygu cynllun gwerthuso 360-gradd ar gyfer rheolwyr - dylai bod Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn gwahoddiad i roi adborth ar berfformiad y Rheolwr Archwilio yn y cyfarfod gwerthuso nesaf.	Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Cynorthwyol – Refeniw a Risg	31/03/2018	Nid yw'r cynllun gwerthuso 360-gradd wedi ei ddatblygu hyd yma ond bellach, mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn mynychu cyfarfodydd perfformiad gyda'r Aelod Cabinet Cyllid.
02	<b>1310 – Gofynion y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant</b>	A yw'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant yn cynnwys asesiadau mewnol ac allanol	Bydd asesiad allanol yn cael ei gynnal gan brif weithredwr archwilio Cyngor Sir Gaerfyrddin yn unol â threfniadau adolygiad cyfoedion Grŵp Prif Archwilwyr Cymru (WCAG).	Rheolwr Archwilio	31/12/2017	Mae'r asesiad allanol bellach wedi ei gwblhau gan brif weithredwr archwilio Cyngor Sir Gâr.
03	<b>1320 – Adrodd ar y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant</b>	A yw'r prif weithredwr archwilio wedi adrodd ar ganlyniadau'r asesiad allanol i'r uwch reolwyr a'r bwrdd?	Canlyniadau'r asesiad allanol i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.	Rheolwr Archwilio	08/02/2018	Bydd canlyniadau'r asesiad allanol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu unwaith y bydd adroddiad wedi ei derbyn.

RHIF GWEITHRED	SAFON PSIAS	CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFON	GWEITHREDIAD ARFAETHEDIG	CYFRIFOLDEB	AMSERLEN WREIDDIOL	CYNNYDD
04	<b>1320 – Adrodd ar y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant</b>	A yw canlyniadau monitro'r rhaglen sicrwydd ansawdd a gwelliant a chynnydd yn erbyn y cynllun gwella yn cael eu hadrodd yn flynyddol o leiaf?	Cynnydd yn erbyn y cynllun sicrwydd ansawdd a gwelliant i'w cynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol.	Rheolwr Archwilio	10/05/2018	Cynnydd yn erbyn y cynllun sicrwydd ansawdd a gwelliant yn rhan o'r Adroddiad Blynyddol.
05	<b>1320 – Adrodd ar y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant</b>	A yw'r canlyniadau yn cynnwys gwerthusiad yr asesydd neu'r tîm asesu o safbwynt i raddau cydymffurfiaeth y weithgaredd archwilio mewnol gyda'r Safonau?	Gwerthusiadau'r asesiadau allanol i'w hymgorffori yn Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol.	Rheolwr Archwilio	10/05/2018	Gwneir hyn yn sgil adroddiad yr aseswr allanol.
06	<b>1322 – Datgelu Diffyg Cydymffurfiaeth</b>	A yw'r prif weithredwr archwilio wedi adrodd am unrhyw ddiffyg o gydymffurfio â'r safonau i'r bwrdd?	Unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth i'w haradrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac unrhyw wyriadau arwyddocaol i'w cynnwys yn y datganiad llywodraethu blynyddol.	Rheolwr Archwilio a'r Pennaeth Cynorthwyol – Refeniw a Risg	Fel yr angen	Nid oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth nac unrhyw wyriadau arwyddocaol.

RHIF GWEITHRED	SAFON PSIAS	CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFON	GWEITHREDIAD ARFAETHEDIG	CYFRIFOLDEB	AMSERLEN WREIDDIOL	CYNNYDD
07	<b>2450</b> – <b>barn</b> <b>Gyffredinol</b>	A yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys: a) Datganiad ar gydymffurfiaeth â'r Safonau? b) Canlyniadau'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant? Cynnydd yn erbyn unrhyw gynlluniau gwella sy'n deillio o'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant?	Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol i ymgorffori datganiad o gydymffurfiaeth â'r Safonau a chynnydd yn erbyn unrhyw gynlluniau gwella sy'n deillio o'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant.	Rheolwr Archwilio	10/05/2018	Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol – caiff hyn ei wneud yn flynyddol.

# Eitem 10

PWYLLGOR	<b>PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU</b>
DYDDIAD	<b>13 MEHEFIN 2019</b>
TEITL	<b>SIARTER ARCHWILIO MEWNOL</b>
PWRPAS	<b>CYFLWYNO SIARTER ARCHWILIO MEWNOL I'R PWYLLGOR</b>
AWDUR	<b>LUNED FÔN JONES, RHEOLWR ARCHWILIO</b>
GWEITHREDIAD	<b>CYMERADWYO'R SIARTER</b>

---

## **1. CYFLWYNIAD**

- 1.1 Daeth *Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus* ("y Safonau") i rym ar 1 Ebrill 2013, a chawsant eu diwygio yn Ebrill 2017. Un o ofynion y Safonau yw'r angen i lunio Siarter Archwilio Mewnol. Mae'r Safonau, yn ogystal â Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol (2019) ategol a gyhoeddwyd gan CIPFA, yn manylu ar yr hyn a ddylid ei gynnwys mewn Siarter Archwilio Mewnol ar gyfer Corff Llywodraeth Leol.
- 1.2 Yn ôl y Safonau a'r Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol ategol, mae'r hyn a ddylid ei gynnwys mewn Siarter Archwilio Mewnol ar gyfer Corff Llywodraeth Leol fel a ganlyn:
- Diffiniad ffurfiol o bwrpas, awdurdod, a chyfrifoldeb y gweithgarwch archwilio mewnol, sy'n gyson â'r Safonau.
  - Diffiniad o'r termau 'bwrdd' ac 'uwch reolwyr', at ddibenion y gweithgaredd archwilio mewnol. (Noder y disgwylir y bydd y pwyllgor archwilio yn cyflawni rôl y bwrdd yn y mwyafrif o achosion).
  - Nodi sefyllfa'r gweithgarwch archwilio mewnol o fewn y sefydliad.
  - Sefydlu perthynas adrodd swyddogaethol y Prif Swyddog Archwilio gyda'r bwrdd.
  - Sefydlu atebolrwydd, llinell adrodd a'r berthynas rhwng y Prif Swyddog Archwilio a'r rhai y gall y Prif Swyddog Archwilio adrodd iddynt yn weinyddol.
  - Sefydlu cyfrifoldeb y bwrdd a hefyd rôl y swyddogion statudol (fel y Prif Swyddog Cyllid, y swyddog monitro a phennaeth y gwasanaeth taledig) mewn perthynas ag archwilio mewnol.
  - Sefydlu hawl archwilio mewnol i gael mynediad at yr holl gofnodion, asedau, personél ac adeiladau, a'i awdurdod i gael gwybodaeth ac esboniadau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol i gyflawni ei gyfrifoldebau.

- Diffinio cwmpas gweithgareddau archwilio mewnol.
- Cydnabyddiaeth bod cylch gwaith archwilio mewnol yn ymestyn i amgylchedd reolaeth gyfan y sefydliad.
- Sefydlu annibyniaeth sefydliadol Archwilio Mewnol.
- Ystyried y trefniadau ar gyfer adnoddau priodol.
- Diffiniad o rôl y gwasanaeth archwilio mewnol mewn unrhyw waith sy'n gysylltiedig â thwyll.
- Gosod allan y trefniadau sy'n bodoli ym mholisiau gwrthlygredd a gwrth-dwyll y sefydliad, i gael eu hysbysu o'r holl dwyll, llygredd neu afreoleidd-dra a amheuir neu a ddarganfyddir.
- Y trefniadau ar gyfer osgoi gwrthdaro buddiannau os yw archwilio mewnol yn ymgymryd â gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio.
- Diffiniad o natur y gwasanaethau sicrwydd a ddarperir i'r sefydliad, yn ogystal â sicrwydd a ddarperir i bartïon sy'n allanol i'r sefydliad.
- Diffiniad o natur gwasanaethau ymgynghori.
- Cydnabyddiaeth o natur fandadol y Safonau.


## **2. ARGYMHELLIAD**

- 2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried cynnwys y Siarter Archwilio Mewnol, ei gymeradwyo, a chefnogi Archwilio Mewnol i gyflawni ei rôl.



# SIARTER ARCHWILIO MEWNOL

Mehefin 2019





## **SIARTER ARCHWILIO MEWNOL**

### **1. PWRPAS**

#### 1.1 Pwrpas y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yw:

***Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu***

### **2. RÔL ARCHWILIO MEWNOL MEWN LLYWODRAETH LEOL**

2.1 Mae angen statudol am wasanaeth Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol. Caiff yr angen ei ymhlygu yn Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, sydd yn gofyn fod awdurdodau yn *“gwneud trefniadau ar gyfer gweinyddiaeth briodol o’n materion ariannol ac yn sicrhau fod un o’u swyddogion yn gyfrifol am weinyddiaeth y materion hyn.”*

2.2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn datgan:

- (1) Rhaid i gorff perthnasol gynnal system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol o’i gofnodion cyfrifyddu a’i system o reoli mewnol.
- (2) Rhaid i unrhyw swyddog neu aelod o’r corff hwnnw, os yw’r corff yn ei gwneud yn ofynnol—
  - (a) trefnu bod unrhyw ddogfennau’r corff sy’n ymwneud â’i gofnodion cyfrifyddu a chofnodion eraill ar gael fel y mae’n ymddangos i’r corff hwnnw ei fod yn angenrheidiol at ddibenion yr archwiliad; a
  - (b) rhoi i’r corff y cyfryw wybodaeth ac esboniad y mae’r corff hwnnw’n ystyried eu bod yn angenrheidiol at y diben hwnnw.
- (3) Rhaid i gorff perthnasol mwy, o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn, gynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei archwiliad mewnol.
- (4) Rhaid ystyried canfyddiadau’r adolygiad y cyfeirir ato ym mharagraff (3), fel rhan o’r ystyriaeth o’r system o reoli mewnol y cyfeirir ati yn rheoliad 5(3), gan y pwyllgor neu’r corff y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw.

### 3. SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR GYHOEDDUS

- 3.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus (PSIAS) yn berthnasol i bob darparwr gwasanaeth archwilio mewnol yn y sector gyhoeddus, boed yn fewnol, gwasanaethau a rennir neu allanol. Rhain a ddiffinnir fel *“ymarferion archwilio mewnol priodol.”*
- 3.2 Mae'r Safonau yn diffinio Archwilio Mewnol fel a ganlyn:  
**“Mae Archwilio Mewnol yn weithgaredd sicrwydd ac ymgynghori gwrthrychol ac annibynnol sydd wedi ei gynllunio i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau sefydliad. Mae'n helpu sefydliad gyflawni ei amcanion drwy werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu mewn modd disgybledig, systematig.”**
- 3.3 Tra bod Archwilio Mewnol yn anad dim yn sicrhau priodoldeb ariannol, mae cylch gwaith Archwilio Mewnol yn ymestyn i holl amgylchedd reolaeth y Cyngor, ac nid yw wedi ei gyfyngu i risg ariannol yn unig.

### 4. CYFRIFOLDEBAU AC AMCANION

- 4.1 Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r swyddog sydd â'r cyfrifoldeb am *“weinyddu'n briodol faterion ariannol y Cyngor”* yn unol ag Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Fel canlyniad, mae Archwilio Mewnol wedi ei leoli o fewn Cyllid.
- 4.2 Mae'r Safonau yn cynnwys terminoleg sydd angen ei ddiffinio'n glir o fewn y Siarter lleol, sef y *“Bwrdd”*, y *“Pwyllgor Archwilio”*, y *“Prif Swyddog Archwilio”* ac *“Uwch Reolwyr”*.

#### **“Bwrdd” a “Pwyllgor Archwilio”**

Mae'r safonau yn diffinio'r *“Bwrdd” (Board)* fel *“y lefel uchaf o gorff llywodraethol sydd â'r cyfrifoldeb i gyfarwyddo a/neu goruchwyllo gweithgareddau a rheolaeth y sefydliad. Gall ‘Bwrdd’ gyfeirio ar bwyllgor archwilio y mae'r corff llywodraethu wedi dirprwyo swyddogaethau penodol iddo”*. Maent yn diffinio *“Pwyllgor Archwilio” (Audit Committee)* fel y *“grŵp llywodraethu sy'n gyfrifol am sicrwydd annibynnol ar ddigonolrwydd y fframwaith reoli risg, yr amgylchedd reolaeth fewnol a hygyrdd adroddiadau ariannol”*. Yn unol â Chynllun Dirprwyo'r Awdurdod, mae ystyried/ymateb i adroddiadau gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn swyddogaeth sydd wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

At bwrpasau'r Siarter Archwilio Mewnol yma, felly, mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ymgymryd â rôl *“Bwrdd”* a *“Pwyllgor Archwilio”* yng Nghyngor Gwynedd er mwyn diwallu gofynion y Safonau.

#### **“Prif Swyddog Archwilio”**

Y Rheolwr Archwilio sy'n gweithredu fel Prif Swyddog Archwilio (*Chief Audit Executive*) yn unol â'r derminoleg yn y Safonau.

## **“Uwch Reolwyr”**

Lle mae'r Safonau yn cyfeirio at “Uwch Reolwyr” (Senior Management), yng nghydestun cyfathrebu canlyniadau gwaith archwilio mewnol a thrafod y cynllun gwaith, mae'r Rheolwr Archwilio yn atebol i'r Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg sydd yn ei dro yn atebol i'r Pennaeth Cyllid, ond mae ganddo/ganddi'r rhyddid i adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr, Y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol, y Swyddog Monitro neu aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu pe bai ef/hi o'r farn fod hynny'n angenrheidiol, ac yn ymarferol y Rheolwr Archwilio sydd yn rhyddhau'r holl adroddiadau i gwsmeriaid.

- 4.3 Er mwyn diwallu'r angen i ddarparu gwasanaethau o'r ansawdd orau bosibl o fewn yr adnoddau sydd ar gael ac yn unol ag anghenion pobl Gwynedd, mae defnydd priodol o'r adnoddau sydd ar gael yn hanfodol er mwyn sicrhau fod ansawdd y gwasanaeth o safon uchel. Nod Archwilio Mewnol yw cynnig hyder i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ac fel canlyniad i drigolion Gwynedd, fod yr adnoddau hynny sydd ar gael wedi eu rheoli a'u defnyddio'n briodol gyda thryloywder.
- 4.4 Gwneir hyn drwy ddarparu barn annibynnol a gwrthrychol i'r Cyngor ar yr amgylchedd reolaeth trwy gynnal archwiliadau ar systemau ariannol a threfniadau rheolaeth fewnol y Cyngor, gan gynnal cyfuniad o archwiliadau risg, system, rheoleidd-dra, cyfrifiadurol a chontractau ar ystod eang o wasanaethau'r Cyngor, yn unol â strategaeth a chynllun archwilio sydd yn seiliedig ar asesiad o anghenion archwilio'r Cyngor.
- 4.5 Bydd y Rheolwr Archwilio yn sicrhau fod archwilio mewnol yn cael ei ddarparu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus cyn belled a bo hynny'n ymarferol. I'r perwyl hwn, bydd y Rheolwr Archwilio yn paratoi cynllun archwilio blynyddol wedi ei lunio drwy adolygiad gwrthrychol o'r risgiau a all amharu ar ddarpariaeth gwasanaethau'r Cyngor, ac ymgynghoriad gyda Phenaethiaid ac Uwch Swyddogion. Bydd yn cael ei gytuno gyda'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg a'r Pennaeth Cyllid cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w fabwysiadu.
- 4.6 Yn ogystal â Chyngor Gwynedd, mae gan Archwilio Mewnol gwsmeriaid allanol. Caiff unrhyw gynnydd yn yr ymrwymiad ar gyfer y gwaith yma ei gytuno gyda'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg a'r Pennaeth Cyllid ymlaen llaw, a hysbysir y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o hyn.
- 4.7 Mae archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am ddatgan barn annibynnol ar ddatganiadau ariannol y sefydliad a chasgliad ar ei drefniadau er mwyn sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Bydd Archwilio Mewnol yn cydweithio â'r archwilwyr allanol.

## 5. ANNIBYNNIAETH, CODE MOESG A HAWL MYNEDIAD

- 5.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus yn pwysleisio annibyniaeth Archwilio Mewnol o ran trefn a hawl adrodd.
- 5.2 Bydd pob Archwiliwr Mewnol yn arwyddo Datganiad Annibyniaeth Archwiliwr yn flynyddol Sydd yn cwmpasu'r ddyletswydd i gydymffurfio â'r pedwar prif egwyddor sydd wedi eu hymgorffori yng Nghod Moeseg y Safonau:
- Integriti
  - Gwrthrychedd
  - Cyfrinachedd
  - Cymhwysedd
- 5.3 Mae Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor yn cynnwys darpariaeth am wasanaeth Archwilio Mewnol o fewn yr awdurdod:

### 16.12 ARCHWILIAD MEWNOL

#### PWRPAS:

*Mae Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn mynegi'r gofyniad am swyddogaeth archwilio fewnol ac felly swyddogaeth werthuso annibynnol a gwrthrychol yw hi a sefydlwyd gan yr awdurdod er mwyn adolygu'r system reoli fewnol.*

- 16.12.1 Bydd archwiliad mewnol parhaus, dan reolaeth a chyfarwyddyd annibynnol y Pennaeth Cyllid, i gyfrifon a gweithgareddau ariannol ac eraill y Cyngor, yn unol â'r Rheoliadau Archwilio a Chyfrifo.
- 16.12.2 Gweithredir y swyddogaeth Archwilio Mewnol hyd ag y bod modd yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus. Y "Prif Swyddog Archwilio" dynodedig yn ôl y safonau yw'r Rheolwr Archwilio.16.12.3 Paratoir Siarter Archwilio Mewnol a gaiff ei chymeradwyo a'i hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- 16.12.4 Fel arfer bydd y Rheolwr Archwilio yn adrodd yn uniongyrchol i'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg sydd yn atebol i'r Pennaeth Cyllid. Fodd bynnag, caiff hefyd adrodd i, a chael troi at y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol, y Swyddog Monitro a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu os yw hynny'n angenrheidiol yn ei dyb ef/hi mewn amgylchiadau neilltuol.

16.12.5	<p>Bydd gan y Pennaeth Cyllid, Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg a'r Rheolwr Archwilio neu eu cynrychiolydd cydnabyddedig, awdurdod :-</p> <p>(a) i fynd i mewn i unrhyw adeilad, tir neu safle contractio eiddo'r Cyngor ar unrhyw amser rhesymol;</p> <p>(b) i gael gweld yr holl gofnodion, dogfennau a llythyrau sy'n ymwneud ag unrhyw drafodion ariannol neu drafodion eraill o eiddo'r Cyngor;</p> <p>(c) i ofyn am, a derbyn esboniadau sy'n angenrheidiol, yn ei dyb ef/hi, ar unrhyw fater sy'n cael ei archwilio;</p> <p>(ch) i ofyn i unrhyw un sy'n gweithio i'r Cyngor ddangos unrhyw arian parod, nwyddau neu eiddo arall yn perthyn i'r Cyngor sydd yn ei ofal.</p>
16.12.6	<p>Bydd y Pennaeth Cyllid yn cytuno ar y cynlluniau archwilio canoldymor a blynyddol a baratowyd gan y Rheolwr Archwilio ac sy'n ystyried nodweddion a risgiau perthynol y gweithgareddau dan sylw. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cymeradwyo'r cynlluniau.</p>
16.12.7	<p>Bydd pob swyddog priodol yn ystyried ac yn ymateb i ddarganfyddiadau'r adroddiadau archwilio. Bydd Prif Swyddogion yn gofalu bod unrhyw weithgaredd a gytunwyd arno i liniaru'r risgiau a amlygwyd yn yr archwiliad wedi'u gwireddu yn amserol ac effeithlon yn unol â'r cynllun gweithredu a gytunwyd.</p>
16.12.8	<p>Bydd y Rheolwr Archwilio yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu:</p> <p>(a) Ar ganlyniadau'r gwaith Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod blaenorol.</p> <p>(b) Am unrhyw wendidau rheolaeth sylweddol a ddarganfuwyd neu a archwiliwyd.</p> <p>(c) Am unrhyw weithrediad cytunedig na wireddwyd o fewn amserlen a gytunwyd, lle byddai methiant i weithredu wedi ymestyn gwendid rheoli sylweddol.</p> <p>(ch) Cynnydd ar gwblhau Cynllunio Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn gyfredol.</p>

## 6. EGWYDDORION CRAIDD

6.1 Ar gyfer ystyried archwilio mewnol yn effeithiol, mae'r egwyddorion craidd canlynol yn mynnu bod yr archwiliwr mewnol/gweithgaredd archwilio mewnol yn:

- Arddangos integriti
- Arddangos cymhwysedd a gofal proffesiynol
- Yn wrthrychol ac yn rhydd o ddylanwad (annibyniaeth)
- Yn alinio i strategaethau, amcanion a rigiau'r sefydliad
- Ei sefydlu'n briodol a gydag adnoddau digonol

- Yn arddangos ansawdd a gwelliant parhaus
- Cyfathrebu'n effeithiol
- Darparu sicrwydd yn seiliedig ar sail risg
- Yn craffu, rhagweithiol a ffocws ar y dyfodol
- Hyrwyddo gwelliant sefydliadol

## **7. PERTHYNAS GYDA'R RHAI SY'N GYFRIFOL AM LYWODRAETHU**

- 7.1 Mae'r Cyngor wedi penderfynu mai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yw'r "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" yng Nghyngor Gwynedd.
- 7.2. Fel arfer, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fydd y prif bwynt cyswllt rhwng y Rheolwr Archwilio a'r aelodau etholedig. Bydd y Rheolwr Archwilio yn sicrhau fod perthnasau gweithio a sianeli cyfathrebu da gyda Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi eu cynnal.
- 7.3 Bydd y Rheolwr Archwilio yn paratoi adroddiadau i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn amlinellu'r gwaith a gwblhawyd yn y cyfnod yn arwain i fyny at y cyfarfod hwnnw.
- 7.4 Bydd y Rheolwr Archwilio hefyd yn darparu adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gynnydd yn erbyn y cynllun archwilio blynyddol.
- 7.5 Ar gyfer hwyluso gwaith y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, bydd y Rheolwr Archwilio yn:
- Mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a chyfrannu at y rhaglen
  - Cymryd rhan yn adolygiad y Pwyllgor o'i gylch gorchwyl a'i effeithlonrwydd
  - Yn sicrhau bod y Pwyllgor yn derbyn ac yn deall dogfennau sydd yn disgrifio sut mae archwilio mewnol yn cyflawni ei amcanion (e.e. y cynllun ar sail risg, rhaglen waith flynyddol, adroddiadau cynnydd)
  - Penderfynu os oes unrhyw fater a gyfyd o waith y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sydd yn ei gwneud yn ofynnol i wneud addasiadau i'r cynllun archwilio ac a oes unrhyw faterion yn codi o waith archwilio mewnol y dylid ei gyfeirio at y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

## **8. ADRODDIADAU**

- 8.1 Bydd y Rheolwr Archwilio yn sicrhau trefn o oruchwylio gwaith ac adolygu ffeiliau gan yr Arweinyddion Archwilio, ac yn casglu data a pharatoi adroddiadau ar berfformiad y Gwasanaeth ar gyfer y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Cynorthwyol yn unol â fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor.
- 8.2 Bydd adroddiad ffurfiol yn cael ei baratoi ar gyfer y mwyafrif o archwiliadau a gwblheir, ar wahân i rai archwiliadau bychain ble na gafwyd gwendidau sylweddol ac nad oedd adroddiad archwiliad cyflawn yn angenrheidiol. Yn yr achosion hyn, anfonir memoranda i'w swyddogion perthnasol.

- 8.3 Lle'n briodol, bydd pob adroddiad wedi ei gosod mewn un o bedwar categori lefel sicrwydd. Bydd y lefel sicrwydd a ddarperir yn seiliedig ar werthusiad o'r amgylchedd reolaeth fewnol ac ar y nifer o risgiau a adnabuwyd ynghyd â'u sgôr risg.

Bydd y sgôr risg cyfredol yn syrthio i un o bedwar categori risg sef:

LEFEL RISG	SGOR
<b>UCHEL IAWN</b>	<b>20 - 25</b>
<b>UCHEL</b>	<b>12 - 16</b>
<b>CANOLIG</b>	<b>6 - 10</b>
<b>ISEL</b>	<b>1 - 5</b>

- 8.4 Bydd lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod

LEFEL SICRWYDD	DIFFINIAD
<b>UCHEL</b>	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
<b>DIGONOL</b>	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gallir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
<b>CYFYNGEDIG</b>	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.
<b>DIM SICRWYDD</b>	Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

Mae defnyddio lefelau sicrwydd yn debygol o fod yn llai priodol ar gyfer adroddiadau sydd wedi eu paratoi yn dilyn archwiliad arbennig, neu waith sydd ag agwedd "ymgyngori".

- 8.5 Ar ôl cwblhau gwaith archwilio, caiff adroddiad drafft o'r darganfyddiadau ynghyd AG unrhyw feysydd o risg a adnabuwyd ei baratoi ar gyfer y rheolwyr perthnasol er mwyn iddynt gael cyfle i ystyried y darganfyddiadau a datrysiadau posib i liniaru'r risgiau. Rhoddir cyfnod o 2-3 wythnos i reolwyr ymateb i'r drafft, ond ystyrir cyfnod hirach pe derbynnir cais am estyniad. Os na dderbynnir ymateb erbyn y dyddiad a amlinellir, tybir fod yr adroddiad yn dderbyniol a caiff adroddiad terfynol ei ryddhau. Os derbynnir sylwadau, caiff rhain eu hystyried (a gellir addasu'r adroddiad drafft, neu beidio) cyn rhyddhau yr adroddiad terfynol. Os nad oes cytundeb i liniaru risg(iau), bydd hynny yn derbyn sylw yn yr adroddiad terfynol.

8.6 Wedi cyfnod priodol, mae Archwilio Mewnol yn cynnal profion dilyniant er mwyn sicrhau bod yr hyn a gytunwyd yn weithredol. Caiff canlyniadau gwaith dilyniant ei adrodd i Brif Swyddogion ac i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

## **9. BARN ARCHWILIO BLYNYDDOL**

9.1 Bydd y Rheolwr Archwilio yn paratoi adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol yn unol â gofynion y Safonau.

## **10. GWAITH AR WAHÂN I WAITH SICRWYDD**

10.1 Yn ogystal â'r gwaith sicrwydd a ddisgrifir, mae Archwilio Mewnol hefyd yn:

- Cynnig cyngor ariannol i wasanaethau'r Cyngor, yn arbennig ar Reolau Gweithdrefn Ariannol, Rheolau Gweithdrefn Contractau, Codau Ymarfer Ariannol a Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-lygredd a Gwrth-lwgrwobrwyo'r Cyngor.
- Cynorthwyo rheolwyr i atal twyll ac ymchwilio i dwyll ar ran y Pennaeth Cyllid, a chynnig cyngor ar welliannau rheolaethol i osgoi digwyddiadau tebyg i'r dyfodol.
- Mae Strategaeth gwrth-dwyll, gwrth-lygredd a gwrth-lwgrwobrwyo Cyngor Gwynedd yn mynegi yr anogir aelodau a'r cyhoedd yn gyffredinol i adrodd am bryderon o ymddygiad twyllodrus neu lygredig trwy gysylltu â'r Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg neu'r Rheolwr Archwilio.
- Darparu gwasanaethau ymgynghorol ar brosiectau penodol (os yw capasiti yn caniatáu). Ni ddarparir lefel sicrwydd ar y prosiectau hyn.

## **11. ANGHENION ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL**

11.1 Mae Archwilio Mewnol yn cynnwys y Rheolwr Archwilio, dau Arweinydd Archwilio a phedwar Uwch Archwiliwr. Pe bai'r Rheolwr Archwilio o'r farn nad oes ganddo/ganddi adnoddau digonol i'w g(ch)aniatau i roddi barn ar yr amgylchedd reolaeth yn unol â gofynion y Safonau, bydd yn adrodd hynny i'r Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg a'r Pennaeth Cyllid a hefyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

11.2 Mae'r Arweinyddion Archwilio yn gyfrifol am oruchwylio ac adolygu gwaith, ac am rannu'r cynllun archwilio i brosiectau ar gyfer archwilwyr unigol.

11.3 Bydd Tîm Rheoli Archwilio (y Rheolwr Archwilio a'r Arweinyddion Archwilio) yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn monitro perfformiad a rhannu gwybodaeth. Hefyd, bydd y Rheolwr Archwilio yn cyfarfod â'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg i drafod perfformiad a chytuno ar gyfeiriad strategol Archwilio Mewnol.



- 11.4 O dro i dro, i adlewyrchu'r anghenion archwilio, ac yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael a Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor, bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn prynu arbenigedd o'r tu allan i gynorthwyo gyda'r gwaith archwilio ac er mwyn cynnal lefel sgiliau'r staff parhaol. Mae hyn yn berthnasol i archwiliadau yn y maes technoleg gwybodaeth, ond ni eithrir mathau eraill o archwiliadau o'r ddarpariaeth yma.

## **12. DOGFENNAETH BERTHNASOL**

- 12.1 Yn ogystal â'r adroddiad yma, mae'r dogfennau canlynol hefyd o bwysigrwydd i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol:

- Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
- Rheolau Gweithdrefnol Ariannol
- Codau Ymarfer Ariannol
- Rheolau Gweithdrefnol Contractau a Rheolau Caffael
- Strategaeth Gwrth-Dwyll, Gwrth-Lygreddigaeth a Gwrth-Lwgrwobrwyo y Cyngor
- Polisi Canu'r Gloch y Cyngor

Bydd Archwilio Mewnol yn adolygu a chynnig addasiadau i'r dogfennau hyn fel bo'r angen.

# Eitem 11

CYFARFOD:	<b>PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU</b>
DYDDIAD:	<b>13 MEHEFIN 2019</b>
TEITL:	<b>CYFRIFON TERFYNOL 2018/19 – ALLDRO REFENIW</b>
PWRPAS:	<b>EGLURO A CHRAFFU'R SEFYLLFA ARIANNOL TERFYNOL 2018/19</b>
GWEITHREDIAD:	<b>Derbyn y wybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy'n deillio o'r gwir wariant ac incwm yn erbyn cyllideb 2018/19, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i Adrannau.</b>
SWYDDOG CYSWLLT:	<b>FFION MADOG EVANS, UWCH REOLWR CYLLID</b>
AELOD CABINET:	<b>CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET CYLLID</b>

---

1. Mae'r adroddiad gerbron heddiw, sef yr adolygiad cyllideb "alldro", yn egluro sefyllfa terfynol 2018/19 ac yn dangos y darlun fesul adran. Y ffigyrau yma yw sail i'r datganiadau statudol fydd yn cael ei gyflwyno ym Mis Gorffennaf i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
2. Y drefn yn arferol yw ein bod yn cyflwyno'r adroddiad Cabinet i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, i'w graffu ynghyd â phenderfyniadau perthnasol cyfarfod 21 Mai o'r Cabinet sydd ar y tudalennau dilynol.
3. Nodaf fod rhan 5 ac Atodiad 3 i'r adroddiad yma'n delio hefyd gyda'r adolygiad o gronfeydd a darpariaethau'r Cyngor.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau y Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	21 Mai 2019
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn, yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd</b>	5 Mehefin 2019

**PWNC**

Eitem 5 :CYFRIFON TERFYNOL 2018/19 - ALLDRO REFENIW

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd i:

1.1 Nodi sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2018/19.

1.2 Cymeradwyo'r symiau i'w cario ymlaen (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" o'r talfyriad yn Atodiad 1) sef -

ADRAN	£'000
Oedolion, Iechyd a Llesiant	15
Plant a Theuluoedd	100
Addysg	100
Economi a Chymuned	28
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	100
Amgylchedd	(100)
Ymgynghoriaeth Gwynedd	(59)
Tîm rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	(76)
Cyllid	(59)
Cefnogaeth Gorfforaethol	(61)

1.3 Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u egluro yn Atodiad 2) –

- Yr Adran Plant a Theuluoedd i dderbyn cymorth ariannol un-tro o £1,544k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2019/20.
- Yr Adran Addysg i dderbyn cymorth ariannol rhannol un-tro o £16k gan gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k.
- Digolledu'r Adran Economi a Chymuned £157k, sef swm y gorwariant o ganlyniad i lithriad yn yr amserlen sefydlu cwmni Byw'n Iach i redeg y cyfleusterau hamdden, sydd felly yn cyfyngu lefel y gorwariant i'w gario ymlaen gan yr Adran i £28k.
- Yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i dderbyn cymorth ariannol un-tro rhannol o £518k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i wynebu her 2019/20.
- Yn unol â'r Rheoliadau Ariannol, cadw at y drefn arferol i ganiatáu i'r Adran Amgylchedd gadw (£100k) o'i danwariant, a symud (£392k) sef y swm uwchlaw (£100k), i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2018/19.
- Ar gyllidebau Corfforaethol, trosglwyddo:  
- (£19k) cysylltiedig â'r premiwm Treth y Cyngor i gronfa benodol i'w ystyried

---

ar gyfer y Strategaeth Dai.

- (£551k) yn ymwneud â chostau cyfalaf i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.

- (£738k) ar gynnal a chadw i gronfa cynnal a chadw.

- Defnyddio (£1,843k) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2018/19.
- Bydd gweddill tanwariant Corfforaethol (£173k) yn mynd i falansau cyffredinol y Cyngor.

1.4 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd a darpariaethau penodol fel yr amlinellir yn Atodiad 3 yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd a darpariaethau, sef:

- Cynaeafu (£3.931m) o gronfeydd a (£69k) o ddarpariaethau.
- Trosglwyddo £3m i'r Gronfa Trawsffurfio ar gyfer Cynllun y Cyngor.
- Trosglwyddo £1m i Falansau Cyffredinol y Cyngor.
- Neilltuo £262k am gyfnod o flwyddyn o'r gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol i bontio'r ffynhonnell ariannu ymrwymadau perthnasol i'r Gronfa Bensiwn.

---

## **RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol) ac er mwyn caniatáu i'r cyfrifon terfynol ffurfiol gael eu cwblhau.

---

## **DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

## **UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

## ADRODDIAD I'R CABINET

21 MAI 2019

**Aelod Cabinet:** Cyngorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Cyfrifon Terfynol 2018/19 – Alldro Refeniw

**Swyddog cyswllt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

### 1. Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad

#### Gofynnir i'r Cabinet:

- 1.1 Ystyried a nodi sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2018/19.
- 1.2 **Cymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen** (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" o'r talfyriad yn **Atodiad 1**), sef -

<b>ADRAN</b>	<b>£'000</b>
<b>Oedolion, Iechyd a Llesiant</b>	<b>15</b>
<b>Plant a Theuluoedd</b>	<b>100</b>
<b>Addysg</b>	<b>100</b>
<b>Economi a Chymuned</b>	<b>28</b>
<b>Priffyrdd a Bwrdeistrefol</b>	<b>100</b>
<b>Amgylchedd</b>	<b>(100)</b>
<b>Ymgynghoriaeth Gwynedd</b>	<b>(59)</b>
<b>Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol</b>	<b>(76)</b>
<b>Cyllid</b>	<b>(59)</b>
<b>Cefnogaeth Gorfforaethol</b>	<b>(61)</b>

- 1.3 Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u egluro yn **Atodiad 2**) –
- Yr Adran Plant a Theuluoedd i dderbyn cymorth ariannol un-tro o £1,544k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2019/20.
  - Yr Adran Addysg i dderbyn cymorth ariannol rhannol un-tro o £16k gan gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k.
  - Digolledu'r Adran Economi a Chymuned £157k, sef swm y gorwariant o ganlyniad i lithriad yn yr amserlen sefydlu cwmni Byw'n Iach i redeg y cyfleusterau hamdden, sydd felly yn cyfyngu lefel y gorwariant i'w gario mlaen gan yr Adran i £28k.

- Yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i dderbyn cymorth ariannol un-tro rhannol o £518k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario mlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i wynebu her 2019/20.
- Yn unol â'r Rheoliadau Ariannol argymhellir cadw at y drefn arferol i ganiatau i'r Adran Amgylchedd gadw (£100k) o'i danwariant, a symud (£392k) sef y swm uwchlaw (£100k), i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2018/19.
- Ar gyllidebau Corfforaethol, trosglwyddo:
  - (£19k) cysylltiedig â'r premiwm Treth y Cyngor i gronfa benodol i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai.
  - (£551k) yn ymwneud â chostau cyfalaf i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.
  - (£738k) ar gynnal a chadw i gronfa cynnal a chadw.
- Defnyddio (£1,843k) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2018/19.
- Bydd gweddill tanwariant Corfforaethol (£173k) yn mynd i falansau cyffredinol y Cyngor.

1.4 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd a darpariaethau penodol fel a amlinellir yn Atodiad 3 yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd a darpariaethau, sef:

- Cynaeafu (£3.931m) o gronfeydd a (£69k) o ddarpariaethau.
- Trosglwyddo £3m i'r Gronfa Trawsffurfio ar gyfer Cynllun y Cyngor.
- Trosglwyddo £1m i Falansau Cyffredinol y Cyngor.
- Neilltuo £262k am gyfnod o flwyddyn o'r gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol i bontio'r ffynhonnell ariannu ymrwymadau perthnasol i'r Gronfa Bensiwn.

## 2. Cyflwyniad / Cefndir

- 2.1 Yn gyffredinol, er gwaethaf parhad y gofynion i gyflawni arbedion a'r pwysau sylweddol a welir ym maes gofal, **mae sefyllfa ariannol derfynol am 2018/19 yn cadarnhau rheolaeth ariannol effeithiol**. Wrth gwrs, mae hyn yn dibynnu ar rôl yr Aelodau Cabinet perthnasol, penaethiaid adrannau a rheolwyr cyllidebau, wedi'i gefnogi gan waith monitro proffesiynol ein cyfrifwyr, ynghyd â gwaith herio adeiladol fel bo angen gan y Cabinet, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

2.2 Felly, **gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2018/19 er mwyn galluogi'r Adran Gyllid i symud ymlaen i gynhyrchu, ardystio a chyhoeddi'r datganiadau ariannol statudol cyn 15 Mehefin.**

### 3. Adrannau'r Cyngor

3.1 **Ar y cyfan, cadarnhaf fod cyllidebau hanner yr adrannau wedi medru cadw o fewn eu cyllidebau eleni.** Mae talfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau wedi'i amlinellu yn Atodiad 1, gyda'r symiau i'w cario 'mlaen (yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet) yn y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig". Yn Atodiad 2, mae manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol i'r hyn a adroddwyd yn flaenorol, ynghyd â sawl argymhelliad penodol. Mae'r argymhellion rheiny wedi'u hamlygu er ystyriaeth uchod yn 1.3.

3.2 Roedd sefyllfa ariannol hanner yr adrannau yn tanwario, ac wedi'i ragamcanu'n gywir yn ystod 2018/19. Ond nodaf y bu gwelliant yn sefyllfa ariannol yr **Adran Addysg** a'r **Adran Oedolion** erbyn diwedd y flwyddyn, yn dilyn derbyniad ac ail gyfeirio grantiau yn hwyr yn y flwyddyn. Gwelwyd hefyd gynnydd sylweddol yn lefel y tanwariant gan yr **Adran Amgylchedd**.

3.3 Bu cynnydd yn y tueddiad gorwariant ar wasanaethau gweithredol, lleoliadau, Ôl-16, ac Arbenigol / Derwen gan yr Adran **Plant a Theuluoedd**, ac yn y maes gwastraff gan yr Adran **Priffyrdd a Bwrdeistrefol**.

3.4 **Yn Atodiad 1, adroddir ar sefyllfa tanwariant / gorwariant pob adran i'r Cabinet, fydd yn cymeradwyo'r symiau sydd i'w cario 'mlaen.** Mae Rheoliad Gweithdrefn Ariannol 16.3.1 yn manylu ar y trefniadau ar gyfer symiau i'w "cario 'mlaen" ar ddiwedd y flwyddyn. Mae pedwar cais i'r Cabinet i ddileu diffyg adrannol, ac un adran gyda sefyllfa tanwariant sydd uwchlaw'r trothwy £100,000 ar gau cyfrifon 2018/19, ac felly gyda tanwariant i'w gynaeafu.

3.5 Yn gyffredinol, lle mae'r adrannau wedi tanwario, mae'r sefyllfa hwnnw am un tro yn 2018/19 yn unig.

3.6 Yn y mwyafrif o'r cyllidebau lle bu gorwariant yn 2018/19, rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r anghenion a chyfleon perthnasol yng nghylch cyllidebu 2019/20, ac mae'r mwyafrif o'r materion hynny eisoes wedi'u cyfarch yn y strategaeth ariannol ar gyfer 2019/20 (drwy weithrediad rheolaethol i atal tueddiad a/neu drwy addasu'r gyllideb).

### 4. Ysgolion

4.1 Mae rhan o Atodiad 2 yn manylu ar sefyllfa cyllidebau'r ysgolion, lle mae statud wedi cyflwyno grym dirprwyedig i gyrff llywodraethu gario balansau ymlaen ar ddiwedd blwyddyn ariannol. Mae'r cyfanswm sirol o falansau'r ysgolion wedi aros yn £4m yn 2018/19. Er hynny, gwelwyd cynnydd o £1m ym malansau 42 ysgol ond gostyngiad o £1m mewn balansau 60 ysgol. Byddwn

yn cyhoeddi gwybodaeth fanwl am falansau ysgolion unigol cyn hir mewn 'Datganiad Adran 52'.

- 4.2 Mae gan yr Adran Addysg drefniadau ar gyfer herio'r ysgolion unigol i gyfiawnhau'r angen am eu balansau, ac maent yn gofyn i'r penaethiaid a chyrff llywodraethu'r ysgolion perthnasol i egluro'u bwriad i ddefnyddio eu balansau (yn arbennig rheiny sydd gyda balansau dros 5% o'i gyllideb).
- 4.3 Mae cyfanswm diffygion ariannol ysgolion wedi lleihau o £306,394 (2 Cynradd, 3 Uwchradd, 1 Arbennig) ar 31 Mawrth 2018 i £207,106 (4 Cynradd, 2 Uwchradd, 1 Arbennig) ar 31 Mawrth 2019. Cadarnhaf y bydd yr Uned Gyllid berthnasol hefyd yn sicrhau y bydd penaethiaid a chyrff llywodraethol yr ysgolion sydd â diffygion ariannol yn delio gyda nhw.

## **5. Cyllidebau a Chronfeydd Corfforaethol**

- 5.1 Am nifer o resymau bu tanwariant un-tro ar nifer o benawdau'r gyllideb Gorfforaethol eleni, fel amlinellir yn rhan olaf Atodiad 2. Fel yr argymhellir yn rhan 1.3 uchod, bydd (£1,843k) o'r tanwariant net yma ar gael i liniaru gorwariant adrannau, (£1,308k) i'w ddefnyddio ar gyfer pwrpasau penodol a'r gweddill sef (£173k) i'w roi ym malansau cyffredinol y Cyngor.
- 5.2 Gyda chefnogaeth y Cabinet, os defnyddir y tanwariant fel argymhellir uchod, trwy reolaeth effeithiol o'i gyllidebau, bydd y Cyngor wedi llwyddo i gyllido ei gyfanswm gwariant yn unol â'r bwriad am 2018/19, sef defnyddio £1.51m o gronfeydd penodol y Cyngor i ariannu bidiau un-tro 2018/19 a pheidio gwneud unrhyw ddefnydd o falansau'r Cyngor i fantoli cyllideb 2018/19 (yn unol â'r Strategaeth Ariannol cymeradwyodd y Cyngor ar 8 Mawrth 2018).
- 5.3 Oherwydd bod gorwariant rhai adrannau yn 2018/19 wedi cael ei fantoli o danwariant yn 2018/19 ac hefyd gan fod cyllideb 2019/20 wedi ei osod heb orfod defnyddio'r Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol, mae cyfle felly i ryddhau arian o'r gronfa honno ar gyfer cyfarch blaenoriaethau'r Cyngor.
- 5.4 Adolygwyd digonolrwydd cronfeydd a darpariaethau penodol y Cyngor gan y Pennaeth Cyllid unwaith eto wrth gau'r cyfrifon eleni, yn unol â'r polisi a gymeradwywyd bedair blynedd yn ôl. Llwyddodd yr adolygiad yma i gynaeafu £4.262m o adnoddau, fel amlinellir yn Atodiad 3.
- 5.5 Mae'r £3.0m i'w neilltuo ar gyfer blaenoriaethau Cynllun y Cyngor, £1.0m i'w symud i falansau cyffredinol y Cyngor a £262k i'w ddefnyddio am gyfnod o flwyddyn i bontio'r ffynhonnell ariannu ymrwymadau perthnasol i'r Gronfa Bensiwn.



## **6. Camau nesaf ac amserlen**

- 6.1 Yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014, a Chod Ymarfer Cyfrifo CIPFA, rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid ardystio datganiadau ariannol statudol 2018/19 y Cyngor cyn 15 Mehefin. Mae 2018/19 yn flwyddyn drosiannol gyda chwtogiad yn yr amserlen, gyda'r dyddiad statudol yn 15 Mehefin yn hytrach na 30 Mehefin fel mewn blynyddoedd blaenorol, gyda chwtogiad pellach i 31 Mai o 2020/21 ymlaen. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu yn y broses i gwblhau'r gwaith yn gynt.
- 6.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw manylu ar y sefyllfa alldro o ran tanwariant neu orwariant adrannau unigol, a gwariant y Cyngor yn ei gyfanrwydd yn 2018/19. Byddwn yn ystyried y wybodaeth yn sgil hynny er mwyn medru adlewyrchu'r sefyllfa yn y cyfrifon terfynol.
- 6.3 Fe adlewyrchir yma'r sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac wrth ddod â'r broses i derfyn, gallasai fod rhywfaint o newidiadau pellach. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd newid sylweddol yn y sefyllfa gyffredinol.
- 6.4 Bydd yr Adran Gyllid yn cynhyrchu datganiadau ariannol statudol 2018/19 i'w ardystio gan y Pennaeth Cyllid cyn y dyddiad statudol o 15 Mehefin.

### **Barn yr aelod lleol**

Dim yn berthnasol

---

### **Barn y swyddogion statudol**

#### **Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

#### **Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

### **Atodiadau**

Atodiad 1 - sefyllfa tanwariant / gorwariant terfynol pob adran

Atodiad 2 - prif faterion cyllidebol a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol

Atodiad 3 - adnoddau wedi'u cynaeafu o adolygu cronfeydd a darpariaethau

**Cyfrifon Terfynol 2018/19 Aildro Refeniw - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran**

	Adolygiad Terfynol					Amcan Sefyllfa Diwedd Tachwedd £ '000
	Cyllideb Arfaethedig 2018/19	Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19	Addasiadau a Argymhellir		Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2018/19	
	£'000	£ '000	£'000	£'000	£ '000	
Oedolion, Iechyd a Llesiant	50,949	15	0	0	15	29
Plant a Theuluoedd	14,088	1,644	(1,544)	0	100	1,333
Addysg	83,326	116	(16)	0	100	741
Economi a Chymuned	4,079	185	(157)	0	28	187
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	23,851	618	(518)	0	100	589
Amgylchedd	5,127	(492)	392	0	(100)	(169)
Ymgynghoriaeth Gwynedd	196	(59)	0	0	(59)	(11)
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	1,817	(76)	0	0	(76)	(93)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	5,892	(59)	0	0	(59)	(53)
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,851	(61)	0	0	(61)	(59)
Cyllidebau Corfforaethol <i>(Gwahaniaethau yn unig)</i>	*	(3,324)	1,843	1,481	0	(47)
<b>Cyfansymiau (net)</b>	<b>197,176</b>	<b>(1,493)</b>	<b>0</b>	<b>1,481</b>	<b>(12)</b>	<b>2,447</b>

<b>CYFRIFON TERFYNOL 2018/19</b>						
<b>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</b>	Cyllideb Arfaethedig 2018/19	Sefyllfa Terfynol 2018/19	<b>Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2018/19</b>	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Tachwedd
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b><u>Gwasanaethau Oedolion</u></b>						
Gwasanaethau Pobl Hŷn						
Preswyl a Nyrsio - Cartrefi	11,408	10,868	(540)	0	(540)	(306)
Gofal Cartref	6,241	5,931	(310)	0	(310)	(318)
Eraill	1,821	1,902	81	0	81	25
	19,470	18,701	(769)	0	(769)	(599)
Gwasanaethau Anabledd Corff	2,296	2,079	(217)	0	(217)	(210)
Gwasanaethau Anabledd Dysgu	16,812	16,571	(241)	0	(241)	(193)
Gwasanaethau Iechyd Meddwl	3,443	3,413	(30)	0	(30)	57
Gwasanaethau Eraill (Oedolion)	2,937	2,939	2	0	2	40
<b><u>Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion</u></b>	<b>44,958</b>	<b>43,703</b>	<b>(1,255)</b>	<b>0</b>	<b>(1,255)</b>	<b>(905)</b>
<b><u>Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)</u></b>						
Gofal Preswyl	(277)	(106)	171	0	171	274
Gofal Dydd	(91)	63	154	0	154	122
Gofal Cymunedol	469	1,033	564	0	564	552
Eraill	(14)	48	62	0	62	75
<b><u>Cyfanswm Gwasanaethau Darparu</u></b>	<b>87</b>	<b>1,038</b>	<b>951</b>	<b>0</b>	<b>951</b>	<b>1,023</b>

<b>CYFRFION TERFYNOL 2018/19</b>						
<b>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</b>	Cyllideb Arfaethedig 2018/19	Sefyllfa Terfynol 2018/19	<b>Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2018/19</b>	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Tachwedd
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b><u>Gwasanaethau Eraill</u></b>						
Gwasanaethau Tai	1,844	1,933	89	0	89	138
Gwasanaethau Canolog Adrannol ( <i>gan gynnwys arbedion yr Adran</i> )	4,060	4,290	230	0	230	230
Defnydd o gronfa benodol		0	0	0	0	(457)
<b><u>Cyfanswm Gwasanaethau Eraill</u></b>	<b>5,904</b>	<b>6,223</b>	<b>319</b>	<b>0</b>	<b>319</b>	<b>(89)</b>
<b><u>Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant</u></b>	<b>50,949</b>	<b>50,964</b>	<b>15</b>	<b>0</b>	<b>15</b>	<b>29</b>

**Oedolion, Iechyd a Llesiant**

**Gwasanaethau Pobl Hŷn** - derbyniad grant hwyr a chynnydd yn yr incwm preswyl a nyrsio yn dilyn asesiadau a chynnydd yn y niferoedd. Lleihad yn y galw am becynnau gofal cartref yn ystod y flwyddyn.

**Gwasanaethau Anabledd Corff** - y tueddiad o leihad yn y nifer pecynnau gofal cartref a phreswyl a nyrsio yn parhau.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu** - tanwariant ar breswyl a nyrsio a llety cefnogol yn cael ei leihau gan orwariant ar wasanaethau dydd, cynlluniau cefnogol a gweithwyr maes.

**Gwasanaethau Darparu** - ail gyfeirio grant ar ddiwedd y flwyddyn yn lleddfu gorwariant yn rhannol. Costau staffio ychwanegol sydd bennaf gyfrifol am y gorwariant gyda rhai o'r rhesymau yn cynnwys cartrefi wedi bod mewn mesurau arbennig, argymhellion gan Arolygiaeth Gofal Cymru, a phenodi uwchlaw'r gyllideb. Costau yn uwch na'r incwm sydd yn cael ei ad-ennill ar Ofal Cymunedol.

**Gwasanaethau Tai** - pwysau cynyddol ar lety dros dro i'r digartref a llithriad mewn gwireddu cynllun arbedion, ond derbyniad grantiau ar ddiwedd y flwyddyn ac incwm uwch yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

**Gwasanaethau Canolog Adrannol** - derbyniad incwm a swyddi gwag yn lleihau effaith y llithriad mewn gwireddu gwerth £372k o gynlluniau arbedion o 2017/18.

Gan fod sefyllfa yr adran yn well na'r hyn oedd wedi ei ragweld, yn groes i'r bwriad gwreiddiol does dim angen gwneud defnydd o'r cyllid o £457k, sydd gyfwerth â grant cefnogi gwasanaethau cymdeithasol a dderbyniwyd yn 2017/18 i gynorthwyo i leddfu'r gorwariant.

Oherwydd lefel y gorwariant gan y gwasanaeth Darparu, mae'r i'r Aelod Cabinet Oedolion a'r Pennaeth Adran yn edrych i wraidd y mater er mwyn lleihau'r gorwariant.

<b>CYFRIFON TERFYNOL 2018/19</b>						
<b>Adran Plant a Theuluoedd</b>	Cyllideb Arfaethedig 2018/19	Sefyllfa Terfynol 2018/19	<b>Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2018/19</b>	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Tachwedd
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth Gwasanaeth	609	589	(20)	0	(20)	(22)
Gweithredol	2,059	2,370	311	0	311	273
Lleoliadau						
Lleoliadau All-Sirol	1,587	2,704	1,117	0	1,117	990
Maethu Drwy Asiant	1,009	966	(43)	0	(43)	(2)
Maethu Mewnol	1,701	1,977	276	0	276	256
Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill	1,594	1,757	163	0	163	139
	5,891	7,404	1,513	0	1,513	1,383
Ôl-16	998	1,327	329	0	329	175
Arbenigol/Derwen	1,682	2,010	328	0	328	242
Cyfiawnder Ieuenctid	239	195	(44)	0	(44)	(44)
Blynyddoedd Cynnar	155	118	(37)	0	(37)	5
Ieuenctid	871	711	(160)	0	(160)	(179)
Eraill	1,584	1,560	(24)	0	(24)	52
Derbyniad Grant 2018/19		(552)	(552)	0	(552)	(552)
Addasiad Cau Cyfrifon 2018/19			0	(1,544)	(1,544)	0
<b>Cyfanswm Plant a Theuluoedd</b>	<b>14,088</b>	<b>15,732</b>	<b>1,644</b>	<b>(1,544)</b>	<b>100</b>	<b>1,333</b>

**Plant a Theuluoedd**

**Gweithredol** - y tueddiad yn parhau ers 2017/18 gyda chostau staff uwchlaw lefel y gyllideb ynghyd â chynnydd yn y nifer o blant mewn gofal ond ddim mewn lleoliadau drytach, mae'r maes wedi derbyn adnodd ychwanegol o £100k ar gyfer 2019/20 ymlaen.

**Lleoliadau** - pedwar achos lleoliad all-sirol newydd, gyda chynnydd yn nifer y pecynnau ac yng nghyfartaledd cost, bu hefyd gwtogiad yng nghyfraniadau lechyd. Gorwariant cynyddol yn maethu mewnol, ar y cynllun 'Aros Ymlaen' a gwasanaethau cefnogol. Mae adolygiad o'r ymrwymadau all-sirol wedi ei gynnal sydd wedi amlygu newid i'r math o achosion dros y blynyddoedd diwethaf, ac felly i'r costau cysylltiedig. Bydd y maes yn destun adroddiad gan yr Adran Plant.

**Ôl-16** - achosion wedi trosglwyddo o leoliadau all-sirol yn cyfrannu at y gorwariant, gyda dau becyn costus yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r gost.

**Arbenigol/Derwen** – cynnydd pellach yn y gorwariant i £328k, £212k ohono ar gynlluniau cefnogol yn dilyn cynnydd yn y galw am wasanaeth ac am gefnogaeth arbenigol a £95k o ganlyniad i nifer o ffactorau gan Uned Hafan y Sêr.

**Ieuentid** – cyfnod trosiannol o ddarparu'r gwasanaeth ieuentid gydag arbedion wedi cael eu gwireddu ymlaen llaw.

Nodir gorwariant cynyddol ar nifer o benawdau'r gyllideb ers yr adolygiad diwethaf, sydd wedi arwain at orwariant gros o £2.2m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Yn Rhagfyr, bu i'r Cyngor dderbyn grant o £552k gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy, oherwydd sefyllfa ariannol yr Adran Plant, mae'n briodol fod yr arian yn cael ei ddefnyddio i geisio lleihau'r gorwariant gros o £2.2m i £1.6m.

O ystyried lefel gorwariant yr Adran, yn unol â phenderfyniad Cabinet 22 Ionawr 2019, mi fydd y Prif Weithredwr, Pennaeth Cyllid a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cyfarfod gyda'r Aelod Cabinet a Phennaeth yr Adran Plant a Theuluoedd i roi sylw i faterion ariannol yr adran.

**Argymhellir** fod yr Adran Plant a Theuluoedd yn derbyn cymorth ariannol un-tro rhannol o £1,544k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2019/20.

<b>CYFRIFON TERFYNOL 2018/19</b>						
<b>Adran Addysg</b>	Cyllideb Arfaethedig 2018/19	Sefyllfa Terfynol 2018/19	<b>Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2018/19</b>	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Tachwedd
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ysgolion Datganoledig	72,430	72,430	0	0	0	0
Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion	(341)	(656)	(315)	0	(315)	(140)
Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol						
Cludiant	4,606	4,971	365	0	365	447
Gwasanaeth Atodol	500	543	43	0	43	204
Eraill	(133)	(253)	(120)	0	(120)	(10)
	4,973	5,261	288	0	288	641
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	2,124	2,147	23	0	23	47
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad	4,140	4,260	120	0	120	193
Addasiad Cau Cyfrifon 2018/19				(16)	(16)	0
<b>Cyfanswm Addysg</b>	<b>83,326</b>	<b>83,442</b>	<b>116</b>	<b>(16)</b>	<b>100</b>	<b>741</b>



**Addysg**

**Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion** - cynnydd yn y tanwariant yn dilyn derbyniad grant a chymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru i ail-gyfeirio grant arall ar ddiwedd y flwyddyn. Trosiant staff a lleihad mewn costau hefyd yn cyfrannu at y sefyllfa ffafriol.

**Cludiant** - Gorwariant o £365k, gyda Bysus Ysgol yn gorwario £196k, Tacsis £170k a thanwariant o (£1k) ar Incwm Cludiant Ôl-16. Gostyngiad o (£82k) yn y tueddiad gorwariant gyda lleihad yn y gwariant ar dacsis ysgolion sydd bennaf gyfrifol am y symudiad ers yr adolygiad diwethaf. Cynnydd yn y gorwariant ar gludiant bysus ysgol oherwydd addasiadau ac ychwanegiadau i gytundebau.

Mae'r maes Cludiant wedi bod yn destun adolygiad i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant gan yr Adran yn ystod y flwyddyn. Dyrannwyd adnodd ychwanegol ar gyfer y maes yma yn 2019/20, sydd yn ddatrysiad rhannol ond mae'r angen am waith pellach yn parhau. Ymhellach, mae'r Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd yn bwriadu gwneud gwaith ar y cyd i'r dyfodol i fanteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol** - derbyniad grant hwyr yn helpu i leddfu'r diffyg incwm pryduau ysgol, elfen gofal o'r cynllun brecwast a'r gorwariant ar faterion staffio a salwch yn Arlwyfaeth, Glanhau a Gofalu am ysgolion.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill** - llai o alwadau ar nifer o gyllidebau amrywiol gan gynnwys cyllideb o £54k yn cael ei ryddhau yn dilyn i gytundeb lefel gwasanaeth rhwng awdurdodau Cymru â'r Bwrdd Arholi CBAC ddod i ben.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad** - ail gyfeirio defnydd o grant ar ddiwedd y flwyddyn yn lleihau effaith y gorwariant yn ystod y cyfnod trosiannol i'r gyfundrefn newydd gan yr Unedau Cyn Ysgol ABC. Y gorwariant sydd yn ymwneud ag amgylchiadau mewn un ganolfan benodol ac ar Addysg heblaw mewn Ysgol yn cael ei leihau gan danwariant gan yr unedau anghenion dysgu ychwanegol ac ar nifer o gyllidebau amrywiol.

**Argymhellir** fod yr Adran Addysg yn derbyn cymorth ariannol rhannol un-tro o £16k gan gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2019/20.

<b>CYFRIFON TERFYNOL 2018/19</b>						
<b>Adran Economi a Chymuned</b>	Cyllideb Arfaethedig 2018/19	Sefyllfa Terfynol 2018/19	<b>Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2018/19</b>	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Tachwedd
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	335	334	(1)	0	(1)	0
Dysgu Cymunedol	1,676	1,591	(85)	0	(85)	(44)
Twristiaeth a Threftadaeth	1,071	1,084	13	0	13	23
Economi a Chymuned	131	126	(5)	0	(5)	6
Cymunedau'n Iach	866	1,129	263	0	263	202
Addasiad Cau Cyfrifon 2018/19				(157)	(157)	0
<b>Cyfanswm Economi a Chymuned</b>	<b>4,079</b>	<b>4,264</b>	<b>185</b>	<b>(157)</b>	<b>28</b>	<b>187</b>

### **Economi a Chymuned**

**Dysgu Cymunedol** - swyddi gwag ac arbedion wedi eu gwireddu yn fuan yn gyfrifol am y tanwariant.

**Twristiaeth a Threftadaeth** - lleihad yn y gorwariant a adroddir sydd yn gyfuniad o orwariant o £72k gan Storiell ar gostau staff a diffyg incwm, ond tanwariant ar y Celfyddydau ac Archifau yn cynorthwyo'r sefyllfa ariannol.

**Economi a Chymuned** - Hafan, Pwllheli a Doc Fictoria, Caernarfon yn gorwario ond yn cael ei leddfu gan danwariant ar barciau gwledig a drwy ragori ar incwm traethau.

**Cymunedau'n Iach** - £157k o'r gorwariant o ganlyniad i lithriad yn yr amserlen sefydlu cwmni 'Byw'n Iach' i redeg y cyfleusterau hamdden. Gorwariant ar gostau staff a gostyngiad incwm canolfannau hamdden hefyd yn cyfrannu at y gorwariant o £263k.

**Argymhellir** digolledu'r Adran Economi a Chymuned £157k, sef swm y gorwariant o ganlyniad i lithriad yn yr amserlen sefydlu cwmni Byw'n Iach i redeg y cyfleusterau hamdden, sydd felly yn cyfyngu lefel y gorwariant i'w gario mlaen gan yr Adran i £28k.

<b>CYFRIFON TERFYNOL 2018/19</b>						
<b>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)</b>	Cyllideb Arfaethedig 2018/19	Sefyllfa Terfynol 2018/19	<b>Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2018/19</b>	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Tachwedd
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd)	9,274	9,368	94	0	94	39
Gwasanaethau Peirianeg	498	493	(5)	0	(5)	(1)
Gwasanaethau Bwrdeistrefol						
Gwastraff	10,491	10,994	503	0	503	470
Eraill	3,588	3,614	26	0	26	81
Addasiad Cau Cyfrifon 2018/19				(518)	(518)	0
<b>Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol</b>	<b>23,851</b>	<b>24,469</b>	<b>618</b>	<b>(518)</b>	<b>100</b>	<b>589</b>

### **Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)**

**Gwasanaethau Priffyrdd** - gostyngiad yn yr incwm ar gytundebau allanol ar waith ffyrdd a goleuo. Er bod y gaeaf wedi bod yn gymharol fwyn, bu gorwariant o ganlyniad i nifer o stormydd.

**Gwastraff** - cynnydd yn y gorwariant i £503k, gyda gorwariant ar gostau staffio a chostau cysylltiedig â salwch. Gwelwyd cynnydd mewn costau gweithredol a thrafnidiaeth, cynnal a chadw'r fflyd ac ymdrin a chludo deunyddiau ailgylchu. Er fod yr adran wedi cymryd camau i leihau costau drwy newid shifftiau a threfniadau cylchdeithiau casglu, oedd fod i ddod i rym yn Nhachwedd 2018 yn Nwyfor ac yna Arfon a Meirionnydd yn 2019/20, bu llithriad yn yr amserlen gweithredu i 2019/20.

**Gwasanaethau Bwrdeistrefol Eraill** - er fod costau rhedeg a hurio cerbydau yn parhau i fod yn broblemus, incwm uwch ar amlosgiadau a chladdedaethau a thanwariant ar gyllidebau amrywiol yn lleihau lefel y gorwariant erbyn diwedd y flwyddyn.

Er fod rhai camau eisioes wedi eu cymryd ar yr ochr Gwastraff yn ystod y flwyddyn i sicrhau mesurau i weithredu o fewn y gyllideb, nodir bu oedi gyda'r gweithrediad eleni.

**Argymhellir** fod yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn derbyn cymorth ariannol rhannol un-tro o £518k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i 2019/20 i £100k, i'w cynorthwyo i wynebu her 2019/20.

<b>CYFRIFON TERFYNOL 2018/19</b>						
<b>Adran Amgylchedd</b>	Cyllideb Arfaethedig 2018/19	Sefyllfa Terfynol 2018/19	<b>Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2018/19</b>	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Tachwedd
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth yr Adran	518	468	(50)	0	(50)	(81)
Gwasanaethau Cynllunio						
Rheolaeth Datblygu	73	(72)	(145)	0	(145)	82
Eraill	192	174	(18)	0	(18)	(17)
	265	102	(163)	0	(163)	65
Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth						
Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)	749	493	(256)	0	(256)	(128)
Parcio a Gorfodaeth Parcio	(1,965)	(1,974)	(9)	0	(9)	(19)
Cludiant Integredig	1,703	1,794	91	0	91	(48)
	487	313	(174)	0	(174)	(195)
Cefn Gwlad a Mynediad	709	719	10	0	10	5
Gwarchod y Cyhoedd	1,712	1,632	(80)	0	(80)	(29)
Eiddo, Gofalu, Arlwyo a Glanhau	1,436	1,401	(35)	0	(35)	66
Addasiad Cau Cyfrifon 2018/19				392	392	0
<b>Cyfanswm Amgylchedd</b>	<b>5,127</b>	<b>4,635</b>	<b>(492)</b>	<b>392</b>	<b>(100)</b>	<b>(169)</b>

**Amgylchedd**

**Rheolaeth** - arbedion ymlaen llaw yr Adran wedi arwain at arbedion un-tro ar y pennawd Rheolaeth.

**Gwasanaeth Cynllunio** - cryn gynnydd yn yr incwm erbyn diwedd y flwyddyn yn y maes Rheolaeth Datblygu o ganlyniad i ddau gais sylweddol ynghyd â gwaith gan swyddogion ar brosiect efo'r Grid Cenedlaethol a chwmni Horizon. Tanwariant ar wasanaethau, cyflenwadau a chludiant.

**Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth** - gorgyflawni incwm a chynnydd nodedig yn yr incwm ar gau ffyrdd, sydd yn rhan o gynlluniau arbedion yr Adran ar gyfer 2019/20 ymlaen, ynghyd â thanwariant staff.

Yn Cludiant Integredig, tanwariant ar gostau staff a rhagori ar incwm yn lleihau effaith y costau ychwanegol yn deillio o ail-dendro teithiau bysus dau weithredwr bysus. Gan fod yr Adran yn ei gyfanwydd yn tanwario, nid oes bwriad bellach i ddefnyddio'r gronfa a neilltuwyd yn 2017/18 tuag at y costau cynyddol. Mae'r Adran yn y broses o gynnal adolygiad o gludiant cyhoeddus ac wedi comisiynu ymchwil gan y Brifysgol i adolygu'r ddarpariaeth.

**Gwarchod y Cyhoedd** - incwm a grantiau ychwanegol a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Eiddo, Gofalu, Arlwyo a Glanhau** - symudiad ffafriol o £100k o ganlyniad i leihad mewn costau staff gan gynnwys secondiadau a mamolaeth.

Yn unol â'r Rheoliadau Ariannol **argymhellir** cadw at y drefn arferol i ganiatau i'r Adran Amgylchedd gadw (£100k) o'i danwariant, a symud (£392k) sef y swm uwchlaw (£100k), i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2018/19.

<b>CYFRIFON TERFYNOL 2018/19</b>						
<b>Adran Ymgynghoriaeth</b>	Cyllideb Arfaethedig 2018/19	Sefyllfa Terfynol 2018/19	<b>Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2018/19</b>	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Tachwedd
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg	(196)	(259)	(63)	0	(63)	(2)
Gwasanaeth Adeiladu	(93)	(92)	1	0	1	(3)
Gwasanaethau Uned Rheoli Risg Llifogydd	433	417	(16)	0	(16)	1
Rheolaeth Adeiladu	52	71	19	0	19	(7)
<b>Cyfanswm Ymgynghoriaeth</b>	<b>196</b>	<b>137</b>	<b>(59)</b>	<b>0</b>	<b>(59)</b>	<b>(11)</b>

### Ymgynghoriaeth

**Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg** - symudiad ffafriol o (£61k) ers yr adolygiad diwethaf, gwaith ar ddiwedd y flwyddyn ar gynlluniau gan Gynghorau eraill a Llywodraeth Cymru wedi arwain at incwm uwch na'r rhagolygon.

**Gwasanaeth Uned Rheoli Risg a Llifogydd** - grantiau ychwanegol am waith systemau draenio wedi rhagori'r targed incwm.

**Rheolaeth Adeiladu** - diffyg incwm yn gyfrifol am y gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn yn dilyn i staff yr uned weithio ar brosiect nad oedd yn denu incwm, sef Adolygiad Ffordd Gwynedd gyda golwg ar wella trefniadau i'r dyfodol.

<b>CYFRIFON TERFYNOL 2018/19</b>						
<b>Adrannau Canolog</b>	Cyllideb Arfaethedig 2018/19	Sefyllfa Terfynol 2018/19	<b>Gor / (Tan) Variant Gros 2018/19</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Gor / (Tan) Variant Addasedig 2018/19</b>	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Tachwedd
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	1,817	1,741	(76)	0	(76)	(93)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	5,892	5,833	(59)	0	(59)	(53)
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,851	7,790	(61)	0	(61)	(59)
<b>Cyfanswm Adrannau Canolog</b>	<b>15,560</b>	<b>15,364</b>	<b>(196)</b>	<b>0</b>	<b>(196)</b>	<b>(205)</b>

### **Adrannau Canolog**

**Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** - tanwariant o (£76k) erbyn diwedd y flwyddyn, sydd yn gyfuniad o dderbyniad incwm ychwanegol gan yr Uned Gyfreithiol, lleihad mewn costau yn y maes Cynllunio Argyfwng a swydd wag. Bydd yr arbedion yma yn rhan o gynlluniau arbedion ar gyfer 2019/20 ymlaen.

**Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** - tanwariant un-tro ar swyddi ar draws yr Adran sydd bennaf gyfrifol am y tanwariant, ynghyd â denu incwm ychwanegol. Derbyniad incwm uwch ers yr Adolygiad Tachwedd sydd yn cynnwys derbyniad grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru am y maes gweinyddu rhyddhad trethi annomestig. Yr arbedion ymlaen llaw wedi eu cynllunio mewn paratoad i allu cyfrannu at gynlluniau arbedion 2019/20 ymlaen.

**Cefnogaeth Gorfforaethol** - y tanwariant yn gyfuniad o arbedion staffio un-tro o ganlyniad i swyddi gwag, ynghyd â llwyddiant yr Adran i ddenu incwm allanol uwchlaw lefel y gyllideb yn y maes Iechyd Galwedigaethol a Chyfieithu, gyda'r bwriad o'u defnyddio fel rhan o gynlluniau arbedion o 2019/20 ymlaen.

<b>CYFRIFON TERFYNOL 2018/19</b>						
<b>Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)</b>	Cyllideb Arfaethedig 2018/19	Sefyllfa Terfynol 2018/19	<b>Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2018/19</b>	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Tachwedd
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Treth y Cyngor	*	*	(24)		(24)	0
Premiwm Treth Cyngor	*	*	(19)	19	0	0
Gostyngiadau Treth Cyngor	*	*	(265)		(265)	0
Derbyniad Llog Net	*	*	(139)		(139)	8
Costau Cyfalaf	*	*	(551)	551	0	0
Cynnal a Chadw Corfforaethol	*	*	(738)	738	0	0
Cyllidebau a ddychwelwyd gan Adrannau			(937)		(937)	0
Eraill	*	*	(651)		(651)	(55)
Addasiad Cau Cyfrifon 2018/19 - <i>i falansau cyffredinol</i>				173	173	0
				<b>1,481</b>		
Addasiad Cau Cyfrifon 2018/19 - <i>i gyllido gorwariant</i>				1,843	1,843	0
<b>Cyfanswm Corfforaethol</b>	*	*	<b>(3,324)</b>	<b>3,324</b>	<b>0</b>	<b>(47)</b>



**Corfforaethol**

**Treth y Cyngor a Premiwm Treth y Cyngor** - Sefyllfa ffafriol o dreth ychwanegol o (£24k) ar Dreth y Cyngor a (£19k) Premiwm Treth y Cyngor. Cynnydd o dros 60% eleni yn nifer yr eiddo mae Swyddfa'r Prisiwr wedi caniatáu i drosglwyddo o'r rhestr Treth y Cyngor i Drethi Annomestig, sef 453 o eiddo (282 yn 2017/18, a 199 yn 2016/17). Byddwn yn parhau i dynnu sylw Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Prisiwr at y sefyllfa anfodddhaol yma.

**Gostyngiadau Treth y Cyngor** - tanwariant o (£265k) gan fod niferoedd ceisiadau y cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor (budd-daliadau) yn gyffredinol ar ei lefel isaf o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol ar hyd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

**Derbyniad Llog Net** - newidiadau diweddar yn y maes rheolaeth trysorlys yn galluogi Cynghorau Cymru i fuddsoddi mewn eiddo buddsoddi sydd wedi arwain at ddychweliadau uwch.

**Costau Cyfalaf** - polisi rheolaeth trysorlys presennol yn golygu gellid osgoi benthyca allanol eleni sydd yn creu tanwariant yn erbyn y gyllideb costau cyfalaf. Yn dilyn sefydlu Cynllun Rheoli Asedau 2019/20 ymlaen yn ddiweddar, awgrymir y dylid dargyfeirio'r tanwariant i gronfa i'w ddefnyddio i gynorthwyo gyda ariannu'r rhaglen gyfalaf.

**Cynnal a Chadw Corfforaethol** - gan fod y Cyngor yn disgwyl penderfyniad am grant gan Lywodraeth Cymru sydd i'w wario ar nifer o safleoedd ysgolion, mae rhan o gyllideb cynnal a chadw eleni wedi ei neilltuo fel arian cyfatebol i ddenu'r grant. Awgrymir y dylid trosglwyddo'r arian i gronfa benodol i'r pwrpas.

**Cyllidebau a ddychwelwyd gan Adrannau** - yn dilyn derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ariannu y cynnydd yn nhâl athrawon ar ddiwedd Rhagfyr bu modd rhyddhau cyllideb o (£617k), ac ni fu'r galw mor ddwys yn sgil newidiadau awto-gorffestriad pensiwn

**Erail** - y pwysau ar nifer o benawdau'r gyllideb ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd ac felly yn tanwario.

**Argymhellir** fod (£19k) cysylltiedig â'r premiwm Treth y Cyngor yn cael ei neilltuo i gronfa benodol i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai, (£551k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei drosglwyddo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf, (£738k) ar gynnal a chadw i'w drosglwyddo i gronfa cynnal a chadw. Defnyddio (£1,843k) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2018/19, gyda gweddill y tanwariant sef (£173k) i fynd i falansau cyffredinol y Cyngor.

**Cynaeafu Cronfeydd a Darpariaethau**

Yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd a darpariaethau, argymhellir rhyddhau'r symiau canlynol o'r cronfeydd a darpariaethau isod:

<b>Cronfa</b>	<b>Swm i'w ryddhau £</b>
Tanwariant y Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol (cynaeafu uwchlaw trothwy penodol)	60,834
Tanwariant Cefnogaeth Gorfforaethol (cynaeafu uwchlaw trothwy penodol)	67,079
Grantiau Refeniw Hanesyddol Amrywiol (dim ymrwymiad ar eu cyfer)	267,952
Tanwariant yr Adran Cyllid (cynaeafu uwchlaw trothwy penodol)	65,785
Adolygiad Tâl (wedi cwblhau)	44,130
Tanwariant yr Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd (cynaeafu uwchlaw trothwy penodol)	81,696
Ymrwymiad Potensial Contractau (dim ymrwymiad ar ei gyfer)	163,974
Ar gyfer Incwm Annigonol (dim ymrwymiad ar ei gyfer)	80,860
Cronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol (ei drosglwyddo i wireddu blaenoriaethau corfforaethol)	3,098,718
<b>Cyfanswm</b>	<b>3,931,028</b>

<b>Darpariaeth</b>	<b>Swm i'w ryddhau £</b>
Hawliadau Trydydd Parti (wedi cwblhau)	68,972
<b>Cyfanswm</b>	<b>68,972</b>

gan eu trosglwyddo i:

<b>Cronfa / Balansau Cyffredinol</b>	<b>Swm i'w ychwanegu £</b>
Cronfa Trawsffurfio / Cynllun y Cyngor	3,000,000
Balansau Cyffredinol	1,000,000
<b>Cyfanswm</b>	<b>4,000,000</b>

Am gyfnod o flwyddyn trosglwyddo'r canlynol i bontio'r ffynhonnell ariannu :

<b>Cronfa</b>	<b>Swm i'w ryddhau £</b>
Cronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol	262,100
<b>Cyfanswm</b>	<b>262,100</b>

gan ei drosglwyddo i'r gronfa isod:

<b>Cronfa</b>	<b>Swm i'w ychwanegu £</b>
Ymrwymadau yn Berthnasol i'r Gronfa Bensiwn	262,100
<b>Cyfanswm</b>	<b>262,100</b>

# Eitem 12

**CYFARFOD: PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

**DYDDIAD: 13 MEHEFIN 2019**

**TEITL: RHAGLEN GYFALAF 2018/19 –  
ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN**

**PWRPAS: ADRODDIAD MONITRO AR WARIANT AC ARIANNU'R  
RHAGLEN GYFALAF**

**GWEITHREDIAD: DERBYN Y WYBODAETH, AC YSTYRIED Y RISGIAU YN  
YMWNEUD Â'R RHAGLEN GYFALAF**

**SWYDDOG CYSWLLT: FFION MADOG EVANS, UWCH REOLWR CYLLID**

**AELOD CABINET: CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET  
CYLLID**

---

1. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (adolygiad diwedd blwyddyn o'r rhaglen gyfalaf) i'r Cabinet ar 21 Mai ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.
2. Y drefn yn arferol yw ein bod yn cyflwyno'r adroddiad Cabinet i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, i'w graffu ynghyd â phenderfyniad perthnasol cyfarfod 21 Mai o'r Cabinet sydd ar y dudalen dilynol.
3. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, ystyried penderfyniad y Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	21 Mai 2019
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn, yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd</b>	5 Mehefin 2019

---

**PWNC**

Eitem 6 :RHAGLEN CYFALAF 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (31 MAWRTH 2019)

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2019) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- £7,000 cynnydd mewn defnydd o fenthyca
  - £1,739,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
  - £71,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
  - £158,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
  - Dim newid mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
  - £184,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill
- 

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol) ac er mwyn caniatáu i'r cyfrifon terfynol ffurfiol gael eu cwblhau.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU  
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---

## ADRODDIAD I'R CABINET

21 Mai 2019

- Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid
- Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2018/19 –  
Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2019)
- Swyddog Cyswllt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid
- 

### Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2019) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- £7,000 cynnydd mewn defnydd o fenthyca
  - £1,739,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
  - £71,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
  - £158,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau referniw
  - Dim newid mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
  - £184,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill
- 

### 1. Cyflwyniad / Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r broses cau cyfrifon 2018/19. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 5:

Rhan 3: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £53.430m am y 3 blynedd 2018/19 – 2020/21.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £2.159m ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi eu hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:

- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2018/19 i 2019/20

### 2. Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw :

- Llwyddodd y Cyngor i wario dros £22.8m yn 2018/19 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £12.5m (55%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.
- Yn ychwanegol i'r £4.4m adroddwyd arno yn adolygiadau blaenorol 2018/19 mae £8.3m pellach o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o

2018/19 i 2019/20, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

### 3. Rhaglen Gyfalaf 2018/19 i 2020/21

ADRAN	ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH				CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF £'000
	2018/19	2019/20	2020/21	CYFANSWM	
	£'000	£'000	£'000	£'000	
Addysg	3,481	9,201	3,624	16,306	7
Amgylchedd	4,340	4,839	43	9,222	(706)
Cefnogaeth Gorfforaethol	6	118	-	124	-
Cyllid	1,049	285	-	1,334	308
Economi a Chymuned	656	477	-	1,133	47
Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Tai	4,052	1,285	-	5,337	436
Oedolion, Iechyd a Llesiant – Arall	780	1,177	524	2,481	11
Plant a Chefnogi Teuluoedd	93	-	-	93	(14)
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	6,971	4,515	1,893	13,379	281
Ymgynghoriaeth	1,380	452	45	1,877	(53)
Corfforaethol	-	2,144	-	2,144	1,842
<b>CYFANSWM</b>	<b>22,808</b>	<b>24,493</b>	<b>6,129</b>	<b>53,430</b>	<b>2,159</b>

### 4. Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £2.159m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

ARIANNU	ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH				CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF £'000
	2018/19	2019/20	2020/21	CYFANSWM	
	£'000	£'000	£'000	£'000	
Benthyca gyda chefnogaeth	4,144	-	-	4,144	-
Benthyca Arall	3,774	1,747	777	6,298	7
Grantiau a Chyfraniadau	10,538	9,714	525	20,777	1,739
Derbyniadau Cyfalaf	162	349	750	1,261	71
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	1,947	176	-	2,123	158
Cronfa Cyfalaf	-	2,353	-	2,353	-
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	2,243	10,154	4,077	16,474	184
<b>CYFANSWM</b>	<b>22,808</b>	<b>24,493</b>	<b>6,129</b>	<b>53,430</b>	<b>2,159</b>

Ers yr adolygiad diwethaf, ddiwedd Tachwedd, llwyddodd y Cyngor i ddenu'r grantiau canlynol ychwanegol, ymysg addasiadau eraill (gweler Atodiad A am fwy o fanylion) :

- £1,842k Grant Cynnal a Chadw Ysgolion
- £347k Grant i Ddylunio a Datblygu Cynllun Atal Llifogydd yn Llanberis
- £47k Grant Amddiffyn yr Arfordir Borth y Gest
- £40k Grant Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRI) i ariannu Cynlluniau Adnewyddu a Mynediad Bangor
- £327k Grant o'r Gronfa Gofal Canolraddol (ICF), maes Oedolion
- £98k Grant Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRIP) ar gyfer datblygu tai gwag
- £50k Grant Rhaglen Tai Arloesol – podiau hyblyg goddefol

## **5. Argymhellion**

**Gofynnir i'r Cabinet:**

- **dderbyn y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2018/19 i 2020/21, a**
- **cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (para. 4 uchod).**

## **6. Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad**

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2018/19 – 2020/21.

## **7. Ystyriaethau Perthnasol**

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

## **8. Camau Nesaf ac Amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen fel bydd modd i'r Adran Gyllid symud ymlaen i gau cyfrifon ariannol y Cyngor ar gyfer 2018/19, gan gyhoeddi'r datganiadau statudol cyn diwedd mis Mai.

---

**Barn yr Aelod Lleol**

Dim yn berthnasol.

---

**Barn y Swyddogion Statudol****Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**

Atodiadau A a B

-----



**Prif Newididau Fesul Ffynhonnell Ariannu**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf :

	2018/19	2019/20-
	£'000	2020/21 £'000
<b>Grantiau a Chyfraniadau</b>		
• Dylunio a Datblygu Cynllun Atal Llifogydd yn Llanberis ( <i>Adran Ymgynghoriaeth</i> ).	347	(387)
• Grant Amddiffyn yr Arfordir Borth y Gest ( <i>Adran Ymgynghoriaeth</i> ).	47	
• Grant Dechrau'n Deg - tanwario ( <i>Adran Plant a Theuluoedd</i> ).	(22)	
• Cronfa Gofal Canolraddol (ICF) – grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau i ddarparu gwelyau dementia ac arbenigol yn ogystal a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill ( <i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i> ).	327	
• Cynlluniau Grant Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRIP) - grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu tai gwag yn ardal Arfon ( <i>Uned Tai, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i> ).	98	
• Grant Rhaglen Tai Arloesol – podiau hyblyg goddefol ( <i>Uned Tai, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i> ).	50	
• Lleihad Grant gan Lywodraeth Cymru o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau gan gynnwys A496 Llanbedr; Lôn Las Peris; A499 i Trefor ( <i>Adran Amgylchedd</i> ).	(703)	
• Grant tuag at Gynlluniau Gwledig gan gynnwys Mynediad i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Llŷn ( <i>Adran Amgylchedd</i> ).	30	
• Grant i ariannu Prosiect Tir a Môr Llŷn ( <i>Adran Amgylchedd</i> ).	53	
• Grant Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRI) i ariannu Cynlluniau Adnewyddu a Mynediad Bangor ( <i>Adran Economi a Chymuned</i> ).	40	

<ul style="list-style-type: none"> <li>Grant Cynnal a Chadw Cyfalaf Ysgolion (<i>Adran Addysg ac Adran Amgylchedd</i>).</li> </ul>	1,842	
<b>Derbyniadau Cyfalaf</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Uwchraddio Depos Priffyrdd a Bwrdeistrefol (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>).</li> </ul>	76	
<b>Refeniw Adrannol</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylunio a Datblygu Cynllun Atal Llifogydd yn Llanberis (<i>Adran Ymgynghoriaeth</i>) - cyfraniadau Adrannau eraill i'r cynllun Adran Ymgynghoriaeth</li> </ul>	47	(68)
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweinyddwyr (Offer) Technoleg Gwybodaeth (<i>Adran Cyllid</i>).</li> </ul>	250	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Nifer o fân gynlluniau.</li> </ul>	(71)	
<b>Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Adnewyddu Cerbydau ac Offer Gwasttraff (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>).</li> </ul>	225	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Prosiect VOIP – ffonau trwy'r we (<i>Adran Cyllid</i>).</li> </ul>	57	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Nifer o fân gynlluniau.</li> </ul>	(98)	

-----

**Ail-broffilio Cyllideb - Prif Gynlluniau**

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

	2018/19 £'000	2019/20 £'000
Ad-leoli Gwasanaeth Dydd Segontiw (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)	(253)	253
Cynlluniau Grantiau a Benthyciadau Tai (Uned Tai, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)	(975)	975
Ysgol Gydol Oes Y Berwyn (Adran Addysg)	(382)	382
Cynlluniau Eraill Ysgolion (Ganrif 21 ac Eraill) (Adran Addysg)	(582)	582
Cynlluniau sefydliadau Oedolion (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)	(180)	180
Ail-wynebu meysydd parcio (Adran Amgylchedd)	(261)	261
Cynlluniau Ffyrdd Amgylchedd (Adran Amgylchedd)	(1,286)	1,286
Adnewyddu Cerbydau (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Adran Amgylchedd)	(2,313)	2,313
Cynlluniau Addasiadau, Cynnal a Chadw ayyb Eiddo'r Cyngor (Uned Eiddo, Adran Amgylchedd)	(2,990)	2,990
Amrywiol gynlluniau megis Adnewyddu Ffensys Diogelwch, Dŵr ar y Ffyrdd, Pibellau Dŵr, Toiledau (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)	(297)	297
Cynllun Safle Sipsiwn, Llandygai (Uned Tai, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)	(310)	310
Cynllun Adnewyddu Cyfrifiaduron y Cyngor (Adran Cyllid)	(200)	200
Nifer o amrywiol Gynlluniau megis Digidio Safleoedd, Mesurau Diogelwch Parc Padarn (Adran Economi a Chymuned)	(229)	229
Nifer o amrywiol Gynlluniau megis Mynediad i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Llŷn, Gwelliannau Trefol, TG systemau Gwaith Stryd (Adran Amgylchedd)	(192)	192
Grant Cynnal a Chadw Ysgolion (disodli ariannu yn 18/19, sy'n llithro swm i 19/20)	(1,842)	1,842

**Noder:**

Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.

Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

---

# Eitem 13

CYFARFOD:	<b>PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU</b>
DYDDIAD:	<b>13 MEHEFIN 2019</b>
TEITL:	<b>TROSOLWG ARBEDION 2018/19: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION</b>
PWRPAS:	<b>RHANNU'R WYBODAETH GYDAG AELODAU'R PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU</b>
GWEITHREDIAD:	<b>DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH</b>
SWYDDOG CYSWLLT:	<b>FFION MADOG EVANS, UWCH REOLWR CYLLID</b>
AELOD CABINET:	<b>CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET CYLLID</b>

---

1. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Trosolwg Arbedion 2018/19: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion) i'r Cabinet ar 21 Mai er mwyn adrodd ar sefyllfa gwireddu cynlluniau arbedion hyd at 31 Mawrth 2019.
2. Cyflwynir yr adroddiad Cabinet i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu ynghyd â phenderfyniad perthnasol cyfarfod 21 Mai o'r Cabinet sydd ar y tudalen dilynol.
3. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion, a sylwebu fel bo angen.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	21 Mai 2019
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn, yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd</b>	5 Mehefin 2019

---

**PWNC**

Eitem 7 :TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD AR GYNNYDD AR WIREDDU  
CYNLLUNIAU ARBEDION

---

**PENDERFYNIAD**

Nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad a'r cynnydd calonogol tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2018/19 a blynyddoedd blaenorol.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb Aelodau perthnasol o'r Cabinet ac mae adroddiadau perfformiad yr Aelodau, sy'n cael eu cyflwyno'n rheolaidd i gyfarfodydd y Cabinet, yn manylu ar gynnydd y cynlluniau arbedion unigol o fewn eu portffolios, fel y mae'r sefyllfa ar y pryd. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU  
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

## ADRODDIAD I'R CABINET

Dyddiad	21 Mai 2019
Aelod Cabinet	Y Cyngorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid
Pwnc	Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion
Swyddog Cyswllt	Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

### Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd calonogol tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2018/19 a blynyddoedd blaenorol.

---

### 1. CYFLWYNIAD / CEFNDIR

Yn Strategaeth Ariannol y Cyngor am y flwyddyn 2018/19, roedd gwerth £2,454,740 o arbedion wedi eu cynllunio.

Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, ac mae adroddiadau perfformiad yr Aelodau, sy'n cael eu cyflwyno yn rheolaidd i gyfarfodydd y Cabinet, yn manylu ar gynnydd y cynlluniau arbedion unigol o fewn eu portffolios, fel y mae'r sefyllfa ar y pryd. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

Adroddir yma ar sefyllfa gwireddu'r arbedion hyd at 31 Mawrth 2019.

### 2. CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 – 2017/18

2.1 Mae **Atodiad 1** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn y targed arbedion oedd wedi ei osod iddynt o 2015/16 – 2017/18, cyfanswm o dros £24m. Mae'n galonogol i mi allu adrodd bod £23m, neu 96%, o'r cynlluniau yma wedi eu gwireddu, a dim ond ychydig o lithriad gyda'r gweddill.

2.2 Mae'r lithriad yma yn bennaf ar gynlluniau 2017/18 gyda rhai o'r cynlluniau wedi llithro. Mae cynnydd wedi ei wneud yn ddiweddar gyda rhai o'r cynlluniau ond mae'r her o wireddu rhai cynlluniau yn parhau.

2.3 Mae dau gynllun gan yr Adran Addysg yn destun pryder sef *Lleihau amser a/neu godi ffi am yr elfen gwarchod o fewn y cynllun brecwast am ddim a Chynnyddu pris prydau ysgolion cynradd o £2.30 i £2.50*. Nid yw'r arbedion yn cael eu gwireddu ar y lefel yr oedd yr Adran wedi ei ragweld, ac felly ceir gorwariant eleni. £119,550 yw cyfanswm targed y ddau gynllun yn 2017/18. Mae'r Aelod Cabinet Cyllid yn awyddus i dderbyn cynllun ymateb erbyn y cyfarfod Cabinet perthnasol nesaf.

### 3. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2018/19

- 3.1 Mae **Atodiad 2** yn crynhoi'r sefyllfa o ran gwireddu cynlluniau arbedion 2018/19. O'r 30 o gynlluniau, mae gwerth 73% wedi eu gwireddu. Mae 1 cynllun ar drac i gyflawni'n amserol, gyda 7 cynllun yn llithro.
- 3.2 Fel adroddwyd i'r Cabinet 22 Ionawr 2019, un o'r cynlluniau yw 'Adolygiad Dechrau i'r Diwedd' yn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, sydd yn gynllun arbedion o £250,280. Mae'r cynllun wedi bod yn destun adolygiad ar y cyd rhwng yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, Cyllid a'r Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth, gan ail ymweld â thybjaethau'r model 'Dechrau i'r Diwedd' gwreiddiol. Gwelwyd fod niferoedd y nosweithiau plant mewn lleoliadau preswyl wedi lleihau ond fod newid yn y proffil a chymhlethdod yr achosion, ac felly yn cael effaith ar gyfartaledd cost lleoliadau. Gwelwyd hefyd leihad yng nghyfraniadau gan lechyd.
- 3.3 Mae'r ddau gynllun yr Adran Addysg a nodir yn pwynt 2.3 gyda targed arbedion o £85,450 yn 2018/19 hefyd.
- 3.4 Derbyniodd yr Adran Economi a Chymuned gymeradwyaeth y Cabinet 16 Hydref 2018 i lithro £156,500 o'r arbedion gan nad oedd y ddarpariaeth cyfleusterau hamdden yn trosglwyddo i Gwmni Byw'n Iach Cyf tan 1 Ebrill 2019, felly i 2019/20.
- 3.5 Yn gyffredinol, mae'r cynnydd sydd wedi ei wneud i wireddu cynlluniau arbedion 2018/19 yn dderbyniol, ond mae arwyddion fod rhai trafferthion cyflawni yn cael eu hamlygu. Gan ein bod yn ceisio effeithio ar drigolion Gwynedd cyn lleied a phosib drwy gyflawni arbedion effeithlonrwydd, mae'n llawer anoddach na torri gwasanaethau.

### 4. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2019/20 YMLAEN

- 4.1 Er gwybodaeth rhestrir arbedion adrannol newydd 2019/20 ymlaen yn **Atodiad 3**. Fydd y cynlluniau unigol yn cael eu monitor yn ystod y flwyddyn, ond yn gyn amserol i adrodd ar hyn o bryd.

### 5. CASGLIAD

- 5.1 Er bod rhai adrannau wedi gwireddu eu holl gynlluniau arbedion, mae'n anrffod bod gwireddu bron i £27m o arbedion ers Ebrill 2015 wedi bod yn heriol. Mae angen mwy o amser i gynllunio a gweithredu'n briodol ar rai cynlluniau. Fodd bynnag, yn gyffredinol, rwyf yn fodlon gyda'r cynnydd sydd wedi ei wneud i wireddu cynlluniau arbedion y cyfnod hwn ac yn ddiolchgar i'r holl adrannau a'r Aelodau Cabinet am sicrhau'r llwyddiant yma. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i geisio gwireddu y cynlluniau sydd wedi llithro, a bydd yr holl Aelodau Cabinet yn parhau i fonitro'r sefyllfa, gan weithredu fel bo angen er sicrhau'r nôd.
- 5.2 Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cyrhaeddiad derbyniol iawn a amlinellir yn yr adroddiad yma tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion.



**Barn yr Aelod Lleol**

Dim yn berthnasol

---

**Barn y Swyddogion Statudol****Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau ynglŷn â phriodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2015/16 – 2017/18 fesul Adran

Atodiad 2 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2018/19 fesul Adran

Atodiad 3 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2019/20 ymlaen fesul Adran

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2017/18 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion	Cynlluniau wedi eu gwireddu	Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro		Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
	£	£	£ - nifer		£ - nifer		
Addysg	685,860	537,629	28,681	1	119,550	2	Mae bid wedi ei gyflwyno ar gyfer adnoddau ychwanegol i gyflymu'r gwaith ar gynllun <i>Ffordd Gwynedd - Uned Cyflogau a Chontractau</i> , ond yn y cyfamser mae'r Adran yn pontio'r diffyg o (£28,681). Nid yw'r cynllun i <i>Leihau amser a / neu godi ffi am yr elfen gwarchod o fewn y cynllun brechwast am ddim i blant ysgolion cynradd</i> wedi ei wireddu, gyda gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn. O ran y cynllun <i>Cynyddu pris prydau ysgolion cynradd o £2.30 i £2.50</i> , mae'r sefyllfa diweddaraf yn nodi bod yna ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn gan fod niferoedd sy'n archebu cinio wedi gostwng ers i'r pris godi ym Medi 2017, ac felly nid yw'r cynllun yn gwireddu'r arbedion disgwylidig.
Ysgolion	4,037,000	3,738,010	298,990	1	-	-	Mae arbedion o £298,990 o arbedion 2017/18 wedi eu pontio am ddwy flynedd i'r ysgolion uwchradd gyda'r arbedion i'w gwireddu yn 2019/20.
Amgylchedd	2,179,353	2,179,353	-	-	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Cefnogaeth Gorfforaethol	1,659,838	1,659,838	-	-	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Cyllid	960,826	960,826	-	-	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Economi a Chymuned	2,085,602	2,085,602	-	-	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Oedolion, Iechyd a Llesiant	4,934,141	4,473,401	460,740	7	-	-	Mae amrediad o gynlluniau 2017/18 wedi llithro ond rhagwelir gwireddu yn llawn.

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2017/18 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion	Cynlluniau wedi eu gwireddu	Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro		Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
	£	£	£ - nifer		£ - nifer		
Plant a Chefnogi Teuluoedd	1,987,318	1,987,318	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	4,872,550	4,839,550	33,000	1	-		Mae £33k o gynllun <i>Cau 50 allan o 73 o doiledau cyhoeddus y Sir</i> yn llithro, gyda'r gwasanaeth yn edrych ar ail-strwythuro a chynllun Teledu Cylch Cyfyng yn cyfarch y gwahaniaeth.
Ymgynghoriaeth	387,000	387,000	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	165,270	165,270	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>23,954,758</b>	<b>23,013,797</b>	<b>821,411</b>	<b>10</b>	<b>119,550</b>	<b>2</b>	
Trawsadrannol	224,220	224,220	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
<b>CYFANSWM</b>	<b>24,178,978</b>	<b>23,238,017</b>	<b>821,411</b>	<b>10</b>	<b>119,550</b>	<b>2</b>	<b>Yn nhermau ariannol (£), mae 96% o gynlluniau arbedion 2015/16 - 2017/18 wedi eu gwireddu.</b>

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2018/19 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion 2018/19		Cynlluniau wedi eu gwireddu		Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol		Cynlluniau sydd yn llithro		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
	£ - nifer		£ - nifer		£ - nifer		£ - nifer		
Addysg	521,450	3	436,000	1	-	-	85,450	2	Nid yw'r cynllun i <i>Leihau amser a / neu godi ffi am yr elfen gwarchod o fewn y cynllun brecwast am ddim i blant ysgolion cynradd</i> wedi ei wireddu, gyda gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn. O ran y cynllun <i>Cynyddu pris prydau ysgolion cynradd o £2.30 i £2.50</i> , mae'r sefyllfa diweddaraf yn nodi bod yna ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn gan fod niferoedd sy'n archebu cinio wedi gostwng ers i'r pris godi ym Medi 2017, ac felly nid yw'r cynllun yn gwireddu'r arbedion disgwylidig.
Ysgolion	-		-		-	-	-		Dim cynlluniau wedi eu rhaglennu yn 2018/19.
Amgylchedd	154,970	6	154,970	6	-	-	-		Holl gynlluniau wedi eu gwireddu.
Cefnogaeth Gorfforaethol	47,340	2	47,340	2	-	-	-		Y ddau gynllun wedi eu gwireddu.
Cyllid	66,430	2	66,430	2	-	-	-		Y ddau gynllun wedi eu gwireddu.
Economi a Chymuned	308,830	4	152,330	3	-	-	156,500	1	Mae'r cynlluniau bellach wedi eu gwireddu, ond bydd llithriad rhannol i gynllun <i>Rhedeg cyfleusterau hamdden yn fwy effeithiol</i> gan nad oedd y ddarpariaeth cyfleusterau hamdden yn trosglwyddo i Cwmni Byw'n Iach Cyf tan 1 Ebrill 2019, felly llithriad i 2019/20.
Oedolion, Iechyd a Llesiant	645,000	6	575,000	4	-	-	70,000	2	Bu oediad yn gwireddu cynlluniau <i>Cynyddu incwm a lleihau costau eraill</i> gwerth £30k a'r cynllun <i>Comisiynu'n ddoeth Gwasanaeth Iechyd Meddwl</i> gwerth £40k, ond yn symud yn eu blaen.

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2018/19 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion 2018/19		Cynlluniau wedi eu gwireddu		Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol		Cynlluniau sydd yn llithro		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
	£ - nifer		£ - nifer		£ - nifer		£ - nifer		
Plant a Chefnogi Teuluoedd	314,480	2	64,200	1	-		250,280	1	Mae'r cynllun <i>Dechrau i'r Diwedd</i> wedi bod yn destun adolygiad diweddar, sydd wedi cadarnhau fod niferoedd y nosweithiau plant mewn gofal wedi lleihau yn ystod y cyfnod, ond fod y math o leoliad preswyl wedi newid ac felly yn cael effaith ar gost lleoliadau. Bu hefyd leihad yng nghyfraniadau gan lechyd. Bydd angen i'r Adran ystyried newid trywydd canolbwyntio er mwyn ceisio datrysiaid.
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	171,700	2	86,700	1	85,000	1	-		Mae cynllun arbedion <i>Trefniadau Fflyd (Adolygiad Edge)</i> gwerth £85,000 sydd yn cael ei arwain gan yr Adran Priffyrdd, eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet.
Ymgynghoriaeth	-		-		-		-		Dim cynlluniau wedi eu rhaglennu yn 2018/19.
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	13,800	1	-		-		13,800	1	Mae llithriad ar y cynllun Arbedion yng nghyllideb y Crwner gwerth £13,800 gan ei fod yn seiliedig ar ragamcaniad.
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>2,244,000</b>	<b>28</b>	<b>1,582,970</b>	<b>20</b>	<b>85,000</b>	<b>1</b>	<b>576,030</b>	<b>7</b>	
Trawsadrannol	210,740	2	210,740	2	-		-		Y ddau gynllun wedi eu gwireddu.
<b>CYFANSWM</b>	<b>2,454,740</b>	<b>30</b>	<b>1,793,710</b>	<b>22</b>	<b>85,000</b>	<b>1</b>	<b>576,030</b>	<b>7</b>	<b>Yn nhermau ariannol (£), mae 73% o gynlluniau'r flwyddyn wedi eu gwireddu a 4% ar drac i gyflawni'n amserol.</b>

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2019/20 YMLAEN FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion 2019/20 ymlaen		Proffil			
	£ - nifer		2019/20 £	2020/21 £	2021/22 £	2022/23 £
Addysg	84,530	3	66,970	17,560	-	-
Amgylchedd	560,000	20	229,380	221,870	96,250	12,500
Cefnogaeth Gorfforaethol	788,700	18	375,450	195,500	117,750	100,000
Cyllid	795,450	22	558,650	111,800	100,000	25,000
Economi a Chymuned	553,000	12	173,000	175,000	166,250	38,750
Oedolion, Iechyd a Llesiant	1,772,380	12	345,000	953,250	274,130	200,000
Plant a Chefnogi Teuluoedd	94,590	8	63,170	8,250	23,170	-
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	1,380,900	19	210,000	372,150	611,250	187,500
Ymgynghoriaeth	186,000	7	126,500	59,500	-	-
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	202,370	7	183,310	19,060	-	-
<b>CYFANSWM</b>	<b>6,417,920</b>	<b>128</b>	<b>2,331,430</b>	<b>2,133,940</b>	<b>1,388,800</b>	<b>563,750</b>

# Eitem 14

CYFARFOD	<b>Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu</b>
DYDDIAD	<b>13 Mehefin 2019</b>
TEITL	<b>Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019</b>
PWRPAS YR ADRODDIAD	<b>Cyflwyno –</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2018/19, a</b></li><li>• <b>Ffurflen datganiadau cyfrifon, wedi'i ardystio, ond yn amodol ar archwiliad</b></li></ul>
AWDUR	<b>Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid</b>
GWEITHREDIAD	<b>Derbyn a Chymeradwyo'r Cyfrifon</b>

---

## **1. GOFYNION ADRODD HARBYRAU**

- 1.1 Yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Wynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbwr.
- 1.2 Ystyrir Harbyrau Gwynedd, oherwydd trosiant is na £2.5m, i fod yn gorff llywodraeth leol llai o faint yn unol â'r diffiniad yn y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.
- 1.3 Ar gyfer "cyrff llywodraeth leol llai o faint", mae cwblhau ffurflen datganiadau cyfrifon a ddarparwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cwrdd â'r gofynion statudol. Bydd yn destun archwiliad ar wahân, ond nid oes rhaid cynhyrchu datganiadau ariannol statudol llawn (sy'n cydymffurfio gyda Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol "IFRS").

## **2. CYFRIFON 2018/19**

- 2.1 Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2018/19 yma fel Atodiad A ar ffurf adroddiad "alldro" syml. Gwelir fod yr harbyrau wedi tanwario (£2,875) gyda'i incwm yn dangos diffyg o £38,001 yn erbyn targed o £198,410. Noder fod y targed wedi ei ostwng £50,000 yn 2017/18 oherwydd y gostyngiad parhaol yn y gofyn am angorfeydd.
- 2.2 Yn Atodiad B, cyflwynir y ffurflen datganiadau cyfrifon am 2018/19, wedi'i chwblhau a'i hardystio cyn yr archwiliad gan Dafydd L Edwards, y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer yr Harbyrau.

- 2.3 Bydd y cyfrifon a'r ffurflen yn destun archwiliad buan gan Deloitte, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Os bydd angen newidiadau yn dilyn archwiliad, yna cyflwynir fersiwn diwygiedig i gyfarfod mis Gorffennaf o'r Pwyllgor.
- 2.4 Ar ôl archwiliad Deloitte ac unrhyw addasiadau fydd angen, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio'r ffurflen cyn 15 Medi 2019.
- 2.5 Mae Atodiad A yn dangos y cyfrifon refeniw yn unig tra bod y datganiadau cyfrifyddu yn Atodiad B yn cynnwys refeniw a chyfalaf. Roedd gwariant cyfalaf 2018/19 Harbyrau Gwynedd yn £20,000. Mae'r ffigwr hwn yn rhan o'r swm ar linell 6, gyda'r incwm sydd yn ei ariannu ar linell 2.

### **3. ARGYMHELLIAD**

- 3.1 **Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio dderbyn a chymeradwyo'r wybodaeth sydd yn yr atodiadau, sef ;–**
- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2018/19 – Atodiad A
  - Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2019, yn Amodol ar Archwiliad – Atodiad B



## Pwyllgor Archwilio

### Adroddiad Harbyrau Cyngor Gwynedd

#### Cyfrif Incwm a Gwariant 2018-19

Gwariant	Cyllideb 2018-19	Cyfrifon Terfynol 2018-19	Gwahaniaeth Gor (Tan) wariant
Gweithwyr			
Cyflogau	£190,450	£156,823	-£33,627
Hyfforddiant	£0	£2,358	£2,358
Yswiriant Atebolrwydd	£880	£870	-£10
Amrywiol Eraill	£2,260	£1,257	-£1,003
Adeiladau			
Cynnal a Chadw	£49,860	£13,896	-£35,964
Cynnal Tiroedd	£14,520	£506	-£14,014
Ynni	£7,590	£29,158	£21,568
Trethi	£19,990	£19,982	-£8
Dwr	£2,380	£2,780	£400
Lês yr Arfordir	£2,660	£2,600	-£60
Glanhau a Casglu Sbwriel	£4,500	£1,521	-£2,979
Yswiriant Adeiladau	£450	£447	-£3
Cludiant			
Costau Rhedeg Cerbydau (cynnwys cychod)	£2,080	£508	-£1,572
Costau Teithio	£480	£10	-£470
Cyflenwadau a Gwasanaethau			
Offer - cynnwys diogelwch	£18,000	£29,810	£11,810
Arolygiadau Tanfor	£0	£2,860	£2,860
Arwyddion a Rhybuddion	£0	£10,989	£10,989
Dillad	£1,960	£905	-£1,055
Cynnal Cychod	£3,070	£0	-£3,070
Ffioedd Arbennigol	£6,550	£0	-£6,550
Trwyddedau	£600	£225	-£375
Deunyddiau Swyddfa, Argraffu a Rhwydwaith	£3,050	£5,484	£2,434
Ffioedd Archwilio	£720	£770	£50
Yswiriant Arian Parod	£2,580	£2,578	-£2
Gwaredu Gwastraff	£0	£7,418	£7,418
Cefnogaeth Canolog			
Ad-Daliadau Costau Canolog	£35,385	£35,385	£0
<b>Cyfanswm Gwariant</b>	<b>£370,015</b>	<b>£329,139</b>	<b>-£40,876</b>
Incwm			
Ffioedd a Rhenti	-£198,410	-£160,409	£38,001
<b>Cyfanswm Incwm</b>	<b>-£198,410</b>	<b>-£160,409</b>	<b>£38,001</b>
<b>Cyfanswm Gwariant Net</b>	<b>£171,605</b>	<b>£168,730</b>	<b>-£2,875</b>


# Cyrff llywodraeth leol perthnasol llai yng Nghymru Ffurflen Flynyddol i'r Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2019

## Y BROSES O RAN CYFRIFON AC ARCHWILIO

Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru lunio eu cyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth a sicrhau bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilio'r cyfrifon hynny. Mae Rheoliad 14 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi bod yn rhaid i gyrff llywodraeth leol llai h.y. y rhai hynny ag incwm a gwariant sy'n llai na £2.5 miliwn baratoi eu cyfrifon yn unol â'r arferion priodol.

Nodir yr arferion priodol i is gyd-bwyllgorau sydd ag incwm a gwariant yn llai na £2.5 miliwn yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru/Cymdeithas Clercod Cyngorau Lleol 'Governance and accountability for local councils in Wales – A Practitioners' Guide' (y Canllaw i Ymarferwyr). Mae'r Canllaw i Ymarferwyr yn ei gwneud yn ofynnol iddynt baratoi eu cyfrifon ar ffurf ffurflen flynyddol. Mae'r ffurflen flynyddol hon yn bodloni gofynion y Canllaw i Ymarferwyr.

Mae'r cyfrifon a'r trefniadau archwilio yn dilyn y broses a nodir isod.



Darllenwch y canllawiau ar gwblhau'r Ffurflen Flynyddol hon a chwblhewch bob adran a amlygir mewn coch gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## CYMERADWYO'R FFURFLEN FLYNYDDOL

Mae dau flwch i'w hardystio a'u cymeradwyo gan y corff. Mae'r ail flwch yn ofynnol dim ond os oes angen diwygio'r ffurflen flynyddol o ganlyniad i'r archwiliad. Dylech lenwi'r blwch uchaf yn unig cyn anfon y ffurflen at yr archwilydd.

Mae'n rhaid i'r Harbyrau Cyngor Gwynedd gymeradwyo'r ffurflen flynyddol CYN i'r cyfrifon a'r dogfennau ategol fod ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus o dan adran 30 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fydd yn cwblhau Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru. NI CHAIFF y Clerc/Swyddog Ariannol Cyfrifol, y Cadeirydd na'r archwilydd mewnol eu cwblhau.

Caiff ffurflenni a archwiliwyd ac a ardystiwyd eu dychwelyd i'r corff at ddibenion cyhoeddi ac arddangos y datganiadau cyfrifyddu, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a thystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

# Datganiadau cyfrifyddu 2018-19 ar gyfer:

Enw'r corff:

**Harbyrau Cyngor Gwynedd**

	Y flwyddyn a ddaeth i ben		Nodiadau a chanllawiau i'r sawl sy'n llunio'r cyfrifon
	31 Mawrth 2018 (£)	31 Mawrth 2019 (£)	Dylech dalgrynnu'r holl ffigurau i'r £ agosaf. Peidiwch â gadael unrhyw flychau yn wag na chofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigur fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.
<b>Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau</b>			
1. Balansau a ddygwyd ymlaen	0	0	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â Llinell 7 y flwyddyn flaenorol.
2. (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll	131,100	188,730	Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff.
3. (+) Cyfanswm derbyniadau eraill	176,120	160,409	Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod llai'r symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a reffeniw.
4. (-) Costau staff	-174,707	-161,308	Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a threuliau cysylltiedig, e.e. costau terfynu.
5. (-) Llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf	0	0	Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl).
6. (-) Cyfanswm taliadau eraill	-132,513	-187,831	Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod llai costau staff (Llinell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (Llinell 5).
7. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	0	0	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) - (4+5+6).
<b>Datganiad o falansau</b>			
8. (+) Dyledwyr a balansau stoc	18,398	8,621	<b>Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:</b> Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff a balansau stoc a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn.
9. (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau	-14,643	-7,579	<b>Pob cyfrif:</b> Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â chysoniad y banc.
10. (-) Credydwyr	-3,754	-1,042	<b>Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:</b> Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw costau benthyg) ar ddiwedd y flwyddyn.
11. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	0	0	<b>Dylai cyfanswm y balansau fod yn gyson â llinell 7 uchod:</b> Nodwch gyfanswm (8+9-10).
12. Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor	476,912	496,912	Gwerth cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog, ynghyd ag unrhyw asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth.
13. Cyfanswm benthyciadau	0	0	Balans cyfalaf dyledus pob benthygiad o drydydd partïon ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB).

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol


Rydym yn cydnabod, fel aelodau o'r Harbyrau Cyngor Gwynedd, ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019, ein bod wedi gwneud y canlynol:

	Cytunwyd?		Mae 'DO' yn golygu bod y Harbyrau Cyngor Gwynedd wedi gwneud y canlynol:	Cyf y Dangosydd Perfformiad
	Do	Naddo*		
1. Rydym wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer: <ul style="list-style-type: none"> <li>gwaith rheoli ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a</li> <li>pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu.</li> </ul>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Pennu ei gyllideb a rheoli ei arian yn briodol a pharatoi a chymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel y rhagnodir gan y gyfraith.	6, 12
2. Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac adolygu ei heffeithiolrwydd.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth.	6, 7
3. Rydym wedi cymryd yr holl gamau rhesymol i roi sicrwydd i ni'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Harbyrau Cyngor Gwynedd i gynnal ei fusnes nac ar ei sefyllfa ariannol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny.	6
4. Rydym wedi darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â diddordeb archwilio cyfrifon y corff yn unol â'r hyn a nodir yn yr hysbysiad o'r archwiliad.	6, 23
5. Rydym wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Harbyrau Cyngor Gwynedd ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebir ganddo wrth weithredu'r corff a delio â hwy'n briodol.	6, 9
6. Rydym wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff.	6, 8
7. Rydym wedi ystyried a oes unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, wedi cael effaith ariannol ar y Harbyrau Cyngor Gwynedd a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol.	6
8. Rydym wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilywr mewnol ac allanol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/gwendidau a ddygwyd i'w sylw gan archwilywr mewnol ac allanol.	6, 8, 23

\* Ar ddalen ar wahân, rhwng esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb 'naddo' a roddwyd; a disgrifiwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

## Cymeradwyaeth ac ardystiad y Harbyrau Cyngor Gwynedd

Y Harbyrau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ac am baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol.

<b>Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol</b> Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol Harbyrau Cyngor Gwynedd, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019.	<b>Cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu</b> Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o dan gyfeirnod cofnod: 13 Mehefin 2019
<b>Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol:</b> 	<b>Llofnod Cadeirydd y cyfarfod:</b> angen llofnod
<b>Enw:</b> DAFYDD L. EDWARDS	<b>Enw:</b>
<b>Dyddiad:</b> 16/05/2019	<b>Dyddiad:</b>

## Ailgymeradwyaeth ac ailardystiad gan y Harbyrau Cyngor Gwynedd (dim ond os bydd y ffurflen flynyddol wedi ei diwygio yn yr archwiliad)

<b>Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol</b> Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol Harbyrau Cyngor Gwynedd, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019.	<b>Cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu</b> Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol wedi cael eu cymeradwyo gan y Harbyrau Cyngor Gwynedd o dan gyfeirnod cofnod:
<b>Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol:</b> angen llofnod	<b>Llofnod Cadeirydd y cyfarfod:</b> angen llofnod
<b>Enw:</b>	<b>Enw:</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>Dyddiad:</b>

## Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r archwilydd allanol yn cynnal yr archwiliad ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd ganddo. Ar sail ei adolygiad o'r Ffurflen Flynyddol a'r wybodaeth ategol, mae'n nodi pa un a fydd unrhyw fater a ddaw i'w sylw yn peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

Ardystiwn ein bod wedi cwblhau'r archwiliad o'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 ar gyfer:

### Harbyrau Cyngor Gwynedd

#### Adroddiad yr archwilydd allanol

[Ac eithrio'r materion a nodir isod]\* Ar sail ein hadolygiad, yn ein barn ni, mae'r wybodaeth yn y Ffurflen Flynyddol yn cydymffurfio ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i'n sylw sy'n peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

[[Mae'r materion hyn yn ogystal â]\* Materion eraill nad ydynt yn effeithio ar ein barn yr ydym yn eu dwyn i sylw'r corff a'n hargymhellion ar gyfer gwella wedi'u cynnwys yn ein hadroddiad i'r corff dyddiedig \_\_\_\_\_.]

#### Materion eraill ac argymhellion

Ar sail ein hadolygiad, tynnwn sylw'r corff at y materion a'r argymhellion canlynol nad ydynt yn effeithio ar ein barn archwilio ond y dylai'r corff ymdrin â hwy.

(Parhewch ar daflen ar wahân os oes angen.)

Enw'r archwilydd allanol:

Llofnod yr archwilydd allanol:

Dyddiad:

Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

\* Dileer fel y bo'n briodol.

## Adroddiad archwilio mewnol blynyddol ar gyfer:

Enw'r corff:

**Harbyrau Cyngor Gwynedd**

Mae archwiliad mewnol y Harbyrau Cyngor Gwynedd, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2019.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Harbyrau Cyngor Gwynedd a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ba un a oedd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd bwysig, yn cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Harbyrau Cyngor Gwynedd.

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
1. Mae'r llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
2. Bodlonwyd rheoliadau ariannol, cefnogwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
3. Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
4. Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
5. Cafodd yr incwm disgwylidig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n syth, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
6. Cefnogwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
7. Talwyd cyflogau i gyflogaion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
8. Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
9. Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
10. Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u cefnogi gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun

Roedd rheolaethau digonol yn bodoli ar gyfer unrhyw feysydd risg a nodwyd gan y Harbyrau Cyngor Gwynedd (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill isod neu ar dudalennau ar wahân os oes angen):

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
11. Nodwch y maes risg	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
12. Nodwch y maes risg	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
13. Nodwch y maes risg	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun

\* Os atebwyd 'naddo', nodwch y goblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid rheoli a nodwyd (ychwanegwch dudalennau ar wahân os oes angen).

\*\* Os atebwyd 'heb ei gynnwys', nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i'r archwilydd mewnol esbonio pam nad oes angen hynny.

[Mae fy nghanfyddiadau manwl a'm hargymhellion yr wyf yn eu dwyn i sylw'r Harbyrau Cyngor Gwynedd wedi'u cynnwys yn fy adroddiad manwl i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu dyddiedig 13 Mehefin 2019 \* Dileer os nad oes adroddiad wedi'i baratoi.

### Cadarnhau archwiliad mewnol

Rwyf/Rydym yn cadarnhau nad wyf i/ydym ni, fel archwilydd mewnol y Harbyrau Cyngor Gwynedd, wedi ymgymryd â swyddogaeth reoli na gweinyddol o fewn y corff (gan gynnwys paratoi'r cyfrifon) nac fel aelod o'r corff yn ystod y blynyddoedd ariannol 2017-18 a 2018-19. Cadarnhaf hefyd na fu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ynghylch fy mhenodiad.

Enw'r unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: LUNED FŌN JONES

Llofnod yr unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: angen llofnod Luned Fôn Jones

Dyddiad: 10.05.2019



## Nodiadau cyfarwyddyd ar gwblhau'r Ffurflen Flynyddol

- Rhaid i chi gymhwyso arferion priodol wrth barato'r ffurflen flynyddol hon. Nodir yr arferion priodol yn y Canllaw i Ymarferwyr.
- Gwnewch yn siŵr bod y Ffurflen Flynyddol wedi ei chwblhau'n llawn, h.y. dim blychau coch gwag. Ceisiwch osgoi gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r ffurflen wedi'i chwblhau. Os na allwch osgoi hyn, rhowch linell drwy'r cofnodion anghywir, sicrhewch fod y diwygiadau wedi'u tynnu at sylw'r corff gyda llythrennau cyntaf eich enw wrth eu hymyl a'ch bod wedi rhoi esboniad i'r archwilydd allanol. **Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.** Caiff ffurflenni blynyddol anghyflawn neu rai sy'n cynnwys diwygiadau heb eu cymeradwyo a/neu eu hesbonio neu hylif cywiro eu dychwelyd heb eu harchwilio a gall olygu costau ychwanegol. Gofynnwch i'ch archwilydd am gopi electronig o'r ffurflen os oes angen un.
- Gofynnwch i ail berson, y Cadeirydd neu aelod efallai, adolygu eich Ffurflen Flynyddol er mwyn sicrhau ei bod yn gyflawn cyn anfon y ffurflen wreiddiol at yr archwilydd.
- Gwnewch yn siŵr bod eich datganiadau cyfrifyddu yn gywir, bod y balans a gariwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol (llinell 7 o 2018) yn cyfateb i'r balans a ddygwyd ymlaen yn y flwyddyn gyfredol (llinell 1 o 2019). Esboniwrch unrhyw wahaniaethau rhwng ffigurau 2018 ar y ffurflen flynyddol hon a'r symiau a gofnodwyd yn ffurflen flynyddol y llynedd.
- Rhowch esboniad llawn am unrhyw amrywiannau sylweddol yn y datganiadau ariannol. Peidiwch ag anfon copi o'ch cofnodion cyfrifyddu manwl yn lle'r esboniad hwn. Mae'r archwilydd allanol am wybod eich bod chi'n deall y rhesymau dros yr holl amrywiannau. Cofiwch gynnwys dadansoddiad manwl i ategu eich esboniad a byddwch yn benodol ynghylch gwerthoedd elfennau unigol sy'n gyfrifol am yr amrywiannau.
- Sicrhewch fod y copi o'r cysoniad banc y byddwch yn ei anfon at eich archwilydd gyda'r copi o'r Ffurflen Flynyddol yn cynnwys eich **holl** gyfrifon banc a balansau ariannol. Os nad oes unrhyw eitemau cysoni, nodwch hyn a rhowch dystiolaeth o falansau'r banc. Os oes gan eich Harbyrau Cyngor Gwynedd unrhyw fuddsoddiadau byrdymor, nodwch eu gwerth ar y cysoniad banc. Dylai'r archwilydd allu gyfateb eich cysoniad banc i linell 9 yn y datganiadau cyfrifyddu. Ceir rhagor o gymorth ar gysoniadau banc yn y Canllaw i Ymarferwyr.
- Mae'n ofynnol i bob Harbyrau Cyngor Gwynedd anfon gwybodaeth at yr archwilydd allanol, i ategu'r honiadau a wnaed yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hyd yn oed os nad ydych chi wedi gwneud hynny yn flaenorol.** Bydd eich archwilydd yn dweud wrthy'ch pa wybodaeth y mae angen i chi ei darparu. Sicrhewch eich bod yn darllen yr hysbysiad archwilio yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae'r archwilydd wedi gofyn amdani. Dylech anfon **copïau** o'r cofnodion gwreiddiol (a ardystiwyd gan y Clerc a'r Cadeirydd fel copïau cywir) at yr archwilydd allanol ac nid y dogfennau gwreiddiol eu hunain.
- Peidiwch ag anfon unrhyw wybodaeth at yr archwilydd nad yw wedi gofyn yn benodol amdani. Nid yw hyn o fudd.
- Os bydd yn rhaid i'r archwilydd adolygu gwybodaeth nas gofynnwyd amdani, gofyn eto am wybodaeth, neu os caiff gysoniad banc anghyflawn neu esboniad o amrywiannau neu os caiff ddogfennau gwreiddiol y mae'n rhaid eu dychwelyd, bydd yr archwilydd yn mynd i gostau ychwanegol y mae ganddo hawl i godi ffoedd ychwanegol amdanynt.
- Dylech ateb pob gohebiaeth â'r archwilydd allanol yn brydlon.** Bydd hyn yn eich helpu i gyflawni eich rhwymedigaethau statudol a bydd yn lleihau cost yr archwiliad.
- Noder, os byddwch yn cwblhau'r ffurflen electronig, rhaid i chi argraffu'r ffurflen er mwyn iddi gael ei hardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol a'i llofnodi gan y Cadeirydd cyn ei hanfon at yr archwilydd.**

Rhestr wirio cwblhau - Bydd ateb 'Naddo' yn golygu nad ydych o bosibl wedi bodloni'r gofynion		Cwblhawyd?	
Cyflwyniad cyntaf i'r archwilydd allanol		Do	Naddo
<b>Cyfrifon</b>	A yw'r papurau i'w hanfon at yr archwilydd allanol yn cynnwys esboniad o amrywiadau sylweddol rhwng y llynedd ac eleni?		
	A yw'r cysoniad banc ar 31 Mawrth 2019 yn gyson â Llinell 9?		
<b>Cymeradwyo</b>	A yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi ardystio'r datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rheoliad 15 (1)) erbyn 30 Mehefin 2019 fan bellaf?		
	A yw'r corff wedi cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu cyn 30 Mehefin 2019 ac a yw Adran 3 wedi'i llofnodi a'r dyddiad wedi'i nodi gan yr unigolyn a oedd yn cadeirio'r cyfarfod pan roddwyd y gymeradwyaeth?		
<b>Pob adran</b>	A yw'r holl flychau pinc yn y datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu llenwi ac esboniadau wedi'u rhoi pan fo angen?		
	A yw'r holl wybodaeth y gofynnodd yr archwilydd allanol amdani wedi'i hanfon gyda'r Ffurflen Flynyddol hon? Cyfeiriwch at eich hysbysiad o archwiliad ac unrhyw atodlenni ychwanegol a ddarparwyd gan eich archwilydd allanol.		
Os caiff y cyfrifon eu diwygio ar ôl derbyn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar faterion sy'n codi		Do	Naddo
<b>Cyfrifon</b>	A yw'r datganiadau cyfrifyddu sydd wedi eu diwygio wedi'u cymeradwyo ac Adran 3 wedi'i llofnodi eto a'r dyddiad wedi'i nodi eto fel tystiolaeth o gymeradwyaeth y Bwrdd i'r diwygiadau cyn eu hailgyflwyno i'r archwilydd?		

# Eitem 15

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	13 MEHEFIN 2019
TEITL	DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR GYFER 2018/19
PWRPAS YR ADRODDIAD	CYFLWYNO'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL (YN YMGORFFORI'R DATGANIAD RHEOLAETH FEWNOL STATUDOL) AR GYFER 2018/19 I'R PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU AM GYMERADWYAETH
AWDUR	DEWI MORGAN, PENNAETH CYNORTHWYOL (REFENIW A RISG )
GWEITHREDIAD	CYMERADWYO'R DATGANIAD AT BWRPASAU EI ARWYDDO GAN ARWEINYDD Y CYNGOR A'R PRIF WEITHREDWR

---

## 1. CYFLWYNIAD – BETH SYDD ANGEN I'R PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU EI WNEUD?

1.1 Er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau fel “y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu”, mae angen i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu:

- **Ystyried y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft sy'n ymddangos yn yr atodiad.**
- **Herio'r Pennaeth Cynorthwyol (Refeniw a Risg) am sgoriau risg sydd wedi eu nodi, a'r naratif sy'n egluro'r cyfiawnhad am y sgôr.**
- **Ystyried cynllun gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft.**
- **Cymeradwyo'r Datganiad, ac argymhell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo.**

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae gofyn statudol am Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol fel canlyniad i gynnwys:

- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy'n datgan:

**Rhaid i'r corff perthnasol sicrhau bod system gadarn o reoli mewnol sy'n hwyluso gweithrediad effeithiol swyddogaethau'r corff hwnnw ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg, a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.**

**Rhaid i'r corff perthnasol gynnal adolygiad o leiaf unwaith mewn blwyddyn ar effeithiolrwydd ei systemau rheoli mewnol. Rhaid i ganfyddiadau'r adolygiad gael eu hystyried gan aelodau'r corff yn cyfarfod yn ei gyfanrwydd neu gan bwyllgor.**

**Ar ôl yr adolygiad, rhaid i'r corff neu'r pwyllgor gymeradwyo datganiad ar reoli mewnol a baratowyd yn unol ag arferion priodol. Rhaid i'r corff perthnasol sicrhau bod y datganiad yn mynd gydag unrhyw ddatganiad o gyfrifon y mae'n ddyletswydd arno i'w baratoi.**

- Côt Ymarfer CIPFA ar Gyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y "SORP")
- Fframwaith CIPFA / SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government (2016)*.

## 3. HUNANASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LYWODRAETHU

3.1 Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu swyddogaeth allweddol i herio dulliau paratoi a chynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Wrth iddynt arwyddo'r Datganiad Llywodraethu, mae'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor yn cadarnhau:

**"Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a bod y trefniadau yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu. Mae'r meysydd sydd wedi derbyn sylw eisoes a'r rhai y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy yn benodol gyda chamau gweithredu newydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu isod."**

3.2 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn crynhoi canlyniad yr hunanasesiad llywodraethu, sydd wedi cael ei ddiweddarau gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn ystod y flwyddyn, mewn datganiad sydd yn dweud wrth Bobl Gwynedd beth yw ein fframwaith llywodraethu, a pa mor dda mae'n gweithio. Aelodau'r Grŵp yw y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol (Refeniw & Risg), Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol (Cefnogi Teuluoedd), y Rheolwr Risg & Yswiriant a'r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.

3.3 Mae angen i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fodloni ei hun fod y naratif sy'n cyfiawnhau'r sgoriau yn adlewyrchiad teg o'r Cyngor cyn belled â'i fod yn ymwybodol o hynny, ar sail yr wybodaeth y mae wedi ei dderbyn dros y flwyddyn.

#### 4. ADNABOD RISGIAU LLYWODRAETHU

- 4.1 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn seiliedig ar Fframwaith CIPFA/Solace a gyhoeddwyd yn 2016.
- 4.2 Mae'r Fframwaith yma'n adnabod 7 Egwyddor Craidd ar gyfer Llywodraethu Da:

##### **A. Ymddwyn gydag uniondeb, gan arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a parchu rheol y gyfraith.**

Mae sefydliadau Llywodraeth Leol yn atebol nid yn unig am faint maent yn ei wario, ond hefyd am sut maent yn defnyddio'r adnoddau sydd o dan eu stiwardiaeth. Mae hyn yn cynnwys atebolrwydd am allbynnau cadarnhaol a negyddol, ac am y deilliannau y maent wedi eu cyflawni. Yn ogystal, mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol i wasanaethu budd y cyhoedd wrth gadw at y gofynion deddfwriaeth a pholisïau llywodraeth. Mae'n hanfodol y gallant, yn gyffredinol, arddangos priodoldeb eu gweithredoedd ar draws yr holl weithgareddau a bod mecanweithiau ar waith i annog a gorfodi cydymffurfiaeth â gwerthoedd moesegol ac i barchu rheol y gyfraith.

##### **B. Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid**

Mae Llywodraeth Leol yn rhedeg er lles y cyhoedd, felly dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn agored yn eu gweithgareddau. Dylid defnyddio cyfryngau cyfathrebu ac ymgynghori clir, ac a ymddiriedir ynddynt, i ymgysylltu'n effeithiol â phob grŵp o randdeiliaid, megis dinasyddion unigol a defnyddwyr gwasanaeth, yn ogystal â rhanddeiliaid sefydliadol.

##### **C. Diffinio deilliannau o ran buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy**

Mae natur ac effaith hirdymor llawer o gyfrifoldebau Llywodraeth Leol yn golygu y dylai ddiffinio a chynllunio deilliannau ac y dylai'r rhain fod yn gynaliadwy. Dylai penderfyniadau hybu pwrpas y sefydliad, cyfrannu at y deilliannau a'r buddion a fwriadwyd, ac aros o fewn y terfynau awdurdod ac adnoddau. Mae mewnbwn gan bob grŵp o randdeiliaid, gan gynnwys dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid sefydliadol, yn hanfodol i lwyddiant y broses hon ac i gydbwysu galwadau sy'n cystadlu â'u gilydd wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.

##### **D. Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r deilliannau a fwriedir**

Mae Llywodraeth Leol yn cyflawni ei ddeilliannau bwriadedig drwy ddarparu cymysgedd o ymyriadau cyfreithiol, rheoliadol ac ymarferol (camau gweithredu). Mae penderfynu ar y cymysgedd gywir o'r camau gweithredu hyn yn ddewis strategol hanfodol bwysig sydd rhaid i Lywodraeth Leol ei wneud i sicrhau y cyflawnir y deilliannau a fwriedir. Mae angen dulliau gwneud penderfyniadau cadarn er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r deilliannau ddiffiniedig mewn ffordd sy'n darparu'r cyfaddawd gorau rhwng y mathau gwahanol o fewnbynnau adnoddau tra'n parhau i alluogi gweithrediadau effeithiol ac effeithlon. Mae angen adolygu'r penderfyniadau a wneir yn aml er mwyn sicrhau fod y canlyniadau gorau posibl yn cael eu cyflawni.

##### **E. Datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo**

Mae angen strwythurau ac arweinyddiaeth priodol ar Lywodraeth Leol, yn ogystal â pobl gyda'r sgiliau, cymwysterau addas a'r meddylfryd iawn i weithredu'n effeithiol ac effeithlon ac i gyflawni deilliannau bwriadig o fewn y cyfnodau penodedig. Rhaid i sefydliad llywodraeth leol sicrhau bod ganddo'r gallu i gyflawni ei fandad ei hun ac i wneud yn siŵr bod polisïau ar waith i warantu bod gan ei reolwyr y capasiti gweithredol ar gyfer y sefydliad gyfan. Gan y bydd yr unigolion a'r amgylchedd y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddo yn newid dros amser, bydd angen parhaus i ddatblygu ei gapasiti yn ogystal â sgiliau a phrofiad aelodau staff unigol. Atgyfnerthir arweinyddiaeth mewn Llywodraeth Leol gan gyfranogiad pobl â llawer o wahanol fathau o gefndiroedd, sy'n adlewyrchu strwythur ac amrywiaeth cymunedau.

## **F. Rheoli risgiau a perfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth gref dros arian cyhoeddus**

Mae angen i Lywodraeth Leol sicrhau bod y sefydliadau a strwythurau llywodraethu hynny y mae'n eu goruchwyllo wedi sefydlu, ac yn gallu cynnal, system rheoli perfformiad effeithiol sy'n hwyluso darpariaeth effeithiol ac effeithlon o wasanaethau cynlluniedig. Mae rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhan bwysig ac annatod o'r system rheoli perfformiad ac yn hanfodol i gyflawni deilliannau. Dylid ystyried risg a rhoi sylw iddo fel rhan o bob gweithgaredd gwneud penderfyniad.

Mae system rheoli ariannol cadarn yn hanfodol ar gyfer gweithredu polisiau a chyflawni deilliannau arfaethedig, gan y bydd yn gorfodi disgyblaeth ariannol, dyrannu adnoddau mewn modd strategol, darpariaeth gwasanaeth effeithlon ac atebolrwydd.

Mae'n hanfodol hefyd bod diwylliant a strwythur ar gyfer craffu ar waith fel rhan allweddol o wneud penderfyniadau, llunio polisi ac adolygu atebol. Mae diwylliant gweithio positif sy'n derbyn, hyrwyddo ac annog her adeiladol yn hollbwysig i graffu llwyddiannus a darparu gwasanaethau llwyddiannus. Mae'n bwysig pwysleisio na fydd y diwylliant hwn yn digwydd yn awtomatig, rhaid wrth ymrwymiad cyhoeddus dro ar ôl tro gan y rhai mewn awdurdod.

## **G. Gweithredu arferion da mewn tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol**

Ystyr atebolrwydd yw sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau yn gallu ateb amdanynt. Mae atebolrwydd effeithiol yn ymwneud nid yn unig gydag adrodd ar y camau a gwblhawyd, ond mae hefyd yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu deall ac ymateb wrth i'r sefydliad gynllunio a chyflawni ei weithgareddau mewn modd tryloyw. Mae archwilio mewnol ac allanol ill dau yn cyfrannu at atebolrwydd effeithiol.

Ffynhonnell: CIPFA / SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government*

4.3 Mae'r Egwyddorion hyn wedi eu rhannu ymhellach i nifer o is-egwyddorion.

4.4 Mewn ymateb i'r Fframwaith newydd yma, mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu wedi ystyried yr Egwyddorion Craidd a'r Is-egwyddorion yn y Fframwaith ac wedi llunio Cofrestr Risg Llywodraethu, sy'n rhan o Gofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor. Mae'r Cofrestr Risg Llywodraethu yn adnabod risgiau mewn 22 o feysydd llywodraethu gwahanol, gan nodi'r rheolaethau sydd gan y Cyngor yn eu lle er mwyn lliniaru'r risgiau hyn.

4.5 Mae cyfrifoldeb penodol am y risgiau hyn wedi eu rhannu ar draws y Cyngor, fel a ganlyn

<b>Adran</b>	<b>Nifer Risgiau</b>
Amgylchedd	1
Cefnogaeth Gorfforaethol	9
Cyllid	4
Tîm Arweinyddiaeth a Chyfreithiol	8
<b>Cyfanswm</b>	<b>22</b>

4.6 Yr adran berthnasol sy'n gyfrifol am asesu'r risgiau hyn yn barhaus, gyda'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn cadw trosolwg ohonynt.

4.7 Fel sy'n gyffredin mewn trefniadau rheoli risg, rhoddir ystyriaeth i ddau ffactor wrth sgorio maint y risgiau yma, sef

- **Effaith** y digwyddiad petai'r risg cael ei wireddu
- **Tebygolrwydd** y risg o gael ei wireddu.

4.8 Mae'r Effaith a'r Tebygolrwydd yn cael eu sgorio o 1 i 5, gan ddefnyddio'r canllawiau sgorio canlynol.

#### Effaith

Sgôr	Effaith	Diffiniad
5	Catastroffig	Effaith <b>catastroffig</b> ar unrhyw drigolyn (e.e. colli bywyd) neu effaith <b>dinistriol</b> ar fywyd neu les nifer fawr o drigolion
4	Dinistriol	Effaith <b>dinistriol</b> ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. lle byddai ansawdd bywyd neu les rhywun yn cael ei effeithio i'r graddau fod anghenion dwys ganddynt am gymorth i'w galluogi i fyw eu bywydau) neu <b>sylweddol iawn</b> ar nifer fawr o drigolion
3	Sylweddol iawn	Effaith <b>sylweddol iawn</b> ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith yn golygu y byddai ansawdd ei bywyd neu les yn sylweddol is na'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl i un o drigolion Gwynedd ) neu <b>arwyddocaol</b> ar nifer fawr o drigolion
2	Arwyddocaol	Effaith <b>arwyddocaol</b> ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith ar fywyd neu les ond yn disgyn o fewn amrediad disgwyliadwy bywyd dydd i ddydd) neu <b>gweladwy</b> ar nifer fawr o drigolion
1	Gweladwy	Effaith <b>gweladwy</b> ar fywyd neu les rai trigolion (e.e. effaith yn weladwy ond ddim yn effaith arwyddocaol i'w lles) neu <b>ymylol</b> ar nifer fawr o drigolion.

- Nifer = 10au i 100oedd o drigolion
- Nifer fawr = 1,000oedd i 10,000oedd o drigolion

#### Tebygolrwydd

Sgôr	Tebygolrwydd	Diffiniad
5	Digwydd rŵan	Mae'r effaith i'w weld rŵan (h.y. mae o'n digwydd)
4	Tebygol iawn	Tebygol iawn y bydd yn amlygu ei hun yn y dyfodol gweladwy
3	Tebygol	Siawns y gallai ddigwydd, ond efallai ddim
2	Annhebygol	Tebygolrwydd iddo ddigwydd yn isel - ond dal yno
1	Annhebygol iawn	Annhebygol iawn o ddigwydd

4.9 Lluosir y Sgôr Effaith a'r Sgôr Tebygolrwydd gyda'i gilydd i roi **Sgôr Risg Presennol**, sef sgoriau'r risgiau ar sail y rheolaethau sydd yn eu lle ar hyn o bryd. Diffinnir Sgôr Risg o uchel iawn i isel fel a ganlyn:

<b>Sgôr 20-25</b>	<b>Risg Uchel iawn</b>
<b>Sgôr 12-16</b>	<b>Risg Uchel</b>
<b>Sgôr 6-10</b>	<b>Risg Canolig</b>
<b>Sgôr 1-5</b>	<b>Risg Isel</b>

4.10 Mae'r Datganiad Llywodraethu yn nodi'r sgôr risg presennol ar gyfer y 22 maes llywodraethu. Mae asesiad adrannau a'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn dod i'r casgliad:

- Nifer risgiau uchel iawn: 0
- Nifer risgiau uchel: 1
- Nifer risgiau canolig: 11
- Nifer risgiau isel: 10

4.11 Lle adnabuwyd fod y sgôr risg presennol yn parhau'n uwch nag y mae'r Cyngor yn fodlon ei dderbyn, mae camau gweithredu pellach wedi eu hadnabod a'u hamlinellu yn y Datganiad. Er hyn, pwysleisir fod mwyafrif y materion sydd wedi eu hamlygu yn y dadansoddiad systematig yma eisoes wedi cael eu hadnabod gan y Cyngor.

## 5. NEWIDIADAU ERS DATGANIAD 2017/18

5.1 Mae pob un o'r risgiau llywodraethu wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn. Gwneir hyn gan yr adran gyfrifol fel cam cyntaf, gyda'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn ymgymryd â rôl sicrhau ansawdd.

5.2 Mae sgôr pedwar o'r risgiau wedi newid yn ystod y flwyddyn:

Risg	Sgôr flaenorol	Sgôr Effaith	Sgôr Tebygolrwydd	Sgôr gyfredol	Sylwadau
<u>Rhanddeiliaid:</u> Perthynas wan gyda rhanddeiliaid sefydliadol, gan ddiweddu gyda gwasanaethau is-optimaid	12 (Uchel)	Aros yn 3	Lleihau o 4 i 3	9 (Canolig)	Gellir lleihau'r sgôr tebygolrwydd oherwydd yr enghreifftiau a welwyd yn ystod 2018/19 o'r Cyngor yn parhau i gryfhau ei berthnasau gydag amrywiol rhanddeiliaid.  Wrth i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddatblygu, mae'r berthynas rhwng y sefydliadau wedi aeddfedu (er fod rhai aelodau'n parhau i gwestiynu os yw'r Bwrdd yn ychwanegu cymaint o werth ag y gallai mewn gwirionedd).  Mae'r Cyngor wedi ymdrechu i symleiddio'r amgylchedd weithio hynod gymhleth sydd wedi datblygu ar lefel rhanbarthol.  Mae'r berthynas rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector yn parhau i ddatblygu, ac angen sylw pellach yn ystod 2019/20.
<u>Cyfeiriad a gweledigaeth</u> Cyfeiriad a gweledigaeth sydd heb ei wreiddio mewn canlyniadau i unigolion ac nad yw felly'n gwireddu anghenion Pobl Gwynedd	6 (Canolig)	Aros yn 3	Lleihau o 3 i 2	6 (Canolig)	Mae'r diwylliant o roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud, ynghyd â'r trefniadau herio perfformiad, wedi eu gwreiddio'n ddigonol bellach fel ei bod yn annhebygol y byddai unrhyw wasanaeth yn methu ystyried y deilliannau i unigolion.
<u>Penderfyniadau:</u> Amharodrwydd i wneud penderfyniadau ar weithredu, sy'n golygu oedi mewn gwireddu canlyniadau i bobl Gwynedd	6 (Canolig)	Aros yn 2	Lleihau o 3 i 2	4 (Isel)	Gellir lleihau'r sgôr tebygolrwydd gan fod enghreifftiau pellach yn ystod 2018/19 wedi dangos ei fod yn annhebygol y bydd y Cyngor yn osgoi cymryd penderfyniadau anodd yn y dyfodol.

Risg	Sgôr flaenorol	Sgôr Effaith	Sgôr Tebygol-rwydd	Sgôr gyfredol	Sylwadau
Arweinyddiaeth: Diffygion yn arweinyddiaeth y Cyngor yn golygu nad ydym yn gwneud y pethau cywir	12 (Uchel)	Aros yn 4	Lleihau o 3 i 2	8 (Canolig)	<p>Cwblhawyd adolygiad rheolaethol cynhwysfawr yn ystod 2018/19, ac fe'i cymeradwywyd gan y Cabinet ar 7 Mai 2019. Mae'r ymrwymiad ar lefel gwleidyddol a gweithredol i newid ein diwylliant i un o "arwain" yn hytrach na "rheoli" wedi dwyn ffrwyth.</p> <p>Mae swydd-ddisgrifiad newydd wedi cael ei ddatblygu ar gyfer pob rheolwr a phennaeth sy'n adlewyrchu'r diwylliant yma.</p> <p>Ystyrir y gwaith yma fel rhywbeth sy'n parhau yn allweddol ond gan gydnabod nad yw'n gymaint o risg ag y bu yn y gorffennol.</p>

## 6. ARGYMHELLIAD

### 6.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu:

- Ystyried y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft sy'n ymddangos yn yr atodiad.
- Herio'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg am sgoriau risg sydd wedi eu nodi, a'r naratif sy'n egluro'r cyfiawnhad am y sgôr.
- Ystyried cynllun gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft.
- Cymeradwyo'r Datganiad, ac argymhell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo.



## **DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

Mae'r datganiad hwn yn cwrdd â'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

### **Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB**

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol. Mae'n ddyletswydd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i Gyngor Gwynedd wneud trefniadau i sicrhau gwelliant wrth arfer ei swyddogaethau, gan roi sylw penodol i effeithiolrwydd strategol, ansawdd gwasanaethau, argaeledd gwasanaethau, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac arloesi.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau eang yma, mae Cyngor Gwynedd hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, ac sydd yn cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo a mabwysiadu Côt Llywodraethu Corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/Solace *Delivering Good Governance in Local Government*. Mae copi o'r côd i'w gael ar ein gwefan, neu gellir derbyn copi trwy ysgrifennu at Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Sir, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH. Mae'r datganiad yma yn esbonio sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r côd ac mae hefyd yn cwrdd â gofynion rheoliad 5(5) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reoli mewnol.

### **Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd hynny sydd yn cyfeirio a rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac i ystyried os yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyngor i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisiau ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses parhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion y Cyngor, i werthuso'r tebygolrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ac i isafu'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod yn ei le yng Nghyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn sy'n diwedd 31 Mawrth 2019 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

### Rhan 3: TREFNIADAU LLYWODRAETHU A’U HEFFEITHIOLRWYDD

- 3.1 Mae’r **Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu** yn cadw golwg parhaus, disgybledig ar faterion llywodraethu, yn codi ymwybyddiaeth ehangach ohonynt, ac yn hybu perchnogaeth ehangach o’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae’r Grŵp yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol (Refeniw & Risg), Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teuluoedd, y Rheolwr Risg & Yswiriant a’r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.
- 3.2 Yn sgil cyhoeddi fersiwn newydd o Fframwaith CIPFA/Solace *Delivering Good Governance in Local Government* yn 2016, mae’r Grŵp wedi addasu trefniadau’r Cyngor ar gyfer adnabod ac asesu ei drefniadau llywodraethu er mwyn adlewyrchu’r Fframwaith newydd. Canlyniad hynny oedd gosod allan y fframwaith leol ar ffurf Cofrestr Risg Llywodraethu sydd yn rhan o’r Gofrestr Risg Gorfforaethol, gan adnabod 22 maes o risg llywodraethu.
- 3.3 Rhoddir amlinelliad o’r Meysydd Llywodraethu, y risgiau perthnasol a threfniadau’r Cyngor er mwyn ymdrin â hwy, ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny, yng ngweddill y rhan yma o’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- 3.4 Ar gyfer pob un o’r Risgiau Llywodraethu, dangosir sgôr risg cyfredol, sef y sgôr ar ôl asesiad gwrthrychol o’r trefniadau rheoli sydd yn eu lle rŵan. Rhoddir ystyriaeth i ddau ffactor:
- **Effaith** y risg petai’r digwyddiad yn cael ei wireddu
  - **Y Tebygolrwydd** iddo ddigwydd.
- 3.5 Mae’r sgoriau Effaith yn amrywio o 1 (effaith gweladwy) i 5 (effaith catastroffig), a’r sgoriau Tebygolrwydd o 1 (Annhebygol iawn) i 5 (digwydd rŵan). Cyfrifir y sgôr risg drwy luosi’r sgôr effaith a’r sgôr tebygolrwydd gyda’u gilydd.
- 3.6 Asesir lefel gymharol y risgiau fel a ganlyn:

<b>Sgôr 20-25</b>	<b>Risg Uchel iawn</b>
<b>Sgôr 12-16</b>	<b>Risg Uchel</b>
<b>Sgôr 6-10</b>	<b>Risg Canolig</b>
<b>Sgôr 1-5</b>	<b>Risg Isel</b>

## Diwylliant

**Risg: Fod diwylliant amhriodol o fewn y Cyngor yn llesteirio ein gallu i wneud y pethau iawn ac i'w gwneud yn y ffordd iawn**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Uchel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae cael diwylliant priodol yn gallu hyrwyddo'r holl agweddau llywodraethu a nodir yn y gofrestr ac yn yr un modd, mae cael diwylliant amhriodol yn gallu llesteirio'r holl agweddau llywodraethu.
- O gael y diwylliant yn iawn, mae modd i hynny oruchafu popeth arall sy'n effeithio ein gallu i gyflawni gan y bydd yr egwyddorion llywodraethu da yn rhan annatod o ymddygiad dydd i ddydd pob unigolyn o fewn y sefydliad. Mae Strategaeth Ffordd Gwynedd bellach yn nodi mai un o brif amcanion y Cyngor yw rhoi Pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Mewn gwirionedd mae hyn hefyd yn disgrifio gwerthoedd y Cyngor - sef unrhyw beth sy'n gydnaws â'r amcan hwnnw.
- Mae'r rhaglen 6 diwrnod i hyfforddi rheolwyr gwasaneth ar egwyddorion Ffordd Gwynedd (gan gynnwys egwyddorion rheoli perfformiad cadarn) wedi'i chyflwyno ers Haf 2017. Mae pob rheolwr gwasanaeth wedi dilyn yr hyfforddiant hwn erbyn hyn gyda cynllun am y flwyddyn 2019/20 wedi'i sefydlu er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant hwn ar gael i reolwyr newydd yn ogystal a darpar reolwyr i'r dyfodol. Mae'r Rhwydwaith Rheolwyr wedi'i ail-sefydlu ac wedi cynnal ei gyfres cyntaf o gyfarfodydd ym Mawrth 2019. Mae'r arwyddion cynnar yn galonogol gyda'r anogaeth i reolwyr a'u timau ymgymryd ag adolygiadau o fewn eu gwasanaethau eu hunain yn hytrach na'r canolbwyntio blaenorol ar gynnal adolygiadau dwys. Mae cynnydd arwyddocaol yn gyffredinol ond mae tystiolaeth nad yw'r cynnydd hwnnw yn gyson ar draws y Cyngor.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
4	3	<b>12</b>

## Ymddygiad

**Risg: Diffyg integriti, moeseg a pharch yn ymddygiad aelodau a swyddogion, gan danseilio hyder y cyhoedd yn y Cyngor**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu codau ymddygiad ar gyfer ei aelodau a swyddogion, yn seiliedig ar reoliadau cenedlaethol (codau fel y Cod Perthynas Aelod/Swyddog; y Cod Ymddygiad Aelodau; Y Cod Ymddygiad Swyddogion; Y Polisi Gwrth Dwyll a Llygredd a'r Cod Ymarfer Canu'r Gloch) ac mae rhain at ei gilydd yn gosod sylfaen ar gyfer sicrhau intergriti a moeseg. Mae tystiolaeth o weithredu pan mae'n ymddangos fod y codau ymddygiad hyn wedi cael eu torri.
- Mae tystiolaeth glir fod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth ddilys i adroddiadau'r Ombwdsman fel rhan o waith y Pwyllgor Safonau, sy'n gweithio'n effeithiol.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	<b>4</b>

## Cyfreithlondeb

**Risg: Anwybyddu rheol y gyfraith, sy'n golygu fod y Cyngor yn agored i heriau yn y llysoedd.**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Rhaid i swyddogion statudol (y Swyddog Monitro a Phennaeth Cyllid) gynnig sylwadau ar unrhyw benderfyniad ffurfiol, fel rhan o Gyfansoddiad cynhwysfawr sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd.
- Mae protocolau ffurfiol yn eu lle er mwyn gwarchod hawliau'r swyddogion statudol.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	1	<b>3</b>

## Bod yn agored

**Risg: Cyngor sydd ddim yn agored, sy'n golygu nad oes modd ei ddal yn atebol am ei benderfyniadau**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Isafswm bosib o adroddiadau Pwyllgor sydd yn eithredig
- Rhoddir cyhoeddusrwydd i daflenni penderfyniad aelodau unigol, gyda gweithdrefnau sy'n sicrhau fod hyn yn digwydd.
- Cyhoeddir papurau cefndir gydag adroddiadau pwyllgor er mwyn sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu gwneud gyda gwybodaeth lawn.
- Fe we-ddarlledir nifer o gyfarfodydd pwyllgorau sy'n cymryd penderfyniadau.
- Bydd y Cabinet yn ystyried adroddiadau perfformiad yn rheolaidd fel rhan o'u cyfarfodydd sy'n agored a bydd y Cyngor yn cyhoeddi ei Gynllun Corfforaethol, Adroddiad Perfformiad Blyneddol a'r Datganiad o'r Cyfrifon i geisio rhoi gymaint o wybodaeth ag y byddai trigolion ei angen i ni fod yn atebol.
- Defnyddir ddulliau amrywiol eraill hefyd megis y wefan, Newyddion Gwynedd a chyfryngau cymdeithasol i geisio sicrhau fod trigolion Gwynedd yn ymwybodol o beth sydd yn digwydd o fewn y Cyngor.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	1	<b>2</b>

## Rhanddeiliad

**Risg: Perthynas wan gyda rhanddeiliaid sefydliadol, gan ddiweddu gyda gwasanaethau is-optimaid**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae gwaith yn mynd yn ei flaen ar hyn o bryd i ymateb i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n hwyluso cydweithredu rhwng Cyngor Gwynedd, cynghorau unedol eraill cyfagos, yr Heddlu, Y Bwrdd Iechyd, y trydydd sector ac eraill.
- Mae yna waith wedi digwydd i greu Cynllun Llesiant ac mae'r berthynas rhwng y sefydliadau wedi aeddfedu.
- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

- Fodd bynnag, mae aelodau wedi codi'r cwestiwn a yw'r Bwrdd wedi darganfod y lle hwnnw lle mae'r gwir werth sydd ar gael yn cael ei uchafu eto.
- Mae Cynllun y Bwrdd yn gyson gyda Chynllun y Cyngor.
- Mae cydweithio hefyd yn digwydd ar lefel rhanbarthol sydd ddim bob tro mor effeithiol ag y gallai fod oherwydd maint yr ôl troed a'r trafferthion o adeiladu perthynas gyda nifer mor fawr o bobl. Mae yna rai engreifftiau o lwyddiant (e.e. Bwrdd Uchelgais).
- Mae yna gydweithio hefyd yn digwydd ar lefel sirol gyda llwyddiant yn amrywiol. Mae ein perthynas gyda'r Trydydd Sector yn parhau i esblygu ac rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn defnyddio'r berthynas honno i uchafu'r budd sy'n gallu deillio o hynny i bobl Gwynedd. Mae'r siwrnai yma yn parhau gyda'r adrannau perthnasol yn parhau i ddatblygu'r berthynas.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

**Ymgysylltu**

**Risg: Methiant i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion unigol, gan arwain at beidio gwneud pethau yn iawn**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae ymgysylltu'n glir gyda Pobl Gwynedd, er mwyn sefydlu cyfathrebu clir a chael gwir ddealltwriaeth o anghenion, yn un o elfennau pwysicaf trefniadau llywodraethu.
- Bwriad Strategaeth Ymgysylltu'r Cyngor yw sicrhau fod y Cyngor yn derbyn barn y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill fel bo'n briodol, gyda'r Uned Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn cefnogi gwasanaethau i ymgynghori yn y dull addas, a chefnogi wrth ddadansoddi canlyniadau.
- Rhannwyd y Sir i mewn i wyth ardal llesiant ac ymgynghorwyd gyda thrigolion yr ardaloedd hynny wrth lunio'r asesiad llesiant. Defnyddiwyd yr ardaloedd llesiant fel sail i drafodaethau cynnar Cynllun y Cyngor yn Hydref 2017 ac mae modd dadansoddi data ymgynghoriadau ar sail yr ardaloedd hyn hefyd.
- Y Llwylyfr Ymgysylltu wedi cael ei adolygu ym 2018 er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â threfniadau newydd rheoli perfformiad.
- Trefniadau newydd wedi eu sefydlu i ymgysylltu'n benodol efo pobl ifanc Gwynedd yn sgil y gwaith ar adolygu y Gwasanaeth Ieuencid. Cynhaliwyd dau ymarferiad corfforaethol sylweddol ("Blaenoriaethau Pobl Gwynedd" a "Strategaeth Ariannol y Cyngor") yn ystod 2018/19 a chefnogwyd 14 gwasanaeth i ymgysylltu gyda'u defnyddwyr. Defnyddiwyd yr ymarferiadau yma i:
  - Gryfhau gallu'r Cyngor i gynnal sgwrs ddwyffordd efo carfannau "anodd eu cyrraedd" (pobl ifanc, pobl LGBT+, lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid, oedolion gydag anabledau dysgu ayyb);
  - Adnabod camau i gryfhau a gwella'r Canllawiau a'r adnodd "Bocs Tŵls" Ymgysylltu;
  - Cynnal awdit o allu'r adrannau i ymgysylltu a sefydlu trefniadau ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth i sicrhau fod y prosiectau lefel gwasanaeth a gefnogir yn cwrdd ag egwyddorion ymgysylltu'r Cyngor (pwrpas ac allbwn clir, amserlen ymarferol, hygyrchedd, ymrwymiad i adrodd yn ôl ar y canlyniadau ayyb.).

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

## Cyfeiriad a gweledigaeth

**Risg: Cyfeiriad a gweledigaeth sydd heb ei wreiddio mewn canlyniadau i unigolion ac nad yw felly'n gwireddu anghenion Pobl Gwynedd**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor yn effeithiol wrth bennu ei flaenoriaethau a rheoli disgwyliadau oherwydd y diwylliant o ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd, gyda'r mesurau perfformiad a ddefnyddir i herio perfformiad ar draws yr holl wasanaethau yn deillio o hyn.
- Cymeradwywyd Cynllun y Cyngor 2018-23 (adolygiad 2019/20) gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2019. Mae'r Cynllun yn cynnwys ein Datganiad Llesiant, saith Blaenoriaeth Gwella a phob cynllun adrannol. Canolbwyntwyd ar sicrhau ei fod yn glir a hawdd i bawb i'w ddarllen a'i ddeall.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	2	6

## Cynaliadwyedd

**Risg: Risg o greu atebion anghynaliadwy sydd ddim yn cydymffurfio gyda 5 egwyddor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac felly ddim yn edrych ar yr hirdymor**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor wedi cydnabod pwysigrwydd gweithredu yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac, ar y cyd â'i bartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, wedi gwneud gwaith cychwynnol i adnabod yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn gweithredu yn unol â'r 5 egwyddor - Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio a Cynnwys.
- Y Grŵp Rheoli wedi derbyn eglurhad o egwyddorion y Ddeddf ac wedi cytuno mai'r ffordd orau i wreiddio yw fod Timau Rheoli Adrannau yn talu sylw i'r egwyddorion wrth gynllunio ymlaen.
- Adroddiadau Cabinet yn cael eu cyflwyno ymlaen llaw i'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol er mwyn eu hadolygu i gadw golwg ar leoedd lle efallai nad yw'r egwyddorion wedi eu dilyn cystal ag y gellid.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

## Penderfyniadau

**Risg: Amharodrwydd i wneud penderfyniadau ar weithredu, sy'n golygu oedi mewn gwireddu canlyniadau i bobl Gwynedd**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Tystiolaeth dros y blynyddoedd diwethaf fod Cyngor Gwynedd yn fodlon gwneud penderfyniadau anodd neu amhoblogaidd e.e. maes ysgolion, allanoli ei Dai Cyngor, gweithredu ar ganlyniadau anodd Her Gwynedd; newid y drefn leuenctid a chymryd camau i sicrhau egwyddorion gweithredu ym maes Addysg.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

## Cynllunio Gweithrediadau

**Risg:** Ymyrryd heb gynllunio'n ddigonol, fyddai'n gallu golygu unai gweithredu ar fypw neu gynllunio'n ormodol gan wastraffu amser ac adnoddau

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor yn ymdrechu i gynnal balans addas rhwng cael gweithdrefnau Rheoli Prosiectau a gweithio'n effeithlon.
- Ceisir taro cydbwysedd rhwng yr angen am drefn a'r angen i gyflawni cyn gynted ag bod modd drwy wneud cyn lleied o waith papur ag sy'n gyson gyda hynny, gan annog adroddiadau syml a byr yn gosod allan y prif bwyntiau allweddol.
- Mae gan y Cyngor Strategaeth Ariannol Tymor Canol, gyda cyllidebau blynyddol yn seiliedig ar hwnnw. Mae gwaith y Cyngor ar gynllunio ariannol yn cael ei ganmol yn rheolaidd gan yr archwilwyr allanol, ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cymryd rôl flaenllaw ar graffu ariannol.
- Mae yna elfen o dystioaleth fod angen gwella'r cyfathrebu rhwng y Cabinet a'r corff sy'n gyfrifol am gydgordio'r gwaith craffu o hyd.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

## Adolygu deilliannau

**Risg:** Methiant i adolygu deilliannau en gweithredoedd, sy'n golygu nad ydym yn dysgu gwersi gan barhau i wneud yr run pethau yn anghywir

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae trefniadau asesu risg, llunio Cynllun Corfforaethol a rheoli prosiect y Cyngor yn sicrhau fod y deilliannau a fwriedir eu cyflawni ar gychwyn unrhyw brosiect yn glir.
- Mae'r adroddiad perfformiad blynyddol yn ceisio canolbwyntio ar asesu i ba raddau y mae'r deilliannau hynny wedi cael eu cyflawni. Mae yna engreiffiau lle mae hynny wedi digwydd yn dda ac mae'r sefyllfa yn gwella.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

## Asedau Eiddo

**Risg:** Asedau Eiddo'r Cyngor ddim yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Roedd gan y Cyngor Strategaeth Asedau yn ei le ar gyfer y cyfnod 2009 - 2018 oedd yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd. Canlyniad hyn yw fod nifer o adeiladau nad oedd mo'u hangen mwyach wedi cael eu gwaredu. Mae Strategaeth Asedau newydd yn cael ei baratoi ar gyfer 2019 - 2028.
- O ran y cerbydau mae yna gynllun ar waith i geisio gwneud gwell defnydd o fflyd y Cyngor sydd eisoes wedi cyflwyno rhai arbedion ariannol ac yn debygol o gyflawni mwy.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

## Asedau Technoleg Gwybodaeth

**Risg: Asedau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor ddim yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r gweithgareddau Technoleg Gwybodaeth dros y blynyddoedd a fu wedi canolbwyntio ar sicrhau isadeiledd priodol er mwyn gwarantu cefnogaeth sylfaenol i wasanaethau. Tra bod yna engreiffiau lle 'rydym wedi medru defnyddio technoleg gwybodaeth yn ehangach i wella sut yr ydym yn cyflawni gwasanaethau i drigolion Gwynedd, nid oes yna dystiolaeth fod hyn yn gyson ar draws yr awdurdod a'i fod yn digwydd ar y cyflymder yr hoffem iddo ddigwydd.
- Roedd y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth oedd yn ei le yn 2018/19 yn ceisio ymestyn y defnydd a wneir o dechnoleg er mwyn cefnogi'r amcanion gwella yn y Cynllun Strategol, gan hefyd wella gallu gwasanaethau i fanteisio ar y cyfleoedd sydd yna i ddefnyddio technoleg yn effeithiol. Mae yna elfen o dystiolaeth fod hyn yn dwyn ffrwyth gyda hunan wasanaeth yn dod yn fwy a mwy o ran o ddefnyddio technoleg i'w gwneud yn haws i drigolion gael gwasanaethau.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

## Cynllunio'r Gweithlu

**Risg: Gweithlu'r Cyngor ddim yn cael ei ddatblygu, sy'n golygu nad ydym yn gallu darparu gwasanaethau gorau i bobl Gwynedd**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cynllun Pobl wedi esblygu dros y deuddeg mis diwethaf i weithio ar y cyd hefo Prosiect sy'n ymwneud ag Adnabod a Datblygu Talent h.y. adnabod y bylchau yn y gweithlu presennol ac i'r dyfodol ac yna denu a datblygu'r talent sydd ei angen yn fewnol ac yn allanol.
- Mae'r Cynllun Pobl yn blaenoriaethu gwella trefniadau ar gyfer meithrin talent o fewn y Cyngor, gwella ein trefniadau Cynllunio'r Gweithlu, a sicrhau fod ein trefniadau dysgu a datblygu yn canolbwyntio ar y pethau angenrheidiol.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9



## Arweinyddiaeth

**Risg: Diffygion yn arweinyddiaeth y Cyngor yn golygu nad ydym yn gwneud y pethau cywir**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae Arweinyddiaeth yn gosod y safon y mae disgwyl i bob Aelod a gweithiwr yn y Cyngor ei ddilyn. Mae ei effaith, felly, yn enfawr - gall Arweinyddiaeth dda oresgyn popeth arall, tra gallai Arweinyddiaeth wael ddistrywio'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni. Hwn sy'n hwyluso gwreiddio diwylliant y Cyngor.
- Mae rolau y Cyngor, Cabinet, Aelodau Unigol a Prif Swyddogion, ynghyd â chynllun dirprwyo clir, wedi eu gosod allan yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae Cyngor Gwynedd hefyd wedi blaenoriaethu datblygu ei Raglen Arweinyddiaeth ac mae hwnnw yn rhan o'r Cynllun Pobl a fabwysiadwyd gan y Cabinet.
- Tra bod yna ymrwymiad clir i fod yn ceisio gwella arweinyddiaeth yn barhaus, nid ydym bob tro yn y gorffennol wedi bod yn glir beth y mae hynny yn ei olygu na sut i'w wella.
- Mae yna elfen o dystiolaeth (drwy hunan asesiad) fod arweinyddiaeth o fewn y Cyngor yn gwella gyda nifer o enghreifftiau o arweinyddiaeth trawsffurfiol yn cael ei arddangos yn hytrach nag arweinyddiaeth trafodaethol. Mae'r pwyslais cynyddol a roddir ar "arwain" yn hytrach na "rheoli" o fewn diwylliant Ffordd Gwynedd yn arwydd arall cadarn o'r camau breision sy'n cael eu cymryd gydag aelodau'r Cabinet yn cymryd rol blaenllaw i hyrwyddo arweinyddiaeth dda trwy ymrwymo i'w datblygiad fel arweinwyr. Ymhellach cytunwyd ar yr hyn a ddiffinir fel arweinyddiaeth o fewn Cyngor Gwynedd ac mae'r diffiniad hwnnw yn cael ei adlewyrchu mewn swydd-ddisgrifiadau diwygiedig ar gyfer pob pennaeth a rheolwr yn y Cyngor. Mae'r ymrwymiad ar lefel gwleidyddol a gweithredol yn arddangos bod y camau positif hyn wedi dwyn ffrwyth a bod yr angen a'r gallu i arwain yn gwreiddio fel y norm o fewn y Cyngor. Yn sgil hyn oll, ystyrir y gwaith yma fel rhywbeth sy'n parhau yn allweddol ond gan gydnabod nad yw'n gymaint o risg ag y bu yn y gorffennol.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
4	2	8

## Rheoli Risg

**Risg: Gwendidau yn ein trefniadau rheoli risg, sy'n cynyddu'r bygythiad o rhywbeth yn mynd o'i le neu fethu cymryd cyfle i wella**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae yna drefniadau cryf ar gyfer monitro ein cydymffurfiaeth â rhai mathau penodol o risgiau gweithredol, megis Iechyd a Diogelwch, Diogelu Plant ac Oedolion a Chynllunio Argyfwng a Pharhad Gwasanaeth. Mae tystiolaeth meintiol fod perfformiad yn y meysydd hyn yn gwella - er fod yna enghreifftiau o le i wella ymhellach.
- Mae pob risg yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi cael ei ystyried o berspectif y risg i Bobl Gwynedd, nid o safbwynt mewnblyg y Cyngor.
- Mae trefniadau rheoli risg y Cyngor yn parhau i ddatblygu, a byddant yn esblygu ymhellach wrth i ddiwylliant Ffordd Gwynedd dreiddio trwy'r Cyngor. Gwaith diweddar i ddatblygu un Cofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer yr holl awdurdod, ac i wneud hynny law-yn-llaw â threfn ble mae yn unedau busnes yn cofnodi rhwystrau ac yn mynd ati i geisio datrys rheini yn syth, yn dechrau dangos llwyddiant.

### Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
5	2	10

### Perfformiad

**Risg: Gwendidau yn ein trefniadau rheoli perfformiad sy'n golygu nad ydym yn gallu cymryd camau priodol i wireddu ein pwrpas**

#### Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae cyfundrefn Rheoli Perfformiad y Cyngor yn canolbwyntio ar sicrhau fod unedau busnes yn cyflawni eu pwrpas, a hynny trwy adolygu'n barhaus os ydym yn mesur y pethau cywir.
- Mae yna gyfarfodydd rheolaidd gydag Aelodau Cabinet a rheolwyr i asesu'r perfformiad diweddaraf gydag aelodau o'r Pwyllgor Craffu perthnasol hefyd yn bresennol i roi her. Cyflwynir adroddiadau perfformiad rheolaidd gan yr aelodau Cabinet ar eu meysydd cyfrifoldeb hwy i gyfarfodydd y Cabinet.
- Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn arsylwi ar ein perfformiad mewn gwahanol feysydd drwy gyhoeddi amrywiol adroddiadau ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cymryd trosolwg fod unrhyw argymhellion yn derbyn sylw.
- Mae'r Drefn Gwynion Gorfforaethol newydd yn parhau i ddatblygu'n dda. Mae'r Swyddog Gwella Gwasanaeth yn sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o gwynion, ac yn osgoi ailadrodd camgymeriadau.

### Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

### Rheolaeth Fewnol

**Risg: Trefniadau rheolaeth fewnol anaddas, sy'n golygu unai nad ydym yn gwarchod rhag risgiau, neu yn gwastraffu adnoddau ar or-reoli**

#### Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae adroddiad blynyddol y Rheolwr Archwilio yn cadarnhau fod modd rhoi sicrwydd ar y rheolaethau mewnol yn y Cyngor.
- Mae adolygu ac addasu rheolaethau mewnol fel eu bod yn gymesur i'r hyn sydd ei angen yn greiddiol i'r nod o roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud, gan waredu tasgau or-fiwrocraidd. Mae cael gwared o rwystrau yn ran o waith pawb, gan arwain at lefel addas o reolaeth fewnol.
- Mae effeithlonrwydd y gyfundrefn Archwilio Mewnol dan adolygiad parhaus, ac mae hunanasesiad yn dangos fod y gwasanaeth yn cwrdd â'r safonau proffesiynol yn unol â'r disgwyl.
- Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gylch gorchwyl cytunedig sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae tystiolaeth fod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn effeithiol iawn yn gwireddu ei swyddogaethau. Er hynny, gall fod tueddiad yma a thraw i'r Pwyllgor geisio dyblygu gwaith eraill (e.e. pwyllgorau craffu), yn hytrach na chadw throsolwg o'r trefniadau.

### Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

## Gwybodaeth

**Risg: Methiant i reoli gwybodaeth gan arwain at fethu gwarchod y gwybodaeth sydd gennym, neu beidio gwneud y defnydd gorau ohono.**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r system ERDMS bellach wedi ei chyflwyno i bron bawb yn y Cyngor ac yn sylfaen ar gyfer rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol, lleihau dyblygu a galluogi llai o gamau mewn prosesau.
- Mae'r Tim Ymchwil a Gwybodaeth yn cefnogi adrannau wrth ddefnyddio gwybodaeth i wneud penderfyniadau gan ganolbwyntio ar y blaenoriaethau uchaf yng Nghynllun y Cyngor.
- Mae angen parhaus i godi ymwybyddiaeth am egwyddorion Diogelu Data, a gwella ymagweddiad yn y maes. Mae'r gwaith hwn yn parhau. Yn arbennig mae llawer o waith wedi ei wneud i baratoi ar gyfer dyfodiad Deddfwriaeth diogelu data newydd ym Mai 2018

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

## Cyllid

**Risg: Gwendidau wrth rheoli arian cyhoeddus, sy'n golygu nad yw cyllid y Cyngor yn cael ei ddefnyddio ar ei flaenoriaethau**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae tystiolaeth glir yn bodoli fod trefniadau'r Cyngor yn gadarn, ac mae adolygiadau gan archwilwyr allanol - nid yn unig o'r Datganiadau Blynyddol o'r Cyfrifon ond hefyd adolygiadau o gydnerthedd ariannol - yn cynnig barn annibynnol sy'n cadarnhau hyn.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	1	3

## Atebolrwydd

**Risg: Adrodd gwael, heb dryloywder ac anaddas i'r gynulleidfa, sydd ddim yn amlygu i'r cyhoedd yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud ar eu cyfer gan danseilio'r sefyllfa ddemocrataidd**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor wedi darparu canllawiau ar baratoi adroddiadau ac ar wneud penderfyniadau da, er mwyn sicrhau fod yr adroddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd yn eglur.
- Yn ogystal ag adroddiadau ffurfiol ar gyfer gwneud penderfyniadau, mae'r adroddiadau a gynhyrchir hefyd yn cynnwys yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol, y Cynllun Strategol (fydd yn cwmpasu cynlluniau busnes adrannol) a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gynhyrchir yn unol â fframwaith CIPFA/Solace.
- Mae'r Cyngor yn cynhyrchu adroddiadau rheolaidd ar ei sefyllfa ariannol.

- Fodd bynnag er gwaethaf ymdrechion y Cyngor, ac heblaw am achosion lle mae newid eithaf sylfaenol dan sylw, mae niferoedd sydd yn ymateb i ymgynghoriadau yn awgrymu nad oes yna ddyhead mawr ymysg y cyhoedd i fod yn dal y Cyngor yn atebol.
- Bydd monitro adroddiad Cabinet yn parhau i ddiwydd yn naturiol gyda'r Prif Weithredwr yn taro golwg ar bob un.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

**Sicrwydd**

**Risg: Diffyg sicrwydd ac atebolrwydd sy'n codi amheuaeth ymysg y cyhoedd am yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae nifer o ffyrdd ar gael o fewn y Cyngor er mwyn darparu sicrwydd annibynnol fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gweithio fel y dylent. Mae swyddogion statudol yn sicrhau fod materion yn cydymffurfio â'r gyfraith a threfniadau'r cyfansoddiad tra bod y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn herio yn barhaus a yw adrannau yn gwneud y pethau iawn. Mae aelodau'r Cabinet hefyd yn cwrdd yn aml i herio eu gilydd ar ddatblygiadau.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cadw trosolwg ar y trefniadau llywodraethu yn ogystal ag ar weithrediad argymhellion archwilwyr allanol.
- Yn cefnogi hyn mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu yn unol â'r safonau proffesiynol statudol, sef Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus. Mae asesiad allanol yn 2018/19 wedi rhoi sicrwydd annibynnol o hyn.
- Yn ffurfiol, fodd bynnag, y drefn craffu sydd i fod i ddal y Cabinet i gyfrif. Mae yna graffu a herio penderfyniadau a pholisiau yn dryloyw a gwrthrychol ond mae ansicrwydd ynglŷn a pha mor effeithiol y mae hynny. Adolygydd y trefniadau cyn etholiad Mai 2017 ac fe benderfynodd y Cyngor fynd yn groes i argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a mabwysiadu trefn wahanol ar gyfer y dyfodol.
- Mae'r drefn newydd wedi'i rhoi ar waith yn dilyn etholiadau Mai 2017. Gwnaed addewid i adolygu effeithiolrwydd y trefniadau diwygiedig ac mae Gweithgor Craffu wedi ei sefydlu, sy'n cynnwys aelodau o'r Cabinet, Fforwm Craffu ac uwch swyddogion yn eistedd ar y Gweithgor hwnnw.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	3	6

---

Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd sydd wedi derbyn sylw eisoes a'r rhai y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy yn benodol gyda chamau gweithredu newydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu isod.

**Rhan 4: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL**

- 4.1 Dengys y sgoriau uchod na ystyrir fod unrhyw un o'r 22 maes llywodraethu yn cyflwyno risg uchel iawn, ond mae 1 yn risg uchel ac 11 yn risg canolig.
- 4.2 Mae camau gweithredu ar gyfer y meysydd sydd â risg uchel neu ganolig wedi eu nodi isod.

**RISG UCHEL**

<b>Maes Llywodraethu</b>	<b>Trefniadau i Ymateb</b>	<b>Adran Gyfrifol</b>
Diwylliant	Byddwn, yn sgil y newid cyfeiriad i gynnal adolygiadau parhaus o fewn gwasanaethau yn hytrach na chanolbwyntio ar adolygiadau dwys, yn ail-ystyried rol yr ymgynghorwyr Ffordd Gwynedd. Byddwn hefyd yn rhoi sylw pellach i'r gefnogaeth a ddarperir fel dilyniant i gyflawni'r gwaith hyfforddi hefo rheolwyr presennol, gyda golwg i ddarparu'r gynhaliaeth angenrheidiol i'r rheolwyr hynny a'u timau yrru'r newid diwylliant o fewn eu gwasanaethau unigol. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi rheolwyr i sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth lawn o egwyddorion a gweithrediad Ffordd Gwynedd ymysg aelodau pob tim. Mae'r Grwp Craidd Ffordd Gwynedd wedi'i sefydlu er mwyn cydgordio ac arwain ar hyn. Byddwn hefyd yn cytuno'n derfynol ar swydd-ddisgrifiad fydd yn nodi'r disgwyliadau cyffredin ar gyfer pob un o'r pum swyddogaeth yn y Cyngor ac yn darparu copi o'r swydd-ddisgrifiad berthnasol i bob gweithiwr yn y Cyngor.	Cefnogaeth Gorfforaethol

**RISGIAU CANOLIG**

Maes Llywodraethu	Trefniadau i Ymateb	Adran Gyfrifol
Rhanddeiliad	<p>Mae yna ymdrechion yn mynd ymlaen mewn amryw feysydd i geisio symleiddio perthynas waith sy'n gymhleth. Fodd bynnag rhaid cydnabod mai dim ond hyn a hyn y mae modd i ni ei wneud ac mae yna le i gwestiynu mai'r ateb bellach yw ceisio darganfod ffyrdd o weithio rownd y rhwystrau deddfwriaethol sydd wedi cael eu gosod gan y Llywodraeth arnom. Rydym eisoes yn gwneud hynny yn eithaf llwyddiannus.</p> <p>O gofio fod ein perthynas gyda'r trydydd sector mor bwysig, mae'r Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc yn cadeirio'r Grŵp Trydydd Sector er mwyn sicrhau ein bod yn cael y gorau o'r sector honno.</p>	<p>Tim Arweinyddiaeth a Chyfreithiol</p>
Ymgysylltu	<p>Yn ystod 2019/20 mae bwriad i:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• barhau i gyd-weithio gyda'r Gwasanaethau leuentid a phartneriaid allanol i ddatblygu ymhellach ein gallu i ymgysylltu gyda pobl ifanc. Byddwn hefyd yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth Amddiffyn Plant i ddatblygu'r modd mae'r Cyngor yn ymgysylltu gyda phobl ifanc sydd un ai mewn gofal neu wedi gadael gofal y Cyngor;</li> <li>• sefydlu Panel Trigolion newydd fydd yn gwneud llawer mwy o ddefnydd o ddulliau electronig o ymgysylltu a fydd hefyd yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Diogelu Data a GDPR;</li> <li>• parhau i gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i arfogi gwasanaethau i gynnal ymarferiadau ymgysylltu ystyrlon ac effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi a hyrwyddo templedi, enghreifftiau o ymarfer da, canllawiau a "Bocs Twls" ymarferol.</li> <li>• asesu a chanfod y cynnydd ar draws y Cyngor o ran deall anghenion y rhai sy'n derbyn gwasanaeth</li> </ul>	<p>Cefnogaeth Gorfforaethol</p>
Cyfeiriad a gweledigaeth	<p>Derbynnir y risg ar ei lefel bresennol.</p>	<p>Cefnogaeth Gorfforaethol</p>
Cynaliadwyedd	<p>Bydd y Grwp Llywodraethu yn comisiynu darn o waith gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol fel sail i gynnal asesiad o sut mae'r 5 ffordd o weithio yn gwreiddio o fewn adrannau unigol, cyn dod i gasgliad ynglŷn â pha gamau sydd angen eu cymryd i lawn fabwysiadu egwyddorion llesiant cenedlaethau'r dyfodol ar draws y Cyngor.</p>	<p>Cefnogaeth Gorfforaethol</p>

<b>Maes Llywodraethu</b>	<b>Trefniadau i Ymateb</b>	<b>Adran Gyfrifol</b>
Adolygu deilliannau	Derbynnir y risg ar ei lefel bresennol.	Tim Arweinyddiaeth a Chyfreithiol
Asedau Technoleg Gwybodaeth	Gweithredu yn unol â'r rhaglen waith sydd wedi ei gynnwys yn y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth fel bod pobl Gwynedd yn medru cael gafael ar wasanaeth ar adeg sy'n gyfleus iddynt hwy.	Cyllid
Cynllunio'r Gweithlu	Mae'r Grŵp Prosiect a swyddogion y Tim Adnoddau Dynol yn cydweithio'n agos hefo rheolwyr yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn bresennol ac yn canolbwyntio ar adnabod swyddi a swyddogaethau allweddol yno. Bydd y gwaith hwn yn lledaenu i weddill y Cyngor yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae'r angen i ddatblygu unigolion i gyflawni swyddogaethau arbenigol ac allweddol yn cael ei ddiwallu mewn sawl modd gyda'r ffocws yn ystod y flwyddyn i ddod ar brentisiaethau, cynllun arbenigwyr yfory a datblygu sgiliau arwain ymysg y gweithlu presennol.	Cefnogaeth Gorfforaethol
Arweinyddiaeth	Mae'r prosiect ar Ddatblygu Arweinyddiaeth wedi arwain at ddatblygiad y Cabinet a'r aelodau unigol o fewn y Cabinet yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda bwriad clir i'r gweithdai datblygu a drefnwyd ar eu cyfer barhau yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae atgyfodiad diweddar y Rhwydwaith Rheolwyr, gyda'r pwyslais ar ddatblygu sgiliau arwain, yn gam allweddol yn y newid pwyslais o ddiwylliant "rheoli" i "arwain" o fewn y Cyngor. Bydd y cyfresi nesaf o gyfarfodydd (a'r rhwydweithio ymysg y rheolwyr) yn ffocws allweddol i'r gwaith hwn hefyd yn ystod 2019/20. Ymhellach, yn ystod y flwyddyn i ddod, byddwn yn canolbwyntio ar hyrwyddo merched mewn arweinyddiaeth mewn ymdrech i gynyddu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio, ac yn cael eu penodi, i ymgymryd ag uwch gyfrifoldebau o fewn y Cyngor.	Cefnogaeth Gorfforaethol

Maes Llywodraethu	Trefniadau i Ymateb	Adran Gyfrifol
Rheoli Risg	<p>Gwaith dal angen ei wneud i sicrhau fod holl adrannau'r Cyngor yn cynnal y drefn o gofnodi eu prif risgiau a'u hadolygu'n rheolaidd. Byd y Gwasanaeth Yswiriant a Risg yn cefnogi'r holl adrannau er mwyn sicrhau fod defnydd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn gyson ar draws y Cyngor, ac fod risgiau yn cael eu diweddarau'n barhaus. Bydd y drefn o ystyried cynnwys cofrestrau risg wrth fonitro perfformiad adrannau yn datblygu ymhellach.</p> <p>Yn ystod 2019/20, cynhelir asesiadau o aeddfedrwydd adrannau wrth asesu risgiau lechyd a Diogelwch.</p>	Cyllid
Gwybodaeth	<p>Mae bwriad i'r Tîm Ymchwil a Gwybodaeth ymestyn y gwaith cefnogi gwasanaethau wrth ddefnyddio a dehongli data perfformiad fel rhan o weithgaredd cefnogi Ffordd Gwynedd yr adran.</p> <p>Bydd y tim hefyd yn edrych ar sefydlu a hyrwyddo Safonau Gwybodaeth ar gyfer meysydd lle mae anghysondebau yn bodoli neu wedi codi.</p> <p>Mae'r gwaith o sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth diogelu data newydd yn parhau. Yn sgîl y gwaith o greu cofrestru asedau data, mae gwell ymwybyddiaeth o'r data personol sy'n cael ei gadw gan y Cyngor a pha wybodaeth bersonol sy'n cael ei rhannu yn allanol a'r angen i gytundebau masnachol priodol fod mewn lle.</p> <p>Ond erys y pryder am y niferoedd staff isel sy'n manteisio ar hyfforddiant ac yn derbyn polisiau yn y maes. Sefydlwyd grŵp i edrych yn benodol ar hyn ar draws y materion statudol er mwyn adnabod y ffyrdd fwyaf effeithiol ar gyfer cyflwyno'r hyfforddiant.</p>	Cefnogaeth Gorfforaethol
Sicrwydd	Byddwn yn ymgynghori yn eang o fewn y Cyngor ar yr opsiynau i un ai newid neu lynnu hefo'r trefniadau craffu presennol yn ystod y flwyddyn gyda'r bwriad o newid neu gadarnhau'r trefniadau cyn Rhagfyr 2019.	Cefnogaeth Gorfforaethol



**Rhan 5: BARN**

Rydym yn bwriadu cymryd camau i ddelio gyda'r materion uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon bydd y camau hyn yn delio gyda'r angen i wella adnabuwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

---

**DILWYN O WILLIAMS**  
**PRIF WEITHREDWR CYNGOR GWYNEDD**

---

**Cyng. DYFRIG SIENCYN**  
**ARWEINYDD CYNGOR GWYNEDD**

**DYDDIAD**

**DYDDIAD**

# Eitem 17

PWYLLGOR

**PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

DYDDIAD

**13 MEHEFIN 2019**

TEITL

**BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR**

PWRPAS YR ADRODDIAD

**CYFLWYNO AMLINELLIAD O RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR AM 2019/20**

AWDUR

**DEWI MORGAN, PENNAETH CYNORTHWYOL (REFENIW A RISG)**

GWEITHREDIAD

**ER GWYBODAETH**

---

## **1. CYFLWYNIAD**

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o raglen waith y Pwyllgor am y flwyddyn i ddod, hyd at Mehefin 2020, sydd wedi ei gynnwys yn yr Atodiad.
- 1.2 Mae hyn yn gyfle i'r aelodau ystyried yr eitemau sydd i'w trafod yn ystod y cyfnod yma er mwyn cyflawni rôl y Pwyllgor o fewn Fframwaith Lywodraethu'r Cyngor, a rhoi cyfle i'r aelodau baratoi fel bo'r angen.
- 1.3 Wrth gwrs, gall union ffurf y rhaglenni pwyllgor fod yn wahanol erbyn y cyfarfodydd, yn ddibynnol ar amgylchiadau ar y pryd. Gall hyn gynnwys materion sydd wedi codi mewn gwaith archwilio, yr angen i ystyried materion penodol yn y maes llywodraethu ehangach, neu faterion yn codi o rôl craffu'r Pwyllgor mewn perthynas â materion corfforaethol.

## **2. ARGYMHELLIAD**

- 2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried cynnwys y blaen raglen, holi'r swyddogion am yr eitemau fel bo'r angen, cynnig sylwadau a nodi er gwybodaeth.

## Blaen-raglen Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hyd at Mai 2020

### **29 Gorffennaf 2019**

Cyfrifon Terfynol

a) Cyflwyno'r datganiadau ariannol statudol diwygiedig

b)(i) Cyflwyno adroddiad ffurfiol "ISA 260" Cyngor Gwynedd

b)(ii) Awdurdodi Cadeirydd y Pwyllgor a'r Pennaeth Cyllid i arwyddo'r "llythyr cynrychiolaeth" (y Cyngor)

c)(i) Cyflwyno adroddiad ffurfiol "ISA 260" y Gronfa Bensiwn

c)(ii) Awdurdodi Cadeirydd y Pwyllgor a'r Pennaeth Cyllid i arwyddo'r "llythyr cynrychiolaeth" (y Gronfa Bensiwn)

Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd 2018/19 (dim ond os bydd newid yn dilyn yr archwiliad)

Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol

### **17 Hydref 2019**

Cynnyrch Archwilio Mewnol 1/4/2019 – 30/9/2019

Cynllun Archwilio Mewnol 2019/20

Adroddiad y Gweithgor Gwella Rheolaethau

Cyllideb Refeniw 2019/20 – Adolygiad Diwedd Awst

Rhaglen Gyfalaf 2019/20 – Adolygiad Diwedd Awst

### **28 Tachwedd 2019**

Rheolaeth Trysorlys 2019/20 – Adolygiad Canol Blwyddyn

Trefniadau Gwrth Dwyll, Gwrth Lygredd a Gwrth Lwgrwobrwyo

Trefniadau Rheoli Risg

Adroddiad y Gweithgor Gwella Rheolaethau

Cynllun Archwilio Mewnol 2019/20

Strategaeth Ariannol - cylch gwaith cyllideb 2020/21

**13 Chwefror 2020**

Strategaeth Ariannol 2020/21 – 2023/24 a Cyllideb 2020/21

Strategaeth Cyfalaf 2020/21

Adroddiad y Gweithgor Gwella Rheolaethau

Cyllideb Refeniw 2019/20 – Adolygiad Diwedd Tachwedd

Rhaglen Gyfalaf 2019/20 – Adolygiad Diwedd Tachwedd

Trosolwg Arbedion – Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion

Cynnyrch Archwilio Mewnol 1/10/2019 – 31/1/2020

Cynllun Archwilio Mewnol 2019/20

Cynllun Archwilio Mewnol Drafft 2020/21

Hunanasesiad o Drefniadau Llywodraethu

Hunanasesiad o Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio

**Mai 2020**

Cynnyrch Archwilio Mewnol 1/2/2020 – 31/3/2020

Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2019/20

Datganiad Llywodraethu Blynyddol Cyngor Gwynedd 2019/20

Blaen Raglen y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 2020-21

**Mehfin 2020**

Cyfrifon Terfynol 2019/20 – Alldro Refeniw

Rhaglen Gyfalaf 2019/20 - Adolygiad Diwedd Blwyddyn

Trosolwg Arbedion – Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion

Rheolaeth Trysorlys 2019/20

Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd 2019/20